RHEOL

Buchedd Sanctaidd

Yn dangos

Y MODDION a'r ARFEU i ynnill pob *Grâs*, a Meddyginiaeth rhag pôb rhyw *Bechod*, a Mytyrdodau cymmwynaſcar i wrth-wynebu pôb D[illegible] *ſedigaeth*.

Ynghŷd â

GWEDDIAU

Yn cynnwys

Hôll Ddyledſwydd Criſtion.

A'r Rhannau o Ddyſoſiwn wedi eu cymmwyſo at bôb Achoſion, a'u cyſanieddi at bôb Angenrheidiau.

Gan *JER. TAYLOR*, D. D.

O'r deunawfed Argraphiad yn Saeſon[illegible]

Argraphwyd yn *Llan*[illegible]

BRITISH MUSEUM

I'R

Parchediccaf Dâd yn Ghrîſt,

HUMPHREY,

Arglwydd Eſcob *Bangor.*

F'Arglwydd,

YN nherfynau'r Oeſoedd y cyfleodd y Llywodraethwr mawr nyni, a'r Dyng-hedfen grafangddu agos a dirwyn hôll orph Amſer *bôb ychydic oddiarnom, ninneu* egis â'n gafael ynddo gerfydd ei droed, a hwnnw ddianc i Dragwyddoldeb. *Gwenwynodd y* rph *ei* ben *ef, a welſei Adda yn aur-goronog Degwch a Hyfrydwch, Diniweidrwydd a* erffeithrwydd. *Cwttogodd y* Diluw kwnwgl *Hiroes, a diffrwythodd* freichiau *'r Cryſ-r. Yna ſyrthiodd y* ddwy Lêch *yn dra* wysfawr ar ddwykrou *y Gydwybod, onid* dd yr holl Gorph yn gweggian o leſcedd. *Hyd* ddaeth Ynged ar y galon, *yno caſwyd* reiddyn y bywyd, pan gododd Haul y Cyfiawn-

der adfywiodd yr Amſer *trancedic gân Dês yſplenydd yr* Efengyl, *a Gwrês Cariad perffaith. Ond gwae feddwl i fagddu* Pabyddiaeth *bendifadu Crefydd o'r galon i'r* **bol**, *trigfa'r Anghymedrolder; ac oddi yno i'r* **dirgelwch**, *lle y* trowyd grâs Duw yn drythyllwch *A phan ail-lewyrchodd* Ymwahaniad rhwng Crîſt ac Anghriſt, *megis ynghyfwng* **mor-ddwydydd** *yr* Amſer, *ciliodd yr amhuredd a'r gwaed afiach i'r forddwyd aſſwy ſy'n unchwydd a-ruthrol o Babyddion, Iuddewon, Tyrciaid ac Anffyddloniaid. Eithr y gwaed dâ a'r ymborth pur trwy ddirgel bibellau a droſglwyddwyd o'r Galon i'r forddwyd ddeheu, lle mae'r wîr Athrawiaeth yn tramwy'n rhedegog mewn dyledus gwrs a rheol. Ac er digwyddi ni y* **goes** *leiaf ac iachuſaf*, etto *och Dduw hael, faint ſy rhyngddi hitheu a bôd yn holliach! Onid oes yn hon aml ymryſonau rhwng y gwythi, ie rhwng amryw geinciau o'r un wythîen? aml gramp a chreppychiad? aml lannerch o gîg marw anheimladwy? A pha ryfeddod er ffferri 'n Cariad a phelled ydym oddiwrth y Galon? pa ryfedd er oeri'r diwrnod a'i Haul ymron machludo? Am hynny nghanol y fath Ryndod ac Oerfel cyffredin od oes Allor o dân cynneſſawr yn lloſci yn ddibaid oddi* mewn *a hefyd yn ffaglu* allan *ar bôb achlyſur, od oes Ffynnon*

ferwedi

ferwedic o Gariad naturiol a chrefyddol i'r Wlâd, ai rhyfedd bôd tyn ac ymgyrch llawenedd at honno? Felly na ryfeddwch chwitheu f'Arglwydd, weled hyn o ledfegyn noethlwm [ymhlîth eraill] yn hedeg tan adenydd eich Nodded, am achles a chynneſrwydd iw gryfhau cyn anturio peryglon yr Awyr yma ſy'ſywaeth mor anhymmerus gan adwyth Annuwioldeb, a niwl Anrybŷdaeth: eithr o'ch Dadawl diriondeb ac awdurdod bendithiwch ac urddwch ef. Canys er maint ei barch a'i groeſaw yn Lloegr [euſys yn ei ddeunawfed wîſc,] nid yw ef etto ond dieithr yn Ghymru, ac ymdeithydd egwan ac ieuanc yn y Mynydd-dir: Eich Swydd a'ch arfer chwitheu yw derbyn y dieithr, noddi'r gwan, a hyffoddi'r ieuangc. Hefyd gan mai neges hwn yw Llês cyffredin y Wlâd, ni all o rann hynny na bo iddo groeſaw gennychwi; drachefn pan wypper wrth eich Henw iddo gael croeſo a chymmeriad gennychwi, fe a fydd cymmeradwyach gan y Wlâd, ac felly f'â'r llês yn gyffredinach. Am hynny ynteu i chymgeleddus Nodded y gadawaf, i chwi fy arglwydd yr anrhegaf; a chwitheu ſy well Anrheg a orch'mynnaf i well Arglwydd, ſef i geidwadaeth Pen-bugail ac Eſcob yr eneidiau: Cadw o hwnnw chwi [i aros eich troſglwyddo i blîth y nefolion archoffeiriaid] mewn heddwch a

hiroes, yn un o Golofnau Eglwys Loegr, *yn un o* bedair *Têth yſprydol y Praidd* Cymreig, *yn Llês ac yn Harddwch i'ch Gwlâd, ac yn Llawenydd i'ch Cenhedl a'ch Cydnabod, yw taer a beunyddiol Weddi,*

Barchuſaf Arglwydd,

Eich ufuddaf,

rwymediccaf

Waſanaethwr,

E. W.

9. IV. 62

Mar Hughes

Y RHA-

Y RHAGYMADRODD.

Anwyl gariadus Gymro,

YR wyti a phawb rywſſordd neu i gilydd â'th gais ar fod yn Ddedwydd, nid oes fodd i ti amgen nâ thaer-ddeiſyfu Happuſrwydd a Gwynfyd; ac etto nid oes fodd bŷth i oddiwes Gwynfyd amſerol na thragwyddol ond trwy Fywioliaeth ſanctaidd; nid oes un ffordd i Wlâd y Dedwyddwch ond hyd lwybrau Sancteiddrwydd. Dyma i titheu Scwîr neu *Reol Buthedd Sanctaidd*, dyma i'ti Ganllaw ar Sarn gûl *Grâs* a'th dywys yn ddiogel i dragywyddol gaereu *Gogoniant*. I ddâl ar y *llwybr* grafol hwn, ac i ddyfod i'r *diben* gogoneddus hwnnw y gwnaeth dy Greawdr di; yr anfonodd ei Fâb i'th brynu â'i werthfawr waed; a'i Yſpryd glân i'th ſancteiddio, trwy ddirgel gynnyrfiadau, trwy weinidogaeth ei Air a'i Sacramentau, a thrwy Lyfrau yſprydol a yrrodd ef i'th Wlad. Canys heblaw'r BIBL Brenhin y llyfrau, daeth attat amryw Lyfrau dâ eraill megis yn ſwyddogion tan hwnnw, rhai i'th ddyfyn, rhai i'th helpu, rhai i'th ddenu i'r Daith nefol, i'r unic Waith angenrheidiol hwn. Ac er gododocced pob un o'r Llyfrau Cymraeg yn ei Le a'i Swydd briawd; etto mi a ryfygwn orchymmyn i ti *dri* 'n enwediccaf ôll, megis o lês cyffredinach ac angenrheitiach na'r lleill i gŷd. Oherwydd at Waith Iechydwriaeth a phôb gorchwyl arall, mae *tri phcth* yn angenrheidiol cyn yr êl byth i ben; *Yn* 1. rhaid i ti *wybod beth yw'r gwaith*, at hynny mae Llyfr Hoil Ddyledſwydd dyn yn odiaeth i yſpyſu i ti 'r cwbl a ofynnir gennit; *Yn* 2. rhaid i ti *ymroi yn hollawl i gychwyn ac i ganlyn ar y gwaith*, ac at hyn y daeth Llyfr y Reſoluſion yn unſwydd i roi cwbl o'th fryd a'th fwriad ar waſanaethu Duw; Ac *Yn.* 3. cyn yr elech byth yn weithiwr hwylus rhaid i ti *gael y Maddeu-*

a'r Arfeu a Meſureu'r gwaith, ac am y rheiny odid oes un dryſorfa gyfoethoccach a llownach na'r llyfran hwn. Mae i ti yma gymmorthion ac arfau parod at ynnill pôb Grâs, at ddadwreiddio pôb Drwg-arfer, ac i orfod pôb profedigaethau a'th temtient i bechod a Deſtryw: Mae i ti yma wybod hefyd beth a ddylit wneuthur, a'r Moddion i'th helpu iw gwneuthur, a'r Achoſion pa ham y mae arnat eu gwneuthur. Ond i roi i ti (Ddarllenydd yſtyriol) dammeid prawf o'r croeſâw ſy'n d'aros yn y Dalennau rhagwyneb, neu megis cipp o olwg ar dy ffordd i'r Deyrnas, cnô dy gîl ar y deuddegpeth dilynol hyn, ie craffa arnynt megis y deuddeg Mynag-byſt o ddeutu'r brîſ-ffordd i'r Brenhinllys nefol. I. Cael dy fedyddio i hôll Bynciau *Ffydd* Grîſt, ac ymegnîo i chwanegu dy wybodaeth am Wllys Duw, modd y caffech fwyaf o gymmorth at fyw yn ſanctaidd. II. *Addoli* Duw o *ufudd-dod* i Grîſt yn ddieſceulus, yn ddiwyd ac yn ddianwadal, mewn Gweddi, Mawl a Diolchgarwch. III. Cymmeryd pôb achlyſur i goffa Marwolaeth Crîſt trwy *fynych Gymmuno* (os bydd iw gael) neu trwy wneud hynny yn dy feddwl a'th wyllys a'th gôf, ac dyna Gymmun yſprydol oddi mewn a ddirpxwya'r Weinidogawl ddefod oddiallan. IV. Byw yn *ddiwair*, ac V. yn *drugarog*. VI. *Dirmygu'r byd*, heb adel iddo rwyſtro 'r lleiaf o'th ddyledſwyddau, ond ei arferu fel gŵr. VII. Bod yn *gyſiawn* yn dy hôll faſnach, ac yn *ddieſceulus* yn d' Alwedigaeth. VIII. Bod yn *oſtyngedig* o yſpryd. Ac IX. yn *ufudd* tan Lywodraeth; ac X. yn *fodlon* i'th ſtâd a'th orchwyl. XI. Gwneuthur dy hôll ddyledſwydd *o wîr gariad ar Dduw*. Ac XII. yn ddiweddaf ôll, os cyſtuddir di bod yn *amyneddgar*, ac yn *barod er mwyn Duw* i ddiodde' pôb blinder. Dyma *ddeuddeg Arwyddion Grâs*; o medri ddangos y rhai'n ynot dy hun, yr wyt ti'n Fâb i Dduw cyn ſiccred a'th fôd yn greadur iddo. Dyma *Noaau yr Arglwydd Jeſu*, dyma ragor-lifrai y Criſtion: Dyma bethau a roes Grâs Duw yn dy allu, ac a wnaeth Cyfraith Dduw yn ddyledſwyddau i ti; maent hefyd yn angenrheidiol i natur pôb Dŷn yn neilltuol, ac i bôb Gwladwriaeth yn gyffredinol.

Eithr

Eithr er bod y *Rheolau* hyn yn amlwg ac yn lleſol, ac wedi eu cymmwyſo at bôb rhyw Ddealltwriaeth, ac at achoſion pôb mâth ar ddynion : etto cyn myned ymlaen iw harferu, cymmer ertolwg hyn o Gynghorion gyda thi.

I. Os wyllyſit ſſynnu wrth ymarfer â'r Moddion o Râs ag arfau Rhinwedd, rhaid i ti *fyw megis tan law'r Phyſygwr yn waſtadol.* Nid fel cymmeryd Môr-dafol, unwaith yn y pedwar amſer, y mae i'r Enaid roi cynghorion Crefydd wrth ei friwiau ; eithr rhaid iddynt gyttal a chŷdtyfu â'th yſpryd, a greddfu ynot yn gydblethiedic â'th hôll feddylieu byth ; rhaid i ti eu harfer fel dy fwyd a'th ddiod, ſef, trwy ofal a myfyrdod beunyddiol ; ac nid megis rhyw un Feddyginiaeth a gyrcher yn bendant rhac rhyw drymglwyf preſennol a fo euſys ar dy wartha. Oblegit nid yw Cynghorion doeth a Llyfrau dâ at gleſyd preſennol, o'r eithaf ond fel pêr-aroglau cryfion i ddyn mewn llewyg, weithieu y deffroant ef, ond bŷth ni iachânt mo'no. O chynnehni dy natur a'th feddylieu beunyddiol â *Rheolau* y Llyfr hwn, maent yn abl er gwneud Rhinwedd a Chrefydd yn hawdd ac yn eſmwyth ; hyd onid â'n anhaws o'r diwedd gennit eu hebcor nac gennit ar y cyntaf eu goddef.

II. Wrth ymarfer âg arfau Grâs, bydd grâff i wahanu rhwng yr *Arfau* a'r *Ddyledſwyddau*, Cydnebydd ragor rhwng *Cynghorion* buddiol a *Gorch'mynion* angenrheidiol ; ac os medri di gadw yn ddilwgr dy ddyledſwydd trwy Foddion amgenach na'r rhai'n, na ruſia gymmeryd cymmorthion eraill ; am y gwneler y *gwaith* ni waeth amcan pa *arfau* a gymmerer. Ond os gall y rhai ſy yma dy gadw a'th gadarnhau yn dy Ddyledſwydd, a'th helpio at Ddyfalbarhâd, cymmer hwy yn yr adwy gyfleuſaf y barnech hwyaf er dy lês. Canys cynneuodd yr Yſpryd glân ſflam neu ddiſcleirgref o Gariad mewn rhai dynion, a'u bod yn gwneud eu holl Rinweddau o ddewis gwirfodd eu calon yn ddiwrthwyneb ; a'u Zêl cyn wreſocced na ddichon nêh ryw brofedigaeth ei ddiffoddi : A diau nad yw th pryd a ſachliain, a'r cyfryw arfau garwdoft o farwnâd

corph

corphorol ond cwbl afraid i'r rheiny: Am fôd *Cariad* eihun os bydd wedi llenwi hôll gonglau'r Enaid yn ddigon er cyflowni hôll orchwyl Duw.

III. Na fydd rygraff i feſur a phenni rhwymedigaethau Crefydd; ond lle bo'r Ddyledſwydd yn angenrheidiol, a'r Modd yn ddigon rheſymmol, na chais mor ymholi yn rhŷ 'ſmala a weddei'r Modd hwnnw yn hollawl i ti ar bôb yſtyr neilltuol; eithr cymmer ef yn ei grynſwth a gwnâ ddeunydd o hono. Canys arwydd o Grefydd gadarn, ac nid pall ſynhwyr chwaith, i ŵr wedi iddo ofod a ſiccrhau *ſylwedd* ei Ddyledſwyddeu yw bôd yn ddibriſiach o'r *Cyſcodion* a'r *Angylchion*; a thrwy oſtyngeiddrwydd ac ufudd-dod ymblygu at gynghorion Eglwyſwyr, a ſiampleu'r Doethion ar achoſion gogyffelyb.

Megis wrth roi *Eluſen*, gwnaethaf i ti yſtyried dy allu yn rhŷ ddichlyn bôb amſer; eithr rhoi yn rhwyddlan, yn hyderus ac yn ſyber. Felly hefyd ni ddylit yn rhŷ gyfewin bwyſo hyd at y gronyn yn nghŷfrifon dy *Edifeirwch*, ond am bechod mawr bod gennit driſtwch mawr, a chôſp fawr ar y corph yn ôl y Rheolau cyffredin; er y gallei fai o doſter ondodid waſanaethu. Oblegid arwydd o [illegible] *cariad* a *pharodrwydd* mewn Crefydd, yw meſurau cywir a gobrin, eu hwy a fagant betruſder ac amheuaeth ynot, ac yna maent yn berygl.

IV. Od wyt ti'n llawnfwriadu gwaſanaethu Duw, a'th fryd ar ochel rhyw bechod pennodol, na wrthod y clettaf a'r toſtaf o gynghor a rodder i ti rhagddo, er ei fod ar y cyntaf ondodid yn ddieithrol i ti, canys Ymarfer a'th wnâ 'n feiſtr arno beth bynnac yw.

V. Pan gynnygier i ti *Arfau* at ynnill rhyw Râs, neu i attal rhyw Fai, ymorol pa un o honynt ſy gymmwyſaf i ti ac i'th achoſion, a dewis hwnnw yn hytrach na'r lleill; modd yr ymrwymech wrth hynny mewn celfyddyd yſprydol a chadwraeth gwiliadwrus ar dy enaid. Oblegid megis mai trîn yr Enaid yw'r hwſmonaeth ſuddiolaf ôll, felly y rwyſtruſaf ôll ydyw; lle mae'r gofalon a'r gofynion yn amlaf ôll, a'r peryglon a'r dam-

weiniau

weiniau yn fwyaf ac yn daeraf ôll. Ac mae cadw Enaid yn fwy camp a chywreindeb nac achub Tyddyn o dîr, neu iachau Corph clwyfus. Cydnebydd ditheu â'r Gwirionedd mawr hwn ; trwy galedrwydd ſynhwyrol a diwydrwydd dyfalbarhaus yn hôll *Foddion Grâs* : Ac felly chwanegi wobr y Gwrda a'u caſclodd, ac y teli i minneu bwyth fy llafur yn eu cyfieithu er dy fwyn, â'm brŷd ar ogoniant Duw, a chyſſur amſerol a Gwynfyd tragwyddol i'th enaid titheu, yr hyn yw gwîr ewyllys a difrifol ymgais dy Gydwladwr caredicaf

M H *Ell. Wynne.*

Margry Hughos his Book Witnos mory Williams Dauids John Dauids his hand 1022 At

At Gyfeithydd

Rheol Buch. Sanct.

I'th Wlâd o gariad (nag eiriach) rhoddaiſt
nid rhudd-aur, amgenach
Ddiandlawd gardawd dêg iâch ;
Cei ſyberwyd ſy burach.

O lân ddi-ogan eiddigedd, gyrraiſt
agoriad porth Rhinwedd,
Bôd i Sais haws mantais Hêdd
Na'th Genedl, yn iaith Gwynedd.

Sugno [anturio] teir-iaith yn fwythus
i faethu di Fam-iaith ;
Cym'raiſt i'th gŵys *wiw-ddwys waith*,
Dwfn ail yw dy fanylwaith.

Nodaiſt ffordd hyffordd (a'i hoffo dedwydd)
a didwyll iw rhodio,
O wâg rodres a grwydro
Di-eſcus feius yw fo.

Rheol ragorol a'n gweryd (Loyw-gred)
rhag halogrwydd bywyd :
Rheol Sant, gwarant i gŷd,
Rhôl iachus Rheol iechyd.

Dy Draethawd un Duw a drotho, *Elis*,
athrylith pôb *Cymro*
I'w ddirnad ; beunydd arno
Yr Hael-dad ei Râd a rô. *Amen.*

Edm. Prys, Ficar
Clynog fawr
yn Arfon.

Mardoy Hughæus
Books I. D. K.

E. W. Interpreti,

Carmen Εὐχαριστικόν.

Dura Britannorum, Taylerum, *corda libellis*
Emollîſſe ſuis quolibet ore patet.
Hic benè Vivendi *dextro docet indice* Normam,
Morte piâ ac ſanctâ nos docet ille mori.
Tayleri *calamo ſcribendi eſt mira poteſtas,*
Quam ſervare grave eſt ſed pietatis opus.
Tayleri *calamus ſemper ferit aſtra docendo,*
Quem ſimul exacto nunc imitare tuo.
Hæc Aquila excelsâ quâdam regione volavit,
Quam ſequeris pennis ſedulus ipſe tuis.
Anglica non longè diſtat Dialectus Uallâ,
Linguarum leges, Wynne, *in utrâq; tenes.*
Anglica ab externis vitiata eſt gentibus olim,
Wallica apud noſtros integra Lingua manet.
Millia diverſis ſortita eſt verbula ab oris,
Verbula difficile eſt elicere apta ſuis.
Peugratum Domino præſtas opus officiumque,
Cæleſte ignaris utpote pandis Iter.
Sint hæc Cambrigenûm motura Tonitrua mentes;
Sit tibi Mecænas Optimus Ipſe Deus.

Fulco Pricæus,

Lhanlhyvriæ Parochus Arvonenſis.

At Ddarllenydd.

RHEOL B. Sanctdd.

GOſodwyd nodwyd i Eneidie' ffyddlon
berffeiddlys yn Gartre',
Aur-*Blâs* [a Grâs yw'r griſie']
Diſcleirwych yn entrych Ne'.

Nid Plâs ond *Dinas* y Daioni, â pherl
iw phurlan ſylfeini;
Nid Dinas hoywfras yw hi,
Ond *Teyrnas* ddâ 'r ſut tarni.

Nid Teyrnas yw'r addas air iddi, nid *Gwlâd*
y gloywdeg Oleuni;
Nid *Byd* heb driſtyd droſti;
Ond GWYNFYD hyfryd yw hi.

Nid Gwynfyd naid i genfaint anianol,
mae'n wynnach Brenhinfraint;
Ni ddaw yno'n ddi-ennaint
I Lann y Sêr lai na *Saint*.

Gwynfyd ni's dywyd naws dyn ei daëd;
a diwedd nid edwyn.
Ond oes Llwybr hyd Wybr dibyn?
Pwy fydd nês er hanes hyn?

Mae Llwybr i'r Wybr ferr ebrwydd a'i hennill,
honno yw *Sancteiddrwydd*;
'R unig Heolig hylwydd:
Os *Heol* heb *Reol* rwydd.

Hwde

Hwde REOL iw Heol hi a'th ddŵg
o'th Ogo'r Trueni,
Fel *Pellen* yn d'arwen di
O'r glynnoedd i'r Goleuni.

Canllaw yw *hon* uwch cenlli Eigiawn
na ogwydd oddiwrthi,
Rhag marwolgwymp ; mae'r Weilgi
Yn diſgwyl yn d'ymmyl di.

Eur-faich yw *hon* o Arfe' i 'mwîno
â Mynydd y Seinctie',
I'th gynnal yn ardal Ne',
Lle diengych uwchllaw d'Ange'.

Dôd ti, UN a THRI o'th Râd, i'r *Cymru*
o'r Camrwyſc ddychweliad ;
Rhwydda at hyn bôb *Rhoddiad*,
A'r RHEOL *hon*, dirion Dâd.

E. W.

¶ d. *yw tu* dalen. l. *yw* lin. *y ffigurau ar ol* d. *yw yr un rhifnod ac ſy ar gongl y tu dalen.* || *y ffigurau ar ôl* l. *yw rhifedi'r* lin *y bo'r gwall ynddi.*

Gwallieu'r Argraphwaſc.

D. 44. *l.* 24. gelynol *yn lle* glynol. || *d.* 64. *l.* 23. pechod *yn lle* pechadd. *d.* 67. *l.* 3. yſa fanhau *yn lle* yſcafnhau. || *d.* 67. *l.* 21. *ar ol* fel *yr darllen* aeth. || *d.* 74. *l.* 17. Ympridio *yn lle* Ymprydiwr. || *d.* 83. *l.* 31. ddycco *yn lle* ddyſco. || *d.* 91. *l.* 26. a thra *yn lle* a theer. || *d.* 110. *l.* 10. a'r peth *yn lle* a gaeth. || *d.* 114. *l.* 15. rheittach *yn lle* rhattach. || *d.* 117 *l.* 28. neu *yn lle* nac. || *d.* 120. *l.* 7. gwneud *yn lle* gnawd. || *d.* 142. *l.* 4. amlhau *yn lle* amwylhau.

E-gwy-ddor

Thomas Edwards

E-gwy-ddor i'r An-lly-thy-renn-og.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r
f s t th u w y z.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r f s t
th u w y z.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O
P Ph R S T Th U W Y Z.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O P Ph
Q R S T Th U W Y Z.

Y bo-gei-li-aid.

a e i o u w y.

ab eb ib ob ub wb yb
ac ec ic oc uc wc yc
ach ech ich och uch wch ych
ad ed id od ud wd yd
add edd idd odd udd wdd ydd
af ef if of uf wf yf
aff eff iff off uff wff yff
ag eg ig og ug wg yg
ang eng ing ong ung wng yng
al el il ol ul wl yl
all ell ill oll ull wll yll
am em im om um wm ym
an en in on un wn yn
ap ep ip op up wp yp
aph eph iph oph uph wph yph
ar er ir or ur wr yr
as es is, os us ws ys
at et it ot ut wt yt
ath eth ith oth uth wth yth

Le gwelych Yn o flaen rhyw ffigur fel hyn,

Darllen di fel hyn.

Yn 1.——Yn gyntaf
Yn 2.——Yn ail
Yn 3.——Yn drydydd
Yn 4.——Yn bedwerydd
Yn 5.——Yn bumed
Yn 6.——Yn chweched
Yn 7.——Yn ſeithfed
Yn 8.——Yn wythfed
Yn 9.——Yn nawfed
Yn 10.— Yn ddegfed
Yn 11.— Yn unfed ar ddég
Yn 12.— Yn deuddegfed
Yn 15.— Yn bymthegfed
Yn 20.— Yn ugeinfed.

† Am fod y ffiguran yn fyrrach gyda'u bôd yn amlyccach na'r geiriau hŷd.

9 JY 62 Y Rhyc

Y

RHEOL AC YMARFERION

I FYW

YN SANCTAIDD.

PENNOD. I.

Rhagdraethawd am y Moddion a'r Arfeu cyffredinol at Fuchedd Sanctaidd.

DWy bynnac o ddyn ydwyt meddwl hyn a chydnebydd, os rhoes Duw i ti Natur mor arddercha[wg], ynhwyr i ddewis, Yſpryd dealltwrius ac Enaid anfarol, a'th wneud yn Arglwydd ar yr anifeiliaid, ac nd ychydig îs na'r Angylion; ddarfod i'th Wneuturwr olod i ti *Waith* hefyd a *Gorchwyl* i arferu[d] omed a'r Galluoedd hynny, a darparu i ti Fywyd ol hyn[na] gael yn unic trwy dy ſtyddlon ufudd-dod y Cyfraſanaeth hwnnw. Megis ynteu mae[r] ow yn hollawl wyri o ran dy greadigaeth, felly y[n] wafanaeth ef yn hollawl y dyliti dreulio dy [hoes]

Ddonieu a'th Nerthoedd, a'th boen a'th ofal hôll ddyddiau dy enioes, fel pan derfyno'r bywyd hwn y caffech fyw gydâg êf yn dragywydd.

Ac ni wafanaetha i ti dybied yn yfcafn o wafanaeth Duw, megis peth afraid, neu heb fawr gamp arno, ond ei wneuthur e'n ôl bwriad Duw, fef, o ddifrif dy galon a'th wyniau, gydâ zêl ac awyddfryd mawr; heb rufio er dim poen, a cheifio'r cyfarwyddyd goreu, ac felly hyd hôll lwybrau Grâs a Duwioldeb ddyfod o honot or diwedd o hyd i Ogoniant.

A diau ped yftyrit faint o'th amfer a fwrir wrth angenrheidiau Naturiaeth, Pa fawl blwyddyn â heibio cyn i ti gael dy refwm attat; a pha fawl blwydd ychwaneg cyn y talo y rhefwm hwnnw nemawr at un matter o bwys; O mor amherffaith fydd dy chwedlau gan ddrwg-ddyfc a cham-wyddorion, trwy gymdeithas ofer, a fiamplau diffaith, ac o eifieu prawf a gwybod dâ! A pha fawl darn o'th flynyddoedd goreu a fynhwyrolaf a dreulir yn bwŷtta ac yn cyfcu, mewn gorchwylion angenrheidiol, ac mewn oferedd afreidiol, yn dyfcu Ieithiau neu Gelfyddydau neu Grefftiau: Mae'r ychydic oriau a adawyd o hyn oll at wafanaeth Duw mor brin a diyftyr ac oni bae fôd daioni Duw yn anfeidrol nid oedd boffibl na rhefwm i ti ddifgwil ganddo ddi-dranc lawenydd Nêf, ie pe iawn dreulit yr ychydic funudieu fy'ngweddill i Dduw a'i wafanaeth tros ben dy achofion dy hun.

Ac etto mae'n dra hynod nad yw holl ddyddiau ein dyfyrrwch a'n hoferedd yn dwyn i ni fawr ffrwyth er maint a wafcerir ynddynt ychydic iawn a gefclir. Ond o'r ychydic orieu a dreulier mewn Gweddi a Ymarferion buchedd dduwiol, y daw cynnyrch ac elw tra-chnydfawr; a'r hyn a hauom ni mewn munudiau a gweddillion ychydic flynyddoedd gan dyfu a dŷfu ni yn Goronau a Theyrn-wiail mewn gogoneddus dragwyddol deb.

Yn

Yn 1. Gan hynny er na theſcir arnat fwrw y rhann fwyaf o'th fywyd mewn gweithredoedd priod o ddyfoſiwn a duwioldeb; etto ſynhwyr oedd i ti gydâ bôd yn rhwym ddyled arnat neilltuo at waſanaeth Duw a gorchwylion yſprydol gymmaint fyth ac a allech o'th amſer: canys mae Duw am dy ſunudiau yn talu i ti dragywyddol ddedwyddwch; a pho mwy-af a roddech o'th amſer i Dduw mwyaf ôll a dryſori i ti dy hun. *Nid oes neb gallach Marchnattwr na'r hwn a warrio ei amſer ar Dduw, a'i arian ar y tlodion.*

Yn 2. Ond gwybydd, ac addola ddaioni Duw o'r achos, ddarfod i Dduw nid yn unic roi cennad i ti waſanaethu angenrheidiau naturiaeth, ond rhoi gorchymyn hefyd a'u gwneud yn rhannau o'th ddyledſwydd; megis os cyfeiri hwy at ogoniant Duw, a'u bwriadu yn foddion i'th cynnal yn ei waſanaeth êf, yntef gan eu troi yn Grefydd a drŷ dy Natur di yn Râs, trwy dderbyn dy weithredoedd naturiol megis petteint weithredoedd o ras. Cyfrif Duw yn rhann o'i waſanaeth ef dy waith di yn bwytta ac yn yfed am y bo'n gymhedrol, ac er llês i'th iechyd, môdd y gallo dy iechyd gryfhau dy waſanaeth iddo ef. Ac nid oes un munud o'th hôll enioes (wedi dyfod i oedran a ſynwyr) nad wyti, neu ti ellit fod yn gwneud gwaſanaeth i Dduw, ie pryd y bŷch fwyaf yn dy waſanaethu dy hun.

Yn 3. Ac os yſtyri ym mhellach yn y rhai'n a phôb gweithredoedd eraill o'th fywyd, dy fod yn waſtadol yn ſefyll ger bron Duw, yn gweithredu, yn ſiarad, ac yn meddwl yn ei wŷdd ef, ac ni thyccia i ti gêl-grefinach dy gydwybod gan ei bôd hitheu yn agored i Dduw, dâ iawn y gweddei i ti ymddwyn yn ofalus megis yngolwg dy Farnwr.

Y tair yſtyriaeth hyn os iawn arferi a'u cymhwyſo t amryw odfeydd a rhannau dy fywyd, hwy a'th ddygant i ti fel *Elias* wedi ymeſtyn ar y bachgen, [illegible]

rhoi byw ac yſpryd ym mhôb rhann o honot i waſanaethu Duw a dilyn buchedd raſol.

Minneu a ragoſodaf y tair yſtyriaeth hyn yn dair *Prîf hollawl* Feddyginiaeth i holl fuchedd y Criſtion, ac a ddangoſaf pa fôdd y gelli hwſmonaetha pôb un o'r *tair* er mawr help i Dduwioldeb, megis os cymmeri ond un o honynt yn ddwys at dy galon, ti a gei glywed y llês yn gweithio *yn gyd-gyffredin* nerth ynot ôll at bôb gweithred fydol ac yſprydol.

DOSP. I.

Yr Erſyn Cyffredinol cyntaf i weithio Buchedd Sanctaidd, Gofal o'n Hamſer.

AFo manwl o'i amſer a fydd manwl o'i gwmpeini rhac ei dynnu i oferedd a cholled, a manwl hefyd o'i weithredoedd rhac iddynt fôd yn feius, ac felly ei ddifetha ef gyda'i amſer gan ei daflu e'n ôl yn ei gyfri yn llyfr Tragywyddoldeb.

Byrr amſer a roes Duw i ddyn ar y ddaiar, etto er ei fyrred mae Tragywyddoldeb yn ſefyll arno, cymmhelled ac am bôb awr o'th enioes er pan ddaethoſt i wybod rhagor drŵg a dâ i ddal o gyfreithiau arnat, y gorfydd i ti roi cyfrif i ardderchawg Farnwr dynion ac Angylion.

Hyn a ddyweid ein Hiachawdwr bendigedig, y mynnir cyfrif *am bôb gair ſegur*; nid o ran y cyfrifir yn bechod bôb gair ond a fo difrifol ac er duwiol adeiladaeth, ond yr *amſer* a ddifrodir yn y gwâg-ſiaradach diles hwnnw, yr *amſer* a allaſit ac a ddylaſit e gynhilo at orchwylion lleſol ac yſprydol, hwnnw y bydd rhaid i ti roi cyfrif o hono.

Canys gwybydd fôd gennit Dâſc fawr iw gwneud, llawer o elymon iw gorchfygu, llawer o ddrygau iw rhagflaenu,

rhagflaenu, llawer perygl i fyned trwyddo, llawer cledi iw orfod, llawer o angenrheidiau iw gwaſanaethu, llawer o ddaioni iw wneuthur, llawer o blant i ddarbod troſtynt, neu lawer o gare ligion iw cadw, neu lawer o dlodion iw diwallu, neu lawer o ddoluriau iw hiachâu, heblaw gofynnion Natur a pherthynas, gofalon gartref ac oddi cartref, a'th ddyledſwyddau bydol, y rhai a wnaed i fôd yn grefyddol trwy raglunaeth Duw ac angenrhaid dyn.

Ond rhag i ti ofni y dyry'r Erfyn hwn i ti fagl, neu mai petruſder a blinder yw diben y ddyledſwydd yma, gwybydd y gallei ac y dylei pôb dyn drefnu ei hôll fywyd i fôd yn un gwaſanaeth gwaſtadol i Dduw.

Gan mai gwaſanaeth i Dduw yw'r Trafferthion mwyaf, a'r Crefftiau rhwyſtruſaf a'r Helbulon bydol, cyd bônt yn angenrheidiol, yn Garedigol ac yn fuddiol i ryw un o'r dibennion hynny y dylid eu gwaſanaethu yn neilltuol, neu yn gyffredinol. Oblegid mae Duw yn darparu da'r byd hwn, at ddiwallu'n angenrheidiau naturiol ni trwy boen y Llafurwr, trwy gelfyddyd a diwydrwydd y Crefftwr, trwy beryglon a negeſwriaeth y Marſiandwr. Mae rhain ôll yn eu Galwedigaeth yn weinidogion Rhaglunaeth Duw, ac megis Golygwyr ar y Creadigaeth, a Gweiſion buddiol yn Nheulu mawr y Goruchaf, ſef y bŷd, tra gwnelont eu rhann yn parotoi pôb angenrheidiau at Glydwch a Harddwch, at Luniaeth a Meddyginiaeth. Felly hefyd y Brenhin a'r Pendefig, yr Offeiriad a'r Prophwyd, yr Iuſtus a'r Cyfreithiwr tra iawn ddilynont eu ſwyddau maent ôll yn ôl eu grâdd yn gwneud gwaſanaeth i Dduw, am eu bôd yn gwaſanaethu'r angenrheidiau a drefnodd Duw heb adel dim yn eu cyfer iw diwallu ond trwy eu gweinidogaeth hwy. Nid oes ynteu le i undyn achwyn fôd ei Alwedigaeth yn rhwyſtr iddo waſanaethu Duw, gan fôd yr Alwedigaeth ei hun a'i hôll orchwylion bydol os Crefft os Celfyddyd

neu os Swydd oneſt, iw cyfrif ôll yn waſanaeth i Dduw, ac os dilynir hwy yn gymhedrol wrth Reol gweddeidd-dra Criſtianogol gadawant i ni ddigon o hamdden i ymneilltuo at weddi a gorchwylion gwîr yſprydol.

Rhoes Duw i ddyn ei wala o waith iw wneuthur môdd na bai ddim lle i ſeguryd, ac etto trefnodd felly'r byd fel y bai ddigon o ennyd i dduwioldeb. Yr hwn ſy arno leiaf o ofalon byd, mae arno roi ychwaneg o'i amſer i drwſio ei Enaid; a'r nêb ſy fwyaf ei drafferthion fe all droi ei holl negeſeu yn waſanaeth i Dduw, trwy eu ſancteiddio â gweddiau a gweithredoedd duwiol ar bob ſeibiant, ac â meddylfryd pûr.

Pa ddelw bynnac tra chauer *Seguryd* allan o'n Buchedd, ni ddaw'r un o holl bechodau o Drythyllwch a Gwrhydri, Mwythuſder a Maſwedd i mewn, ac nid oes fawr lê i un brofedigaeth arall oſod arnom: mae'n gorfod i'r Temtaſiwnau ymewino'n fain or tu ôl i orchwyl y *diwyd*, lle maent yn cael heidio am ben y *ſegurnr* iw bendifadu â'u digywilydd daerni anorphwys.

Pechod Sodom a'i merched y gelwir *Seguryd*, ac yn wîr nid yw amgen na *Chladdedigaeth dyn byw*, (*Ez.* 16. 49.) gan fôd y ſegurddyn mor ddiles i bôb Dibennion Duw a dyn a phettei wedi marw, mor ddi-deimlad o hôll droieu ac angenrheidiau'r byd; ac nid yw e'n byw ond i fwrw'r amſer heibio ac i ddifa cnŵd y ddaiar, fel Prŷf drŵg neu Flaidd, pan ddêl ei awr fe a drenga, ac dyna'i hôll ddaioni ef, ni ardd efe ac ni ddŵg feichiau, ac ni wnâ ddim ond naill ai rhyw oferwaith diles, ai'r mowrddrwg yſceler.

O bôb afradlonwch y pennaf yw *Seguryd*, am ei fôd e'n difrodi'r pêth ſy anhebcor ei gael, ac aneſcor ei golli; ac byth ni cheir e'n ôl er a allo na Natuiaeth na Dyſceidiaeth. Ond y môdd i ymgeleddu ac achub

y

y Perl gwerthfawroccaf hwn yw ymarfer â'r Rheolau ſy'n canlyn.

Rheolau i hwſmonaetha'n Hamſer.

Yn 1. Bôb boreu pan ddeffroech ymgynefina i feddwl yn gyntaf am Dduw neu am rywbeth a berthyn iw waſanaeth ef; a'r nos hefyd pan gyſcech gâd iddo ef gau dy lygaid, ac na chŵſc ond a fo cymhedrol ac iachus, dim hwy na chymhwyſdra naturiaeth, ac weithieu mynn weled cychwynfa'r Haul o ſtafelloedd y Dwyrain.

Yn 2. Od ocs gennit Alwedigaeth bydd ddiwyd a dieſceulus ynddi, ac heb achos cyfreithlon na âd mo'th orchwyl ar un amſer y bo'r Hwſmyn goreu a ſynhwyrolaf arferol o'i chanlyn.

Yn 3. Pôb ſeibiant a bylchau gweigion o'th amſer llanw hwynt â Gweddieu, â darllen ac â myfyrio, mewn Dyfyrrwch diniweid ac angenrheideu Naturiaeth, mewn cariad a chymmwynaſgarwch a chym'dogaeth ddâ, mewn moddion o iechyd yſprydol a chorphorol; gan gofio byth felly ddilyn dy Alwedigaeth daiarol, fel nad eſceuluſech mo'th *Alwedigaeth Neſol*; eithr dechreu a diwedd bôb diwrnod gydâ Duw; gan weddio â'r cyfryw Weddiau ac a fo cymmwys a phriod i'th achoſion.

Yn 4. Hefyd Gwylieu Criſtianogion, ſef, uchelddyddiau'r Eglwys ni ddyleint er dim fôd yn ddyddiau o ſeguryd, canys gwell yw aredig ar ddiwrnod Gŵyl na bôd heb wneud dim, neu wneuthur drŵg; eithr treulia di'r diwrnodiau hynny mewn gorchwylion priodol iddynt, ſef mewn Crefydd a Chariad yn ôl y rheolau goſodedig. * *Gwel* Ben. 4. Doſp. 6.

Yn 5. Gochel gymdeithas rhai *Meddwon* a rhai *rhodreſgar* a phawb a fo hôff ganddynt ſiarad llawer i ychydic ddeunydd: o blegid ni's gall nêb fod yn

ddarbodus o'i amſer ond a ſo manwl o'i gwmpeini; ac o bydd un o'r ſiaradwyr yn ofer-wydn ei chwedl mae'r gwrandawr a'r porthwr yn cyd-golli eu hamſer.

Yn 6. Na ſiarad â nêb ac nà chymmer un ofer-ſwydd mewn llaw dim ond *i fwrw'r amſer heibio*; oblegid pôb dydd a iawn dreulier a ddichon fôd yn ddydd *Iechydwriaeth*, a'r amſer hwnnw a fydd yn *amſer cymmeradwy*. Yr amſer yr wyt titheu yn eu fwrw'n ofer gwybydd mai i edifarhau y rhoddwyd ef i ti, i weddio am faddeuant pechodau, i weithio allan dy Iechydwriaeth, i wneuthur gwaith Grâs, i dryſori erbyn dydd y Farn dryſor o weithredoedd dâ, fel y coroner dy *amſer* â Thragywyddoldeb.

Yn 7. Yn nghanol gorchwylion dy Alwedigaeth mynych-gyrcha at Dduw mewn *Byrr-weddiau* a myfyrdodau cyflym i ddiwygio'r hîr brydiau o ddyfoſiwn a chwennychit, gan weled eraill yn cael hynny o fantais arnati. Canys dyna'r môdd i ti gymmodi dy waith oddi allan â'th Alwedigaeth oddi mewn, dy rann o'r Eglwys a'th rann o'r Wladwriaeth, gorchwyl dy Gorph ynghŷd âg Elw dy Enaid: Canys bydd ſiccr y gwrendy Duw ar dy ddifrifol ocheneidiau a'th fyrr-weddiau calonnog di, cyn gynted ac ar hîr weddiau rhai eraill mwy yſcyfala; ac fe a wîr ſanctei-ddir dy amſer di drwy dy Grefft, ac a'i gwneir yn ddefoſionol trwy ddwys weddiau byrrion, cyſtal a hîr weddiau rhai eraill ſy â llai o bwys gwaith a gorchwyl buddiol i lenwi eu hamſer.

Yn 8. Bydded dy orchwyl o'r fâth a weddei *i ddyn ſynhwyrol*, nid rhyw *ſimera* cymmwys i blant neu rai hanner-côf; eithr bydded yn gyfaddas i'th oedran a'th ddealltwriaeth. O blegid fe a ddichon ymbell drymwaith fôd mor ſegurllyd, ac ymbell boen mor ddi-fudd na ynnillir wrtho ynghyfer dy chwŷs a cholli dy *amſer* ddim ond ffolineb ac ynfydrwydd.

Ie

Ie mae rhai Crefftiau yn bendant i borthi coeg-ddibennion ſegurwyr ac ynfydion, a'r rheini cymmwyſoedd i gyfreithiau'r Deyrnas eu dal a'u deol oddi tan yr Haul: ac mae llawer fel y Brenhin *Domiſian* yn draffertl us iawn dim ond i ddal gwybed.

Yn 9. Bydded dy orchwyl yn *gyfaldas i'th berſon* a'th Alwedigaeth, mae rhai a warriant eu hamſer mewn gwaſanaeth îs o anfeidrol na'u grâdd a'u lle, ac wedi i Dduw neu'r Wladwriaeth eu galw i gyddwyn matterion o bwys, i farnu pobl neu i lywodraethu'r wlâd, ydynt yn gwanhâu eu dealltwriaeth, ac yn eu anghymwyſo'u hunain trwy orchwylion gwael anŵraidd. Y ſawl a ordeinied i weini mewn pethau ſanctaidd gwilied adel i fudr-ſwyddau bydol ormeſu nemor ar ei orchwyl yſprydol. Ni ddylai ŵr Eglwyſic gadw tafarn, nac Uſtus letty cyffredin. Ond ſeguryd ffieidd oedd i Berſon ymboeni yn ei ſtabal pryd y dylai fôd yn ei ſtafell yn gweddio neu yn ei bulpud yn pregethu? Nid yw'r gwael ſwyddeu hynny ond clefydau gorchwyl a rhŵd yr *amſer* yr hwn y mae e'n ei hel nid wrth fôd heb ei arfer, ond wrth gael ei arferu'n *frwnt*.

Yn 10. Bid dy orchwyl *yn gyſryw ac a weddei i Griſtion*, ſef bid yn bur ddi-gymmyſc oddi wrth bechod: Canys os gweithi er porthi cybydd-dod neu ryw ddrygchwant arall, neu os cedwi Siop o betheu aflan neu o bethau anghymedrol, yr wyt ti'n waeth na ſegur; am fôd pôb awr a dreuliech felly yn dy daflu'n ôl yn dy Gyfrif, ac yn gofyn ei hail dreulio yn well yn y rhann olaf a berraf o'th amſer.

Yn 11. *Y Bonheddigion* ſy heb Grefft [illegible]ddynt, a ddyleint yn anad rhai fôd yn fanwl i gynhilo eu hamſer yn ſynhwyrol. Anffortunus o ddynion ydych o darfu i gam-rwyſc eich hieuenctid eich lluddias i ddyſcu hwſmonaetha'ch amſer: ac anlwccuſaf ôll ydych os y ddrŵg-ddyſc afreolus honno a'ch goll-

yngodd

yngodd i ſyrthio i gwmpeini diffaith, ac felly i ddifrodi'ch amſer o awr i awr wrth Glocc pechod ac uffern. Gŵyr y Bonheddigion *dyſcedic* wrethfawrocced yw amſer, a pheth yw gwneud y goreu o ddiwrnod; ymgymwyſwch chwithau at y matterion a'ch gwnêl ſuddiolaf mewn Arfeu neu Gelfyddydeu, i fôd yn Gynghorwyr cyffredin neu yn llywodraethwyr yn eich Gwlâd. Ond y Bonheddigion *annyſcedic* dewiſwch gwmpeini dâ, y fâth na hudo mo'noch i bechod, ac na chydſeinio â chwi mewn pechod, ond yn hytrach a ddiwygio'ch anwybodaeth â'u hymddiddanion pwyllog a'u cynghorion i hyfforddi eich ymarweddiad. Dyſcwch bethau hawdd a lleſol, darllenwch Hiſtoriaû a Chyfreithieu'r Deyrnas, dyſcwch Ddefodau a Choſtwm eich Gwlâd, natur eich Tyddynnod a doſparthu eich Stât eich hunan at y ffordd fwyaf daionus a luſengar; dyſcwch lywodraethu'ch Teuluoedd yn ſynhwyrol, ymwrandewch â beichieu eich Tenantiaid, ac anghenion eich Cymydogion, iw helpu yn ôl eich gallu: Heddychwch rhwng gelynion, rhag-rwyſtrwch ymgyfreithiau, a dibennwch bôb ymryſonau: ac o'ch digonedd o ennyd yſcyfala cyſſegrwch chwitheu ychwaneg o'ch amſer at dduwioldeb ac anghenion eich Eneidieu.

Yn 12. Chwitheu'r *Gwragedd bonheddigion* goludog gwnewch yr un môdd yn ôl eich medru a'ch gallu; Megwch eich plant, edrychwch at fatterion eich tylwyth, ymwelwch â bythod tlodion iw diwallu, byddwch gymwynaſcar i'ch cymmydogion, dyſcwch yn ddiſtaw gan eich Gwŷr neu'r Gweinidogion yſprydol, darllenwch lyfrau dâ, gweddiwch lawer a fiaredwch ychydic, a dyſcwch *wneuthur gweithredoedd dâ i angenrheidiau.* (*Titus* 3. 12.) Canys yn yr ymadrodd hwn y datcan S *Paul* ddlêd Gwragedd Criſtianogol i hyſwîaeth ddâ, ac i bôb dyfeiſieu luſengar a daionus iw Teulu a'u Cymmydogion.

Yn 13

Yn 13. Pôb grâdd a chyflwr o ddyn gochel *Fwythſder a phôb Manyldra yn dy Ddillad a'th Ymborth*, am pair y cyfryw goeg-faiwedd i ti gam-dreulio myrdd o'th amſer, ac fe a ddŵg y cribo a'r ymdrwſio lê dy Foreuol weddi, a hanner caled-waith y diwrnod, tra bŷch di'n cyſcu ac yn breuddwydio hôll brydieu cynhaiaeth dy Enaid.

Yn 14. Pob dyn o bôb rhyw gyflwr gochel *yſmaldod* a phôb yſpienna i fatterion na pherthyn i ti ddim, o blegid nid yw ymdrafferthu mewn petheu amherthynol i ti dy hun, ddim ond treulio'r amſer yn anfuddiol i ti dy hun, ac felly nid yw ddim at ynnill Tragwyddoldeb dedwydd. Etto nid oes i ti gyfrif angenrheidiau dy Gymydog yn bêth amherthynol, canys y mae yn perthyn i ti, fel y mae'r naill aelod yn cyd-teimlo â dolur y llall: Ond gwybetta o dŷ i dŷ, a hêl chwedleu diſwydd, dyna gancr a rhŵd *Seguryd* fel y mae Seguryd yn rhŵd ein *Hamſer*, a hyn y mae'r Apoſtol mor doſt-lym yn ei warafun i bawb a wnêl brîs o'i amſer.

Yn 15. Hyd y bo poſſibl i ti rhyddhâ dy fywyd oddi wrth *bôb ofer-negeſau di-les di-bwrpas.* Pôb ymweled ffol ac afraid, pôb hîr ymlynu wrth wŷr mawr, oni bydd rhwymedigaeth dâ o ddyledſwydd neu angenrhaid neu gariad, pôb ymgyfarfodydd ofer, pôb trafferthus wagedd, a phêth bynnac a yſo lawer o amſer heb ryw wîr bwrpas naill ai Bydol ai Creſyddol ai Caredigol.

Yn 16. Na fid dy *Ddyfyrrwch* yn rhŷ dreulgar o'th amſer, eithr dewis bleſerau byrrion iachus, naturiol i adfywio a dadflino dy yſpryd; ond er dim na hîr lŷn wrthynt, iw gwneud yn orchwyl: Canys pwy bynnac tan rîth *Eſmwythyd* a dreulio'i hôll amſer mewn *dyfyrrwch*, mae e'n gyffelyb i ŵr a wnai ei hôll ddillad yn un ridens, neu ei hôll fwyd yn un ſaws; pêth afiachus, drwſfawr a diles. Gochel ditheu bôb

chwareuon

chwareuon anniben a ddycco dy amſer a'th 'wyllys i bôb trymwaith. Canys i'r hyn y rhoddech dy *ſerch* rhwydd y rhoi dy *amſer* hefyd. Mae angenrhaid Naturiaeth heblaw ſiampleu rhai Duwiol yn dyſcu fôd yn rhŷdd i ni weithieu ddadnnelu ein bŵa, a thynnu'r llinyn oddi ar dynn, ond nid oddi ar y bŵa.

Yn 17. Penna ryw ddarneu o bôb diwrnod at *waſanaeth arbennic o Dduwioldeb, a rheini cadw yn ddiymeiriach.* Ac o bydd amryw Negeſeuon ac Achoſion dyledus neu weddol gymdeithas yn pwyſo arnat, etto treſna felly dy *Reol ſeunyddiol* fel na eſceuluſech un o'i rhannau angenrheidiol hi; ac er y gall Achoſion cyfreithlon fyrrhâu dy weddiau, etto er dim, oddieithr rhyw ddurſing ddiymaros angenrhaid, na chwbl eſceuluſa un diwrnod na'th foreuol na'th brydnhawnol weddi, a phan orffo arnat ei chwttogi, ti a elli ei diwygio trwy biccio byrr weddiau dwyſion trwy'r dwthwn yn nghanol dy orchwyl a'th gwmpeini.

Yn 18. *Na wnâ waith yr Arglwydd yn eſceulus ac yn ddifraw*; na fid dy galon at y Byd pan fo dy ddwylo at Dduw mewn gweddi. A bydd ſiccr o roi mwy ſerch a brî ar orchwyl duwiol yn ei bryd, nac ar un mâth o ddigrifwch bydol, a phan fo pryd a lle Dyfoſiwn arhoed negeſeu daiarol allan; fel Syr *Thomas Moor* pan yrrodd y Brenhin iw gyrchu ef oddiar ei weddi a attebodd y gennad yr âi e'n llegys pan ddarfyddei iddo'n gyntaf gyfarch BRENIN y Brenhinoedd. Wrth anrhydeddu a gwaſanaethu Duw ymnertha â'th hôll egni, canys dyna'r amſer y gelli di fôd ſiccraf o'i ennill, a dreulſech di'n ddifrif ac yn awchlym yn ngwaſanaeth Duw.

Yn 19. Pan darawo'r clocc neu ryw fôdd amgen i feſur y diwrnod, da oedd i ti ergydio ymbell ferr-weddi ym mhen pôb awr, môdd y gallech wrth dy gyrſiau o ddyfoſiwn gymmeryd meſur o'th amſer; gwnâ felly hefyd pan fych effro yn dy wely, fel y llanwo

Crefydd

Crefydd bôb adwy o'th amſer a ſo gwâg o Negeſeu bydol.

Yn 20. Ac oni ddarfu i ti yn ôl y Moddion hyn achub euſus dy amſer trwy ofal boreuol a blaenllaw, etto pryſura weithian yn ddieſceulus *i brynu dy amſer*, hynny yw bydd bellach yn dduwiol ac yn grefyddol lle y camweddaiſti gynt, a bwrw dy amſer yn bennaf ar y Graſau y dilynaiſt gynt eu gwrthwyneb feiau; dilyn weithian Gymhedroldeb a Diweirdeb mor awchus ac y dilynaiſt Aflendid gynt; ac yna trwy bôb dyfais ymddiogela rhag dy beryglon preſennol ac i ddyfod, ac ymgadw o ddydd i ddydd rhag cilio yn dy garn: ac dyna'r peth yw *prynu dy amſer*, ſef, prynu dy ſiccrwydd am dano er gwerth yr hôll boen a'r ddyfais oneſt ar a fedrych.

Yn 21. Y nêb ſy fwyaf ei drafferth, neilltued ryw amſer *arbennic bôb blwyddyn* i ymryddhâu oddi wrth ei hôll Achoſion bydol, er mwyn gwilied ar weddio ac ymprydio, a thrwſio'i Enaid trwy Gyffeſu a Myſyrio, i ymwneuthur â Duw, i fwrw ei Gyfrifon, i adnewyddu ei Addunedau, i ddiwygio ei ddiofalwch, ac i ail godi ei gywair gymaint arall ac y llaeſwyd ef gan wagedd, ac aml demtaſiwnau a phenſyfrdandod Trallodau cnawdol.

Yn 22. A help mawr at wneud dy Gyfrifon yn haws ac yn rhwyddach, fyddei i ti bôb nôs cyn myn'd i gyſcu holi *dy weithredoedd y dwthwn*, gan ymchwilio'n fanwl os digwyddodd i ti ddim *anarferol*; megis hîr Ymddiddan, neu Wlêdd, neu amryw Negeſau, neu lawer mâth o gwmpeini: Eithr oni ddigwyddodd dim anghyffredin llai o ymholi a wnaeth. Ond gwilia ditheu gyſcu heb fwrw'r fâth olwg ar weithredoedd y diwrnod ac a ddangoſo i ti bôb digwyddiad mawr a nodedic, a haeddei naill ai edifeirwch ai diolchgarwch; ond am bethau cyffredin digon yw gofal cyffredin.

Yn 23.

Yn 23. Gwneler yr hôll bethau hyn *yn rheſymol yn gymhedrol* nid yn rhuſiedic ac yn drallodus, can nid yw y *Rheolau* hyn ond *Manteiſiau* lleſol ac n Gorchymynion Duw monynt ôll, ac am hynny y rheſymol y dylid eu harferu fel y barno pawb gym hwyſaf iw gyflwr ei hun. Am a bŷch di ſicer o ſy wedd dy Ddyledſwydd, yna am y graddau a'r Arfa mae i ti dy rydd-did dy hun, a chyngor dy Athro y prydol. Happus oedd i ddyn fedru achub pôb aw mewn rhyw ſobr a duwiol waſanaeth; etto nid yw ddyledſwydd yn ſefyll yn rhŷ ddichlyn ar funudia a hanner-oriau, ond ar y rhannau mwyaf o'n hamſer trwy na threuliech di'r un munud mewn pechod, bwrw rhannau mawr dy amſer mewn rhyw orchwy difrifol, a rhoi i Grefydd yr hôll ddiwrnodieu-Gŵyl a hefyd ryw ddarnau o bôb dydd. Mae hôll gyn-hinion dy amſer wedi eu gadel ar dy ddewis a'th ſyn-wyr dy hun, fel yr yſtyriech di y rhagor raddau o Ogoniant ſy ynghadw yn y Nêf yn ôl graddau dy ofal a'th dduwioldeb a'th ddiwydrwydd ditheu.

Cymmynaſau'r Ymarfer hwn.

Gofal o'n hamſer, heblaw ei rinwedd ar hôll ym-arweddiad dyn, mae ynddo rym yſpyſol i rwyſtro. 1. Pechodau tlodaidd, ſef y rhai y mae tlodi a ſeguryd yn hudo dynion iddynt, megis Celwydd, Gwenieithio, Lladratta, a Rhagrithio. 2. Help arbennic yw hwn rhag y pechodau cnawdol ſy'n codi o ormodedd o ſara a bychan o waith. 3. Erfyn godidoc yw i gadw dyn rhag y beiau a'r camweddau lleiaf, ſy arferol o ſynych ladratta ar ofer-wyr ſegurllyd a moethus. 4. Mae'r ymarfer hwn yn ein rhwymo nid yn unic i ochel y drŵg ond hefyd i wnuethur daioni, megis priod neges ein hôll amſer. 5. Mae hwn yn ein pa-rotoi erbyn pôb troeadau diſymmwth, ni frawychan

ſydy

ydyn ddyfodiad yr Arglwydd monom; canys yr wn a fo manwl o'i amſer, odid iawn iddo fôd yn mmharod at Dragwyddoldeb.

DOSP. II.

Yr ail Erfyn cyffredinol at Fuchedd Sanctaidd, Purdeb meddylfryd, neu fwriad dâ ymhôb gweithred a wnelom.

BWriadu ac amcanu gogoniant Duw ym mhôb gweithred Naturiol a Rheſymol ar a wnelech, a rchymynwyd i ti yn eglur gan S *Paul*, *Pa un bynnac i bwytta ai yfed a wneloch gwnewch hôb pêth er gogoniant Dduw.* Os cedwi y *Rheol* hon hi a dry hôb gweithred Naturiol yn Grefyddol, ac fe â pôb pryd o fwyd yn Addoliaeth i Dduw, ac a gaiff ei gymheſur wobr yn gyſtal a phrŷd o weddio. Bendigedig fyddo'r ſath ddaioni a dawn Duw yr hwn o'i anfeidrol chwant i chub a gogoneddu dynol ryw, a wnaeth i weithredoedd Natur allu mynd yn weithredoedd o Râs, fel y bai ein hôll fywyd ni yn un gwaſanaeth iddo ef.

Cyſtal yw Meddylfryd pûr a'i fod yn ſancteiddio'r weithred gyffredinaf; a chyn rheitied, ac na thâl ein gweithredoedd goreu ni ddim hebddo. O blegid os gweddia nêb o ran arfer, neu roi eluſen er mwyn clôd neu ymbrydio er mwyn cael y gair o fôd yn dduwiol, nid yw hwnnw ond *Phariſaad* yn ei weddi, a Chardottyn yn ei Eluſen, a Rhagrithiwr yn ei Ympryd. Ond meddylfryd pur a ſancteiddia rhain ôll, a phôb gweithredoedd eraill a aller eu ſancteiddio, ac a'u pura hwy yn dân ac yn gymeradwy.

O herwydd megis mai *rhagweled* y diben yw y rhagor ſy rhwng dyn ac anifail, felly *dewis diben* da yw'r hôll ragor rhwng dyn dâ a dyn drŵg. Ac ſo Hezekias ei hôll weithredoedd dâ ar ei gla-

a chafodd ffafr gan Dduw; ond y *Phariſæad* am wneud yr un pêth a farnwyd yn drahâus, am fôd meddwl hwn ar waradwyddo'i frawd, ond y llâll ar gael trugaredd gan Dduw. Bêth ynteu ond y bwriad a'r meddylfryd a wnaeth gymaint rhagor rhwng galar-nad *Dafydd* a bonllef *Saul*; rhwng Cyffes *Pharao* a'r eiddo *Manaſſes*, rhwng dagrau *Pedr* ac edifeirwch *Suddas*? canys nid i'r weithred y mae'r glôd, ond i'r modd y gwneler y weithred. Os o garedigrwydd neu luſeni yr ei i ymweled â'th gâr clwyfus a gwilied wrth ei obennydd, dâ yw dy waith: ond os i ddiſgwil gadel i ti rôdd, nid wyt ti ond Cîs-fran reibus yn aros am y gelain. Mae'r un pethau yn oneſt ac yn anoneſt, y modd y gwneler hwy, a'n diben a'n bwriad ni yn eu gwneud, ſy'n gwahanu rhyngddynt.

Mae *bwriad dâ* cyſtal i'r *Weithred*, ac yw'r Enaid i'r Corph, neu'r gwreiddyn i'r pren, neu'r Haul i'r bŷd, neu'r ffynnon i'r afon, neu'r ſylfaen i'r Tŵr: Canys heb y rhain fe â'r Corph yn dywarchen, y pren yn gŷff, y byd yn dywyllwch â'r afon yn ſŷch, â'r Tŵr a ymollwng yn garnedd ddiniſtriol, ac felly'r â'r weithred yn bechadurus ac yn ofer. Y ſawl a roddo phioleid o ddwfr oer i ddiſcybl yn enw diſcybl a geiff goron, ond y nêb a roddo ddwfr o goegni pan ſo ar ddiſcybl eiſieu gwîn i gadw ei galon, ei wobr ef a fydd wyloſain am y dwfr hwnnw i oeri ei dafod.

Ond goſodwn weithian Reolau i'r ddyledſwydd hon.

Yn 1. Ym mhôb gweithred gwêl y *diben*, ac wrth ei chychwyn yſtyr pa ham, a phêth yw'r nôd yr wyt yn ei oſod yn wobr i ti dy hun, ac yn bennod i'th weithred.

Yn 2. Dechreu bôb gweithred yn Enw'r Tad a'r Mâb a'r Yſpryd glân, a hynny ſydd, *Yn* 1, fel y cymmerech ofal rhag dechreu ar ddim heb gennad a gwaraid gan Dduw. *Yn* 2, fel y wynebech at Ogoniant Duw,

s nid yn y weithred neilltuol, etto yn ei chwrs a'i hueddnod cyffredinol o leiaf, ac oni bydd hôll fân frydiau dy fuchedd, etto bydded rhedfa'r canawl a'i fyg at y Môr anfeidrol. *Yn* 3, fel y bendithier y gwaith rhag i'r hyn a fwriadech di er dibennion diniweid a dâ, drwy ryw anhap droi yn ddrwg ac yn chlyfur i bechod.

Yn 3. Dechreu bôb gweithred o bwys â *Gweddi* ar Dduw fendithio'r gwaith a fanctteiddio dy feddylfryd itheu; yna offrwm i Dduw dy weithred. Canys yr nrhegion goreu a ddichon dyn eu cyflwyno i Dduw w gweithredoedd a fwriader yn ddâ o feddylfryd pûr.

Yn 4. Wrth ganlyn ar dy weithred adnewydda ac ailnnyn dy feddylfryd â'r ocheneidiau hyn neu'r cyffyb, *Nid i ni O Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw dy hun ôd Ogoniant*, a meddwl *yr wyf'r awron yn gwneuthur waith Duw, rwyf yn wâs iddo, rwyf mewn gwafanaeth deddydd, yn gwneud gorchwyl fy Meiftr, nid wyf wrth fy rhwyfc hun, ond ei dalentau ef yr wy'n eu harferu, ac ef biau'r ôll ynnill.* O blegid bydd diogel os eiddo ef fydd y ogoniant, eiddo titheu fydd y gwobr, os dygi ei ddâ adref ar gynnyrch, yntef a'th wnâ di yn *llywodraewr ar Ddinafoedd.*

Yn 5. Gwilia rhag i'r gwaith a ddechreuaift ac a wriedaifti er gogoniant i Dduw drawfwyro a diweddu yn dy ogoniant dy hun, neu ryw fodlonrhwydd nfferol, neu bechod: gochel rhag i'r pen têg o aur dfcyn yn arian ac yn brês, a diweddu'n haiarn ac n glai; gwilia, canys wrth y diwedd y bernir ac gobrwyir.

Yn 6. Ym mhôb gweithred arbennic o Grefydd d-gyfyllta lawer o fwriadau dâ, fel y bo dy hôll yntau ynghenglyn â rhai o honynt, a phan gilio ill bwrpas dâ y bo'r llall i gynnal *purdeb* dy feddyld. Os Ymprydi yn unic er mwyn dofi anniweirdeb, n gaffech ryw rwymedi arall yn Ngrâs neu yn

a chafodd ffafr gan Dduw; ond y *Pharisæad* am wneud yr un pêth a farnwyd yn drahâus, am fôd meddwl hwn ar waradwyddo'i frawd, ond y llâll ar gael trugaredd gan Dduw. Bêch ynteu ond y bwriad a'r meddylfryd a wnaeth gymaint rhagor rhwng galar-nad *Dafydd* a bonllef *Saul*; rhwng Cyffes *Pharao* a'r eiddo *Manasses*, rhwng dagrau *Pedr* ac edifeirwch *Suddas*? canys nid i'r weithred y mae'r glôd, ond i'r modd y gwneler y weithred. Os o garedigrwydd neu luseni yr ei i ymweled â'th gâr clwyfus a gwilied wrth ei obennydd, dâ yw dy waith: ond os i ddisgwil gadel i ti rôdd, nid wyt ti ond Cîe-fran reibus yn aros am y gelain. Mae'r un pethau yn onest ac yn anonest, y modd y gwneler hwy, a'n diben a'n bwriad ni yn eu gwneud, sy'n gwahanu rhyngddynt.

Mae *bwriad dâ* cystal i'r *Weithred*, ac yw'r Enaid i'r Corph, neu'r gwreiddyn i'r pren, neu'r Haul i'r bŷd, neu'r ffynnon i'r afon, neu'r sylfaen i'r Twr: Canys heb y rhain se â'r Corph yn dywarchen, y pren yn gŷff, y byd yn dywyllwch â'r afon yn sŷch, â'r Twr a ymollwng yn garnedd ddinistriol, ac felly'r â'r weithred yn bechadurus ac yn ofer. Y sawl a roddo phioleid o ddwfr oer i ddiscybl yn enw discybl a geiff goron, ond y nêb a roddo ddwfr o goegni pan fo ar ddiscybl eisieu gwîn i gadw ei galon, ei wobr ef a fydd wylofain am y dwfr hwnnw i oeri ei dafod.

Ond gosodwn weithian Reolau i'r ddyledswydd hon.

Yn 1. Ym mhôb gweithred gwêl y *diben*, ac wrth ei chychwyn ystyr pa ham, a phêth yw'r nôd yr wyt yn ei osod yn wobr i ti dy hun, ac yn bennod i'th weithred.

Yn 2. Dechreu bôb gweithred yn Enw'r Tâd a'i Mâb a'r Yspryd glân, a hynny sydd, *Yn* 1, fel y cymmerech ofal rhag dechreu ar ddim heb gennad a gwaram gan Dduw. *Yn* 2, fel y wynebech at Ogoniant Duw,

s nid yn y weithred neilltuol, etto yn ei chwrs a'i hueddnod cyffredinol o leiaf, ac oni bydd hôll fân frydiau dy fuchedd, etto bydded rhedfa'r canawl a'i ŵg at y Môr anfeidrol. *Yn* 3, fel y bendithier y gwaith rhag i'r hyn a fwriadech di er dibennion diniweid a dâ, drwy ryw anhap droi yn ddrŵg ac yn chlyſur i bechod.

Yn 3. Dechreu bôb gweithred o bwys â *Gweddi* ar Dduw fendithio'r gwaith a ſancteiddio dy feddylfryd itheu; yna offrwm i Dduw dy weithred. Canys yr nrhegion goreu a ddichon dyn eu cyflwyno i Dduw w gweithredoedd a fwriader yn ddâ o feddylfryd pûr.

Yn 4. Wrth ganlyn ar dy weithred adnewydda ac ailnnyn dy feddylfryd â'r ocheneidiau hyn neu'r cyffelyb, *Nid i ni O Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw dy hun ôd Ogoniant*, a meddwl *yr. wyſir awron yn gwneuthur waith Duw, rwyf yn wâs iddo, rwyf mewn gwaſanaeth deddydd, yn gwneud gorchwyl fy Meiſtr, nid wyf wrth fy rhwyſc hun, ond ei dalentau ef yr wy'n eu harferu, ac ef biau'r ôll ynnill.* O blegid bydd diogel os eiddo ef fydd y ogoniant, eiddo titheu fydd y gwobr, os dygi ei ddâ f adref ar gynnyrch, yntef a'th wnâ di yn *llywodraewr ar Ddinaſoedd.*

Yn 5. Gwilia rhag i'r gwaith a ddechreuaiſt ac a wriedaiſti er gogoniant i Dduw drawſwyro a diweddu yn dy ogoniant dy hun, neu ryw fodlonrhwydd nſerol, neu bechod: gochel rhag i'r pen têg o aur deſcyn yn arian ac yn brês, a diweddu'n haiarn ac n glai; gwilia, canys wrth y diwedd y bernir ac gobrwyir.

Yn 6. Ym mhôb gweithred arbennic o Grefydd d-gyfyllta lawer o fwriadau dâ, fel y bò dy hôll yniau ynghenglyn â rhai o honynt, a phan gilio ill bwtpas dâ y bo'r llall i gynnal *purdeb* dy feddyl yd. Os Ymprydi yn unic er mwyn dofi anniweirdeb n gaffech ryw rwymedi arall yn Ngrâs neu yn

Naturiaeth ti a demtir i eſceuluſo dy Ympryd. Eithr os amceni di yn dy Ympryd, farwhâu pôb gwŷn ac anwydau gwrthnyſic, ac ymgynnefino i ddwyn iau'r Arglwydd, i ddibriſio'r pleſerau o *fwytta* ac *yfed*, aci ddaroſtwng meddyliau lledwyllt, er mwyn Ufudd-dod a Goſtyngeiddrwydd, er mwyn Caledrwydd a luſeni, er mwyn cyfleuſdra a help i'th Ddyfoſiwn, ac er mwyn gwneud gweithred o Edifeirwch; bêth bynnac a ddigwyddo i ti ym mhlîth cynnifer o fwriadau dâ, ni phalla i ti ryw attreg i gynnal purdeb dy feddylfryd. Ac yn ddiammeu pa mwyaf o Amcanion dâ a fwriadech di yn dy weithred, mwyaf ôll o raddeu godi dowgrwydd a ennilli.

Yn 7. O digwydd rhyw demtaſiwn a diwyno dy fwriadau mewn Dyledſwydd grefyddol, na faddeu e hynny mo'r ddyledſwydd, eithr yn hytrach dyro gai ar unioni dy feddylfryd, a marweiddio'r Temtaſiwn Dyſcwn y Rheol hon gan S. *Bernard*; canys pan wel ſei Ddiawl odidocced y pregethai ef, ei demtio ef wâg-ogoniant a wnaeth *Satan* tan obaith y byddei i Gŵr dâ o gâs ar y molach hwnnw beidio a phregethu yntef ni roes iddo ond hyn o atteb, N*id eroti y dech reuais, ac ni pheidiaf eroti ychwaith.*

Yn 8. Na fwrw fôd pôb pwrpas *lydol* yn diwyn dy feddylfryd *Yſprydol* oni bydd e'n *gyntaf* yn groes ddibennion Duw; neu *yn âil* yn drêch na'r bwria N*eſol* mewn gweithred grefyddol. Canys mae bwr iadau *daiarol* weithieu yn rhann o'n dyledſwydd, herwydd dyna'r fâth yw gorchwylion dy Alwedigaeth bêth bynnac yw dy ſwydd ai Gwledic ai Eglwyſi Gorchmynwyd i ni ddarparu i'n Teuluoedd; ac h̃nny os â Gŵr Eglwyſic tan y gofal hwnnw ar fed cyfoeth neu godiad, neu âi fryd ar ryw bêth ara cymmaint ac ar Ogoniant Duw, efe a ddiwynodd ddwylo a'i galon; ac mae Tân yr allor wedi diffod neu heb fwrw ond mŵg madarch amheraidd. O

bry

brynti cywilyddus oedd dderchafu dibennion nêb rhyw greadur goruwch dibennion y Goruchaf Holl-alluog Greawdr?

Ond o herwydd y dichon ar lawer odfa dy galon dy dwyllo modd na wypech yn ddâ mo'th feddylfryd dy hun, am hynny wrth yr Arwyddion sy'n canlyn y bydd hawsaf i ti farnu *a yw dy feddylfryd yn bûr a'th fwriadau yn sanctaidd.*

Arwyddion o Feddylfryd pûr.

Yn 1. Mae'n arwydd fôd dy feddylfryd yn union gŷdâ Duw, a'th fwriad yn dduwiol ac yn ddâ os dechreui bôb gorchwyl bydol ac ysprydol mewn *awyddfryd cymmwys i deilyngdod y gwaith*, sef os gwnei dy waith *daiarol* â'th chwant heb fôd ddim mwy na'th angen, ac os byddi mewn gorchwyl *Crefyddol* yn dra awchus, a bywiog, a ffwdanus hyd y bô gweddol; ac os perchi ar bôb trô bôb pwrpas ysprydol yn fwy nac un bydol, er bôd y ddau cystal a'u gilydd at eu hamryw ddibennion priod, hynny yw bêth bynnac a fô angenrhaid ac er iechyd i'th Enaid prisio hwnnw a'i borthi o flaen dim ar a fo er iechyd ac angenrhaid i'th Gorph; neu etto'n eglurach, os dewisi anghyfleusdra presennol o flaen gwneud un pechod, a bôd yn well gennit wneud dyledswydd nac ynnill caffaeliad. Ond y sawl yn ei ddysyrrwch a'i orchwyl cnawdol a fedr fôd yn barod ac yn hylaw, ie'n chwimmwth ac yn brysur, ac a fo yn farwedd yn hwyrdrwm ac yn flinedic mewn gorchwylion duwiol, dyna arwydd nad oes mo'r galon yn union gydâ Duw, eithr wedi gwyro gormod at y byd.

Yn 2. Tebyg fôd dy Galon yn bûr a'th fwriadau'n ddifrycheulyd, os wyt *heb brisio mewn tŷb a barn dynion*, am y gwnelych di dy ddyledswydd yn gymmeradwy gan Dduw ei hun: Canys bid siccr y cyrch y galon lle y disgwilier y gwobr; ac os ar foddio Duw y mae dy fryd titheu, mae'n arwydd mai gwaith iddo ef yr

yr wyt yn eu wneud, ac nad wyt yn diſgwil ond êf yn dalwr.

Yn 3. Os gwnei *yn y dirgel* rhwng Duw a'th enaid, *cyſtal ac yn yr amlwg*, mewn Eglwyſi mewn Dadleudai, a Marchnadleoedd, dyna dyſtiolaeth ddâ ſôd dy amcanion yn llawn goneſtrwydd a phurdeb. Canys chwedl *Elkanah* wrth ſam *Samuel*, *Onid wyſi'n well i ti na deg o feibion?* ſy wiriach am Dduw, ſef onid yw'n Barnwr mawr yn well i ni na dengmil o dyſtion? A chwennycho gyhoeddi ei rinwedd, nid rhinwedd y chwennychei ond clôd. Nid cyſion ond a ſo cyſiawn heb glôd; eithr hwnnw yw'r cyſion a wnêl gyſiawnder pan ſo hynny yn wradwyddus gan y byd; a hwnnw yw'r ſynhwyrol a ſo bodlon ganddo Enw drŵg a enniller yn ddâ. Ac yn wîr rhyſeddol o Gybydd neu ffŵl yw'r dŷn na bô'n abl ganddo'i wobr *ddarſod iddo ſodloni Duw.* Ac edrych bêth a ennill ef wrth hynny. Y dŷn a wnêl weithredoedd dâ er clôd neu ryw ddibennion bydol, mae e'n gwerthu'r Tlŵs gwerthfawroccaf am oferbeth, gan ymadel â'r pêth a allei bwrcaſu'r Nêf iddo, am anadl y bobl yr hwn nid yw ond awel, a honno'n afiachus hefyd gan fynychaf.

Yn 4. Argoel ddâ yw, o byddi heb ofidio ac ymofalu bêth a ddaw o'th weithredoedd, ond *gadel y digwyddiad ar Dduw*, wedi ei orchymmyn iddo ef yn gyntaf mewn Gweddi; canys mae gwobr i ti am dy *ſwriad* os bydd e'n *bûr* ac yn *ſanctaidd*, er na ffynno mo'r weithred, a thebyccaf ôll fod dy feddylfryd di yn ddâ po dibriſiaf a fych di o'r digwyddiad.

Yn 5. A garo Dduw a daioni er eu mwyn eu hunain, ſe a *gâr* ac a *bercha Rinwedd pa lê bynnac a gwelo hi*, yn lle digio a chenfigennu wrth rinwedd a godidowgrwydd ei Gymydog. Tro bonheddigaidd ar *Foſes* oedd ddymuno bod yr hôll bobl yn *brophwydi*; ond pedfaſei ei fryd êf ar ei anrhydedd ei hun, gwell fuaſei ganddo *brophwydo'r* cwbl ei hun. Y gŵr ni bo'n ceiſio

ond

ond mynd o waith Duw ymlaen, a fydd llawen trwy ba foddion neu arfeu bynnac yr êl.

Yn 6. A *ddibriſio'r byd a'r hôll wagedd ſy ynghenglyn wrtho*, hwnnw yw'r Barnwr goreu a ſiccraf o'i fwriadau, canys ef a ſai bellaf oddi wrth niwl Temtaſiwn. Mae pôb grâdd o *Farwhâd* yn dyſtiolaeth o burdeb y galon: a gwêl ym mhâ raddeu y dirmygech di ddyfyrrwch ac anrhydedd bydol, yn yr unrhyw raddau bwrw fôd *dy galon yn union* tu ac at Grefydd ac Amcanion yſprydol.

Yn 7. Pan na fŷch di *yn fwythus yn dewis Moddion ac Arfeu dy waith*, ond ymroi'n ufudd i arferu y rhai a cſododd Duw o'th flaen, mae'n argoel ddâ fôd dy frŷd ti yn ddwyſach ar Ogoniant Duw nac ar dy fodd a'th gyfleuſdra dy hun. Y nêb ſy ddifatter pa un ai mewn cyfoeth ai mewn tlodi y gwaſanaetho Dduw, Duw y mae hwnnw yn ei geiſio nid ef ei hunan.

Yn 8. Pan fô rhyw bwrpas *bydol* yn gyſſon ac megis yn waſanaethgar i bwrpas *yſprydol*, a digwydd i'r bydol fethu, o medri di er hynny fod yn llawen tra bô'r diben yſprydol o ogoniant Duw yn mynd ymlaen, argoel fawr yw hyn o uniondeb y meddwl a'r bwriadau.

Pan fo'r bwriadau fel hyn wedi eu doſparthu a'u hiawn gyfeirio craffwn ar *drî phêth.*

Yn 1. Fod *Meddylfryd pûr* mor hollawl ei rym trwy'r hôll fuchedd ddâ ac yw'r Enaid trwy'r hôll Gorph, ac yn rheitiaf pêth wrtho ym mhôb gweithred a gychwynner, ac fe a ddichon ei hun droi pôb gweithred naturiol a di-ddrwg di-ddâ i fôd yn Grefyddol.

Yn 2. Fôd rhai gweithredoedd arferol o gael eu cyfrif yn rhanneu o Grefydd, etto o honynt eu hunain y maent mor oer-bell ac ammherffaith nad oes ond *bwriad dâ* a'u ceidw heb ddirywio. Felly bwriad Eluſen yw Cariad, ac Ympryd ſy er mwyn Cymhedroldeb, Gweddi er mwyn Duwioldeb y mae, Ymddaroſtyngiad er mwyn Iſel-fryd, Caledrwydd a

garwder er mwyn gweithio'r Grâs o ammynedd; a phan fo'r gweithredoedd hyn yn lledcam neu'n fyrr o'u hamryw ddibennion priod ni bydd yr Eluſen ond ofer-draul, na'r Ympryd ond gwâg ſorriant, ni bydd Gweddi ond gweniaith, nac Ymddaroſtyngiad ond rhagrith, na Chaledrwydd corphorol ddim ond blinder anfuddiol. Yn y rhai'n ôll ni roir i Dduw ond corph a rhîth Crefydd, ond mae Enaid a grym Duwioldeb yn llŵyr ddiffygiol.

Yn 3. Rhaid i ni wybod *na ddichon y Bwriad goreu ſanctteiddio gweithred ddrŵg. Saul* Frenhin a dorrodd orchymyn Duw wrth arbed anifeiliaid *Amalec* ar fedr cadw'r braſaf at yr Aberth. A *Saul y Phariſæad* oedd yn bwriadu gogoniant Duw wrth erlid Eglwys Dduw. A'r rhai a laddaſant yr Apoſtolion oeddynt yn bwriadu'n *ddâ*, etto'n gwneuthur *yn ddrŵg ddigon.* Pan fo *gwirionedd* wrth ddewis, a *phurdeb* wrth fwriadu, pan eler at Dduw hyd y ffyrdd a ddewiſodd ef ei hun, yna mae'r dwylo'n lân, y llygad yn ſyml, a'r galon yn bûr; ond y ſawl a wnêl *ddrŵg fel y dêl daioni*, neu ddâ i bwrpas drŵg, mae e'n debyg i un a ymdroe mewn drain i gael cyſcu yn eſmwyth, neu a droe ei wyneb i'r dwyrain i gael cyd-gerdded â'r Haul.

DOSP. III.

Y trydydd Erſyn cyffredinol at Fuchedd Sanctaidd, Ymarfer â Phreſennoldeb Duw.

BOd Duw yn breſennol ym mhôb lleoedd, yn gweled pôb gweithredoedd, yn clywed pôb ymddiddanion, ac yn gwybod pôb meddwl, nid yw hyn newydd yn y bŷd i Griſtion, canys efe a ddyſcodd hyn nid yn unic gan ei reſwm a chydſyniad pawb ſynhwyrol yn unfryd, ond hefyd gan Dduw ei hun yn y Scrythyr lân. *Ai Duw o agos ydwyfi medd yr Arglwydd, ac nid Duw o bell? a leehu yn mewn dirgel leoedd,*

fel

fel nas gwelwyſi ef medd yr Arglwydd? (*Jer.* 23. 23, 24.) *Onid wyſi yn llenwi y Neſoedd a'r Ddaiar? Ac nid oes greadur an-amlwg yn ei olwg ef, eithr pôb pêth ſy yn noeth ac yn agored iw lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn ſôn*; [*Heb.* 4. 13.] *Canys ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn ſymmud ac yn bôd.* [*Act.* 17. 28.] Mae Duw yn gwbl ym mhôb lle, ni's cynhwyſir ef yn unlle, ni's delir ef â rhaffau [oddieithr rheſtynnau cariad] ni's gwahenir êf yn rhannau, ac ni's troir ef i amryw luniau; mae Ef yn llenwi Nêf a Daiar â'i Allu cydrychiol, ac a'i Natur fyth-breſennol. Mae S. *Awſtin* yn bwrw ſôd Duw megis yr Awyr a'r Môr, a ninnau ynddo Ef wedi ein cau yn arffed ei Anfeidrol naturiaeth Ef, neu megis plant yn nghrôth eu Mammeu beichiogion, ac ni allwn fynd o'i ŵydd Ef mwy nac allan o'n hanfod ein hunain.

Amryw ſoddion o breſennoldeb Duw.

Gallwn ddirnad Preſennoldeb Duw mewn amryw ſoddion, ac i amryw ddibennion.

Yn 1. Mae Duw yn breſennol *yn ei Natur â'i Hanfod* yr hwn ſy'n anfeſurol, fel nad oes na lle na therfyneu a ddichon ei gynnwys na'i amgyffred Ef; ac am ſôd Duw yn *Hanfod bûr*, o natur yſprydol, nid yw ddim ammarch iddo ſôd yn breſennol yng-hîlfacheu'r aflendid ffieiddiaf: Canys fel y tywynna'r Haul ar draeth-bylleu a thomennydd heb ddiwyno mo'i belydr; felly ni ddi-freinir Duw ychwaith wrth ſôd ym mhôb un o'i Greaduriaid, ac ym mhôb rhann o bôb un o honynt, ac etto dim o'u hammuredd ni lŷn wrtho Ef mwy nac o ſudreddi'r perſeddion wrth yr Enaid.

Yn 2. Mae Duw yn ei *Allu* yn breſennol ym mhôb mann. *Efe* ſydd a'i law yn treiglo Troellennau'r Neſoedd, ac â'i droed yn attregu'r ddaiar. *Efe ſy'n* tywys ei hôll Greaduriaid â'i lygad, ac yn eu llonni

â'i rinwedd. *Eſe* ſy'n yſcyttian ac yn dychrynu Galluoedd Uffern, *Eſe* ſy'n cadwyno'r Cythreuliaid â'i air, ac yn eu bwrw hwynt allan â'i orchymmyn, ac yn danfon yr Angylion ar negeſeu ei 'wyllys ef. *Eſe* ſy'n caledu cymmaleu rhai bâch wrth eu cywreinio'n ddirgel iſod yn y grôth. *Eſe* ſy'n bywhau'r clâdd gan luoſogi heppil y Pyſcod, ac nid oes gilfach yn ngwaelod y Môr nad yw e'n ei ddangos ei hun yn Arglwydd arni wrth roi cynhaliaeth i'r creaduriaid a ddêl i aros ynddi. Os ynteu yn yr Anialwch, yno mae'r Crŷr a'r Ciconia, y Ddraig a'r Satyr, yr Unicorn a'r Elc yn byw ar ei Arlwyaeth *Ef*, yn perchi ei Fawredd, ac yn deimladwy o'i Holl-alluogrwydd *Ef*.

Yn 3. Mae Duw yn enwediccach yn breſennol mewn rhai mannau, trwy amryw a *hyſpyſach amlygiad* o hono'i hun i ddibennion rhyfedd. *Yn* 1. yn ei *Ogoniant*, felly yn y Nêf y mae ei eiſteddfod Ef, canys yno y mae e'n eiſtedd yn nghanol diſcleirdeb ei Ogoniant gan ymddangos ac ymagoryd i Drigolion y dirgel Gynteddoedd eithaf hynny. Dâ ynteu y dywedir am y ſawl *ſy yn marw yn yr Arglwydd* eu bôd yn myned at Dduw, er eu bôd hwy gydâg ef o'r blaen, etto yr awron y maent yn cael myned iw Gynteddoedd ef, i ddirgelwch ei babell, i Lŷs ardderchog ei dra-diſcleiriaf Ogoniant ef. Nid ydys ymaond *rhodio gydâ Duw*, eithr hyn yw *arcs a bôd gydâg ef*. *Yr wyſi'n chwennych cael ſy nattod a bôd gydâ Chriſt* ebr S *Paul*. Ond y môdd hwn o breſennoldeb Duw a gedwir iw Etholedigion êf yn groeſaw iddynt yn eu Gwlâd gartrefol.

Yn 4. Mae Duw yn ei *Râs* a'i *ffafr* yn breſennol bendifaddeu mewn lleoedd duwiol, ac *yn nghynnulleidfaoedd ſanctaidd ei weiſion*. Pan ddêl Erlid neu ryw achos gyffredin i gau'r Eglwyſi, ac i luddias y cyfleuſdra a'r dreſn arferedic o Waſanaeth, od ymgyferfydd y ffyddloniaid mewn ceudyllau ac Ogofeydd y ddaiar,

ni

i phalla Duw ddyfod yno iw plîth; a thrwy'r un, trwy well rheſwm y mae Duw yn breſennol yn y *Lleoedd goſodedic* i ymgynnull trwy gyffredin Awdurlod, ynò y mae Duw ynteu *yn gyffredin* yn breſennol, ſef ym mhôb cyfryw gyfarfod. Yn ſiccr ſe a ddaw Duw tros y ffordd i gyfarfod â'i Seinctiau pan fò angenrhaid tôſt yn eu cymmell hwytheu tros y ffordd. Ond amſer arall, ffordd arferol Duw yw bôd yn breſennol yn y Llanneu cyſſegredic iw weiſion ymgynnull yn gyffredin ynddynt. Ond nid yw ei breſennoldeb ef yno yn arwyddoccâu dim ond ei barodrwydd *Ef* i wrando ein gweddiau, i dderbyn ein gwaſanaeth, i fendithio'n dynion, ac i ymfodloni yn yr Arfer o drefnus ymgyfarfod cyhoedd.

Yn 5. Mae Duw yn bendifaddeu yn breſennol *yn nghalonneu ei weiſion* trwy ei *Yſpryd glân.* A diau fôd calonnau'r ffyddloniaid yn wîr Demlau, ac yn rhîth o'r Nêf ei hun. Canys llywodraethâ Duw yn nghalon eu bobl, dyna ei *Deyrnas* ef. Nerth ei Râs ynddi a orchfygodd ei hôll Elynion, dyna'i *Allu Ef.* Hwytheu a'i gwaſanaethant *Ef* ddydd a nôs â Mawl ac â Diolchgarwch, ac dyna'i *Ogoniant* ef. Wel'dyma *Greſydd* ac addoli Duw yn y Deml. Y Deml yw *calon* dyn â *Chriſt* yw'r Archoffeiriad, ſy'n mygdarthu o honi bêr-arogleu Gweddiau, gan eu cyſſylltu wrth ei Gyfrvngdod ei hun, a chyd-breſentio'r cwbl iw Dâd; a'r Yſpryd glân ynteu yn ei chyſſegru hi yn Deml i Dduw trwy aros ynddi: ac felly y mae'r Tâd trwy ffydd, Chriſt trwy ei Yſpryd, a'r Yſpryd trwy ei burdeb yn preſwylio yn y galon; hyd onid yw'r Dyn yn dryſorfa i'r ddirgeledic Drindod; a phêth yw hyn fyrr o'r Nêf ond fel y mae plentyn yn fyrr o wîr, neu lythyrennau yn fyrr o eiriau. Yr un bywyd yw, ond nad yr un oedran. Dyma'r Nêf mewn drŷch [ſy'n odywyll ond yn bûr gywir] yn dangos glân gynneddfau'r Enaid, â Graſau a delweu ei dra-

gywyddol

gwyddol Ogoniant *Ef* yn wîr breſennol ynddo.

Yn 6. Mae Duw yn bendifaddeu'n breſennol yn *nghydwybod* pôb rhyw ddŷn yn Dyſt ac *yn Farnwr*, hynny yw mae ef yno'n Gofiadur i adcoffa'n gweithredoedd ni, ac yn dŷſt iw dwyn oll i'r Farn, ac yn Farnwr *i gadw* neu *i ſarw*. Ac er bôd y môdd hwn o'i breſennoldeb ef yn amherffaith yn y fuchedd hon, â'n cydwybodeu ni yn ebargofi llawer o'n gweithredoedd; etto mae'r Troieu *mwyaſ* yn ein buchedd o râs neu o bechod yn waſtad ger ein bron, fel y Prîſlyth'rennau i olwg cibddall. Hefyd ar ddydd-farn Duw a dynn y cwmmwl heibio, ac a hyſpyſa'r môdd hwn o'i breſennoldeb yn amlyccach, ac yna y pair ef i ni wybod ei fôd e'n gwarchad hyd yn oed ein meddyliau, a bôd yn nghadw ganddo *Ef* yr hôll betheu a gladdeſid mewn angof, fel gan ein llŵch a'n eſceuluſdra ni nad ellid mo'u dirnad. Ond yna pan gyfodom o'n llŵch a'n ammherffeithrwydd, hwythau ôll a ymddangoſant yn dra amlwg a diſclair.

Yſtyried y Gwirionedd mawr hwn a wnâ lês cyffredinol trwy hôll Fuchedd y Criſtion. *Cyffredinol* yw hôll olion a grym yr yſtyriaeth hon. Canys od yſtyria dyn fôd Duw yn ſefyll yn dŷſt ac yn Farnwr yn gweled pôb dirgelwch, onid ettyl hyn lawer arno rhag pechu, mae ef gydâ bôd yn ddi-râs yn ddi-gywilydd hefyd. Dibris aruthr o Dduw yw'r gŵr a yrr fachgen o'r golwg tra byddo yn gwneud godineb, ac ni thyrr ar ei bwrpas er gwybod fôd etto Dduw yn y golwg na fynn mo'i yrru allan; fel petteſ lygad bachgennyn yn barchediccach na Llygad yr Holl-wybodol Dduw. *Eſe, eſe* ſydd iw ofni yn y dirgel, *eſe* ſydd iw arſwydo yn yr amlwg. Os allan yr ei *eſe* a'th wêl, os i mewn *eſe* a'th genfydd, pan oleuech y ganwyll mae e'n dal ſulw, a phan ddiffoddech hi mae Duw'r un môdd yn craffu arnat. Bydd ditheu ſiccr tra bŷch yn ei olwg ef o ymddwyn

fel

ſel y gweddei i Breſennoldeb mor ſanctaidd. Ond os nynnit bechu a bôd yn ddi-berygl chwilia'n lew am ywle na welo Duw monot. Diammeu ped yſtyrid a phe iawn ymdeimlid â'r Gwirionedd yma, ſef, mai *llygad* mawr y bŷd yw Duw yn craffu yn ddiball ar in hôll weithredoedd, a *Chlùſt* fyth-agored i wrando in hôll eiriau, a *Braich* fyth-eſtynnedic i lethu'r pechadur i ddeſtryw. Dwys yſtyried hyn fyddei'r ffordd neſaf i annos pechod o blîth Meibion dynion, ac i'n dwyn ni neſnes at gyflwr gwynfydedic y Seinctieu nefol y rhai ni's gallant bechu am eu bôl yn ngŵydd ac yn ngolwg Duw yn dragywydd.

Cymmhwyſer yr *Erfyn* hwn at ein Ymarfer ni â'r *Rheolau* hyn.

Rheolau i ymarfer â phreſennoldeb Duw.

Yn 1. Adcofia'n fynych y meddwl gweithredol hwn, ſef Bôd Duw yn Holl-breſennol yn llenwi pôb mann, a dywed gydâ *Daſydd, Iba le yr âf rhag dy Yſpryd, ac i ba le y ffoaf o'th wŷdd? Os dringaf i'r Nef yno'r wyti, os deſcynnaf i Uffern wele di yno.* Mynych gnoi dy gîl ar y myfyrdod hwn a bair i ti gynnefindra o arſwyd a pharch tu ac at Ddiw, ac Ofn yn dy hôll weithredoedd, canys bydd arnat angenrhaid a rhwym tra-chadarn i wneuthur yn ddifeius, os gweli dy fôd yn gweithredu ger bron Uſtus di-ſiommedic yn ei Farn, Holl-wybodôl yn ei Dyſtiolaeth, Galluog yn ei Ragluniaeth, tôſt yn ei ddîg, ac anoddef yn ei Lîd a'i Gynddaredd.

Yn 2. Wrth ddechreu pôb gorchwyl duwiol gwna *weithred o Addoliad purpaſol* i Dduw, ac ymoſod yn ei wydd *Ef* gan graffu arno â llygad ffydd, a chyfeiried a gorphwyſed dy hôll ddeiſyfiadau arno *Ef* megis Gwrthddrych dy Addoliant, Sylfaen dy Obaith, a Ffynnon dy Fendith. Canys wedi i ti ymoſtwng ac ymoſod yn ei ŵydd *Ef*, tebyg iawn y bydd y rhann

arall

arall o'th ddyſoſiwn yn gyfattebol i'r cyfryw ſynhwyrol deimlad o Breſennoldeb mor ogoneddus.

Yn 3. Ym mhôb pêth a welo dy *Lygad* canfydded dy *Enaid* Allu a Mawredd Duw yn breſennol ynddo, fel y tywyſo'r *creaduriaid* tydi at y *Creawdr*, canys felly bydd dy weithredoedd yn fynychach tan weithredol deimlad o breſennoldeb Duw, wrth i ti ei fynych ganfod *Ef* yn Nrych y Creaduriaid. Yn wyneb yr Haul gwêl brydferthwch Duw; yn y Tân teimla ei wrês *Ef* yn dy gynheſu. *Efe* ſy yn y dwfr i'th oeri a'th gomfforddio, *Efe* ſy'n y Gwîn yn adfywio dy galon: Ond gwlîth y Nêf a bair i'th feuſydd ddwyn i ti *fara*, ac o fronneu Duw yr wyt yn cael dy hôll *ddiod* wrth dy raid. Mae'r wybodaeth yma, er ainlyced yw i brawf pôb rhyw ddyn, yn fantais odiaeth i'n duwioldeb ni, o blegid tra bo hon yn y *Dealltwriaeth* ni ddaw dim trawſder na chamwedd i'r *Ewyllys*.

Yn 4. Pan fych o'r neilltu *mynych ymddiddan* ar fyrr chwedlau *rhwng Duw a'th enaid* dy hun. *Seithwaith yn y dydd i'th glodforaf, y nôs hefyd y meddyliais am danat pan ddeffrown o'm cwſc*, felly y gwnai *Dafydd*; a phôb cyfryw waith o Gwynfan neu Ddiolch, pôb ochenaid o lawenydd neu o brudd-der, pôb holi ac ymatteb o'r galon yn yr ymddiddanion hyn nid yw lai na mynd at Dduw, ac ymddangos yn ei wŷdd *Ef*, a'i ddangos *ef* yn breſennol i'th enaid a'th angenrheidieu ditheu. A hyn chwedl Gŵr duwiol gynt yw Adeiladu i Dduw *Gappel yn y galon*. Hyn a gyd-gyſſyllta drafferth *Martha* â duwioldeb *Mair*, hyn a una Gariad â Chrefydd, hyn a gymoda'n Galwedigaeth fydol â'n Dyfoſiwn yſprydol. O blegid fel hyn ti elli ar ganol gorchwylion dy Grefft redeg i'r *Cappel* [ſef dy galon] ac yno ymgynghori ac ymgyfeillach â Duw.

Yn 5. Cynhyrcha i Dduw *anrheg o Gariad ac Ofn*, canys dyna briod ddiben yr Ymdeimlad hwn, dyna wîr Ymarfer yr yſtyriaeth hon. Canys fel y mae

Dyna

Duw yn breſennol ym mhôb mann *yn ei Allu* mae
'n diſgwil dy dduwiol a'th barchedig *ofn*, eithr fel y
nae e'n breſennol i ti wrth dy anghenion iw diwallu
hae e'n gofyn *dy Gariad*. Ynteu gan fôd ym mhôb
rô o'n henioes un ai *Daioni* ai *Gallu* Duw yn ym-
idangos, a'r ddau gan fynychaf, cymheſur a gweddol
ydnabod oedd i ninneu ar bôb cyfryw lygedyn
/ ymddangoſiad Duw *addoli ei Ddaioni*, neu *grynu*
hag ei *Allu* ef. Gan ufuddhau iddo byth am ein bôd
n ei *garu* ac byth am ein bôd yn ei *ofni*. Dyna fel
gwnaeth *Enoch* yr hwn a rodiodd gyd â Duw.

Yn 6. Cofia fôd Duw *ynot ti*, a thitheu ynddo yn-
ef; ei waith *Ef* ydwyt nac anffurfia mono, ger ei
fron ſanctaidd *Ef* yr wyt, na ddi-ſancteiddia moni
rwy weithredoedd brwnt anweddus. *Duw* hefyd *a*
weithiodd dy hôll *weithredoedd* ynot; a chan ei fôd e'n
gorfoleddu yn ei weithredoedd ei hun, os diwyni
hwy, a'u gwneud yn anfelus iddo, dyna di'n rhodio'n
gyrgam gyd â Duw, yntef a rodia'n *groes* tu ac attat
itheu.

Yn 7. Mae Duw yn *ymyſcaroedd dy frawd*, llonna
ef pan fo eiſieu arno, ac felly ti a roi dy Eluſen yn
ngwŷdd Duw, ac i Dduw, ac *Efe* a glyw y gwellhâd
a eſtynnaiſt ti i'th frawd.

Yn 8. Mae Duw *ym mhôb rhyw greadur*, na fydd
itheu greulon wrth yr un, ac na chamarfer yr un yn
anghymedrol. Cofia mai rhai o locheſydd lleiaf yr
Arglwydd a'i gelloedd *Ef* yw ei Greaduriaid, ie a
phôb aelod o'th gorph dy hun.

Yn 9. Hwnnw ſy'n rhodio megis yngwŷdd ac ym
mhreſenoldeb Duw, a fynych ymgyfeillacho âg *ef*
mewn *Gweddi*, ac aml *Gymmun*, a redo at Dduw yn
ei hôll *anghenion*, a ymgynghoro âg *ef* ym mhôb *er-*
fyngder, a egoro iddo *ef* ei hôll *ddiffygion*, a wylo
wrtho *ef* dros ei *bechodau*, a ymbilio arno *ef* am help a
chymmorth iw *wendid*, y dyn a'i hofno *ef* megis ei

Fatwr,

Farnwr, a'i parcho megis ei Arglwydd, a ufuddhâ iddo megis Tâd, ac a'i caro megis ei Noddwr.

Cymmwynaſau'r ymarfer hwn.

Cymmwynaſau'r yſtyriaeth â'r ymarfer hwn ydynt *gyffredinol* ar hôll rannau Duwioldeb, fel nad rhaid ond lla: o hyſpyſu dim *neilltuol*: etto'n briodolaf ôll mae'r ymarfer hwn o yſtyried preſennoldeb Duw,

Yn 1. Yn *help* godidoc *i weddi*, gan godi ynom iâ o arſwyd a pharch i Ddwyfawl Fawrhydi Duw, ac o wîr ddyfoſiwn gweithredol.

Yn 2. Fe a'n gwnâ ni *yn hyderus tu ac at Ddduw* ac yn ddi-arſwyd o'n gelynion, yn ammyneddgar tan gyſtudd, ac yn obeithlawn am ymwared, gan fôd Duw *cyn nesed* yn ein hôll flinderau ni, *Efe* ſy'n trefnu calonneu dynion, ac yn rheoli pôb digwyddiadau; *Efe* ſy'n meſur ein profedigaethau ac yn cyfrannu'r ymwared; a lle bo ei *mialen* ef yn taro bydd ei *ffonn* ef yn ein cynnal. Chwanegwn at hyn ôll, fôd Duw [âg ynteu gydâ ni bôb amſer] yn enwediccach *nawn addewid gyd â ni mewn cyſtudd*, i droi'r gynddaredd yn drugaredd, ac i droi'r blinder mwyaf yn fantais i ni, ac i'n hurddo â *môdd newydd* o'i nefol breſennoldeb Ef.

Yn 3. Bydd hôff gan yr Ymarfer hwn weithiau ynom *Lawenydd* a *Gorfoledd tu ac at Ddduw*, gan fôd yn gnawd i ni ymddigrifo yn ein cymdeithion daiarol ac mae pôb grâdd o *gyd-gyfeillach* yn gwlwm newydd o *anwyldra*: Yr ŷm ninnau yn *Gyd-tylwyth* â Duw, y mae *Ef* gyd â ni yn ein Gorchwylion naturiol i'n cadw, yn ein dyfyrrwch i'n hattal, yn ein gweithredoedd cyhoedd i'n cannol neu i'n ceryddu, yn y dirgel i farcio arnom, yn ein cŵſc i'n gwarchad, yn ein heffro i'n llonni, a phe rhodiem ni gyd â Duw yn ein hôll ffyrdd *ef* fel y rhodia *ef* gŷd â ni yn ein hôll ffyrdd ni a welem achos gwaſtadol fel y pair Duw i *baronhâu*

yn

yn yr Arglwydd, a *thracheſn meddaf i lawenhâu*. A hyn a gofiodd i mi ymadrodd rhyw hên Sanct [Un ffordd i orchfygu ein gelynion yſprydol yw *llawenydd yſprydol* a chadw Duw yn ein meddyliau yn waſtadol.] Mae hyn yn abl er gwrthwynebu Diawl a'n cadw ni yn ddifriw oddiwrtho.

Yn 4. Hôff gan yr ymarfer hwn gynneu ynom *ſanctaidd awyddſryd i ſwynhau Duw*, am ei fôd e'n peri llawenydd pan fôm yn ei fwynhau ef, yr un hiraeth ac a fydd ar y Gwann am ei Noddwr, ar y Clâf am Phyſygwr, ar y Tlawd am Geidwad, ar Blentyn am ei Dâd, neu ar y Briod-ferch am ei Chariad.

Yn 5. O'r ymarfer hwn hefyd y daw *Goſtyngeiddrwydd* calon, teimlad o'n gwaelder, o'n anghenion a'n gofynion beunyddiol ni, ac attebion gwaſtadol Duw, ac addoli ei anhydraeth drugareddau ef. Hwn a bair *wylder* mawr a *gweddeidd-dra* yn ein hôll weithredoedd, a ettyl nŵyſc *meddyliau gwib-grwydrus*, a gadarnhâ'r galon mewn bwriadau dâ, ac a dywys tu ac at *ddyſalbarhâd* ac at *Burdeb* a *Pherffeithrwydd*; chwedl Duw wrth *Abraham*, *Rhodia ger fy mron i a bydd berffaith*. Hwn hefyd a bair *Ofn ſanctaidd* a *Chariad ſanctaidd*, ac yn wîr pôb pêth a berthyn i Fuchedd *ſanctaidd*. Pan ganfyddom, pan gydnabyddom ein bôd wedi'n goſod ger bron Duw, ac ar waith iddo *ef*, ac ymeu'n Dalwr tra helaeth, ni a ffieiddiwn ei waſanaethu *ſ. â llygad waſanaeth*; canys *efe* a wêl y galon hefyd. Ac giſieu'r yſtyriaeth hon a ddatcenir yn achos o doſtur bechodau Iſrael, [*O herwydd dywedant gwrthodaſ yr Arglwydd y ddaiar, ac nid yw'r Arglwydd yn gweled. Am hynny llawn yw'r Tîr o waed, a llanwyd y ddinas o gam-wedd.*] [*Ez.* 9. 9. *Pſal.* 10. 11.] Yr hyn a wnai Dienyn yn ngolwg ei Dâd, ac Yſcolhaig ger bron ei Athro, a Gwraig yn ngŵydd ei Gŵr, a Gwâs tan lygad ei Feiſtr, gwnawn ninneu'r un môdd, *Canys gwnaethpwyd ni yn ddrychau i Ddaw i Angylion ac i Ddynion*; ac yr

ym

m ni bôb amſer yn ngolwg yr Holl-wybodol a'r Holl-alluog Dduw, yr hwn ſy hefyd i ni yn *Dâd* ac yn *Olygwr*, yn *Wr* ac yn *Arglwydd*.

Gweddiau o ddyſoſiwn purpaſol i ddibennion a Duwiolder yr yſtyriaethau o'r blaen.

Am Râs i wneud y goreu o'n Hamſer.

O Dragywyddol Dduw yr hwn wyt cyn pôb Tragywyddoldeb yn ymhyfrydu yn dy anfeidrol Ogoniant a'th Berffeithrwydd dy hun, ac a'm creaiſt inneu i wneuthur gwaith Duw yn ôl dull dyn, ac i'th waſanaethu di yn y Genhedlaeth hon yn ôl fy ngallu; dyro i mi dy râs i fôd yn *ddichlyn* ac yn *fanul* o'm *hamſer*, fel y bo hawſaf i mi rwyſtro neu wrthladd pôb profedigaeth, a bôd yn lleſol i'm Cyd-Griſtianogion, a thrwy gwblhau fy hôll ddyledſwydd ogoneddu dy ſanctaidd Enw. Tynn oddi wrthif bôb *ofogi*, a dyro i mi *yſpryd bywiol* dieſcetulus, a *ſynhwyr* i *ddeall* fy ngwaſanaeth, môdd y gwnelwyf waith wyddol i'm cyffelyb a chyfattebol i fraint Criſtion, a *chenwi* pôb ſeibiant o'm hamſer â gweithredoedd o *ddiwioldeb* a Chariad; fel pan oſodo Diawl arnaf *ei* daho'n ſegur, ac fel y bo i mi Hanglwydd anſaf ar ei fydyn ddyſodiad fy nghael i yn ddiwyd cyfreithlon, angenrheidiol a duwiol orchwylion. Felly yn hwſmonaetha fy Nhalent a dderbyniais *gennyf*, fy Nuw, fel yr elwyf i mewn i lawenydd fy *Arglwydd*, i gyfrannu o'i dragywyddol wynfyd ef, *ar ol* y drugaredd di er mwyn fy anwylaf Iachawdr. *Amen.*

Yma y canlyn y Dyſoſiwn ar ddyddiau cyffredin, er deall drwdio y rhanneu hynny o'n hamſer ſydd o bôb dawnus yn ddyledus i Grefydd.

Trachwant a harchus ac yn oſtyngedig, gan ddeall

dy galon at Dduw, a goſtwng dy ben, a phlygu'n iſ[el]
dy liniau a dywed weddi'r Arglwydd, ac wedi hyny
arfery Gweddiau hyn ſy'n canlyn, neu gynniſer o honyn
ac a ddewiſech.

GWEDDIAU BOREUOL.

Ein Tâd yr hwn wyt &c.

I.

Gwaſanaeth o Addoliant, *hon yw Cân yr Angylion*
yn y Nef.

Anct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Holl-alluog,
yr hwn ſydd, yr hwn oedd a'r hwn ſydd i ddyfod-
ſt a Daiar, Angylion a Dynion, yr Awyr a'r Mor a
adſeimia Ogoniant, ac Anrhydedd a Diolch i'r hwn
n eiſtedd ar yr Orſeddfainc, yr hwn ſydd yn byw
oeſoedd. Yr holl Yſprydion bendigedic ac En-
ieu'r Cyſlawn a ſwriant eu Coronau ger bron
ſeddfainc, gan addoli'r hwn ſy'n byw'n di-
wydd. Teilwng wyt Ti O Arglwydd, i dder-
goniant ac Anrhydedd, a Gallu; canys ti a gr-
o pêth, ac o herwydd dy 'wyllys di y maent a
wyd hwynt. Mawr a rhyfedd yw dy weith-
d, O Arglwydd Dduw Holl-alluog; Cyfi-
wir yw dy ffyrdd di Brenin y Sainct. Dy D-
neb ſydd anſeidrol, dy Drugareddau yn ann-
ninnau nid wyf derlwng i ymddangos
Angylion yn cuddio eu hwynebau
Sanctaidd a Thragywyddol *Jeſu*, C-
n a laddwyd er dechreuad y byd, Ty-
prynaiſt i Dduw o bôb cenhedl ac a-
'n Duw yn Frenhinoedd ac yn O-
deyrnaſwn gyd â Thi yn oes oeſoed-
ydd. Cogoniant a Gallu ſy-

n enteud ar yr Orſeddfainc ac i'r Oen bŷth byth oedd. *Amen.*

II.

Gwaſanaeth o Ddiolchgarwch *am y Boreu, ſef,* Cân Dafydd.

CEnwch fawl i'r Arglwydd chwi ei Sainct e a diolchwch iddo er coffadwriaeth o'i ſanctei rwydd, canys ei ddigofaint ni phery ond tros funu awr, yn ei fodlonrhwydd y mae'r bywyd: ni phery triſtwch ond tros nôs, ond y boreu y bydd gorfoledd Ti Arglwydd am cedwaiſt i neithiwyr rhag niwei yſprydion y tywyllwch, rhag pôb anhap a damwei nieu drŵg, rhag y digofaint a haeddais i bôb dydd Ti a ddygaiſt fy enaid o Uffern, ac a gedwaiſt fy enioes rhag y rhai a ddeſcynnant i'r pwll: Ti a dda ngoſaiſt i mi fawr ryfedd Garedigrwydd, ac am ben dithiaiſt i yn dragywydd. Mawredd dy ogoniont a gyrraedd hyd y Nefoedd a'th Wirionedd hyd y cwm mylau. Am hynny y cân pôb gŵr dâ i Ti foliant gwaſtadol, O fy Nuw, minneu a'th fendithiaf di yn dragywydd. *Aleluja.*

III.

Gwaſanaeth i'n Hoffrwm *a'n* Cyflwyno'n *hunain i Ddaw tros y dwthwn.*

YAnſteiddiaf Dduw Tragywyddol, Goruchaf Ar glwydd yr hôll greaduriaid, Myfi yn oſtyngedi breſentiaf i'th Dduwiol Fawredd fy hunan, fy enai'n corph, fy meddylieu a'm geirieu, fy ngweithoedd a'm bwriadeu, fy ngwyniau a'm diodde dau, iw trefnu i'th ogoniant, iw bendithio â'th lafuriaeth, iw cyfarwyddo â'th Gyngor, iw ſanctei dio [illegible] Yſpryd, megis yn ôl hyn y derbynier fy [illegible] ogoniant: Canys ni chyfrgollir dim a fo [illegible] gadwraeth di, ac ni all Gelyn yr eneidieu, [illegible] lyngcu

lyngcu mo'th rann di, na'i dwyn o'th law. Y dydd hwn O Arglwydd, a hôll ddyddieu fy enioes mi a'i cyſſegraf i'th ogoniant, a gorchwylion fy Ngalwedigaeth i waſanaeth grâs, a Chrefydd fy hôll ddyddiau iw huno at Deilyngdod a Chyfryngdod fy ſanctaidd Iachawdwr *Jeſu*, i gael ynddo ef ac erddo ef faddeuant a chymmeriad. *Amen.*

IV.

Gwaſanaeth o Edifeirwch *a* Chyſtudd calon.

O Blegid o'm rhann i nid wyfi deilwng i'm galw yn *wâs* i ti chwaethach yn *Fâb*, canys y gwaelaf o bechaduriaid ar gwaethaf o ddynion wyfi, hoffais betheu'r bŷd a dirmygais betheu Duw [*yn falch ac yn genſigenus, yn drythyll ac yn anghymedrol &c.*] yn awchus i bechod ac yn anoddefus o gerydd, yn chwennych *ymddangos* ond yn ddifraw am *fôd* yn ſanctaidd, yn ynfyd gan ryfyg a drŵg ddŷſc, yn dymheſtlog o ddigllonedd, ac yſpryd anynad heb ei farweiddio, ac wedi nghlwyfo gan hôll gorph pechod a Marwolaeth. O Arglwydd, maddeu fy hôll bechodeu er mwyn fy hyfrydaf Iachawdwr: O ſanctaidd *Jeſu*, yr hwn a drengaiſt troſofi, achub a gwared fi, na chadw fy mhechodeu iw coſpi erbyn dydd y digofaint a'r dialedd tragywyddol; eithr golch ymmaith fy mhechodau, a dilea hwynt ôll o'th goffadwriaeth, a glanhâ fy enaid â dyfroedd edifeirwch, ac â gwaed y groes, fel am yr hyn a aeth heibio na ddêl dy ddigofaint allan i'm herbyn, ac o hyn allan na chyffrowyf byth monot i ddîg nac ei eiddigedd. O gyfiawn ac anwyl Dduw, byth doſturiol a graſlawn wrth y wâs. *Amen.*

V.

Y weddi neu'r Erfyniad.

BEndithia fi Dduw graſuſol yn fy Ngalwedigaeth i'r dibennion a ddewiſech ac a oſodech di immi;

n enteud ar yr Orſeddfainc ac i'r Oen bŷth byth
oedd. *Amen.*

II.

Gwaſanaeth o Ddiolchgarwch *am y Boreu, ſef, Cân* Dafydd.

CEnwch fawl i'r Arglwydd chwi ei Sainct e
a diolchwch iddo er coffadwriaeth o'i ſanctteidd
rwydd, canys ei ddigofaint ni phery ond tros funu
awr, yn ei fodlonrhwydd y mae'r bywyd: ni phe
triſtwch ond tros nôs, ond y boreu y bydd gorfoledd
Ti Arglwydd am cedwaiſt i neithiwyr rhag niwei
yſprydion y tywyllwch, rhag pôb anhap a damwe
nieu drŵg, rhag y digofaint a haeddais i bôb dydd
Ti a ddygaiſt fy enaid o Uffern, ac a gedwaiſt f
enioes rhag y rhai a ddeſcynnant i'r pwll: Ti a dda
ngoſaiſt i mi fawr ryfedd Garedigrwydd, ac am ben
dithiaiſt i yn dragywydd. Mawredd dy ogoniont
gyrraedd hyd y Nefoedd a'th Wirionedd hyd y cwm
mylau. Am hynny y cân pôb gŵr dâ i Ti foliant
waſtadol, O fy Nuw, minneu a'th fendithiaf di y
ragywydd. *Alelujah.*

III.

Gwaſanaeth i'n Hoffrwm *a'n* Cyſlwyno'n *hunain i Ddaw tros y dwthwn.*

YAnctteiddiaf Dduw Tragywyddol, Goruchaf Ar
glwydd yr hôll greaduriaid, Myſi yn oſtyngedi
breſentiaf i'th Dduwiol Fawredd fy hunan, fy ena
in corph, fy meddylieu a'm geirieu, fy ngweith
oedd a'm bwriadeu, fy ngwyniau a'm diodde
dau, iw trefnu i'th ogoniant, iw bendithio â'th
wiriaeth, iw cyfarwyddo â'th Gyngor, iw ſanct
Myfyrd, megis yn ôl hyn y derbyniet fy
Canys ni chyfrgollir dim a fo
ac ni all Gelyn yr eneidieu
lyngu

lyngcu mo'th rann di, na'i dwyn o'th law. Y dydd hwn O Arglwydd, a hôll ddyddieu fy enioes mi a'i cyflegraf i'th ogoniant, a gorchwylion fy Ngalwedigaeth i wasanaeth grâs, a Chrefydd fy hôll ddyddiau iw huno at Deilyngdod a Chyfryngdod fy ſanctaidd Iachawdwr *Jeſu*, i gael ynddo ef ac erddo ef faddeuant a chymmeriad. *Amen.*

IV.

Gwaſanaeth o Edifeirwch *a* Chyſtudd calon.

OBlegid o'm rhann i nid wyfi deilwng i'm galw yn *wâs* i ti chwaethach yn *Fâb*, canys y gwaelaf o bechaduriaid ar gwaethaf o ddynion wyfi, hoffais betheu'r bŷd a dirmygais betheu Duw [*yn falch ac yn genfigenus, yn drythyll ac yn anghymedrol &c.*] yn awchus i bechod ac yn anoddefus o gerydd, yn chwennych *ymddangos* ond yn ddifraw am *fôd* yn ſanctaidd, yn ynfyd gan ryfyg a drŵg ddŷfc, yn dymheſtlog o ddigllonedd, ac yſpryd anynad heb ei farweiddio, ac wedi nghlwyfo gan hôll gorph pechod a Marwolaeth. O Arglwydd, maddeu fy hôll bechodeu er mwyn fy hyfrydaf Iachawdwr: O ſanctaidd *Jeſu*, yr hwn a drengaiſt troſofi, achub a gwared fi, na chadw fy mhechodeu iw coſpi erbyn dydd y digofaint a'r dialedd tragywyddol; eithr golch ymmaith fy mhechodau, a dilea hwynt ôll o'th goffadwriaeth, a glanhâ fy enaid â dyfroedd edifeirwch, ac â gwaed y groes, fel am yr hyn a aeth heibio na ddêl dy ddigofaint allan i'm herbyn, ac o hyn allan na chyffrowyf byth monot i ddîg nac ei eiddigedd. O gyfiawn c anwyl Dduw, byth doſturiol a graſlawn wrth y wâs. *Amen.*

V.

Y weddi neu'r Erfyniad.

BEndithia fi Dduw graſuſol yn fy Ngalwedigaeth i'r dibennion a ddewiſech ac a oſodech di imm;

cymmorth ſi yn ſy hôll driſtwch, cyweiria ſy ngwely yn ſy nghlefyd; dyro i mi amynedd dan ſy nghyſt uddiau, hyder arnati, a grâs i alw arnat ym mhôb profedigaetheu. O bydd di yn Llywydd i mi yn ſy hôll weithredoedd, yn Noddwr i mi yn ſy hôll ber yglon: Dyro i mi gorph iachus a Dealltwriaeth eglur, enaid ſancteiddiedig a chyſiawn, yſpryd caredi a goſtyngedic: crefyddol a bodlongar. Na âd i'm bywyd fod yn doſturus ac yn reſynol, Na ddiwyne ſy Enw gan bechod a chywilydd, na ddercha chwaith ſy ffortun i Stât beryglus o demtaſiwn, eith bid ſy nghyflwr i yn fendigedic, ſy ymwareddiad y fuddiol i'm Cymmydogion, ac yn gymmeradw gennit Ti, fel pan orweddo ſy Nghorph yn ngwel duoer y tywyllwch, y diango ſy Enaid i Wlâd Goleuni i gael byw gŷd â Thi yn dragywydd, trw *Jeſu Griſt. Amen.*

VI.

Gwaſanaeth o Eiriol *neu Weddi* tros eraill *iw gyſſylltu wrth y Gwaſanaeth hwn neu arall wrth fel y bo d Ddyſoſiwn neu dy ddyledſwydd di neu eu hangenio hwy yn goſyn.*

O Dduw'r Drugaredd anfeidrol yr hwn wyt y toſturio wrth bôb dyn, ac yn diwallu anghenio pawb a alwo arnat am gymmorth; gwrando weddie dy wâs ſy'n annheilwng i ofyn dim troſof ſy hu etto mewn goſtyngeiddrwydd a dyledſwydd ydw rwymedig i weddio dros eraill.

Tros yr Eglwys. O deſcynned dy Drugaredd ar yr hô *Eglwys*, cadw hi mewn Gwirionedd Heddwch, mewn Undeb a Diogelwch y mhôb Temheſtl, ac yn erbyn pôb profedigaethau Gelynion, fel gan offrwm i'th Ogoniant waſtadol berth o weddi a Diolchgarwch, y bô iddi ddercha Anrhydedd ei Harglwydd, ac ymlenwi o'i yſpryd

a chyfrannu o'i Ogoniant. *Amen.*

Tros y Brenhin. Yn drugaroc edrych ar y *Brenhin*, amddiffyn ei Berſon ef mewn Iechyd ac Urddas, ei Goron[illegible]n Helaethrwydd ac Anrhydedd, ei Deyrnaſoed[illegible]yn Heddwch a Digonoldeb; a'r Eglwyſi tan ei ga[illegible]raeth ef mewn Duwioldeb a Gwybodaeth, ac mewn Crefydd ddichlyn a ſanctaidd, Cadw ef yn waſtad yn dy Ofn a'th Gariad, a chorona ef â Gogoniant anfarwol. *Amen.*

Tros y Gweinidogion. Cofia Weinidogion dy ſanctaidd ddirgeledigaethau, gwiſcer hwynt â hyfrydwch, a chanant o lawenydd. *Amen.*

Tros Wr neu Wraig Bendithia dy waſanaethydd [*ſy ngwr neu fy ngwr*] âg iechyd corph ac enaid, a bydded llaw dy fendith arno[*neu arni hi*] ddydd a nôs, cynnal ef yn ei angenrheidiau, nertha ef yn ei hôll brofedigaethau, diddana ef yn ei hôll gyſtuddiau, a bydded iddo barhau yn waſ[illegible] ym mhôb cyfnewidiau; a dŵg ni ni[illegible] ſwylio gyd â Thi bŷth bythoedd yn [illegible] llewyrch dy wynebpryd, ac yn dy ogoniant[illegible]. *Amen.*

Tros ein Plant. Bendithia fy *mhlant* â chy[illegible] a Dealltwriaeth dâ, â gralau [illegible] dy Yſpryd, ac athrylith[illegible] ſerion ſanctaidd; a ſancteidda[illegible] yrph a'u hendidieu, a'u hyſpryd[illegible] yn ddifeius hyd ddyfodiad yr [illegible]

Tros ein Cyfillion a'n Cymwynaſwyr. Teilyng[illegible] nghyfo[illegible] troſoft, ac [illegible] [*yma henwa*[illegible]

[illegible]*pyſol eu gorchymyn*] Gwna[illegible] wy, a dychwel eu hôll gared[illegible] lic iw mynwes eu hunain, endithion, a'u ſanctaidda[illegible]

cymmorth fi yn fy hôll driſtwch, cyweiria fy ngwely yn fy nghlefyd; dyro i mi amynedd dan fy nghyſtuddiau, hyder arnati, a grâs i alw arnat ym mhôb profedigaetheu. O bydd di yn Llywydd i mi yn fy holl weithredoedd, yn Noddwr i mi yn fy hôll beryglon: Dyro i mi gorph iachus a Dealltwriaeth eglur, enaid ſanctteiddiedig a chyſiawn, yſpryd caredic a goſtyngedic: creſyddol a bodlongar. Na âd i'm bywyd fod yn doſturus ac yn reſynol, Na ddiwyner fy Enw gan bechod a chywilydd, na dderchafer chwaith fy ffortun i Stât beryglus o demtaſiwn, eithr bid fy nghyſlwr i yn fendigedic, fy ymwareddiad yn fuddiol i'm Cymmydogion, ac yn gymmeradwy gennit Ti, fel pan orweddo fy Nghorph yn ngwely duoer y tywyllwch, y diango fy Enaid i Wlâd y Goleuni i gael byw gŷd â Thi yn dragywydd, trwy *Jeſu Griſt. Amen.*

VI.

Gwaſanaeth o Eiriol *neu Weddi* tros eraill *iw gyſſylltu wrth y Gwaſanaeth hwn neu arall wrth fel y bo dy Ddyſoſiwn neu dy ddyledſwydd di neu eu hangenion hwy yn goſyn.*

O Dduw'r Drugaredd anfeidrol yr hwn wyt yn toſturio wrth bôb dyn, ac yn diwallu anghenion pawb a alwo arnat am gymmorth; gwrando weddiau dy wâs ſy'n annheilwng i ofyn dim troſof fy hun etto mewn goſtyngeiddrwydd a dyledſwydd ydwyf rwymedig i weddio dros eraill.

Tros yr Eglwys. O deſcynned dy Drugaredd ar yr hôll *Eglwys*, cadw hi mewn Gwirionedd a Heddwch, mewn Undeb a Diogelwch ym mhôb Temheſtl, ac yn erbyn pôb profedigaethau a Gelynion, fel gan offrwm i'th Ogoniant waſtadol Aberth o weddi a Diolchgarwch, y bô iddi dderchafu Anrhydedd ei Harglwydd, ac ymlenwi o'i yſpryd ê

a chyfrannu o'i Ogoniant. *Amen.*

Tros y Brenhin. Yn drugaroc edrych ar y *Brenhin*, amddiffyn ei Berſon ef mewn Iechyd ac Urddas, ei Goron [illegible]'n Helaethrwydd ac Anrhydedd, ei Deyrnaſoed [illegible]yn Heddwch a Digonoldeb; a'r Eglwyſi tan ei ga[illegible]raeth ef mewn Duwioldeb a Gwybodaeth, ac mewn Crefydd ddichlyn a ſanctaidd, Cadw ef yn waſtad yn dy Ofn a'th Gariad, a chorona ef â Gogoniant anfarwol. *Amen.*

Tros y Gweinidogion. Coſia Weinidogion dy ſanctaidd ddirgeledigaethau, gwiſcer hwynt â hyfrydwch, a chanant o lawenydd. *Amen.*

Tros Wreiy neu Wraig Bendithia dy waſanaethydd [*fy ngwreiy neu fy ngŵr*] âg iechyd corph ac enaid, a bydded llaw dy fendith arno [*neu arni hi*] ddydd a nôs, cynnal ef yn ei angenrheidiau, nertha ef yn ei hôll brofedigaethau, diddana ef yn ei hôll gyſtuddiau, a bydded iddo barhau yn was i Ti ym mhôb cyfnewidiau; a dŵg ni'n deuwedd i breſwylio gyd â Thi bŷth bythoedd yn dy ffafr, yn llewyrch dy wynebpryd, ac yn dy ogoniant. *Amen.*

Tros ein Plant. Bendithia fy *mhlant* â chyrph iachus, ac a Dealltwriaeth dâ, â graſau ac a Doniau dy Yſpryd, ac athrylith rinweddo[illegible] ac arferion ſanctaidd, a ſancteidda hwy'n hollawl yn eu cyrph a'u heneidieu a'u hyſprydion, [illegible] yn ddifeius hyd ddyfodiad yr Arglwydd

Tros ein Cyfyillion a'n Cymmwynaſwyr. Teilynga Arglwydd [illegible] nghyfeillion, y [illegible] troſofi, ac a wn[illegible] [*yma henwer*] [illegible] *pyſol eu gorchymyn*] Gwnâ dda [illegible] wy, a dychwel eu hôll garedigr[illegible] lic iw mynwes eu hunain, gan [illegible] endithion, a'u ſancteiddio â'th

i'th ogoniant. *Amen.*

Tros ein Teulu. Bydded i'm Teulu a'm Cyfneſeifiaid, ſy Nghymmydogion a'm Cydnabod [*yn henwa os bydd i i* [illegible] *bynas arall*] gaffael derbyn y lleſâd o'm Gwedd[illegible] bendithion Duw; cyſur a chynhaliaeth dy Rag[illegible]aeth, a ſanctteiddiad dy Yſpryd. *Amen.*

Cymmorth a chyſſura bawb ôll ſy tan erlid a chyſtudd: lleſâra heddwch wrth gydwybodau anheddychol; nertha'r gweiniaid: cadarnha'r cryſion: hyfforddia'r anwybodol: gwared y gorthrymmedic o law eu gorthrechwyr, a chynnorthwya'r anghenus ſy heb nêb iw helpu: a dŵg ni ôll hyd ddyfroedd diddanwch, ac hyd lwybrau cyfiawnder, i Deyrnas y Gorphwyſdra a r Gogoniant, trwy *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

I Dduw Tad ein Harglwydd *Jeſu Griſt*, I'r Mâb Tragwyddol, yr hwn a gnawdiwyd ac a anwyd o Forwyn, I yſpryd y Tâd a'r Mâb, bydded yr hôll Anrhydedd a'r Gogoniant, a Diolchgarwch ac Addoliant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gwaſanaeth arall o Weddiau am y Boreu.

Yn enw'r Tâd a'r Mâb &c. Ein Tâd yr hwn wyt &c.

I.

O Ardderchoccaf Dduw tragywyddol, Tâd y drugaredd a Duw pôb Diddanwch, âg îſaf oſtyngeiddrwydd enaid a chorph, parchaf ac Addolaf Di, a rhoddaf it fawl a diolch am dy anfeidrol ogoniant a'th berffeithrwydd hanfodol dy hun; ac am y gwaſtadol brawſ o'th drugareddau arnaſi, ac ar fy eiddo, ac ar yr hôll Eglwys Gatholic.

II.

Yr wyf yn cydnabod Dduw anwyl, haeddu o honoſi y trymmaf o'th fâr a'th lidiawgrwydd;

a phe gwnelſit â mi yn ôl fy haeddiant, mi a fuaſwn y munud hwn yn cwynofain fy nhrueni ym mhoeneu ac erchylldod gofidus Dragywyddoldeb. Ond a'th Drugaredd yn gorfoleddu ar dy gyfiawnder di a'm pechodau inneu, ti a barheaiſt i mi fy mywyd ac amſer i edifarhâu; Egoraiſt i mi Byrth Gras a Thrugaredd ac ydwyt yn fy ngalw i ddyfod i mewn, ac i rodio yn llwybreu buchedd ſanctaidd, fel y gogoneddwn di, ac y cawn fy ngogoneddu gennit yn dragywydd. *Amen.*

III.

WEle O Dduw, am dy fawr anrhaethawl ddaioni hwn, am fy nghadwraeth i neithiwyr, ac am dy hôll raſau a'th fendithion eraill, minneu a offrymmaf fy enaid, cwbl ac ydwyf a chwbl ac fydd eiddof yn aberth i ti ac i'th waſanaeth, gan ymbil â thi yn oſtyngedic am faddeu fy mhechodau, a'm hamddiffyn rhag pôb drwg, a'm harwain i bôb daioni, a bydded fy nghyfran ym mŷſc dy Brynedigion, ynghydgynhulliad y Seintiau, yn Nheyrnas y Gras a'r Gogoniant. *Amen.*

IV.

LLywia fi, Arglwydd, yn hôll droiau a chyfnewidieu'r bŷd, fel pa betheu bynnac ac a ddigwyddo na bô fy yſpryd amgen na thêg a thawel a gwaſtad a'm Henaid wedi cwbl ymroddi i'th wyllys dawiol di, heb fyth rwgnach yn erbyn dy gerydd a'th ragoſpedigaeth, na bŷth falchîo nac ymchwyddo o [illegible] torrei genllif o gyfiawnder a llwyddiant [illegible] *Amen.*

V.

SEfydla fy meddwl a'm gobaith a'm [illegible] ar y Nêf a nefolion betheu, dyl[illegible] bŷd, edifarhâu yn ddwys am fy [illegible] mi ſanctaidd feddylfryd ar wel[illegible] yſprydol nerth a chynnwrth, i gy[illegible]

bêth bynnac ac a ſwriadwyf yn dduwiol. Cyſoethoga fy Nealltwriaeth i â thragywyddol dryſor o Wirioneddau duwiol, fel y gwybyddwyf dy 'wyllys; a thi Arglwydd yr hwn wyt yn gweithio ynom 'wyllyſio a gweithredu o'th ewyllys dâ dy hun, dŷſc i mi ufuddhau i'th holl *Orchymynion*, i gredu dy holl *Ddatcuddiadau*, a gwna fi'n gyfrannog o'th holl raſol *Addewidion*. *Amen*.

VI.

DYſc i mi warchad fy hôll ffyrdd, nad allo un temtaſiwn diſymmwth ruthro ar fy ngwartha ac na ddychwelwyf mwy at wagedd ac ynfydrwydd. Goſod wiliadwriaetheu O Arglwydd ar fy ngeneu a chadw ddrŵs fy ngwefuſau, fel na throſeddwyf â'm tafod yn erbyn Duwioldeb na Chariad. Dŷſc i mi na feddyliwyf am ddim ond am danati ac a ſo tueddol i'th waſanaeth a'th ogoniant di, na ſiaradwyf ond Tydi a'th Ardderchawgrwydd, ac na wnelwyf ddim chwaith ond a weddei i'th was yr hwn trwy dy drugaredd annherfynol, a graſau dy Lan Yſpryd a ſeliwyd hŷd Ddydd Prynedigaeth.

VII.

MArweiddier fy hôll wyniau a'm anwydeu a daroſtynger hwy tan lywodraeth Grâs, fel na bô i mi byth o ryfyg nac o'r gwaith goddeu, na chwaith yn amryfus, neu'n yſcoewan, nac yn ehud ddigio dy Dduwiol Fawredd. Gwna fi yn gyfryw ac a chwennychit fy mod, O cryſha fy Ffydd cadarnha fy Ngobaith, a dyro feunyddiol gynnydd o Gariad, fel y gwaſanaethwyf di heddyw a phôb dydd yn ôl fy ngallu, a'm achlyſur, gan gynnyddu o râs i ras, hyd oni ddelwyf o'r diwedd trwy dy Drugaredd di i ddederbyn cyflawnder a pherffeithrwydd Gwa[illegible] Goganiant dy Deyrnas mewn cyflawn [illegible]ebpryd a Godidowgrwydd Duw Tâd, [illegible] Yſpryd glân. I'r Hwn y byddo Gogoniant

ac Anrhydedd, Moliant ac Addoliant, gan yr hôll Angylion a'r hôll Ddynion, a'r holl Greaduriaid o'r awr hon hyd bôb Tragywyddoldeb. *Amen.*

¶ *Yma y gelli chwanegu y weddi* Eiriol tros eraill *fy yn niwedd y Gwasanaeth o'r blaen, neu yn ôl y rhai yr ydwyti'n rhwym i weddio trostynt. Cymmer y cyfryw Weddiau yspysol ac fy ymmken olaf y bedwaredd* BENNOD *rhagwyneb* [tros Rieni, tros Blant &c.]

Ac ar ôl honno diwedda'r cwbl â'r Ochenaid hon.

Weithian ym mhôb trallod a chyfyngder yspryd, ym mhob perygl corph ac Enaid, mewn hawddfyd ac adfyd, yn awr Angeu ac yn Nydd y Farn, fancteiddiaf a bendigediccaf Iachawdwr *Jesu* trugarhâ wrthif, achub a gwared fi a'r ffyddloniaid ôll. *Amen.*

¶ *Rhwng hyn a Phrydnhawn yr arferir darllen Gwasanaeth a Gweddi Gyffredin yr Eglwys i'r hwn y mae'r hôll wîr Eglwysic a phôb rhai dyfoſionol eraill ac a fo'n cael ennyd yn rhwymedic i gyd-ymgyfarfod.*

¶ *Prydnhawn neu pa bryd bynnac yr ymneillduo'r Defoſionol iw yſtafell at Weddi neu Ymarferion yſpryddol fe all ddywedyd y Defoſiwnau yma fy'n canlyn.*

Gwaſanaeth ar hôb amſer o'r diwrnod.

Yn Enw'r Tâd a'r Mâb &c. Ein Tâd yr &c.

Yr Hymn a gaſclwyd allan o'r Pſalmau yn datcan Godidowgrwydd a Mawrhydi Duw.

Lawenfloeddiwch i Ddduw yr hôll ddaiar
ogoniant ei Enw gwnewch ei foliant
uwch a gwelwch weithredoedd Duw,
ithredoedd tu ac at feibion dynion.
ô âi gadernid. Pſal. 66. 1, 2, 5, 7.

Tâd yr ymddiſaid, a Barnwr y Gweddwon yw Duw yn ei breſwylſa ſanctaidd, Duw yw'r hwn a wnâ i rai ſôd yn unfryd mewn teulu, ac ſy'n dwyn y carcharorion allan o gaethiwed; ond y rhai cyndyn a fyddant mewn eiſieu. Pſ. 68. 5, 6.

Lleſ yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd, Duw y gogoniant a darana, yr Arglwydd ſy yn llywodraethu'r Môr. Lleſ yr Arglwydd ſy mewn grym, lleſ yr Arglwydd ſy mewn prydferthwch. Pſ. 29. 3, 4.

Oſned yr hôll ddaiar yr Arglwydd: hôll drigolion y lyd arſwyddwch eſ. Pſ. 33. 8. *Attebi i ni trwy betheu ofnadwy yn dy gyfiawnder, O Dduw ein Iechydwriaeth, Gobaith hôll gyrreu'r ddaiar a'r rhai ſy bell ar y môr.* Eſ. 65. 5.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Neu'r Hymn yma:

O Arglwydd ſy Nuw ydwyt derchafaſ di; moliannaſ dy Enw canys gwnaethoſt ryfeddodau, dy gynghorion er yſtalm ſy wirionedd a ſiccrwydd. Eſ. 25. 1.

Ti yn dy nerth a ſiccrheaiſt y Mynyddoedd, a thi a wregyſir â chadernid. Pſ. 65. 6.

Tydi a oſtegi dwrf y Moroedd, twrf eu tonnau, a therfyſc y bobloedd. Pſ. 65. 7.

A phreſwylwyr eithaſoedd y byd a ofnant dy arwyddion. Ti a wnei i derfyn boreu a hwyr dy glodfori. Pſ. 65. 8.

O Arglwydd Dduw'r lluoedd, pwy ſy fel Tydi yn gadarn lôr? a'th wirionedd o'th amgylch? Pſ. 89. 9. *Nid oes fel Tydi ym myſc y Duwieu O Arglwydd, na gweithredoedd fel dy weithredoedd di. Canys ydwyt fawr ac yn gwneud rhyfeddodau, Ti yn unic wyt Dduw.* Pſ. 86. 8, 10.

Duw ydd ofnadwy iawn yn ngbynnulleidfa'r Saint ac yn arſwydus yn eu hôll amgylchoedd. Pſ. 89. 7.

Cyfiawnder a Barn yw trigfa dy Orſeddfaint, Trugaredd a Gwirionedd a ragflaenant dy wyneb. Pſ. 89. 1

Gogoniant a harddwch ſydd o'i flaen eſ, Nerth *a hyſ-ydwch ſydd yn ei Gyſſegr.* Pſ. 96. 6.

Ti yw fy Ngobaith O Arglwydd Dduw, fy ymddiried i'm ieuengctid. Wrthit Ti i'm cynhaliwyd o'r brû, Ti i'm tynnaiſt o grôth fy Mam; fy mawl ſydd yn waſtad am danat ti. Pſ. 71. 4, 5.

Gogoniant i'r Tâd, ac &c.

Ar ôl hyn gellir darllen rhyw rann o'r Scrythyr lân allan o'r Teſtament newydd, neu allan o Lyfreu ſynhwyrddyſc yr hên Deſtament; ſef y Diharebion, *y* Pregethwr, *&c; am eu bôd yn dra buddiol i Dduwioldeb, ac i'n Hymarweddiad ni yn y bŷd. Wedi it Fyfyrio ennyd ar yr hyn a ddarllennych, dywed ſel y mae'n canlyn.*

Ocheneidiau.

Fy mhorth i ſy yn Enw'r Arglwydd yr hwn a wnaeth Nefoedd a daiar; Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs ac mi achubir.

O Arglwydd gwnâ ddaioni i'r rhai daionus, ac i'r rhai union yn eu calonnau, ac bŷth yn nerthol amdiffyn hwynt.

Tywys fi yn dy wirionedd a dyſc fi, canys ti yw Duw Iechydwriaeth a'm Harglwydd mawr.

Cadw fi rhag pechod ac Angeu tragwyddol, a rhag fy hôll Elynion gweledic ac anweledic.

Dyro i mi râs i fyw'n ſanctaidd, a'th ffafr i farw'n Dduwiol ac yn ddedwydd.

Clyw Arglwydd weddi dy wâs, a dyro i mi dy ſpryd glân.

GWEDDIAU GANOL DYDD.

I.

DRagywyddol Dduw trugaroc a graſlawn, teilynga i'th wâs dy ffafr a'th ſendith: bid i'm

cariad

Tâd yr ymddiſaid, a Barnwr y Gweddwon yw Duw yn ei breſwylfa ſanctaidd, Duw yw'r hwn a wnâ i rai ſôd yn unfryd mewn teulu, ac ſy'n dwyn y carcharorion allan o gaethiwed; ond y rhai cyndyn a fyddant mewn eiſieu. Pſ. 68. 5, 6.

Lleſ yr Arglwydd ſydd ar y dyfroedd, Duw y gogoniant a darana, yr Arglwydd ſy yn llywodraethu'r Môr. Lleſ yr Arglwydd ſy mewn grym, lleſ yr Arglwydd ſy mewn prydferthwch. Pſ. 29. 3, 4.

Oſned yr hôll ddaiar yr Arglwydd: hôll drigolion y byd arſwydwch eſ. Pſ. 33. 8. *Attebi i ni trwy betheu oſnadwy yn dy gyfiawnder, O Ddduw ein Iechydwriaeth, Gobaith hôll gyrreu'r ddaiar, a'r rhai ſy bell ar y môr.* Eſ. 65. 5.

Gogoniant i'r Tâd, &c.

Neu'r Hymn yma:

O Arglwydd ſy Nuw ydwyt derchafaſ di; moliannaſ dy Enw canys gwnaethoſt ryfeddodau, dy gynghorion er yſtalm ſy wirionedd a ſiccrwydd. Eſ. 25. 1.

Ti yn dy nerth a ſiccrheaiſt y Mynyddoedd, a thi a wregyſtaſt â chadernid. Pſ. 65. 6.

Tydi a oſtegi dwrf y Moroedd, twrf eu tonnau, a therfyſc y bobloedd. Pſ. 65. 7.

A phreſwylwyr eithâſoedd y byd a ofnant dy arwyddion. Ti a wnei i derfyn boreu a hwyr dy glodfori. Pſ. 65. 8.

O Arglwydd Dduw'r lluoedd, pwy ſy ſel Tydi yn gadarn lor? a'th wirionedd o'th amgylch? Pſ. 89. 9. *Nid oes ſel Tydi yni myſc y Duwieu O Arglwydd, na gweithredoedd fel dy weithredoedd di. Canys ydwyt fawr ac yn gwneuthur rhyfeddodau, Ti yn unic wyt Ddduw.* Pſ. 86. 8, 10.

Duw [illegible] ofnadwy iawn yn ngbynnulleidfa'r Saint ac [illegible] yn hôll amgylchoedd. Pſ. 89. 7.

[illegible] yw trigfa dy Orſeddfainc, Trugaredd a Gwirionedd a ddaethant dy wyneb. Pſ. 89.

Gogoniant a harddwch ſydd o'i flaen eſ, Nerth a hyſ-ydwch ſydd yn ei Gyſſegr. Pſ. 96. 6.

Ti yw ſy Ngobaith O Arglwydd Dduw, ſy ymddiried i'm ieuengctid. Wrthit Ti i'm cynhaliwyd o'r brû, Ti i'm tynnaiſt o grôth ſy Mam; ſy mawl ſydd yn waſtad am danat ti. Pſ. 71. 4, 5.

Gogoniant i'r Tâd, ac &c.

Ar ôl hyn gellir darllen rhyw rann o'r Scrythyr lân allan o'r Teſtament newydd, neu allan o Lyfreu ſynhwyrddŷſc yr hên Deſtament; ſef y Diharebion, *y* Pregethwr, *&c; am eu bôd yn dra buddiol i Dduwioldeb, ac i'n Hymarweddiad ni yn y bŷd. Wedi it Fyſyrio ennyd ar yr hyn a ddarllennych, dywed ſel y mae'n canlyn.*

Ocheneidiau.

Fy mhorth i ſy yn Enw'r Arglwydd yr hwn a wnaeth Nefoedd a daiar; Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs ac mi achubir.

O Arglwydd gwnâ ddaioni i'r rhai daionus, ac i'r rhai union yn eu calonnau, ac bŷth yn nerthol amdiffyn hwynt.

Tywys fi yn dy wirionedd a dŷſc fi, canys ti yw Duw Iechydwriaeth a'm Harglwydd mawr.

Cadw fi rhag pechod ac Angeu tragwyddol, a rhag fy hôll Elynion gweledic ac anweledic.

Dyro i mi râs i fyw'n ſanctaidd, a'th ffafr i farw'n Nuwiol ac yn ddedwydd.

Clyw Arglwydd weddi dy wâs, a dyro i mi dy Yſpryd glân.

GWEDDIAU GANOL DYDD.

I.

DRagywyddol Dduw trugaroc a graſlawn, teilynga i'th wâs dy ffafr a'th ſendith: bid i'm

cariad

cariad ar dy drugaredd a'm parchedic ofn ar dy ſawredd ſy ngwneud i yn ofalus i chwilio ac i *ddyſcu* dy Ewyllys, yn ddiwyd iw *gyflawni*, ac yn ddyfal i *barhau* mewn Ymarferion buchedd ſanctaidd hyd yr olaf o'm dyddiau. *Amen.*

II.

CAdw fi Arglwydd, canys eiddoti ydwyf trwy *Greadigaeth*, llywia fi canys eiddoti wyf trwy *Brynedigaeth*. Ti a'm drud brynaiſti trwy waed dy Fab; ac a'm ceraiſt â charedigrwydd Tâd, canys dy blentyn ydwyfi trwy fabwys a rhâd. Maddeued dy drugaredd ſy mhechodau, cyſcoded dy Ragluniaeth fi rhag y drygau a'r coſpedigaethau a haeddais, gwilied dy ofal arnaf fel na ddigiwyf monot byth mwy. Gwnâ i mi mewn malis fôd yn blentyn, ond mewn dealltwriaeth a duwioldeb ac ofn Duw i fôd yn ŵr perffaith yn Nghriſt, yn ddiniweid ac yn ſynhwyrol, yn barod ac yn hylaw i bôb gweithred ddâ.

III.

CAdw fi Arglwydd rhag yr Angel diniſtriol a rhag digofaint Duw: O na choded dy lidiawgrwydd byth i'm herbyn, eithr cerydded dy *wialen* ſy meieu'n eſmwyth, cyfarwydded fi yn dy ffyrdd a chynhalied dy *ffonn* fi ym mhôb dioddefiadau. Amddiffyn fi rhag torri Feſcyrn, rhag heintieu gelynol a garwddwys glefydon, rhag rhuthrau Ffortun a Throieu mawr diſymmwth, cadw ſy hôll ſynhwyrau yn ddifêth hyd ddydd ſy marwolaeth, ac na fydded fy marwolaeth Arglwydd yn ddiſyfed, yn anamſerol nac yn amharod. Eithr bydded yn ôl cyffredin Arfer ddynol, ac na fid dim rhyfeddol ynddi, ond fy rhyfedd dduwioldeb i, ac eglurhâd o'th fawr ryfeddod drugareddau ditheu. *Amen.*

IV.

NA wnaed dim *codiad* i mi ſy anghofio fy hun n dim *Nodi* i mi dy anghofio di: Na alled n

Gobai

Gobaith nac *Ofn*, na *Phleſer* na *Phoen*, nac un damwain *oddi allan*, nac un gwendid *oddi mewn* rwyſtro nac anghyweirio fy Nyledſwydd, na'm gŵyro oddiar lwybreu dy orchymynion. O cyfannedded dy Yſpryd glân gŷd â mi byth, a gwnaed fy enaid yn gyfiawn ac yn garedic, yn llawn goneſtrwydd a chrefydd, yn ſafadwy ac yn ddianwadal mewn bwriadau dâ, ond yn anhyblig i bôb drŵg. Gwnâ fi yn oſtyngedic ac yn ufudd, yn dduwiol ac yn heddychol: na chenfigenwyf bŷth wrth ddaioni nêb, na haeddu cael dirmyg fy hun, ac os câf, dŷſc i mi ei oddef yn addfwyn ac yn Garedigol. *Amen.*

V.

DYro i mi gydwybod tyner, ymwareddiad ſynhwyrol mwyneiddlan, llednais a dioddefgar, ſyber a chariadus: dyro i mi gorph diwair ac iachus, dyro i mi gyminwyſder o gadwraeth yn ôl fy ngrâdd, a bodlondeb i bôb cyflwr, wyllys wedi llwyr ymroddi i Ti, ac anwydeu wedi marweiddio; fel y bowyf megis ac y mynnit ti fy môd, a bid fy rhann i yn rhandir y Cyfiawn, yn niſcleirdeb dy wynebpryd, ac yn Ngogoniant Tragwyddoldeb. *Amen.*

Sanctaidd yw'n Duw. Sanctaidd yw'r Holl-alluoc. Sanctaidd yw'r Anfarwol. Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Sabboth trugarhâ wrthif. *Amen.*

¶ *Ffurf o* Weddi Brydnhawnol *i'r ſawl na bo'n cael ennyd neu gyfle i ddywedyd y Gweddiau cyffredin a appwyntiwyd i'r Gwaſanaeth hwn.*

GWEDDIAU PRYDNHAWNOL.

I.

O Dduw Tragywyddol, Ardderchog Dâd Dynion ac Angylion, yr hwn a ſiccrheaiſt y Nefoedd a'r ddaiar mewn Trefn ryfedd, gan ordeinio dydd a nôs gyfnewid bôb yn ail; yn oſtyngedic mi a gyfarchaf i th

i'th Dduwiol Fawredd, gan erfyn cael gennit drugaredd a nodded y nôs hon ac yn dragywydd. O Arglwydd maddeu fy hôll bechodau, fy ngeiriau amryfus yſcoewan, fy meddylieu ofer ac annuwiol, fy ngweithredoedd anghyfion ac angharedic; a phôdd bynnac y troſeddais i'th erbyn heddyw neu erioed o'r blaen.

Wele, O Dduw, fy enaid a ddoluria wrth gofio fy nghamweddau, trwy bechadurus freuolder fy nghnawd ſy'n hylithr i bôb temtaſiwn ac ni ddichon wrthſefyll un, o hono'i hun. Arglwydd Dduw drugaredd, mi a ymbiliaf â Thi yn ddifrifol ar roi honot i mi rann helaeth o'th râs, gymmaint ac a fo digonol ac affeithiol i farwhau fy hôll bechodau, a'm gwagedd afreolus: Fel megis ac y bum i gynt yn gwaſanaethu fy 'ngwynieu a'm trachwanteu gwarthus, felly bôd i mi weithian ymroi i waſanaethu ac i ſtudo buchedd ſanctaidd.

II.

ARglwydd bendigedic dŷſc i mi yn fynych yn ofidus gofio mhechodeu, teilynga ditheu o hangofio hwynt. Caniattâ nad anghofiwyfi bŷth o'm drugareddau na thitheu drugarhau wrthif. Dŷſc mi rodio yn waſtad megis yn dy olwg di: Urddau enaid â graddau mawr o Gariad tu ac attat ti, ac inſe fy yſpryd âg ofn crefyddol a dirfawr barch i'th En a'th Gyfreithiau ſanctaidd; fel mai prîf-orchwyl hôll fywyd fo dy waſanaethu di, derchafu dy ogo iant, a diwreiddio hôll felltigedic Arferion pecho ac felly trwy Sancteiddrwydd buchedd, mewn G yngeiddrwydd a chariad perffaith, mewn Diwei a phôb Prydferthwch Grâs, i ddiſgwil yn amynedd am ddyfodiad yr Arglwydd *Jeſu. Amen.*

III.

DYſc i mi felly rifo fy nyddiau fel y dygwy nghalon i ddoethineb, bôb amſer i feddw

gogoniant i'th Enw, O drugarocca∫ Brynwr
achawdwr *Je∫u. Amen.*

III.

BEndigedic fyddo Duw a Thâd ein Harglwydd *Je∫u* yr hwn a anfonodd ei Angylion ac a m waredodd i rhag y ſaeth a heda'r dydd a rhag y niſtr a ddiniſtria ganol dydd, ac a roes i mi ei Yſ yd i'm hattal rhag yr hôll ddrygeu y gallaſei ſy gwendid a'm drŵg Arferion ſy hun, a'm taer E ion yn hawdd iawn fy mradychu. Bendithier a th bythoedd ſanctteiddier dy Enw am y ddi-do fod o fendithion ſy'n ſy nghadw i yn fyw ac yn llon, yn happus ac yn ddiwall o bôb angen mewn rhwydd-leb yn fy nyledſwydd a'm Nefoedd. Bendith, Anrhydedd, Gogoniant a o i'r hwn ſy'n eiſtedd ar yr Orſeddfainc, ac i oes oeſoedd. *Amen.*

Sanctaidd yw'n ein Duw, Sanctaidd yw nac, Sanctaidd yw'r Anfarwol. Sanct glwydd Dduw Sabbath, trugarha wrth

Ocheneidieu a Myfyrdoden byrrion, rh
nôs pan ddeffroech o'th

Ofnwch ac na phechwch, ymddiddenwch *calon*
gwely, a thewch. Mewn heddwch *nunaf, canys ti Arglwydd yn unig* *wn diogelwch.* Pſ. 4. 4, 8.

O Dad yr yſprydion a Duw pôb
hoſturia wrth yr hôll Griſtianogion
ar drancedigaeth, a derbyn yr
d yn awr yn dychwelyd attat.
wwn eu bŷd y rhai a breſwyliant
ſol lle nid rhaid wrth yr Haul
canys gogoniant Duw a'i
Gen. Dat. 21. 23. *Ac ni bydd*
id idynt wrth gannwyll, oblegid

i'th Dduwiol Fawredd, gan erfyn cael gennit drugaredd a nodded y nôs hon ac yn dragywydd. Arglwydd maddeu fy hôll bechodau, fy ngeiriau am ryfus yſcoewin, fy meddylieu ofer ac annuwiol fy ngweithredoedd anghyfion ac angharedic; a phôdd bynnac y troſeddais i'th erbyn heddyw neu erioed o'r blaen.

Wele, O Dduw, fy enaid a ddoluria wrth gofio fy nghamweddau, trwy bechadurus freuolder fy nghnawd fy'n hylithr i bôb temtaſiwn ac ni ddichon wrthſefyll un, o hono'i hun. Arglwydd Dduw drugaredd, mi a ymbiliaf â Thi yn ddifrifol ar roi honot i mi rann helaeth o'th râs, gymmaint ac a digonol ac affeithiol i farwhau fy hôll bechodau, a gwagedd afreolus: Fel megis ac y bum i gynt yn gwaſanaethu fy 'ngwynieu a'm trachwanteu gwarthus felly bôd i mi weithian ymroi i waſanaethu ac i ſtudo buchedd ſanctaidd.

II.

ARglwydd bendigedic dŷſc i mi yn ſynnych yn ofidus gofio mhechodeu, teilynga ditheu o hangofio hwynt. Caniattâ nad anghofiwyfi bŷth drugareddau na thitheu drugarhau wrthif. Dŷſc mi rodio yn waſtad megis yn dy olwg di: Urdda enaid â graddau mawr o Gariad tu ac attat ti, ac inſe fy yſpryd âg ofn crefyddol a dirfawr barch i'th E a'th Gyfreithiau ſanctaidd; fel mai prîf-orchwyl hôll fywyd fô dy waſanaethu di, derchafu dy og iant, a diwreiddio hôll felltigedic Arferion pech ac felly trwy Sancteiddrwydd buchedd, mewn G yngeiddrwydd a chariad perffaith, mewn Diwei a phôb Prydferthwch Grâs, i ddiſgwil yn amynedd am ddyfodiad yr Arglwydd *Jeſu*. *Amen*.

III.

DYſc i mi felly rifo fy nyddiau fel y dygwy nghalon i ddoethineb, bôb amſer i feddw

gogoniant i'th Enw, O drugaroccaf Brynwr ac achawdwr *Jeſu. Amen.*

III.

BEndigedic ſyddo Duw a Thâd ein Harglwydd *Jeſu* yr hwn a anfonodd ei Angylion ac a'm waredodd i rhag y ſaeth a heda'r dydd a rhag y niſtr a ddiniſtria ganol dydd, ac a roes i mi ei Yſ- yd i'm hattal rhag yr hôll ddrygeu y gallaſei ſy gwendid a'm drŵg Arferion ſy hun, a'm taer El- ion yn hawdd iawn ſy mradychu. Bendithier ac th bythoedd ſancteiddier dy Enw am y ddi-dor fod o fendithion ſy'n ſy nghadw i yn fyw ac yn lion, yn happus ac yn ddiwall o bôb angenrheidiau mewn rhwydd-leb yn fy nyledſwydd a'm ſ Nefoedd. Bendith, Anrhydedd, Gogoniant a Gall o i'r hwn ſy'n eiſtedd ar yr Orſeddfainc, ac i'r Oen oés oeſoedd. *Amen.*

Sanctaidd yw'n ein Duw, Sanctaidd yw uoc, Sanctaidd yw'r Anfarwol. Sanct, Sanct, Sanct, glwydd Dduw Sabbath, trugarhâ wrthif.

¶ *Ocheneidieu a Myfyrdoden byrrion in harſeruo nôs pan ddeffroech o'th Gyſc.*

Ofnwch ac na phechwch, ymddiddenwch â'ch calon ar gwely, a thewch. Mewn heddwch y gorweddaf a hunaf, canys ti Arglwydd yn unic a wnei i mi drigo yn diogelwch. Pſ. 4. 4, 8.

O Dâd yr yſprydion a Duw pôb cnawd, trugarha hoſturia wrth yr hôll Griſtianogion, ſy'n ſyrthio ar drancedigaeth, a derbyn yr eneidiau a'th ddel d yn awr yn dychwelyd attat.

iwyn eu byd y rhai â breſwyliant yn *ſol lle nid rhaid wrth yr Haul* [illegible] *di, canys gogoniant Duw a'i goleuodd* [illegible] *Gen.* Dat. 21. 23. *Ac ni bydd* [illegible] *id iddynt wrth ganwyll, oblegid y* [illegible]

Dduw yn goleuo iddynt, a hwy a deyrnaſant yn oes oeſoe
Dat. 22. 5.

Myfyria ar waith *Jacob* yn ymdrechu â'r An
trwy'r nôs, a bydd ditheu yn daerlew ar Dduw
fendith, ac na ddyro'r maes i fynu nes iddò
fendithio.

Myfyria ar yr Angel yn myned heibio i'r *Iſraeli*
ac yn diniſtrio'r *Aiphtiaid* am eu hanufudd-dod
trais. Gweddia ditheu am y grâs o ufudd-do
chariad perffaith, ac am nodded yr Arglwydd.

Myfyria ar yr Angel a ddifethodd mewn
waith hôll fyddin yr *Aſſyriaid* am odineb. C
bechodeu dy ieuenctid, pechodeu dy wely, a dyw
gyd â *Dafydd fy arenneu a'm ceryddant liw nôs,*
henaid a wrthyd ei ddiddanu. Gweddia am faddeua
ac am y grâs o Ddiweirdeb.

Myfyria ar ddirfawr ing ein Iachawdwr yn
d, ei ofid a'i driſtwch ef trwy'r noſon hon
dolch iddo, ac addola ef am ei gariad a barodd i
ddioddef cymmaint troſoti ; a chaſâ dy bechode
oedd yn gofyn y cyfryw doſtur ddioddefaint
Fâb Duw.

Myfyria ar y pedwar pêth diweddaf. 1. Sicrwy
Angeu. 2. Dychrvniadau Dydd y Farn. 3. Lla
enydd y Nêf. 4. Poenau Uffern a thragywyddol
y ddau.

Meddwl am dy hôll Garedigion y rhai a yn
awſant o'th flaen di ; a gweddia ar i Dduw ganiat
i ti gael eu cyfarfod hwy mewn Adgyfodiad ilaw

Dydd yr Arglwydd a ddaw megis Lleidr y nôs,
yr hwn y Neſoedd a ânt heibio gyd â thwrw ſ, a'r Defn
ion gan wîr wrês a doddant, a'r ddaiar a'r gwaith a fy
ynddi a loſcir. A chan ſôd yn rhaid i hyn i gyd ymol
pa ryw ſêth ddynion a ddylem ni ſôd, mewn Sanctа
ymarweddiad a duwioldeb, yn diſgwil ac yn pryſuro
ddyfodiad Duw. 2 Pet. 3. 10, 11.

O Arglwydd yn dy drugaredd cofia dy wâs ddydd Farn. Tydi a attebi drosofi, O Arglwydd fy Nuw noti O Arglwydd yr ymddiriedais na'm gwrad der yn dragywydd. *O L.*

GWybydd hyn, Ddarllennydd Cristianogol, ped arferbeunydd Nôs a Boreu yr hôll Ddyfosiwnau a'r Gweddieu ô'r blaen, ni fwrit ti oddi ar awr a hanner eithr gan fôd rhai o honynt yn ddwbl i'r un pwrpas, ac felly nad rhaid dywedyd ond un Rhês ar un diwrnod, nid eiff i ti ond llawer llai o amser. A thrwy roi i Dduw un awr ô'th bedair ar hugain ti a elli gael y cyffur a'r gwobr o Ddwyolder. Ond a dybio awr yn ormod mae hwnnw naill ai yn rhŷ ofalus am y bŷd, neu'n rhŷ ddiofal am y Nef. Pa ddelw bynnac mi a dorrais y Gwasanaeth yn neddiau byrrion, môdd y gallo gymeryd ei [illegible] a chynnifer o honynt ac a chwennycho yn [illegible] Gwasanaeth.

At Ddosp. II.

Gweddi am Feddylfryd pûr *wrth ddechreu, ac wrth ganlyn ar hôb Gweithred o bwys, megis* Astudio, Pregethu. &c.

DDuw tragywyddol, yr hwn a wnaethost hôb pêth er mwyn dyn, a dyn er mwyn dy ogonet, sancteiddia fy nghorph a'm henaid, fy meddylieu bwriadeu, fy ngeirieu a'm gweithredoedd; fel y cwbl a feddyliwyf a siaradwyf ac a wnelwyf yn bwriad i ogoneddu dy enw, a bôd y cwbl yn thiol yn ngwaith Duw ac yn llwyddiannus [illegible] gwŷm a'u cymmwysder. Arglwydd trô [illegible] rheidieu yn rhinweddeu, a gwna di yn *Grefyddol* [illegible] ll or chwylion *Naturiol i*, wrth iddynt fôd yn dref[illegible] yn [illegible] rfodraethus, yn gymhedrol, yn wasanaethgar

ac yn fuddiol i ddibennion eraill uwch na'u cyrraedd u grym eu hunain: ac na âd i ddim balchder na ſan-gais, dim cybydd-dod nac ymddial, na dim uredd arall o goeg ddibennion na gwael amion, lygru fy enaid, na halogi un o'm geirieu na'm weithredoedd: eithr bid fy nghorph i yn weinidog n henaid, a'r ddau yn weinidogion i *Jeſu*, fel gan neuthur pôb pêth i'th ogoniant ti yma, y caffwyf d yn gyfrannog o'th Ogoniant yn ôl hyn trwy *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

At Ddoſp. III.

Gweddi o Fyfyrdod perthynol i Breſennoldeb Duw. *Y weddi yma a ddylid yn enwedigol ei harferu pan demtier ni i bechodeu neillduol*

HOll-alluoc Dduw, Tragywyddol ac Annherfynol, Tydi wyt yn llenwi pôb lle â'th breſennoldeb, Yr wyt Ti ym mhôb mann ar unwaith yn dy *Hanfod* ac yn dy *Allu*, yn y Nêf yr wyt yn dy *Ogoniant* mewn lleoedd Sanctaidd yn dy *Râs* â'th *Ffafr*, yn Nghalonneu dy weiſion trwy dy Yſpryd, yn Nghydwybod pôb rhyw ddyn trwy dy *Dyſtiolaeth* a'th *Gadwraeth* arnom. Dŷſc i mi rodio bôb amſer megis yn dy ŵydd di, gan arſwydo dy Fawredd, a dwys berchi dy Ddoethineb Holl-wybodol. Na wnelwyf hŷth ddim anweddeidd-dra, â minneu yn rgolwg fy Arglwydd a'm Barnwr: eithr ymddwyn o honof mor ofalus a pharchedic, na bô fy Uſtus yn Ciyhuddwr i mi, eithr yn Gyfryngwr; fel gan ddangos, trwy ofalus ymddygiad, fy nghrediniaeth o't'n breſennoldeb di yma, y caffwyf yn ôl hyn dderbyn lleſad o honi mewn cyfran o Ogoniant tragywyddol trwy *Jeſu Griſt. Amen.*

PENN. II.

AM SOBRWYDD CRISTIANOGOL.

DOSP. I.

Am Sobrwydd yn yr ystyr Cyffredinol.

NId yw'r Grefydd Gristianogol yn ei hôll ranneu *moesawl* ddim amgen na Chyfraith *Natur*, neu Reol prîf-*Reswm* yn cyfatteb i brîf-anghenion yr Holl fŷd, yn derchafu prîf-lesâd pôb rhyw berthynas, a thrwy bob amryw droiau a damweiniau yn ein cyfeirio ni at y prîf-*ddiweddnod* a ragosododd Duw er tragwyddoldeb i bawb a'i dilynont *hi*, y *Rheol* hon a eglurodd Duw yn Nghrîst *Jesu*, ac yn ol cyffrif yr Aposto tair rhann sydd iddi, sef 1. *Sobrwydd*, 2. *Cyfiawnder*, 3. *Duwioldeb*. Canys ymddangosodd Grâs Duw yr hon sy'n dwyn *iechydwriaeth* i bôb dyn, gan ein dyscu ni i wadu Annuwioldeb a chwanteu bydol, a *bŷw* 1. yn *Sobr*, 2. yn *Gyfion* ac 3. yn *Ddduwiol* yn y bŷd sydd yr awron; gan ddisgwil am y *Gobaith* gwynfydedic ac ymddangosiad y Duw mawr, a'n Iachawdwr *Jesu Grîst*.

Y gyntaf o'r rhain à gynnwys dy Dlyledswydd tu ac attat *dy hun*, sef, iawn driniad dy Enaid a'th Gorph. Yr ail a amgyffred dy ddyledswydd ym mhôb Perthynas tu ac at *dy Gymmydog*. Y drydedd a gynnwys briod swyddeu Duwioldeb a chyd-ymgyfeillach â *Duw*.

Sobrwydd Cristianogol yw'r hôll Dlyledswydd a berthyn i ti dy hunan, yn dy fwyd a'th ddiod a'th wisereu a'th feddylieu, ac mae hi yn sefyll yn y pum dyledswydd hyn sef, 1. *Cymhedroldeb*, 2. *Diweirdeb*,

3. *Goſtyngeiddrwydd*, 4. *Gwylder*, 5. *Bodlonrhwydd.*

Pan dorro dy drachwant tros un o'r *pum* Terfyneu hyn, ei goſpi ef a'i groeſi a'i ffrwyno dyna'r pêth yw *Sobrwydd*; a rheitied yw wrtho goreu a gwelir wrth graffu ar olion a gwrthwyneb-ddrygau *Cnawdolrhwydd* a Maſwedd a choeg-ddigrifwch.

Y drygau a ddaw o Gnawdolrhwydd *moethus a choeg ddyſyrrwch.*

Yn 1. Hiraethu am *Gnawdol ddyſyrrwch* a bair i'r enaid ymollwng yn wann ac yn anwaſtad ac yn anghymwys i bôb gwas-gwychder bydol nac yſprydol, o achos mai gweiniaid a hurtffol yw gwraidd y *Pleſergarwch* hwn, a rheiny yw, perchi'r *corph* yn fwy na'r *enaid*, y *trachwant* yn fwy na'r *Rheſwm*, *Naturiaeth* yn fwy na *Grâs*, a Dyfyrrwch *darſodedic* yn fwy na Hyfrydwch *tragywyddol.*

Yn 2. Natur pôb *pleſerau cnawdol* yw bôd yn goeg ac yn wâg ddiwala, yn fwyaf ôll wrth eu *diſgwil*, wrth eu *mwynhau* yn wîr wagedd, ac wrth eu *hymadawiad* yn gadel colyn tra dwys bigog. Ie'n chwerthiniad ni a ddiwedda'n fynych mewn dwfn-ochenaid: felly y mae pôb dyfyrrwch arall â'i golyn yn ei gynffon er tecced a phereiddied ei wynebpryd.

Yn 3. Mae *Cnawdol ddyſyrrwch* yn ddirmyg mawr ar Enaid dyn megis llygattŷn neu hudoliaeth yn dallu'r *Dealltwriaeth*, ac yn caethiwo'r *Ewyllys*, A'r dyn a yſtyrio'i enedigaethfraint a brynwyd yn ddrud iddo â gwaed Mâb Duw bydd anhawdd iddo adel anrheithio a dyryſu Rhydd-did ei Enaid.

Yn 4. Mae'r anwes yma yn union wrthwyneb i gyflwr *Criſtion*, canys rhyfel ac ymdrech ac ymorcheſtu gwaſtadol yw buchedd y Criſtion, ond dyfyrrwch cnawdol a'th ddiffirwytha wrth i ti ymdorheulo gyd â'r Gelyn y dylit ymladd yn ei erbyn os diſgwil byth gael y Goron. Ac at hyn y bwrw'r Apoſtol.

Mal

Mae pôb un ar ſy'n ymdrechu yn ymgadw ym mhôb pêth; a hwynt hwy yn wîr ſel y derbyniont goron lygredic, eithr nyni un anllygredic.

Yn 5. Mae'n ddîr i'r *Mwythuſdra* hwnnw fôd yn bennaf rhwyſtr i *Ferthyrdod* am fôd *hwn* yn greulondeb a *hwnnw* yn Anwes i'r cnawd. Ac at gyfryw ddioddefaint rhaid ymgymmwyſo o râdd i râdd gan groeſhoelio'n gyntaf yr anwydeu lleiaf; o blegid yr hwn a orchfyger â phrawf bychan o boen, odid iawn iddo fodloni i golli ei fywyd mewn arteithiau.

Graddau o Sobrwydd.

Yngwrthwyneb i'r *Pleſergarwch* hwn y ſaif *Sobrwydd* yn y tair Grâdd yma.

Yn 1. *Dibriſio a diflaſu ar bleſerau*, neu lawn ſwriadu na chroeſawom un odfa o demtaſiwn i ddyſyrrwch cnawdol. Ac nid yw hyn ond gwaith yr ewyllys a'r Dealltwriaeth yn rhoi barn ac yn datcan yn eu herbyn hwy, gan eu llyſu a'u gwrthod trwy Reſwm dâ a meddylfryd cadarn.

Yr 2. Yw *Gweithredol ryfel ac ymdrech* yn erbyn pôb profedigaetheu a chynhygion o ddyfyrrwch cnawdol a fo pechadurus yn ei râdd na'i ryw: a'r hyfel hwn yw Gweddio, ymprydio, ymborth gwael, lletty caled, a gorchwylion poenus, a gochel drŵgchlyſur, ac arferu pôb dyfais a diwydrwydd, i gryfhau'r Yſpryd a'i wneud yn galed, yn wrol ac yn Criſtianogol.

Yn 3. *Dyſyrrwch yſprydol* yw'r grâdd uchaf o *Sobrwydd*, ac ym mhâ râdd bynnac y medrych di flaſu hoffi pleſerau *Yſprydol*, *y Manna cuddiedic* gŷd â *dyſrydwch* dyfoſiwn, gyd â'r *llawenydd* o Ddiolchgarwch, gyd â'r *gorfoledd* yn yr Arglwydd, gyd â'r *ſiſſur* Gobaith, gyd â *melyſder* Cariad perffaith ac eluſen, gyd â *diddanwch* Cydwybod ddâ, gyd â *heddwch* Addfwynder, a chyd â *dedwyddwch* Calon fodlongar;

longar ; yn yr unrhyw raddeu y diſleſi ac y ffieiddi di'r cibau o drachwanteu mochaidd, a chreiſion afaleu *Sodom*; ac ſe â digrifwch pechadurus mor chwerw gennit a chwydfa Meddwyn.

Rheolau i lethu Cnawdol Ddiſyrrwch.

Y cynghorion cyffredinaf a buddiolaf i ddaroſtwng *Cnawdolrwydd* yw y rhai hyn.

Yn 1. Ymgynnefina i fod yn fyrr o bôb gormodedd wrth ddarparu at dy fywioliaeth, os amgen, ymchengu a wna dy chwantau di, á holl betheu'r byd yn annigonol iw bodloni. ac wrth hynny o gadewi iddynt gynnyddu tu hwnt i feſureu dy *Angenrhaid* a'th *Gyfleuſdra* cymmhedrol, chwyddo a wnant byth rhag llaw : ond y cwrs a'r rheol oreu arnynt yw goſod *Natur* yn eithaf pennod iddynt. Ceiſio diddymmu dy drachwantau a ddylit yn fwy na'u porth i ; ynteu eu ffrwyno a chwttogi eu rhwyſc yw'r ffordd oreu i ragbrynnu llonyddwch ganddynt; neſaf pêth iw gwadu hwy yn hollawl, yw eu hyſcythru'n lan oddiwrth bôb *gormodedd* afreolus a direſwm.

Yn 2. Lletha dy chwanteu cnawdol ar eu codiad cyntaf, canys yna y maent hwy wannaf a'th rydd-did titheu i *ddenis* gryfaf: eithr os hwynt hwy yn eu gwendid a'th orchfygant ti yn dy gryfder, och nid gwiw ymryſon pan gynnyddont hwy yn rymmuſach a'th nerthoedd ditheu yn lleſcach. *Os gadeni di iddynt hwy ddechreu odid iawn a adawant hwy i ti ddiwedd.*

Yn 3. Siomma hwy â rhyw orchwyl canmoladwy, ac iw dyhuddo bydd dauog a chluſt-fyddar wrthynt. O blegit gan na ddichon meddwl dyn ddal yn graff ar ddeubeth ar unwaith, o bydd dy enaid titheu ar waith, naill ai uwchben Llyfr, neu orchwyl corphorol neu ryw ſimmera diniweid arall, ni bydd le i un temtaſiwn cnawdol yngynnyg i'th flino.

Yn 4

Yn .4 Edrych ar *Bleſeraw* nid o'r tu diſclair pan ſont yn ymherrio arnat, canys yna maent á'r troed goreu ymlaen, wedi ymwiſco mewn gemmeu gwydr a wynebwyd âg aur, a phob twyllodrus wychder. Eithr wedi i ti ddatod neu annhaccluſo'r trwſiad wrth fwynhau eu ffuantus degwch â hwytheu'n dechreu ymadel, yna cenfydd eu noethni alarus hwy. Gwêl pa ochenaid a thriſtwch, pa anghenfil anolygus ac yſcerbwd ffiaidd y prifiant. Cymmerth *Solomon* brawf o bôb rhyw betheu, ei wala o bôb pleſerau, ac a lŵyr alarodd arnynt ôll. Titheu a ellit flino arnynt ôll wrth *reſwm* cyſtal ac ynteu wrth *brawf*, Pe edrychit ar bôb pleſerau yn ôl eu gwîr olygiad *wrth ymadel*, Neu os credi i brawf rhai eraill a'u profodd ac a'u ffieiddiodd ôll.

Yn 5. Mynych yſtyr a myſyria ar *bleſereu'r Neſoedl*, fal pan lanwo'r rhain hwylieu dy Enaid y gallech ddal y llyw tu ac yno'n union, heb edrych bŷth drachefn tu a *Sodom*. Wedi'r ehetto dy Enaid fry, ac edrych i wared obrŷ ar bleſerau bydol, ti a'u gweli o hirbell yn fychain ac yn wael ddiyſtyr, a dynion yn gwybetta ar ôl eu trachwanteu a ymddangoſant i ti mor ynfyd a'r pyſcod yn rhedeg o feſur mîl ar ôl un prŷf cynrhonllyd a'r bâch marwol ynddo.

Yn 6. Cymmorth godidoc at hyn yw myſyrio ar ſiampl *Crîſt* a'i Apoſtolion, a *Moſes* a hôll Ddoethion y bŷd o bôb Oes, y rhai yn deall iawn wahaniaeth rhwng drŵg a dâ a ddewiſaſant y ffordd arw brudd i Ddedwyddwch yn hytrach na'r ffordd lydan, ddifyr ac eſmwyth ſy'n arwein i Ffolineb a Deſtryw.

Ond nid yw hyn ôll ond *Sobrwydd* yn *gyffredinol*; ei Rhann *neilltuol* gyntaf hi yw *Cymmhedroldeb*.

DOSP.

DOSP. II.

Am Gymmedroldeb wrth fwytta ac yfed.

SObrwydd yw ffrŵyn *Trachwant*, a *Chymmedroldeb* yw genfa'r ffrŵyn fy megis penwar yn fafn dyn, iw attal rhag gormodedd o *fwyd* a *diod*, ond a gyttuno oreu â'r iechyd, ac a helpio yn lle rhwyftro Gorchwylion yr Enaid, trwy roi cynhaliaeth angenrheidiol i'r Corph, a thrwy lonni a firioli'r Ysbryd.

Yn yr *Enaid* y mae gwreiddin *Cymhedroldeb*: Canys grâs yw *hi* yn dewis Moddion naturiol at naturiol a fanctaidd ddibennion priod. *Yn bwytta* ac *yfed* (petheu fy angenrheidiol) y mae Arfer *Cymmhedroldeb* yn fefyll; ac am hyn ni's gâd *hi* arferu monynt at ddibennion anghyfreithlon; ni's mynn *hi* fwytta ac yfed er *pleſer* ond er *angenrhaid* neu i'n *Dad-lonni*, ac mae hyn yn râdd o angenrhaid.

Nid wy'n gwadu na bô, ie'n ddiammeu y mae ym mhôb corph iâch *bleſer* wrth *fwytta* ac *yfed*, am nad oes yn Natur un pleſer mwy na chael bodloni'r hôll chwantau a drefnodd Duw; ac mae'n rhydd i ti ddewis tammeid blafuſach a gwrthod un gwaeth y bo llai ynbôrth neu dycciant ynddo, neu heb ddygymmod â chylla gwann, neu ar Ddydd-gŵyl, neu ddiwrnod o lawenydd neilltuol. Ar yr hôll achoſion hyn mae i ti gennad i gymmeryd dy bleſer yn rhyddach: trwy na bô dy fryd ti ar y *pleſer* yn bennaf dim, hynny yw, am y dewiſech yr amheuthun er mwyn yr achos y caniattawyd hynny o rydd-did i ti, yn fwy nac o ran y danteithion eu hunain. Ond pan fo'r *pleſer* yn unic achos, ac yn hîr-bara i fôd felly, yna nid yw *Bwytta* ac *yfed* yn wafanaeth i Dduw mwyach, eithr gweithred afreolus.

Ond am ddewis dyſcl well o flaen un waelach, gwnâ fel yr aferir mewn gweithredoedd eraill na phennoded

phennoded dim terfyneu naturiol iddynt, ac y cynhwyſwyd peth rhŵyſc ynddynt; ſef gwna *yn Gymhedrol* ac yn *ſynhwyrol* wrth farn gwyr call creſyddol a ſobr. Ac yna gall Duw a roes i ti y fath amryw ddewis o greaduriaid iw harferu, gael gogoniant oddi wrth dy gymheturwydd di a'th ddiolchgarwch yn euderbyn, a thitheu a ellit eu harferu ôll yn ddi-ragor yn ddi-ruſiedic ac yn ddiberygl o'u bôd yn fagl i ti, na thrwy ormod rhŵyſc, na gormod manyldra, na chwaith trwy ormod petruſder ac ofn arferu dim o honynt ond yn y fâth amgylchion na bô poſſibl fod dim amryfuſedd.

Cymmhedroldeb mewn *bwyd* a *diod* a feſurir wrth y Rheolau hyn.

Meſureu Cymmhedroldeb wrth fwytta.

Yn 1. Na fwytta *tan yr un amſer*, oddieithr i Angenrhaid neu Gariad neu ddigwydd o ryw ddamwain yn y cyfamſer a wnêl hynny yn rheſwm ac yn weddeidd-dra i ti. Cofia neſed ſu i hoedl *Jonathan* brynu am brofi ychydic fêl cyn maehludo'r Hu[illegible], ac er bod ei fawr newyn yn ei eſcuſodi ef oddi wrth y pechod o lythineb, etto peth anneſcuſodol yw i ti fwytta cyn yr amſer arferol, neu wthio dy law i'r ddyſcl yn annhymoraidd o wanc i'r pleſer neu o aneſmwythyd i ymaros.

Yn 2. Na fwytta yn *rhŷ bryſur a ffwdanus*, eithr yn weddaidd ac yn arafaidd, fel y bô dy *fwytta* yn weithred a weddei i ddyn, ſef môdd y caffech dy gôſi *ddeuis* ac *yſtyried* yn bwylloc wrth fwytta. Ond os *ar ffrŵſt* y bwyttei ni elli graffu ar yr amgylchion a'r graddeu a'r damweinieu bychain a ddigwydd i ti trwy'r pryd, ac felly llithr arnat amryw wrthuni bâch yn amryfus.

Yn 3. Na fwytta *yn flyſig ac yn fwythus*, hynny yw, na

na fydd trwblus i ti dy hun nac i eraill wrth ddewis dy fwydydd a chywreindeb dy *ſaws*. Cyfrifwyd yn bechod i'r *Iſraeliaid* wrthwynebu'r *Manna* a blyſio cîg, glynodd y *Soſt-ieir yn eu ffroeneu a ſyrthiodd digllonedd Duw arnynt.* Ac am y *môdd* o drwſio bwyd nodwyd Meibion *Eli* am ormod *dichlynrwydd*, am nas mynneint y cîg yn ferwedic eithr yn amrwd fel y caent ei roſtio. Nid o ran bôd yn bechod bwytta neu chwennych cîg rhôſt, ond lle'r ordeiniaſid berwi'r cîg am iddynt hwy ei wrthod felly, a hynny yn dang s dant blyſig anghymhedrol. Mae ar bob yſtyr yn rhydd achleſu *cylla* mwythus a gwann, ond peth arall yw boddio *geneu* mwythus anweſog. Pan fo'r *iechyd* yn gofyn amheuthun mae'n iawn ei borthi, ond peth arall yw *blŷs* a thrachwant anghymmedrol. *Beth bynnac a oſoder ger eich bron bwyttewch*; os darparwyd ef i ti, gelli ei fwytta er danteithied fyddo; ac os gwael a chyffredin fydd, am y bo'n iachus a chymmwys i ti, ni ddylit mo'i wrthod o anwes, am fôd pôb grâdd o fwythuſdra yn râdd o anghymmedroldeb. Dedwydd a diniweid oedd oeſoedd ein hynafiaid ni, a fwyttaent graſyd a llyſieu, ac a yfeint loyw ddwfr y ffrŵd, â chnau ac â gwreiddiach y torreint eu hympryd, a phan gaent gîg ni cheiſient ddim iw drwſio ond newyn a thân; a'u *ſaws* gyntaf hwy oedd chwerwlyſiau, ac weithieu bara wedi ei drochi mewn finegr.

Ond wrth ddewis ein bwyd rhaid yw meſur *Cymmedroldeb* yn gyfattebol i'r *amſer* preſennol, ac wrth y *Cwmpeini*, ac yn ôl y *dygiad i fynu* a barn gwŷr ſynhwyrol goneſt ac wrth angenrheidieu *Naturiaeth.*

Yn 4. Na fwytta *mor gormod*, na lwytha mo'th cylla na'th ddealltwriaeth. *Os eiſteddi ar fwrdd llawn na fydd gwancus iddo, ac na ddywed mae arno lawer o fwyd. Cofia mai peth drŵg yw drŵg lygad, a pheth a grewyd waeth na llygad? am yr wyla ef ar bôb achlyſur. Na eſtyn dy law i bôb lle yr edrycho efe; ac na wthia hi*

gyd

gyd âg ef i'r ddyſcl. *Digon yw ychydic iawn i'r medrus, ac ni ſydd bŷrr ei anadl ef ar ei wely.*

Arwyddion ac Olion Cymmedroldeb.

Cei wybod os yw'r Grâs o *Gymmedroldeb* gennit wrth ei *Harwyddion* ſy'n canlyn, y rhai ſydd fel cynnifer o *luſciadau* i'th ddenu iw haſtudio ac i ymarfer â hi.

Yn 1. Mae'r dyn *Cymmedrol* yn *orchwylus*; a gwanc yn anfoeſol ac yn anweddol. Ac at hyn y mae Cyngor Mâb *Sirach*, *Pan eiſteddech ymŷſc llawer nac eſtyn dy law yn gyntaf ôll. Paid yn gyntaf o ran medruſrwydd ac na fydd annigonol rhag gweled bai arnat.*

Yn 2. Mae'r *Cymmedrol* yn ymddwyn yn *bwyllog* bôb amſer, ac awydd yn yſcoewan ac yn *coeg-lawenhau* wrth weled danteithion.

Yn 3. *Cŵſc iachus* a chymmeſurol ſy Arwydd a gwaith *Cymmedroldeb*, *Cŵſc iachus a ddaw o fwytta'n cymmedrol, eſe a gyfyd yn foreu a'i ſynhwyr ganddo.*

Yn 4. *Llawenydd yſprydol* a Gweddi ddyfoſionol. *Yn* 5. Diſtaw ac anaml Ddigllonrhwydd. *Yn* 6. Llywodraeth ar ein Meddylieu a'n gwynieu. *Yn* 7. Temaſiwnau anaml a ſeuthug. Chwanega at hyn nad yw'r dyn *Cymmedrol* yn ymorol am ddyfeiſieu amheuthun. Nid yw e'n meddwl nac yn ſiarad nemor m *fwyd* a *diod*; corph iachus ſydd iddo a hîr enioes ni rwyſtra rhyw ddamwain arall: Ond o'r gwrthwyneb cymdeithion *Glythineb* yw *Anhunedd a buſtl a wenwyr y bol.* Gwŷch ynteu a dywed *Stratonicus* am rmodedd y *Rhodiaid*, Adeiladu'r oeddynt fel pedeſeint i fyw byth, a gwledda fel pa buaſeint ar fedr arw yn ddiſymmwth.

Am Feddwdod.

Eithr yma chwennychwn i ti yſtyried er nad yw ion ac arwyddion *Glythineb* mor hynod i eraill nac

mor

mor rhempus ddigrif ac yw *Meddwdod*, nac mor wrthun yn ngolwg dyn: Etto yn ôl ei raddeu mae'r pechod yn prifio'n ddiarwybod yn ngolwg Duw, a rhaid i ti wilio'n ddygn rhag iddo dy oddiwes trwy ddifrawch neu eſceuluſdra, am fod *gormodedd* cynddrwg o'r nail ac o'r llall, wrth fel y bô dy ſerch di i'r *bwyd* neu i'r *ddiod*. I'r Corph y mae *Glythineb* waethaf, a *Meddwdod* i'r Dealltwriaeth, A hyn a bair gwaraſtun *Meddwdod* a'i hwtio yn y Scrythyr lân yn fynychach na r llall: ac felly yr aeth *Sobrwydd* i arwyddocccau *Cymmedrolder* mewn *diod*.

Meddwdod yw anghymmedrol hoffder ac arfer o *ddiod anghymmedrol* y galwaf beth bynnac a fo *heibio* neu *tu hwnt* i'r dibennion daionus y trefnodd Duw i ni *yfed* o'u plegid. Y dibennion hynny yw *treulio'r bwyd*, a *llonni* a *ſirioli'r* yſpryd, neu ryw bwrpas *ar les yr iechyd*; ac od eir na heibio na thu hwnt i'r rhain, mae e'n afreolus ac yn feius ac a elwir *Meddwdod*. Gwaharddodd ein Hachawdwr ef yn y geirieu hyn [*Edrychwch arnoch eich hunain rhag i'ch calonnau un amſer drymhau trwy lythineb a meddwdod*] *rhag trymhau*, hynny yw, rhag y *trymluog* hurtrwydd a ddaw yn gynnefin drannoeth o *feddwdod*. Canys mae *Criſt* yn gwahardd y Weithred a'r Arfer o *anghymmedroldeb*, nid yn unic yr *affeithiau* a ddaw o'r pechod eithr hefyd dy *ſerch* di iddo, am fôl y ddau yn ddrwg. Yr hwn a yfo ychydic, a hynny yn ei orchfygu, ac ynte'n gwybod ym mlaenllaw ei wendid, euog yw efe o *drymlwytho* neu *ſurffedu*. Ond y ſawl a yfo lawer ac e'n gryf i ddal, heb gwbl golli ei ſynwyr, hwnnw fy'n euog o *feddwdod*. Mae'n bechod gollwng y fath wall niweidiol i'r Corph a'r Dealltwriaeth. O blegid hyn, mae'r ſawl a yfo heb ddim chwant i'r ddiod yn euog o *Drymlwytho* oni wilia ef rhag ei drwg affaith hi: A phechod, ie mwy na'r llall, yw hoffi arfer anweddeidd-dra o ddiod, er na dêl dim pwy

trymluog ar ei hôl. Odiaeth ynteu yw cyngor Mâb *Sirac, Na ddangos dy wroldeb mewn gwîn, canys gwîn a ddiſethodd lawer.*

Y Drygau a ddaw o Feddwdod.

Drŵg olion yſceler *Meddwdod* a gyfrifir gan ſcrifennyddion y Scrythyr, a chan eraill o'r Doethion i'r meddwl yma. *Yn* 1. *Meddwdod* a bair wae a thrychineb, archollion a gofid, pechod a chywilydd, pair chwerwder yſpryd, ymſennu ac ymrafaelio, *eſe* a chwanega gynddaredd ac a leiha'r nerth, *ef* a wnâ lygaid cochion, a thafod gwŷllt trybelyd. *Yn* 2. Gwâs yſpyſol yw *Meddwdod* i Anlladrwydd, ac etto ſe a wanhâ'r corph, *ſe* wnâ ddyn mor anllad a gafr ac etto mor egwan a chleiriach. *Yn* 3. Mae *meddwdod* yn rhwyſtro ac yn hurtio'r *Deallwriaeth* gan droi dyn yn anifail yn ei wynieu, ac yn ffŵl yn ei reſwm, a pha ragor ſy rhyngtho a gwallcof ond ei fôd e'n *wirfodd* ac felly yn waeth na'r llall. *Yn* 4. Mae e'n torri'r argae ac yn gollwng am dy ben yr hôll ddrygau hynny ſy naturiol a chynnefin i ti, ŷ rhai ŷ cadwei *Reſwm* a *dŷſc* di rhagddŷnt. Mae *Meddwdod* yn galw'r gwilwyr oddi ar y bylchau; ac yna hwdiwch yr yr hôll ddrygau a all heigio o galon egored, ac o dafod di-attal, ac o yſpryd di-rwym, ac 'wllys digwrs a di-gadwraeth, a hyn ôll a ellir eu bwrw ar *Feddwdod*. *Yn* 5. Letha *meddwdod* a diffydd yr Yſpryd glân, canys ni all nêb fôd yn llawn o Yſpryd Duw ac o wîn hefyd ar unwaith, Dengys S. *Paul* na chyttal y ddau hyn ynghyd *Na feddwer chwi â gwîn* medd ef *yn yr hyn y mae gormodedd eiſbr llawner chwi â'r Yſpryd glân.* *Yn* 6. Egyr *meddwdod* hôll Gyſſegroedd Natur, gan ddangos noethni'r enaid yn ei wendid a'i ffolineb, mae e'n amlhau ac yn anwyddu pechodau, ac a wnâ ddyn yn anghymwys i fôd nac yn gyfaill neilltuol nac yn Gynghorwr cyffredinol.

Yn 7.

Yn 7. Mae *Meddwdod* yn caethiwo ac yn carcharu'r enaid yn doſtach nac un pechod arall, am ei fôd yn difuddio ac yn yſpeilio dyn o'i Reſwm a'i Synwyr a ddyleint fôl yn help ac yn rhydd-did iddo, am hynny gnawd iddo gyd-gynnyddu ar ddyn gyd á'i oedran, ac i'r meddwyn heneiddio'n fwy o ffŵl ac yn llai o ddyn. Afraid i mi adrodd ſiampleu gofidus o ddrygau *meddwdod* gan amled ydynt nid yn unic yn y Scrythyr ac ym mhôb Cronicl ac oes o'r cynfyd, ond hefyd yn ein amſer a'n coffadwriaeth ninneu yſywaeth.

Eithr od ymofynnir am *derfyneu pennodol* a phriod arwyddion y pechod hwn, ſef, pa bryd a gellir dywedyd bôd dyn *yn feddw*; fy atteb yw, y dylid barnu am *feddwdod* megis ac am *glefyd*. Fel y mae pôb *llaccrwyld* ac anhwyl ar yr iechyd ym mhôb gradd o'i barhâd yn râdd o *glefyd*, felly y mae pôb cilio allan o'n cyffredin gywair naturiol ac o'n harferol galedrwydd yn râdd o *feddwdod*. Nid hwnnw'n unic ſy *fedlw* yr hwn ni all yfed dim ychwaneg, o blegid nid oes nemor felly: eithr pechod mewn grâdd o *feddwdod* pwy bynnac aeth ddim dros ei feſur naturiol ei hun. Ond dyma fel yr arferir pennu rhanneu a phrîf-nodau *meddwdod*. 1 Yſtumiau eppa. 2. Siarad llawer. 3. Chwerthin yn anghymeſur. 4. Hurtrwydd y ſynhwyreu. 5 Coeg watwar, gwagſawrwydd gwawdus a chwerw-ddrŵg dafod. 6. Dealltwriaeth diles. 7. Cŵſc penſyfrdan. 8. Y gloeſion llewyg, neu glwy'r pentwynian, a'r chwydfeydd anifeiliaidd. Mae'r lleiaf o'r rhain, ie pan ddechreuo'r tafod ymryddhau, yn *râld* o *feddwdod*.

Ord fel y bo i ti ochelyd y pechod o *Anghymmedroldeb* mewn *bwydydd* a *diodydd*, heb law y *Rheoleu* a roed euſys cymmer hyn yn anghwaneg o Gynghorion a allant fôd i ti yn dra lleſol.

Rheoleu

Rheoleu i ynnill Cymmedrolder.

Yn 1. Na fydd fynych mewn *gnleddoedd* nac un amser mewn cwmpeini abrwysc o bydd môdd, canys amryw ddanteithion trwy'r llygad a ddygant y galon, a'r cwmpeini a fydd naill ai yn dy *gymmell* ai 'n dy *ddenu*, a thitheu naill ai yn *wann* ai yn *gymdeithgar*, neu ni hwyrach yn fodlon ddigon i gael dy bendifadu: ond os tarewi wrth y cyfryw loddestwyr yn *amrysus* neu yn *anochel*, a gwybod fôd gwendid ynot, na âd i rîth *moes* neu *gymdeithasgarwch* dy hudo i aros, chwaethach i bechu trwy yfed yn anghymmesur.

Yn 2. Bydd *galed* yn gosod i ti dy hun *fesureu*, ac er nêb rhyw achos na throsedda'n neppell dy derfyneu gosodedic: Canys o fesur ychydic a delir dyn, a thra thybiech di ni feddwaf er un cwppaned ychwaneg, wele anghymmwysodd yr un cwppaned hwnnw dydi i farnu dy gyflwr presennol a'th berygl cyfagos. *Tra thybiant eu hunain yn ddoethion, hwy a ânt yn ffyliaid*: diſgwiliant gael profi'r *wenwynllys* heb farw, neu ymdrwyno â sûdd y *pabi du* heb gael syrthni; a ped yfeint yr hôll heiniar, etto tybieint na fyddeint waeth er un cwppaned ychwaneg. Ond cofia di hyn, pan ddechreuech ammeu a elli yfed un ddiod ychwaneg, y munud hwnnw mae'n rhywvr ymadel: Bydded hyn i ti yn amnaid ei bôd hi yn llawn bryd cychwyn; o blegid mae pôb achos i *ammeu* yn ddigon o achos i *dorri i fynu.*

Yn 3. Na ddôs at y bwrdd ond *wrth dy angenrhaid*, c od wyt iâch, gâd ryw fesur o'th chwant heb dorri, hyw faint o'th wrês naturiol heb ei daſcio, môdd y allo hynny fôd at siccr dreulio a dosparthu dy wyd, ac at wasanaeth angenrheidiol arall i Natur eu i'r *Yspryd.*

Yn 4. Gosod i ti *Reol sasadwy* i fyw, i fwytta ac i fed wrthi [o bydd i ti ffordd] ac er y gall bôd

yn anghymmwys i ti gerdded yn rhŷ *ruſiedic* wrth y llinyn *bob amſer* rhag maglu dy Gydwybod neu beryglu dy iechyd (pan ddigwyddo amgen na dâ) etto na thorr mo'th Reol *yn fynych* nac *yn bell*, nac heb *angenrhaid mawr* nac ond mewn *ychydig raddeu.*

Yn 5. Bŷth na chymmell nêb i fwytta neu i yfed tros ben ei *feſur* a'i *'wyllys*; Os gwnei, yr wyti'n *feddw* ar ormodedd dy frawd, ac yn pendwmpian o'i foleriad ef, hynny yw'r ŷch chwi yn cŷd-ymdrobaeddu mewn pechod ac euogrwydd eich dau,

Yn 6. Arfer yr arfeu o *Sobrwydd* eiddo S. *Paul*, *Nyni y rhai ydym o'r dydd byddwn ſobr, gan wiſco dwyfronnec Ffydd a Chariad, a Gobaith Iechydwriaeth yn lle helm.* Ffydd Gobaith a Chariad, dyna'r arfau goreu i ymladd yn erbyn *Anghymmedrolder.* Mae Ffydd y *Tyrciaid* yn gwahardd iddynt yfed gwîn a hwytheu'n ymgadw yn Grefyddol, fel meibion *Rechab.* A gwaharddwyd i ninnau *Feddwdod* gan *Ffydd Grîſt* yr hon ſy alluoccach o anfeidrol i lâdd y pechod hwn, pan yſtyriom mai Criſtianogion ydym, ac na ddichon ein cariad ar Dduw na'n Gobaith am iechydwriaeth mor cydfod â'r beieu hyn; diengiff y rhain allan o'r *genau* pan ddêl y rheiny i'r *Galon*: Canys dyma'r Cythraul na fwrir mono allan ond trwy weddi ac ympryd, fel priod weithredoedd y Graſau hyn.

Yn 7. Odiaeth o gyngor oedd i ti, heb law dechreu a diwedd pôb pryd â *gweddi* ac â *diolch*, hefyd ar ganol bwytta gofio derchafu dy enaid i feddwl am y Bwrdd *Nefol*, gan fynych fyfyrio a mynych hiraethu am dano; fel trwy ennyn dy awydd i feigieu *nefol* y bŷch oerach a dibriſiach o ddanteithion *daiarol.*

Yn 8. Tymhera dy brŷd bwyd âg ymddiddanion *duwiol*, neu a fo *lleſol* rywffordd, a *chariadol* a *diniwed* bôb ffordd fel y rhodder i ti achlyſur.

Yn 9. Felly gweined dy ddiod i'th fwyd fel y gweina dy fwyd i'th iechyd; fel y bô hi yn adda

i drosglwyddo a dosparthu dy ymborth ac i sirioli dy ysprydion; etto byth nad êl y *siriolwch* hwnnw ddim pellach nac i ysafanhau ychydic ar yspryd prudd trymluoc: bŷth na chynnydded yn anghyfleusdra, yn yscafnder nac yn hurtrwydd nac yn oseredd *anghymedrol*; a gwybydd fod ymddattodiad cyntaf y tafod, a'r llaccâd cyntaf ei ddyledswydd ef, yn un grâdd o *Anghymmedrol ler.*

Yn 10. Gochel dy *feistroli* gan y cyfryw betheu ac a fyddeint [oni bai hynny] yn ddigon cyfreithlon i ti. *Pôb peth sy gyfreithlon i mi ond ni chaiff dim arglwyddiaethu arnaf* ebr *S. Paul.* Ond bôd mewn hiraeth gwastadol ac awydd anesmwyth i rywbeth fel nad elli ymgospi oddiwrtho, dyna di'n colli dy rydddid, ac yn mynd yn gaethwas i *fwyd* a *diod* neu i *fŵg.* Ac hefyd am y *Tobacco* mi fynwn i laweroedd ei ystyried e'n ddwysach sy heb eu hanmeu eu hunain o *anghymmedrolder*, er maint a thaered yw eu hoffder iddo, ac er bôd eu harfer yn ddi-dor yn ddi-reswm ac yn ddi-bwrpas, ond mynd o hono'n gynnefin ac yn angenrheidiol iddynt, fel yr *Anghymmedrolder* ei hun i rai dynion.

Yn olaf, Ymarfer a'r *Cynghorion* a osodwyd yn Arfeu i lethu *Dysyrrwch Cnawdol* yn y Dosparthiad o'r blaen.

DOSP. III.

Am Ddiweirdeb.

ARos Ddarllennydd ac na ddarllen y Cynghorion sy'n canlyn yn y Dosparthiad yma oddiwrth bôd gennit yspryd diwair, neu yn chwennych bôd yn ddiwair, neu onid wyti o'r hyn lleiaf yn hôff gennit ystyried a ddyliti fôd felly ai beidio. O blegid mae rhai Eneidieu mor annuwiol yscelerr, a rhai mor llwyr wedi eu meddiannu gan yspryd ysfendid ac y troant y Cynghorion callaf a diweiriaf

yn ſerthſrynti ac yn ſeddylieu anllad: ſel cylla buſtlaidd a newidiant y meddyginiaetheu melyſaf yn chwerwdod; *gan droi yn ôl y llythyren* râs Duw yn drythyllwch. Aſtudiant achoſion *Cydwybod yn y matter o Bechodeu cnawdol, nid iw gochel ond i gael dyſcu ffordd i gythruddo Duw ac i lygru eu heneidieu eu hunain; gan chwilio'u tai â phelydr yr Haul i gael bôd yn hyſpys yn hôll gongleu'r bydreddi. Cymmerais oreu ac a ellais o ofal yn y gwerſi a ganlynant, rhag na bôd yn ddiffygiol i neb o gymmorth wrth ei raid, na rhoi achlyſur o ſeddylieu coegſryntion i eraill heb ſôl yn rhaid. O chippia rhywun y Gwyren loywbur o'm llaw i, a'i dal hi i Ddiawl, ni wnâ'eſe ond lloſci ei fyſedd ei hun, ni all ddifuddio monoſi o wobr fy ngoſal a'm bwriad dâ, gan ddarſod i mi edrych pa ſôdd yr amlygwn y dyledſwyddeu ſy'n canlyn, a'i rybuddio ynteu pa ſodd iw darllen.*

DIweirdeb yw'r Ddyledſwydd a ddirgel fwriadodd Duw yn Nghyfraith yr *Enwaediad*, Hi yw Enwaediad *y galon* ſef *torriad ymaith bôb helaethrwydd mâlis a lletha pôb* afreolus drachwant i *ddyſyrrwch corphorol*. *Afreolus* a phechadurus y galwaf bôb chwantau cnawdol ond a ſo *Yn* 1. o fewn terfyneu glân *Briodas*, ac *yn* 2. o fewn cwrs *naturiaeth*, ac *yn* 3. o fewn cymmeſurwydd *Gwyldra* Criſtanogol. Gwrthwyneb i'r cyntaf o'r tri hyn yw *Putteindra*, godineb, a phôb gwirfodd ymhalogiad mâb neu ferch. Gwrthwyneb i'r ail yw pôb ymloſcach *annaturiol* rhwng *cyfneſeifiaid*. Gwrthwyneb i'r trydydd yw pôb anghymmedroldeb yn y gwely *cyfreithlon*, yr hyn ſy iw farnu fel mewn bwydydd a diodydd, gan na phennwyd i bawb yr un grâdd pennodol o fynychdra neu o chwant i'r gwaith, ond ei drefnu ſy raid yn gyfattebol i'r *diben*, ac i fraint dyn, ac i'r caledrwydd parchus a berthyn i *Griſtion*, ac yn ôl rhai amgylchion eraill ſy etto i mi i roi eu hanes

Diweirdeb

Diweirdeb yw'r grâs a wahardd ac a ettyl yr holl ddrygeu uchod ac a geidw'r Corph a'r Enaid *yn bùr* yn y cyflwr a gosodo Duw ddyn ynddo, pa un bynnac ai Stât *morwyndod* ai *Priodas*. Ein dyledswydd yn hyn o beth a ddatcan S. *Paul* fel hyn, *Canys hyn yw ewyllys Duw, sef eich sancteiddiad chwi, ar ymgadw o honoch rhag godineb: Ar fedru o bôb un o honoch feddiannu ei lestr ei hun mewn Sancteiddrwydd a phar'h; Nid mewn gwŷn trachwant megis y Cenhedloedd y rhai nid adwaenant Dduw.* 1 *Thes.* 4. 3, 4, 5.

Diweirdeb yw naill ai *Ymgadw* ai *Ymgynnal*, Ymgadw a berthyn i'r Morwynion a'r Gweddwon, Ymgynnal i'r rhai Priodol. *Priodasau* diwair ydynt anrhydeddus a chymeradwy gan Dduw. *Gweddwdod* sy drist yn ei cholled a'i chyflwr unic, etto cariadus a hawddgar yw hitheu lle bo meddwl pwylloc, a phûr oddi wrth goffa'i rhwysc o'r blaen, na chwant presennol i ddychwelyd i ail wely. Ond *morwyndod* yw buchedd Angylion, a barnais yr Enaid, a mawr fantais Duwiolder a Dyfosiwn. Stât yw *hon* wâg o ofalon a llawn o weddieu; Stât anghymysc â'r *byd*, eithr ynghenglyn â *Duw*. Stât ddieithrol i wrês rhŷ brysur naturiaeth anwesog, ac yn torri allan yn fflammeu cariad sancteiddlan hyd oni losco fel y *Cherubiaid* neu'r To *pêr-ureſoccaf* o ysprydion sanctaidd anllygredic.

Nid yw Morwyndod *naturiol* o'i rhann ei hun yn gyflwr dim gwell gan Dduw. Ond y mae Morwyndod *gwirfodd* a ddewisser er mwyn Cysleusdra Crefydd, a Seibiant oddi wrth helbulon bydol, o rann hynny yn well na Stât *Briodas*. Nid bôd Morwyndod yn sancteiddiach, ond am ei bôd *hi* yn rhydd-did glân oddi wrth ofalon, ac yn achlysur i dreulio ychwaneg o'n hamser mewn Gorchwylion ysprydol, a'i bôd hi'n burach oddi wrth wael fatterion a negeseu daiarol. Ac os i'r dibennion hyn y dewisi *Forwyndod* mae ynddi

ſuddugoliaeth ar dy ddrŵg anwydeu, a mwy chwant i Grefydd, ac ymwadu â thi dy hun, ac *wrth hyn* y mae'r Stât yma yn odidocach na *Phriodas*, o gymaint ac a bo ynddi fwy o Dduwioldeb a Marwhad, llai porthiant i'r chwanteu bydol a mwy llawnder i'r yſprydol: ac dyna fel y caiff *Morwyndod* y goronig fechan honno a ddarparodd Duw [heb law'r Goron fawr yr holl ffyddloniaid] o ragor i'r *rhai na halogwyd â gwragedd ond ſydd yn dilyn y* Gwyryf-*Oen yn dragywydd.*

Etto mae rhai yn nghyflwr *Priodas* yn boddio Duw yn well na rhai Gwyryfon yn St.t *morwyndod.* Hwynt hwy wrth roi ſiampl fawr o ſerch *priodol*, trwy gadw eu crêd yn ddihalog, trwy ddwyn plant i fynu yn ofn Duw, trwy amynedd a bodlonrhwydd, a meddylieu ſanctaidd, a thrwy ymarfer â'r graſau perthynol i'r Stât honno, ydynt yn boddio Duw yn well na'r Gwyryfon hynny na bo eu Duwioldeb yn gyfattebol iw mawr Achlyſur a'u manteiſieu.

Pa ddelw bynnac mae'r *Priodol*, y *Gweddwon* a'r *Gwyryfon* i gŷd ôll yn weiſion i Dduw, ac yn gŷdetifeddion i dreſtadaeth *Jeſu*, os rhodiant o fewn *Rheoleu* a chyfreithieu eu ſtât eu hunain, yn ddiwair yn gymmedrol, yn gyfiawn ac yn grefyddol.

Y Drygau a ddaw o Aflendid.

Cymmwynaſau a bendithion *Diweirdeb* a welir amlyccaf wrth graffu ar y drygau a ddaw o *Aflendid.*

Yn 1 Aflendid o bôb bai yw'r mwya cywilyddus. *Llygad y godinebwr a wilia am y cyfnos gan ddywedyd ni cheiff llygad fy ngweled, ac eſe a eſyd hŵg ar ei wyneb. Yn y tywyll y maent yn cloddio trwy dai, y rhai a nodaſent iddynt eu hunain liw dydd; nid adwaenant hwy oleuni: canys megis cyſcod Angeu yw y boreu iddynt hwy. Yſcaſn yw ar wyneb y dyfroedd; melltigedic ydyw eu rhandir hwy ar y ddaear, ni thry eſe ei wyneb at ffordd y gwinllan-*

oedd. Job 24. 15. *&c.* Merch hynaf *Aflendid* yw *Cywilydd.*

Yn 2. Mae trachwanteu *Aflendid* yn llawn o ofalon a thrallod, gofid ac ediſeirwch yw eu mwyniant hwy. *Mae ffordd* y godinebwr *wedi ei chau â drain* yn llawn o ofn ac eiddigedd, yn lloſci o flŷs a hiraeth aneſmwyth, a blinder ymaros, a dirmyg wrth geiſio, a dychryn wrth ei gyhuddo.

Yn 3. Mae y rhann fwyaf o *Aflendid* yn cynnwys diniſtr dau enaid, mae'r godinebus yn dwyn *enaid* heblaw amherchi *corph* ei gymmydog; ac felly'r â hwn yn ſyrn debyg i bechod *Lucifer* yr hwn wrth ſyrthio o'r Nefoedd, a dynnodd gryn dwyſgen o'r ſêr eraill gŷd â'i gynffon.

Yn 4. O bôb pechodeu cnawdol, hwn yn unic ſy hôff gan Ddiawl ei gyffelybu a'i *ddynwared*, gan ymgymharu â dewineſau ac â dynion aflan yn gorphorol.

Yn 5. Mae *Aflendid* o bob mâth, yn elyn cyfaddef i'r *corph. Pôb pechod a wnelo dyn oddi allan iw gorph y mae, ond yr hwn ſydd yn godinebu ſy'n pechu'n erbyn ei gorph ei hun.*

Yn 6. Chwanegodd yr *Eſengyl* ddau reſwm arall yn erbyn *Aflendid* nad arferaſid erioed o'r blaen, ac na ellid chwaith: Er pan roes Duw ei Yſpryd i bawb a Fedyddier ac a iawn Gonffirmier i fôd mewn Cyfammod âg êf, ſe aeth ein Cyrph ni yn Demlau i'r Yſpryd glân i breſwylio ynddynt, ac *Aflendid* wrth hynny yn *Gyſſegr-yſpail* a halogi Teml. Dyma reſwm S. *Paul* [*Oni wyddochwi fôd eich corph yn Deml i'r Yſpryd glân?*] a'r [*Neb a haloga Deml hwnnw a ddiniſtra Duw.*] Am hynny *Gogoneddwch Dduw yn eich cyrph* hynny yw *gochelwch odineb.* Chwanega at hwn, reſwm arall o'r cyffelyb fôd *ein cyrph ni yn Aelodau i Griſt* am hynny *na atto Duw i ni gymmeryd Aelodau Criſt a'u gwneuthur yn aelodau puttain.*

Och fel y mae *Aflendid* yn amherchi Chriſt, ac

yn dianrhydeddu'r Glan yſpryd!

Yn 7. Yr ail reſwm yſpytiol a ddatcan yr Eſengyl yn erbyn *Godineb*, ac i gadw purdeb *Priodas*, yw darfod i Griſt ſanctteiddio Priodas yn *ddirgelwch* i arwyddoccau Sacramentawl a dirgel undeb *Criſt* a'i *Eglwys*. Pwy bynnac ynteu a dorro'r cwlwm hwn a rwymodd yr Eglwys a'u Crêd hwytheu yw gilydd ac a glymmodd *Criſt* yn *ddirgelwch*, eſe a ddiwyna un o brîſddefodeu *Criſtianogaeth*, o arwyddoccâd uchel yſprydol ac ardderchoc.

Yn 8. S. *Gregor* a gyfrifai *Aflendid* yn famm i hyn o anghenfilod, dallineb meddwl, anyſtyriaeth, ehudrwydd a hurtrwydd wrth wneud peth, caſáu Duw, hunan-gariad, hoffi dyfyrrwch preſennol, a dibriſio neu anobeithio Hyfrydwch *Creſydd* yma, a'r *Nêſ* yn ôl hyn.

Yn 9. Ond meddwl *pûr* mewn corph *glân* a diwair yw Mamm Doethineb ac yſtyriaeth, cynghorion pwylloc a gweithredoedd bonheddigwych, ymddygiad hynaws, ac ymwareddiad breiniol, Dyſc bûr a dealltwriaeth di-ragfarn, caru Duw ac ymwadu â ni ein hunain, heddwch a hyſder, gweddieu ſanctaidd, a diddanwch yſprydol, a hyfrydwch enaid, mwy o anfeidrol nac yn ynfyd anifeilaidd bleſerau *Anlladrwydd*. *O blegid y pleſer mwyaſ yw gorchfygu pleſer, ac nid oes ſuddugoliaeth debyg i honno a gaffom ni ar ein drygchwantau a'n ffieidd anwydau.*

Yn 10. Chwanega at hyn yr anair a'r gwradwydd a'r gôſp a gafas *Anlladrwydd* a godineb ym mhôb Oes a chwrr o'r bŷd. Gwnaeth *Amalec* yn fai dihenydd i wŷr *Gerar* ymyrryd ar wraig *Iſaac*. A chondemniodd *Juda Thamar* iw lloſci am ei godinebus feichiogi. Cyfraith yr *Aipht* oedd dorri ymmaith drwyn yr odinebwraig a gwialen y godinebwr. Y *Locriaid* a dynneint lygaid y ddau. Yr *Ellmyn* a oſodent yr odinebwraig yn nghanol ei chenedl yn noeth, ac wedi eillio'i

eillio'i phen parent iw gŵr ei churo hi â phaſtynau trwy'r drêſ. Ac felly'r oedd pob Gwlâd foeſawl ac anroeſawl mewn cyd-frad cyffredin i ddiwreiddio bai mor wrthun a gwradwyddus oddi tan y Nêf.

Ond pa un waethaf a'i godineb y *wraig* ynteu'r *gŵr*? Y ddadl hon hyd y perthyn i'r pwrpas preſennol a ddattodir fel hyn. *Yn* 1. *O ran y dyn* mwy yw'r bai yn y gŵr nac yn y wraig, ſydd o yſpryd meddalach ac yſtwythach, a dealltwriaeth gwannach, heb ganddi ddim iw chwdw rhag taerni meibion, ond Tarian Goddefgarwch a *Gwylder*, yr hon yw Tlŵs naturiol pob merch. A chamm yw i ŵr ofyn diweirdeb a chaledrwydd gan ei wraig ac ynteu heb ymgadw ei hunan. Hyn ſy megis pe annogai ŵr ei wraig i ymladd yn erbyn y gelynion yr ymroes ef ei hunan euius yn garcharor iddynt. *Yn* 2. *O ran y drygau a ddilynant* gwaeth yw godineb y wraig, am ei fod e'n dwyn baſtardiaid i'r Teulu, a di-etifeddu, neu lŵyr gamm a'r plant cyfreithlon, ac anfeidrol ymryſonau, a mwrdwr, ac yſcar, a holl ddrygau cynddaredd a gwallcof. Ond *yn* 3. *O ran y bai tu ac at Ddduw* go-gynddrwg a'u gilydd, anoddef a damnedic yw'r ddau. Gan nad yw ddim rhyddach i ŵr gael llawer o wragedd nac yw i wraig gael llawer o wŷr, ac os yw braint y naill yn hyn yn ogyfuwch a'r llall, felly y mae eu bai hwynt hefyd. Ac dyma'r atteb Criſtianogol ſydd i'r Cweſtiwn yma. Ac ni's mynnei'r Eglwys gynt dderbyn y cyfryw rai i'r Cymmun bendigedic, nes iddynt ddwyn eu pennyd tros ſaith mlynedd mewn ympryd a ſachliain, mewn coſpedigaethau tôſt ac Arfeu o Ddiweirdeb a thriſtwch, yn ôl theolaeth yr Amſeroedd hynny.

Gweithredoedd o Ddiweirdeb yn gyffredinol.

Gweithredoedd a ſwyddeu priod y Grâs o *Ddiweirdeb* yn gyffredinol yw y rhai hyn:

Yn 1.

Yn 1. *Gwrthwynebu pôb meddylieu anniwair*, heb gymmeryd pleſer er dim yn phanſîo neu yn coffa *aſlendid*, er na bo'r brŷd ar ddim trachwant yn bennodol.

Yn 2. Er dim *na chroeſawer un drygchwant* neu un cariad cûdd yn y meddwl a'r bwriad, er nas dêl i'r weithred gan gywilydd, neu anallu, neu ryw rwyſtr arall.

Yn 3. Bôd y *llygad* a'r *llaw* yn *ddiwair*; canys yr un pêth yw â phá gwrr bynnac o'r corph y gwneler y godineb: ac os dy lygad a ollyngi'n rhydd a mwynhau anlladrwydd hwnnw, 'r wyt ti'n odinebwr. *Nac edrych ar wraig iw chwennych hi.* A phe rhôn i ddyn ac attal ei hôll aelodau eraill, etto o chaiff y llygad ymdrythyllu, ni ellir galw mo'r dyn yn ddiwair, mwy nac a gellir galw hwnnw yn Ymprydio yſprydol a edrycho trwy gydol y dydd ar chwareuon ac ymloddeſt, ac a eſceuluſo'i fol o awydd i borthi ei lygad. Pa'n waeth pa un o'th aelodeu a'th ddycco di o'th ddyledſwydd a'th caledrwydd?

Yn 4. Bôd y *galon* yn *ddiwair* ac yn bûr, hynny yw, ffieiddio pôb aflendid, caſâu pôb cynhyrfiadeu anllad, pôb coffau'r gweithredoedd, yr amgylchion, y tebygoliaetheu ar ymddiddanion.

A'r *Diweirdeb* hwn a ddylei fôd gan *wyryſon* a *Gweddwon*, gan yr hên yn enwedic, a'r Diſpaidd, a chan bawb yn gyffredin yn ôl eu hamryw gyflwr.

Yn 5. *Chwedleua*'n *ddiwair* ac yn *bûr*, gan ochel yn dra gofalus bôb ymadroddion anweddaidd, a cheryddu'r tafod a'i attal â Grâs.

Yn 6. *Anfodloni wedi pôb halogiad naturiol anewyllyſcar*: o blegid os digrif gan ddyn oddef halogiad naturiol, ac yn ddiſyr ganddo drannoeth ei goffa, mae'n dewis o'i *wirfodd* yr hyn oedd *anewyllyſcar* ynddo'i hun, ac yn gwneud y pêth nad oedd ond naturiol a diniweid, yn *wyllyſcar* ac yn *bechadurus*.

Yn 7. A gyflawno y Dyledſwyddeu a'r Rhanneu o *Ddiweirdeb* dir yw yr vmgeidw ef rhag pob gweithred o *Aflendid oddi allan*, rhag y *diawliaid* prydnawnol a phlygeiniol hynny a barant i ni yn afreolus ac yn annuwiol addoli *cynilydd* ac *aflendid*, y *diawliaid* a enir mewn *ffwdan* a brifiant mewn *ffolineb*, ac a ddiwedd nt mewn *cynilydd*.

Ond heb law'r cyffredinol weithredoedd hyn o Ddiweirdeb a gŷd-berthynant i bôb Stât o feibion a merched, mae ychydic betheu perthynol i bôb cyflwr *ar ei ben* yn neilltuol.

Gweithredoedd o Ddiweirdeb Gwryfawl.

Yn 1. Cofied y *Gwryfon* na thâl *morwyndod* y corph ddim ond er mwyn *purdeb* yr enaid. Yſtyriwch chwitheu gan eich bôd mewn rhyw feſur yn gyffelyb eich cyflwr i Angylion, y dylech dreulio ychwaneg o'ch amſer mewn gwaſanaeth *angylaidd*. Canys o gymmaint ac y bo ſtât *Gwryfon* yn yſprydolach, o hynny y maent hwy yn odidocach nac eraill. Os amgen, nid yw ſtât *morwyndod* amgen na chyflwr yr *Eunuchiaid* a ddiſpaddwyd o'u hanfodd.

Yn 2. Ymgeiſied *Gwryfon* am *wylder* rhagorol, a'i rhan gyntaf *hi* yw bôd heb wybod gwahaniaeth gwryw a benyw, ſef, rhagor-nodeu'r ddeu-ryw, neu os digwydd iddynt wybod hynny, etto i elceuluſo a pheidio a choffa na meddwl am y cyfryw *ragoriaeth*, a'r rhanneu neſaf o *wylder* yw meddylieu diwair a duwiol, ymadrodd Sanctaidd ac anddygiad gorchwylus.

Yn 3. Dylei *Wryfon* fôd yn *ddirgel* ac yn neilltuol, am fôd pôb penrhydd a chrwydrus ymgyfeillach yn briwo'r *morwyndod*, nid o'i rym *naturiol* eithr *moeſawl*; hynny yw, mae'r *gwibio* hwnnw yn colli pêth o'r caledrwydd ar gwaſtadrwydd buchedd ac o'r achlyſur ſanteiſiol, wrth *yrru ar led* y dyn a dylei *Greſydd* fôd

yn orchwyl iddo ac *Angylion* yn gymdeithion, a'i feddylieu aros yn y *Nef* yn lân ddigymmyſc o bôb amhuredd bydol.

Yn 4. Mae ar *Wyryſon* rwym enwedig i *Gariad perffaith*, canys hwn yw *morwyndod* yr *enaid*, fel mai Purdeb a neilltuolrwydd yw *morwyndod* y *corph*. Dyſc S. *Petr* i ni yr athrawiaeth hon. *Gwedi puro'ch eneidiau gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy'r yſpryd i frawdgarwch diragrith cerwch eu gilydd o galon bûr yn helaeth.* Canys os cyſſegra *morwyn* ei chorph i Dduw, a halogi ei hyſpryd â chynddaredd, llîd, neu anynadrwydd afreolus; mae hi'n rhoi iddo'r pêth ſy waethaf gantho, ſef, enaid halogedic o'r ffieiddiaf.

Yn 5. Mae y rheolau hyn yn angenrheidiol i'r *Gwyryſon* ſy'n offrwm eu morwyndod i Dduw, a'u brŷd ar beidio a phriodi: Canys y rhai nid ydynt ond tra bônt yn aros cyfleuſdra i newid eu cyflwr, hwy a ddyleint ymddwyn yn ôl y Rheolau *cyffredinol* o *Ddiweirdeb*.

Rheolau i'r Gweddwon neu Ddiweirdeb Gweddw.

Am y *Gweddwon* y buffynhonnell eu trachwantau gynt yn egored trwy gynhwyſiad y *gwely-priodas*, rhaid iddynt gofio.

Yn 1. Ddarfod i Dduw weithian ail attal eu rhŵyſc hwy gynt, a chau eu llygaid, a chyfyngu eu calonnau, a rhoi *Galar* iddynt yn ffrŵyn iw trachwantau. Iawn i'r Weddw fôd yn *alarus*, os amgen bydd anhawdd iddi gadw diweirdeb ei ſtât breſennol.

Yn 2. Pêth anweddaidd ym marn y bŷd yw ail briodi tra bô hi beichiog o'r gŵr cyntaf; ac nid yw fawr harddach priodi o fewn blwyddyn y *galar*: ond gynt, cywilydd oedd i wraig briodi nes y tybid fyned o gorph y cyntaf yn ddaiar o newydd.

Yn 3. Rhaid i'r *Weddw* attal ei meddwl a'i choffadwriaeth, heb fôd yn ddifyr ganthi adcoffa neu

drodd ei rhŵyſc a'i chynhwyſiad gynt; canys wrth hynny mae hi'n agoryd yr argae a gaeaſei *Marwolaeth* i gŵr a'i *galar* hitheu.

Yn 4. Y *Weddw* a chwennychei fôd ei Gweddwdod yn gyflwr dâ gan Dduw, rhaid iddi fwrw ei hamſer fel y dylei'r *Gwyryſon cyſſegredic*, mewn ymprydiau a gweddiau ac Eluſen.

Yn 5. Dyle'r *Weddw* ymgoſpi oddi wrth y cyſſurau bydol hynny a allei hi yn *briod* eu harferu yn ddiniweid, ond weithian maent yn *beryglus*.

Rheolau i'r rhai Priodol neu Ddiweirdeb *Priodol.*

Am y rhai *Priodol*, heb law cadw'n bûr ddihalog eu Crêd iw gilydd gwnai lês iddynt ddal ar y *Gwerſi* neilltuol hyn.

Yn 1. Er bôd *ymgaredigo* â'u gilydd yn ddiogel iddynt tan nawdd a braint *Priodas*; etto dylei y rhai ſy ganddynt wragedd neu wŷr fôd *megis pe baent heb-ddynt*, hynny yw, er y dyleint ſerchi eu gilydd yn fwy na'r hôll fŷd etto nid yn fwy na Duw; eithr bodloni i golli'ch hawl i'ch gilydd yn hytrach na phechu yn erbyn Duw.

Yn 2. Yn nghanol eich cynhwyſiad a'ch rhŵyſc, rhaid i chwi fôd yn ſiccr o ddal ar *gwrs Naturiaeth* a *dibennion Duw*. *Drŵg yw'r gŵr a arferô'i wraig fel y trinir puttain*, heb pwrpas yn y bŷd ond *pleſer*. Eithr er bôd yn hyn o waith fel yn *bwytta* ac *yfed* chwant iw dorri, a'i dorri ni's gellir heb ei ddyfyrru; etto gan ddarfod i Natur amcanu'r chwant a'r dyfyrrwch hwnnw er dibennion amgenach, y Rheol ſiccraf yw na chymmerer bŷth mo'r dyfyrrwch o'i rann ei hun heb rai neu un o leiaf o'r *dibennion* hyn, ſef, *Ceiſio plant* neu *Ochel godineb*, neu *yſcafnhau* trymder *gofalon Teuluaidd*; neu *ymgaredigo a'u gilydd*. Onid bŷth ar fedr cymmeryd y *cnawdolrwydd* ar ei ben ei hun heb y dibennion hyn ſy'n ſancteiddio.

Onan

Onan a yſcarodd y *weithred* oddi wrth ei *dibenniad* priod, gan ymwneuthur felly i ymgofleidio â'i wraig, môdd na chae hi mor beichiogi, a Duw a'i cosbodd yntef.

Yn 3. Dylei y *rhai Priodol* gadw'r fath *weddeidd-dra* a *gorchwyledd* wrth ymdrîn a'u gilydd, heb ymorcheſtu mewn trythyllwch, trwy gelfyddydeu a dyfeiſieu bryntion; a chofiwch bŷth mai dynaidd ynnrewydd diniweitiaf, ſef y *ſymlaf* a'r *naturiolaf*, *trefnuſaf* a'r *diogelaf*.

Yn 4. Dlêd o *Ddiweirdeb Priodol* yw ymattal yn gymmedrol wrth arfer eich pleſerau cyfreithlon; ymhâ rai er nas gellir goſod un Rheol gyffredin i bawb, dim mwy nac a gellir goſod yr un meſureu o *ſwyd* a *diod* i bôb cyrph: Er hynny chwi a ddylech *gymmedroli* eich cynhwyſiad cnawdol yn ôl y Meſureu hyn, 1. Bydded yn *gymeſurol* ac yn gyttunol â'ich iechyd. 2. Na fwriwch wrtho ormod o amſer, y gwerthfawr achlyſur i weithio'ch iechydwriaeth allan. 3. Pan ofynner y ddlêd taler hi yn waſtadol (hyd y galler) yn ôl y meſureu o'r blaen. 4. Gwneler hynny *â ſerch cymmeſur*, nid â chwantau rhŷ danbaid ac awchlym, nac â chydiadau rhŷ gnawdol. Bernwch y *gwaith* hwn mewn cŷd-weddoldeb â gweithredoedd eraill, yn ôl caledrwydd eich crefydd, a barn gwŷr ſobr a ſynhwyrol. A chofiwch bŷth mai *rhwymedi* i angenrheidieu naturiol y corph, yw *Priodas*, ac nid *arlwyaeth* i chwanteu gwneuthuredic y meddwl

Yn 5. Fe ddylei Cymheiriaid *Priodol* gyttuno i ymgoſpi oddiwrth eu cŷd-ddifyrrwch ar *Amſeroedd arbennic o Ddyfoſiwn*, nid bôd hynny yn ddyledſwydd angenrheidiol ynddo ei hun, ond mai hyn yw'r gwaith cymhwyſaf o *burdeb* a ddichon eich *Srât chwi* ei breſentio i Dduw, a'i fôd hefyd yn fantais odiaeth i chwi i ymbaratoi at y *Ddyledſwydd arbennic*, ac ymddwyn ynddi yn iawn ac yn ddyladwy. Cyngor S. *Paul* yw

bô-

bôd i chwi *o gŷd-ſynniad ymgadw, ſel y galloch ymroi i mpryd a gweddi.* Er, pan gymunai Griſtianogion beunydd, diau nad ymgadwent, ond eu bôd yn ynnill blant: etto pan aed i gymmuno yn anfynychach, hwy ymgadwent o Grefydd oddi wrth y gwely priodas *ros amſer* dyfoſiwnau eu *Darparwyl* a'u *Rhag-baratoad*, megis yr ymgoſpid gynt heb *fwyd* na *diod* nes darfod uchel-ſwydd y Diwrnod.

Ond o blegid nad oes o hôll beryglon y Criſtion yr un blinach a thaerach na'r temtaſiwneu i *drythyllwch*, nac un gelyn perycclach na'r *Cnawd*, na dim cyfrif toſtach nac a erfydd ei roi o flaen Brawdle *Trachwant*, gan hynny mae'n agos at bawb a fynnei ddiangc rhag y farwolaeth hon ymarfogi wrth y Rheoleu hyn ſy'n canlyn, i gael rhwyſtro neu iachau briwieu'r *Cnawd* a wnaethpwyd â gwenwynic ſaetheu *Anlladrwydd.*

Cynghorion rhag Aflendid

Yn 1. Pan ruthro *temtaſiwn* arnat na chais ymladd âg ef trwy hel rheſymmau ac *ymddadleu* yn ei erbyn, a thrwy gŷd-bwyſo ei *gynhygion* a'i *beryglon*, eithr yn hytrach *ffô rhagddo*, hynny yw, na feddwl ddim am dano, trô dy hôll feddylfryd oddi arno ef ar ryw galedwaith canmoladwy. Nid trwy frwydr gyfaddef ac ymladd lawlaw y mae trîn y gelyn hwn, nage, nage, o chaiff hwn gennit wrando arno pettei ond i ymſennu âg ef, dyna fe'n d'anrheithio di; ie mae hyd yn oed yr attebion a roddech iddo yn gadel blâs drŵg ar y tafod, fe all dyn gael ei loſci od â yn agos i'r tân pettei ond i geiſio achub ei dŷ, ac o theimli bŷg pettei ond iw dynnu oddi ar dy ddillad, ti a ddiwynt dy ddwylo.

Yn 2. Gochel *Segurŷd*, a llanw hôll *ſeg*[illegible] *r-fyleba*[illegible] dy amſer â rhyw drymwaith lleſol, o blegid i'r adwyau ſynny yr ymluſca *trythyllwch* fynychaf [illegible]lle bo'r enaid

enaid yn *yscyfala*, a'r corph yn esmwyth arno. Canys ni bu undyn meddfaeth, iâch a segur erioed etto yn ddiwair os gellid ei demtio. Ond o bôb gorchwyl goreu pêth yw *trymwaith corphorol* i fwrw allan y Cythraul.

Yn 3. Na chroesawa mo *ddechreuad*, a chychwynfa, a sisial cyntaf Yspryd yr *Aflendid*: o blegid os llethi ef yn lân, fe a drenga; os gadewi i'r ffwrn ryw dwll i fwrw i fynu ei mŵg a'i fflamm, fe a gynnydda yn gynddeirioc i ddifetha'r cyfan. Hawsaf yw lladd y *Neidr* yn y cibyn, ond os caiff hi brifio, hi a dry yn *sarph*, yn *ddraig* ac yn *ddiawl*.

Yn. 4. Marwhâd corphorol, a bôl yn *galed* wrth y corph a farnwyd gan bôb Oes o'r Eglwys yn erfyn dâ a budddiol i wrthladd *Yspryd golineb*, ychydic luniaeth, Sir galed a theneu, anaml blesereu ac aml ymprydieu, nid ymbell ruthr rhwng dau fowrbryd, ond cymeryd ychydic bôb amser o ymborth gwael ac iachus: o blegid wrth godi felly'r preseb arnat dy hun ti a wanhei gryfder dy elyn: ac os at hyn y chwanegi orwedd ar y llawr, ystumieu poenus mewn gweddi, neu weddio â'th freichieu ar eu llawn lêl, fel y gweddiodd *Moses* yn erbyn *Amalec* neu fel ein Iachawdwr bendigedic ar wely arteithic y *Groes*; ac o bydd y trachwant yn drwm arnat i'th demtio wrth gospi'r wŷn gryfaf â'r boen dostaf ti a gei lonydd mawr tros y tro hwnnw, ar llawnfryd calon, a dyscu goddef erbyn y perygl nesaf. Dyma'r help oedd gan S. *Paul*, *Yr wyf'n dwyn fy nghorph yn gaeth*, sef, bôd yn o galed a garw-dost wrtho.

Yn 5. Ffo rhag pôb achlysur a themtasiwnau, a rhydd-did cyfeillach, chwareuon ac ymloddest, tesach, annrhefnus, a dawnsiau gwammal, dirgel gymdeithas â merched dieithr, geirieu ysmala, llygadrythu ar wyneb glân, cwmpeini cantoresau, ystumiau serchoc, dillad hoyw-wychion, gwleddoedd a rhŵysc, danteithion

teithion a phêr-aroglau, gwîn a diodydd cedyrn, gnawd i'r rhain ôll erlid *Diweirdeb*, Rhag-lwybr ydynt i *Butteindra*, ac nid yw'r diniweitiaf o honynt ond megis madarch o'r iſcell os tymherir hwy yn ofalus a'u profi yn anfynych, gallant fôd yn ddi-ddrwg, ond byth ni's gwnant ddim daioni: Gwybydd mai haws i ti farw er mwyn Diweirdeb na byw gŷd â hi. Canys ardderchawgrwydd *Diweirdeb* a orchfyga yn hawdd erwindeb niweid a thrais, ond mwythuſder a maſwedd a themtaſiwnau blyſic a ledrattânt i mewn, ac fel pelydr yr Haul gwnânt i forwyn ddioſc y Fantell y gwnai ddryghin a thrais iddi ei gwaſcu yn dynnach am dani.

Yn 6. A fynno gadw ei *Ddiweirdeb* dofed ei *falchder* a'i *ddigofaint*, O herwydd mynych y daw *Anlladrwydd* yn gôſp ar y *balch* i ddaroſtwng ei uchder ef trwy wradwydd ac ammarch *aflendid*; a'r un tân gwyllt ac ſy'n cynneu *dîg* a chynddaredd; a ennyn *drythyllwch* hefyd.

Yn 7. Os cyrch yſpryd *aflan* arnat, nac ymddiried ti dy hun, eithr rhêd i gwmpeini y gallo'u parch a'u gwyldra *lethu*, neu eu cymdeithas *droi* dy feddyliau, *thŷſt gwaſtadol* o'th ymarweddiad a wnai lês mawr hag y Pechod yma, yr hwn (fel camphir) *allan* a ddiflanna, ni's gall aros na goleuni na thyſtion.

Yn. 8. Mynych a thaer weddia ar Frenhin y *Burdeb*, y cyntaf o'r *Gwyryſon*, y Duw Tragywyddol yr hwn ſy a'i Natur yn *Burdeb*, ar fôd yn wiw ganddo fwrw ymmaith yr Yſpryd *aflan*. Canys heblaw *mwbr-fendithion* Gweddi mae ynddi *hi* fendith a rhinwedd naturiol i attal y drŵg yma: am fôd gweddi *hagddo* yn an'wllyſcarwch i anturio *arno*; a thra weddiech di yn ddifrifol yn ei erbyn, mae dy *thraed* yn ddiogel, ac yna ni ddichon y drawl hwn ddim. Dyma'r help arall oedd gan S. *Paul*: [*O'r achos hwnn ymbiliais ar Arglwydd deirgwaith.*] Mae'n *rheſwm*

ac yn *fantais* fawr ymarfer â'r Erfyn yma: o blegit y peth rheitiaf iw gadw yma yn ddiogel yw *meddwl* ac *wllys* dyn; os ti a roi gwbl o'th fryd ar na fodlonech ef, ni's gall i ti ronyn o niweid, tra bo'r 'wllys a'r meddylfryd yn ddiwair gennit. Wrth hynny yr iawn feddyginiaeth yw *gwarchad yr enaid* a ſiccrhau'r *meddwl*, yr hwn ni ellir ei gadw mewn un môdd cyſtal a thrwy wreſoc ac aml weddieu, a llawn-fwriadau ſobr ac ymddiddanion caledwych.

Yn 9. Am ben hyn, yſtyr *Breſennoldeb* Duw a'r Angylion ſanctaidd, a myfyria ar Farwolaeth a diodefaint Chriſt ar y groes, ar ddilyn ei burdeb ef; a wyryf Mair ei ſanctaidd ddifrycheulyd famm ef, a Seinctau rhagorawl ac oeddynt yn eu cenhedlaeth y *oleuadau* tanbaid a diſclair, a phur-lan oddi wrth bôb *aſlendid* a lychwina'r enaid, a'r rhai ſy 'r awron yn canlyn yr Oen pa le pynnac yr êl.

Yn 10. Mae'r Cynghorion hyn yn feddyginiaeth hollawl i bôb achoſion *anarferol* a *durſing*; ond achoſion *arferól* a *chyffredin* mae'r help a ddarparodd Duw ſef, glân *Briodas* a grym naturiol ynddi, he law bendith nefol yr Arglwydd, i iachau'r *aneſmwyth* hwnnw a allei [oni bai *Briodas*] ſlino gwŷr cyn hedrol a ſobr.

DOSP. IV.

Am Oſtyngeiddrwydd.

G*Oſtyngeiddrwydd* yw'r odidoc Addurn a Thlws *Crefydd* ni, trwyddi *hi* yr adwaenir *Criſtianogion* ragor Doethineb y *bŷd*; gan nad oedd y Doethion *cenhedlig* yn dyſcu moni, ond y cyntaf a'i gorch'mynnodd *hi* ac a'i gwnaeth yn rhann o *grefydd* oedd yr Harglwydd *Jeſu Criſt*, yr hwn nid ymgynnygiodd iw ddilcyblion yn *batrwm* eglurach o ddim nac

ddwy efeillies hynny *Addfwynder* a *Goſtyngeiddrwydd*. *Dyſcwch genniſi canys Addfwyn a Goſtyngedic ydwyſi a chwi a gewch orphwyſtra i'ch eneidiau.*

O blegit yr hôll fŷd, cwbl a feddwn ni, a chwbl ac a ydym ni, ein cyrph a'n heneidieu, ein gweithredoedd a'n dioddefiadeu, ein cyflwr gartref a'n digwyddiadau oddi cartref, ein haml bechodeu a'n ychydic rinweddeu, ydynt ôll yn gynnifer o *werſi* i beri i'n heneidieu aros yn iſel yn nyſnder *dyffryn Goſtyngeiddrwydd.*

Rheſymmau yn erbyn balchder mewn ffordd o Yſtyriaeth.

Yn 1. Mae ein *corph* ni yn wann ac yn ſwga, yn bwrw allan o'i amryw *garth-leoedd* fwy o frynti nac a ellid ei oddef oni bai fôd *hynny* yn naturiol ac yn angenrheidiol: a rhaid i ni ollwng trwy'n geneu'r peth pan ei gwelom ar y llawr ſy ffieiddiach gennym na burieu neu chwydfa.

Yn 2. Mae ein *cryſder* ni yn wannach nâ llawer o'r anifeiliaid, a'n gwendid ni cyn amled a bôd yn gorfod arnom drîn a thrwſio Ceffylau ac Aſſynnod i ddiwallu'n angenrheidiau ac i helpu ein diffygion.

Yn 3. Ein *Tegwch pryd* ni ſy waelach o ran *lliw* na llawer blodeuyn, os *cyd-weddoldeb y rhannau* nid yw hynny ond llai na dim: o blegid mae gan y Ci hefyd ranneu mor gŷd-weddol a chymmeſur i ddibennion ei natur ef, ac ſy gennym ninnau: a phan ſôm teccaf yn ein blodau, tair crynſa o'r *Crŷd* a newid, y glendid yn felynder a chulni, ie'n grychni ac yn wrthuni.

Yn 4. Ein *Dyſceidiaeth* ni ſydd oreu pan ddycco i ni fwyaf o *Oſtyngeiddrwydd*: eithr bôd yn falch o wybodaeth yw'r anwybodaeth fwya'n y bŷd. O herwydd mae'n *Dyſc.* ni mor anniben iw chael, ac mor wyr ammherffuith, na wŷr y Scolhaig uchaf un pen,

am Fîl, a thywyll iawn y gŵyr e'r petheu y tybir ei fôd e'n eu gwybod, ie ni's gŵyr ddim amgenach na ffŵl neu blentyn mor hyn a glywo efe neu a ddyfalo; fel oddieithr y petheu a berthynant iw ddyledſwydd, a ŵyr pôb gwrâch hefyd hyd y mae'n angenrheidiol, nad oes gan yr uchaf o ddŷſc ddim i ymfalchîo o'i blegit, oni bai fôd yn abl achos iddo ymdderchafu o herwydd y medr ef ſwrw amcan tywyll ar ryw betheu afreidiol, ychwaneg na *rhai* eraill, ſy hwythau yn gwybod ôll a berthyn iddynt, ac yn edrych at betheu eraill angenrheitiach i *fywioliaeth* neu i'r *wladwriaeth.*

Yn 5. A fô balch o'i *Gyfoeth* ynfyd yw. O blegid os am fôd ganddo chwaneg o aur y mynn ef ychwaneg o barch na'i Gymmydogion, pa faint well yw *mwynglawdd* yr aur nac yntef? Pa faint waelach yw ef na Thorch o *Berlau* neu gwlwm o feini *Diemwnt*? canys mae'n ddîr i'r *gwreiddyn* ei hun fôd yn ardderchoccach o ba un y mae e'n cael ei ardderchawgrwydd a'i ragorbarch.

Yn 6. Os wyti yn falch o'th *waedoliaeth*, balch o ſendithion rhai eraill ydwyt, ac nid o honot dy hun: canys od oedd dy Rieni mewn rhywbeth yn enwoccach na'i cymmydogion diolch i Dduw a ddyli a llawenhau ynddynt, ond etto nid anhaws i ti fôd yn *Ffŵl*, yn *Anffortunus*, neu yn *anolygus*; a gwî yw, gan mwyaf fôd yr hwn a foſtio'i *Henafiaid* a Ben-Cenhedl yn cyfaddef nad oes ynddo'i hunan ond llai o rinwedd a godidowgrwydd ac wrth hynn ddarfod iddo *ef* ddirywio.

Yn 7. Pa ragoriaeth bynnac ſy rhyngot ti â't Gymmydog, os *drŵg* yw, ti dy hun a'i pieu, ond ni rheſwm i ti ymfalchîo o'th *drueni* a'th *gywilydd*: os d yw, ei gael a wnaethoſt gan Dduw, ac yna'r wyt yn rhwymediccach i dalu iddo ef y ddylêd a chy nabod y llôg a'r hawl hefyd: ond ynfydrwy

rhyfedd

rhyfeddol yw i ddyn fôd yn falch o'i fôd e'n hellach mewn dylêd nac arall?

Yn 8. Cofia, beth oeddit cyn dy genhedlu? Dim. Beth oedditi yn dy loches gyntaf, cyn dy eni? Brynti. Beth oedditi lawer o flynyddoedd wedi? Gwendid. Beth trwy dy hôll fywyd? Pechadur creulon. Beth yn dy hôll odidawgrwydd? Dim ond Dyledwr i Dduw, i'th Rieni, i'r ddaiar, ac i'r creaduriaid ôll. Ond mi a dynnaf yr hôll *Reſymmeu* ar *achoſion Goſtyngeiddrwydd* ar a geiff dyn ynddo'i hun, i'r ſaith benn hyn. 1. Mae dy *Enaid* di yn yſcafn-ffol ac yn gythryblus. 2. Mae dy gorph yn anifeilaidd ac yn afiachus. 3. Yr wyt ti yn *waſtad* mewn ffolineb ac amryfuſedd, ac yn *anwaſtad* mewn moeſau a rhinweddeu dâ. 4. Dy *Lafur* ſydd ofer, a dyrys, a diorphwys. 5. Dy *Ffortun* ſy'n anwadal, yn anfynych wrth dy fôdd, ac bŷth yn ammherffaith. 6. Ni ddaw mo'th *Synhwyr* attat, nes y bŷch ym mron dy bwll, hynny yw, nes y bo rhyhwyr i ti wrtho. 7. Mae'n ſicr i ti *Angeu*, a hwnnw bôb amſer yn bárod, heb fôd un amſer yn neppell oddi wrthit.

Od ymgynnefini á'r Myfyrdodeu hyn a'u cyffelyb cei weled nad oes dim weddeiddiach na bôd yn *oſtyngedic* na dim llwyr-ynfyttach na *balchder*.

Gweithredoedd a ſwyddeu Goſtyngeiddrwydd.

Ymarfer â *Goſtyngeiddrwydd* wrth y Rheoleu hyn,

Yn 1. Nid *ymſennu* â thi *dy hun* yw *Goſtyngeiddrwydd*, ac nid gwiſco *dillad gwael*, ac nid cerdded yn *araf* ac yn *warr iſel*; eithr tybio'n ddrŵg o honot dy hun mewn gwîr *iſelfryd calon*. Coelia yn dy galon dy fôd yn ddyn *brwnt*, fel y coeli dy fôd yn *newynog*, yn *dlawd* neu yn *glâf* pan fych di felly.

Yn 2. Pa ddrŵg bynnac a ddywettych am danat dy hun, bydd fodlon i eraill goelio fôd *hynny* yn wîr; ac os gelwi dy hun yn ffŵl, na ddigia os geilw rai

arall di felly. Canys od wyti 'n wîr yn tybio dy fôd felly, mae'n gnawd i bawb hoffi bôd eraill o'r un dŷb âg yntef: ond rhagrithiwr balch yw'r nêb a achwyno arno'i hun ar fedr na choelier mono.

Yn 3. Hoffa fôd yn *ddirgel* ac yn *ddiyſtyr*, bydd fodlon i fôd heb glôd, na fid blîn gennit gael dy ddirmygu a'th ddibriſio, canys nid poſſibl i ti dy rŷ ddibriſio dy hun, ac os meddyli cyn waeled ac a bo gweddol, ni weli ddim dirmyg yn anweddol na yn anhawdd ei oddef.

Yn 4. Byth na fid cywilydd gennit dy waedoliaeth, dy rieni, dy grefft, dy orchwyl preſennol o rann *gwaelder* neu *dlodi*'r un o honynt; a phan ddêl achos i ſôn am danynt ſiarad mor rhugl a di-dueddol am dy *waeledd* ac am dy *fawredd*. *Primiſlaus* Brenhin *Behomia* a gadwodd ei hên eſcidieu gwledig i gofio iddo iſder ei ddechreuad. Ac *Agathocles* wrth hilio'i fwrdd a gyffeſai mai o borthor y gwnelſid ef yn Frenhin *Sicilia*.

Yn 5. Byth na ddywed ddim yn bendant er *clôd i ti dy hun*, ſef, heb un diben arall ond yn unic i gael dy ganmol. Eithr o bydd dy fawl di ynghymmyſc â *dibennion eraill* fel pettei *Ogoniant* Duw neu Gariad neu angenrhaid, neu rywbeth ſynhwyrol yn dy frŷd nid rhaid i ti dorri ar dy chwedl na'th fwriad o ran gochel clôd chwaith, eithr dôs ym mlaen ar dy bwrpa er dyfod o glôd hitheu ym mhlîth y lleill: Trwy na Mawl a fô *bwriad* ac *ergyd* yr ymadrodd.

Yn 6. Pan happio i ti am rywbeth a wneiſt neu ddŷwedaiſt, gael clôd na *phriſia ynddi*, eithr trô di mawl i D*duw*, a roes y rhoddiad, a fendithiodd d weithred, neu a gynnorthwyodd dy fwriad, a diolc i Dduw am wneud *Erfyn* o honot ti iw ogoniant hun a llês i eraill.

Yn 7. Cais ſiecrhau *Geirda*, trwy fyw yn rhi weddol ac yn *oſtyngedic*; ond gyrr y Geirda hwnn

oddi cartref iw fagu, ac na chyrch mono byth adref i dremio arno: gâd i eraill ei arferu er llês iddynt, a ſiaradont hwy am dano os mynnant; ond na wnâ di ddeunydd o hono i ddim oddieithr i *Ogoniant Duw* a mwy *Lleſâd* i'th Gymmydog.

Yn 8. Pan gynhygier i ti fawl *nac ymſodlona ynddo*, eithr bydded dy orfoledd yn rhoddiad Duw wedi ei dymheru âg *ofn*, rhag i'r dâ yma dy arwain di i ddrŵg. Tra Glôd fel y dylit drîn pleſer wrth *fwytta* ac *yfed*, ef, pan ddêl gwnâ *gaeth-was* o hono i weini i ddibennion eraill, i *helpu* angenrheidieu, ac i *wilied* rhag ofn i ti trwy dy falchder golli dy gyfion ddyledus glôd; neu os clôd yw *hi* heb ei haeddu, rhag i ti dderbyn cywilydd i ti dy hun gan Dduw a phôb dynion ſynhwyrol.

Yn 9. Na arfer ddim yſtrywieu a *dichellion i gael clôd*. Ffordd rhai dynion yw bwrw bai ar eu gweithredoedd a'u rheſymmeu eu hunain o wîr ddyfais i edrych a ddywetto eraill eu bôd hwy yn ddâ ac yn ddifai; eraill a ddechreuant ſôn am y peth *canmoladwy*, neu a ymwthiant i gwmpeini i roi amnaid a lle i eraill i ſôn neu feddwl am danynt. Gwneud abwyd y mae rhain iw hannog eu hunain i lyngcu'r bâch, nes iddynt wrth dorlyngu dyfroedd *gwagedd* ymchwyddo a thorri ar eu traws.

Yn 10. Pan gaffech ammarch neu ddiyſtyrwch, na chais mor ymwenieithio i ti dy hun, mai *clôd* a haeddeſiti, ond eu bôd hwy yn dy *gam-ddeall* neu yn dy *gam-farnu* o genfigen: na chais chwaith fôd yn llwdn y glôch mewn llu neilltuol o folerwyr, cynnal dy *uchel-fryd* â'i gwâg folach gwe hwynt.

Yn 11. Na chroeſawa ddim *meddylieu* o' *gel ſibrwd* y diawl hwn o *Falchder*; o'r fat hwnnw eiddo *Nebuchadonozer Ond hon ſawr adeiledais i yn frenhindy ynghryſder*

gogoniant ſy Mawrhydi? Mae rhai eneidieu coeg-falch a rodiant ar eu pen eu hun, ac a fedrant freuddwydio yn effro yn nghylch rhyw fawredd neu orcheſt odidoc, Fforfun fawr, Codiad diſymmwth a mowrglod gyffredin, ac felly treuliant lawer awr yn ymddigrifo yn eu ſynn-feddylieu, y rhai nid ŷnt ond *gwynt* oddi ar *falchder*, ac arwyddion amhennodol o duedd-fryd a dymuniad y galon: ac er nad ydynt yn union-bechadurus etto maent naill ai'n *fam* ai'n *ferch ddrŵg*, naill ai yn *arwydd drŵg* ai yn *ôl drŵg*, ac wrth hynny maent yn ddiles ac yn beryglus i *Oſtyngeiddrwydd*.

Yn 12. Goddef i eraill gael eu canmol yn dy ŵydd di, a bid lawen gennit eu clôd a'u daioni hwynt; ond gwilia er dim oganu dy frawd na lleihau ar ei glôd, nac edliw iddo; ac na edrych ar ei godiad ef yn oſtyngiad i ti dy hun. Ond ym mhellach,

Yn 13. Bydd fodlon iddo êf gael Swydd a'th droi ditheu heibio fel un heb dalu dim, iddo ef gael ei air, ac na chaffech di mo'th wrando, iddo ef gael goruchafiaeth a'th adel ditheu mewn gwaſanaeth gwael.

Yn 14. Na chyffelyba bŷth monot dy hun i eraill oddieithr iw derchafu hwy ac i'th ddaroſtwng dy hun. I'r diben yma, Ti a ddylit yn ſiccr dy dybio dy hun mewn rhyw yſtyr neu gilydd yn *waelaſ* yn mhôb cwmpeini 'r elech iddo: Mae un yn fwy *dyſcedic* na thi, y llall yn *ſynhwyrolach*, y trydydd yn *anrhydeddusach* neu yn *garediccach* neu yn *ddifalchach* na thi. Canys felly y bydd llygad y *Goſtyngedig* ar rhai eraill ac ar ei *frynti* ei hun, gan yſtyried rygau a ŵyr e'n *hyſpys* arno'i hun, yn lle eraill ſy dywyll ac *anhyſpys* iddo. Neu yried mai o wendid ac anwybodaeth mawr yn pechu, âg ynteu trwy wybod a *gwir*byn mwy goleuni a chymmorth. Felly y l ef ei hunan yn *Bennaf* o'r pechaduriaid

am

am iddo gynt wneud y pechod *pennaf*, ſêf, Erlid Eglwys Dduw. Etto wrth ddilyn y Rheol hon cymmer un rhybydd a *gocheliad*, ſef, er mai dâ i ti bôb amſer dy Dybio dy hun yn *waelaf oll*, etto nid diogel i ti ddywedyd mo hynny ond weithieu; am na ŵyr eraill mo'r *achos* a bair i ti feddwl cyn waeled o honot dy hun: ac fe all mai buddiolach i eraill dy glywed ti yn diolch i Dduw am y *donieu* a roes ef i ti. Os wyt ti yn dal tŷb wîr oſtyngedig o honot d hun, ti elli yn ddi-berygl fendithio Duw am y daioni na ellit ac na ddylit mo'i guddio.

Yn 15. Na fydd rŷ barod i eſcuſodi pôb *gwall* neu *dro angall* neu ddrygwaith a gaffer arnat, eithr od wyt euog cyfaddef yn lân, canys gwael gan *Rinwedd* lechu ynghyſcod *Celwydd*, ond *pechod* yn ymguddio tan *gelwydd* ſy debyg i *gornwyd* tan grêſt y *frêch fawr*. Hefyd os dieuog wyt, [oddieithr ei fôd yn bêth gwarthus] na bydd rŷ ffwdanus iw ymddiheuro, ond yn hytrach gwnâ ddeunydd o hono i gyſtwyo pôb mawrhydri ac uchel-dŷb o honot dy hun; ac ymgynnefina i dderbyn cerydd yn oddefus ac yn fodlongar, a geirieu ſarrug dy elynion, gan wybod fôd *digofaint Gelyn* yn well ac yn ddwyſach Rhyddiwr i ddangos i ti dy feieu a chofio i ti dy ddyledſwydd nac yw *mwyneidd-dra Cyfaill*.

Yn 16. Diolch i Dduw am bôb *gwendid* a *gwrthuni* c *anaf*, a chymmer hynny megis ffafr a rôdd oddi rth Dduw, ac megis *erfyn* i lâdd *balchder* ac i fagu *oſtyngeiddrwydd*: a gwybydd, os Duw wrth wneud y gefn di yn *grwmm* a grymmodd hefyd dy enaid â *Goſtyngeiddrwydd*, yr wyti yn gymhwyſach i ymwthio *Borth cyſing* y Nêf, na phettit fŷth dy gorph ac uchel y feddwl.

Yn 17. Heb law y Rhanneu a'r Gweithredoedd chod, mae *Goſtyngeiddrwydd* yn dyſcu i ti dy ddarſtwng dy hun a'th hôll gynneddfeu i Dduw; *I gredu*

pôb

pôb pêth, i *wneuthur pôb pêth*, *i ddioddef pôb pêth* a bô ei wîllys ef yn ei orchymmyn i ti. Bôd yn fodlon i bôb cyflwr a chyfnewid, gan gydnabod haeddu o honoti waeth na'r gwaethaf yr wyt yn ei oddef, a dywedyd [chwedl *Anytus*] ni chymerth ef ond yr *hanner* lle y gallaſei gymmeryd y *cwbl*, Clodfori ei Ddaioni ef, ofni ei Fawredd, addoli ei anfeidrol a'i dragywyddol odidowgrwydd ef, ac ymoſtwng i'th oruchafiaid ym mhôb pêth yn ôl duwioldeb, a bôd yn addfwyn ac yn llaryaidd dy ymarweddiad tu ac at eraill.

Moddion ac Arfeu i ynnill ac i chwanegu'r Grâs o Oſtyngeiddrwydd.

Yn 1. Mynych gyffeſa i Dduw dy bechodeu, ac yſtyr *faint* a *ſwmm* yr hôll ddrŵg y bŷch di'r pryd hynny yn ei fwrw arnat dy hun: ac na chenfydd dy feieu megis *ar waſcar* yma a thraw rhyd dy fuchedd, eithr crynhô hwynt ôll *yn un golwg*, gwybydd am y gŵr y bô'i fuchedd yn edrych yn dêg o rann bôd ei feieu ar waſcar ym mhell oddiwrth eu gilydd, etto pettei ei holl gamweddeu a'i ffolineb ef wedi eu cynnull a'u cŷd-oſod yn ei erbyn fe a edrychai yn ddyn drŵg a greſynol.

Yn 2. Cofia y byddi arfer o ddal ar odfeydd bychain ac achoſion gwael i ddiyſtyru eraill, ac mai digon gennit un *gwybedyn* i ddiwyno *blŵch* cyfan o ennaint. Bydd ditheu *cyfion* wrthit dy hun, gan dy fôd mor *dôſt* wrth eraill, ac yſtyr pa *ddâ* bynnac a all undyn ei ddywedyd am danat, y gellid ynghyfer hynny ddywedyd iddo ef gantoedd o droieu *bryntion* a *gwael* ac *angall*, y byddei un o honynt [dybygiti] yn ddigon er deſtrywio *Geirda* un arall, bydded ynteu gynnifer ynghŷd yn ddigon er deſtrywio dy *uchelfryd* rhyfalch ditheu.

Yn 3. Mae'n gnawd i ni newid ein tŷb am eraill yn

yn ôl fel y bô eu caredigrwydd neu eu hangharedigrwydd *hwy* tu ac attom *ni*. Os yw'r Gŵr yn Gefn i mi a'i fôd yn hael wrthif, yna mi roaf iddo'r gair o *ŵr ſynhwyrol a bonheddigaidd*, a'i feicu ef a welafi fel *pliſcyrnod* a'i rinweddau cymmaint a *mynyddoedd*. Ond os efe a brifia'n anfwyn a dibriſio fy nghŵyn, yna *drwgnawſus* yw efe a *chrintach*, ac nid oes gantho ond cyſcodion Rhinweddau a'i hôll ymadroddion ef a ganmolwn i gynt a aethant yn ddiflas. Hyn yn wîr ſy anghyfion tu ac at eraill, ond erfyn dâ ydyw o throi di ei Fîn arnat dy hunan. *Tydi* ſy'n dy ddrygu ac yn dy ſiommi dy hun â drŵg-ddŷſc, ac â chelwyddeu ac eſcuſion, *Tydi* ſy'n yſpeilio dy *wyllys* o'i rydd-did i *ddewis*, gan oſod *Anwybodaeth gwirfodd* yn y *Dealltwriaeth*, *Tydi* ſy'n croeſi dymuniant yr Yſpryd ac yn ymbleidio yn erbyn pôb deiſyfiad *daionus* a chyfiawn; a byddei bychan gennit ddifenwi pe ceit y camm lleiaf o'r rhain gan arall, mae ynteu yn rheſwm i ti beidio a bôd yn [illegible] wenieithus ac anwylfryd o honot dy hun.

Yn 4. Galw beunydd i'th gôf ryw un o'th bechodeu bryntaf, neu'r ammarch gwradwyddusaf, neu'r weithred anſynhwyrolaf, neu rywbeth a'th ſlinodd di fwyaf y pryd hynny, a dôd *hwnnw* wrth y chŵydd ſy yn dy *feddwl*, ac fe all helpu at ei oſtwng ef.

Yn 5. Gweddia am y *Grâs* yma mewn yſtum goſtyngedig â thra ofidus ymbill, ac yn dy ddyfoſiwn cymmyſc amryw o Briod-ſwyddeu *Goſtyngeiddrwydd*, trwy *gyffeſu* ac ymerlyn â Duw a'th *farnu dy hunan*.

Yn 6. Paid a llygad-lonni ar dy *Oſtyngeiddrwydd* dy hun nac ar un *Grâs* arall y bô d'enaid yn gynnyſcaeddol o hono. O herwydd gan fôd Duw yn fynych yn bwrw llenn gûdd tros ei weiſion, modd na welont *hwy* mor godidowgrwydd a bair iddynt ddiſcleirio tu ac at *eraill* [a'r tu tywyll i'r *Lantar* attynt ei hunain] er mwyn dal y Grâs o *Oſtyngeiddrwydd* ynddynt;

ynddynt; dâ i titheu wneud felly â thi dy hun, ac o chanfyddi ryw râs Duw ynot, cofia ddiolch iddo am dano, rhag i ti ymffroſtio mewn pêth nad yw eiddot; a gwêl ddiwyno o honot ef euſus wrth ei drîn â by ſedd llygredig, trwy dy ammherffeithrwydd dy hun a thrwy gymmyſc o anngylchion anweddus. Peth tra embyd yw *Balchder yſprydol*, nid yn unic o rann ei fôd e'n anrheithio cynnifer o Raſau ac a'n dygaſeint ni agos i Deyrnas Dduw, ond hefyd o rann fynyched y bydd e'n ymgydcan â meddylieu *Gwîr ſanctaidd*. O blegit nid oes diolch i *gardottyn* er ei alw'i hun yn *dlawd*, nac i *feddwyn* er cyfaddef nad un o'r gwŷr *ſobraf* mono; ond i wîr *ſanctaidd* fôd yn *oſtyngedig*, i u y bô pawb yn ei fwrw yn *Sanct* ofni ei hun rhag m yn *gythraul*, a gwilio ar ei berygl, a dirnad ei wend a datcuddio pôb *glŷn drŵg* a fô arno; mae hyn mo anhawdd ac a fyddei i Dywyſog ymblygu tan Ath rawon ac ymddaroſtwng i lywodraeth yſcol, fel y gwaelaf o'i ddeiliaid.

Yn 7. Myfyria'n fynych ar *ffrwytheu Balchder* o'r naill tu, a *Goſtyngeiddrwydd* o'r tu arall; *Yn* 1. Gwêl fôd *Balchder* fel cancr yn anrheithio tegwch y blodau gwychaf, y *graſau* a'r *doniau* godidoccaf, ond *Goſtyng eiddrwydd* a'u corona hwynt ôll. *Yn* 2. Fôd *Balchder* yn anferth rwyſtr i ti ddirnad petheu Duw, a *Goſtyng eiddrwydd* yn erfyn odiaethol i'th cymmwyſo i dder byn *Doethineb yſprydol*. *Yn* 3. Fôd *Balchder* yn lluddia cymmeriad dy Weddieu di; eithr *Goſtyngeiddrwyd a dreiddia trwy'r cwmmylau, ac nid ymedy hi hyd on yſtyrio'r Goruchaf*. *Yn* 4. Nad yw *Goſtyngeiddrwyd* ddim ond cyffeſu'r gwirionedd, eithr *celwydd* yw pô *Balchder*. *Yn* 5. Mai *Goſtyngeiddrwydd* yw'r ffordd ſiccraf i wîr Anrhydedd, a *Balchder* a groeſir ac ddiyſtyrir yn waſtad. *Yn* 6. Mai *Balchder* a dro *Lucifer* yn Ddiawl, ac mai *Goſtyngeiddrwydd* a dde chafodd Fâb Duw goruwch pôb *Enw*, ac a'i goſodo

e'n dragywydd ar ddeheu law ei Dâd. *Yn* 7. Gwêl fôd Duw *yn gwrthwynebu'r beilchion* gan gyhoeddi brwydr gyfaddef yn erbyn y cyfryw rai; *ond yn rhoi grâs i'r rhai goſtyngedig*: Grâs a Maddeuant, Rhwymedi a help rhag trueni a gorthrymder, Bodlonrhwydd ym mhôb cyflwr, Tawelwch yſpryd, Ammynedd tan gyſtuddiau, Cariad gartref, Tangneddyf oddi cartref, a Rhydd-did glân oddi wrth Ymryſon, ac oddi wrth y *pechod* o farnu eraill a'r *blinder* o gael ein barnu ein hunain. O blegid ni chais y grŵr *Goſtyngedig* farnu ar ei frawd am y *brycheuyn ſy'n ei lygad ef*, gan fôd yn flinach ganddo'r *Tranſt ſy'n ei lygad ei hun*; ac efe a oddef yn llawen ei geryddu; canys efe a dflodd y garreg cyntaf atto ei hunan, ac am hynny rhyfedd ganddo fôd eraill o'r un meddwl âg êf.

Yn 8. Cofia goſtio i fendigedic Iachawdwr y bŷd fwy o boen i orchymmyn, i droſglwyddo, ac i ſiecrhau'r Grâs yma nac un arall. Gan nad oedd ei hôll fywyd ef ond *un patrwm* cyfan *o Oſtyngeiddrwydd*; *Anſerthol ddeſcyniad* o ogoneddus fynwes ei Dâd i grôth Morwynig, i *agwedd* gwâs, i *drueni* pechadur, i fuchedd o *laſur*, i ſtât o *dlodi*, i *farwolaeth* Diffeithwyr, i fêdd yr *Angeu* a'r gofidieu anoddef a haeddaſem ni: a bwriad dâ, ac nid dim ond rheſwm oedd i ninnau fôd mor oſtyngedig ynghanol ein hammerſteithrwydd a'n ſhieiddiaf bechodau, ac a oedd Criſt yn nghanol ei lawnder o'r Yſpryd, ei fawr Ddoethineb; i Fuchedd berffaith, a'i dra rhyfeddol rinweddau.

Yn 9. Bwrw allan o'th gymdeithas bôb *gwenieithwr*, ac na chynnwyſ monynt er dim ar dy gyfyl. Canys pwy bynnac a gynhwyſo weniaith heb law ei fôd e'n *ffŵl* am gymmeryd ei watwar, mae ef hefyd yn ddâ ganddo gael llochi a chynnal ei *dŷb ddâ* o hono i hun.

Yn 10. Bwrw beth a dybiti o un a dreuliei ei amſer

amſer yn chwarae *tai bâch*, neu â *chregin*, neu a ymorcheſtei trwy'r dydd â bachgen am *binneu*, neu a ymboenei ac aſtudiai'n galed pa fodd i ſiommi plentyn am ei *deganau*; ac a redei i Afon ddofn ac embyd â baich mawr ar ei gefn, pryd y taer-waherddid ac y rhybuddid ef o'i berygl? Ac nid rhaid i ti ond newid yr *henw*, a chei weled y dylit ti dybio cynddrwg a hynny o honot *dy hun*, yr hwn wyt yn erlyn am ofer-betheu mor ddifrifol, ac yn difrodi dy amſer mewn gwagedd, a'th *lafur am yr hyn ni leſâ*; yr hwn yn gwybod cyfreithieu Duw, a gwobrau *Rhinwedd*, a melltigedic affeithieu *pechod*, mai Yſpryd drŵg ſy'n dy ddenu i di iddo, mai *Diawl*, un ſy'n dy lwyr gaſaû di, un ſy'n yſu am gael dy ddeſtrywio di, mai dy *ddiniſtr* dy hun yr wyt yn ei weithio, nad yw pleſerau dy bechod ond gwael ac anifeilaidd, annigonol wrth eu mwynhau, byrr eu para, cywilyddus eu hadrodd a chwerw eu coffa, a'n ffrwytheu yma yn ſlinder, ac yn ôl hyn yn boeneu anoddef yn dragywydd: etto heb yn waethaf i hyn ôll tydi fel y march i'r frwydr a ruthri yn wallcofus i'th *bechod* a'th *ddeſtryw*. Y ſawl a dybio yn *ddâ* neu yn *fawr* o'r cyfryw ddyn a hwn, aed tan un i garu'r *Crogpren* am *bleſer*, neu'r *mochyn* am *ddoethineb*, neu'r *ceiliog* y rhedyn am *gyngor*.

Wedi i ti ymarfer â'r *Moddion* a'r *Myfyrdodeu* hyn a'r cyffelyb, os chwennychit brofi tŵf a phrifiant dy Enaid, cei wybod pa cyn iſed y bo d'Oſtyngeiddrwydd, ſy fel gwreiddyn Pren têg yn tyfu tan y ddaiar, wrth y *ffrwythau* hardd-dêg hyn a ymddengus uwch daiar.

Arwyddion o Oſtyngeiddrwydd.

Yn 1. Ni ymddiried y *goſtyngedig* iw ſynhwyr ei hun, eithr mewn matterion o bwys gwell ganddo hyderu ar farn ei gyfeillion neu ei Gynghorwyr yſprydol

yſprydol. *Yn* 2. Nid yw'r *Goſtyngedig* yn yſtyfnig am ei ddewis ei hun, ond gadel i Dduw ym mhôb peth ddewis troſto, ac iw *Oruchafiaid* yn y petheu y perthyn iddynt *ddewis.* 3. Ni rwgnach ef yn erbyn gorchymynion. 4. Nid yw ef yn ammeu rheſymmoldeb gorchymmyn diniweid ei *Oruchafiaid*, eithr yn ufuddau pettei ond o rann eu harchiad *hwy.* 5. Mae ef yn byw wrth Reol gan gŷd-ymffurfio â Defodeu heb ddim *cymmyrredd* na *neilltuolrwydd.* 6. Mae ef yn llaryaidd ac yn ddi-gynnwrf ar bôb Troieu a Digwyddiadau. 7. Mae ef yn goddef y camm yn amyneddgar. 8. Mae ef bôb amſer yn anfodlon iw *gynghorion* a'i *ffordd* a'i fwriadeu ei hun. 9. Efe a gâr y dâ, a ganmol y doeth, ac ni farna ar nêb. 10. Mae ef yn *orchwylus* ei ymadrodd ac yn *gynnil* ei chwerthiniad. 11. Mae e'n arſwydo wrth glywed ei ganmol rhag ofn i Dduw farnu ei weithredoedd ef yn amgenach nac y barn dynion. 12. Ni ddyry ef ddim coeg attebion ffraeth wrth ei geryddu pa un bynnac ai ar gamm ai ar union. 13. Hôff ganddo ſyw yn *ddirgel* a gochel [os bydd môdd iddo] bôb uchel-ſwyddau a breintieu newyddion. 14. Mae ef yn rhwyddlan ac yn rhydd-egored yn ei hôll weithredoedd a'i ymadroddion. 15. Mae ef yn *gwellhau* ac yn ddiolchgar wrth ei rybuddio. 16. Mae ef yn barod i wneuthur cymmwynaſau iw abſenwyr, ei ddifenwyr, a'i athrodwyr, fel *Crîſt* yn golchi traed *Suddas.* Ac yn 17. Mae ef yn fodlon i gael ei fwrw yn anſynhwyrol, am a bo e'n ddiniweid ger bron Duw, ac yn ddi-ddrwg iw gymydog, ac hefyd heb fôd yn ddiffygiol iw *wîr ſynhwyrol* leſâd ei hunan.

DOSP.

DOSP. V.

Am Wylder.

GWylder ſy megis *penty* wrth *Sobrwydd*, neu fel ridens wrth ddillad, felly hitheu wrth *Ddiweirdeb*, *Cymmhedrolder* a *Goſtyngeiddrwydd*. Grâs Duw yw hwn ſy'n attal *gwrhydri* ac yſmaldod y *meddwl*, ac yn trefnuſo gwynieu'r corph, a'r gweithredoedd oddi allan, ac y mae *hi* yn union wrthwyneb i *Fanyldra*, i *Hyſdra* ac i *Anweddeidd-dra*. Mae'r ymarfer o *Wylder* yn ſefyll yn y Rheolau hyn ſy'n canlyn.

Gweithredoedd a ſwyddeu o Wylder gwrthwyneb i Fanyldra.

Yn 1. Na chwilia i *ddirgelion Duw*, eithr bydd ſodlon i ddyſcu dy ddyledſwydd yn ôl dy *râdd* a'th *Alwedigaeth*, hynny yw, dŷſc hi'r ffordd ſathredic, onid oes arnat edrych at ymddygiad rhai eraill; eithr os Dyſcawdwr wyt dŷſc hi'r môdd y bŷch aplaf i gyflawni dy ſwydd. *Gorchymynion* Duw a gyhoeddwyd i'r hôll fŷd, ond *Cynghorion* Duw ſydd iddo'i hun, ac iw rai dirgel êf pan ollynger hwy o'r tu mewn i'r llenn.

Yn 2. Na lygad-rytha ar betheu *rhŷ anhawdd* i ti, eithr dŷſc yn orchwylus adnabod dy wendid a'th allu; ac nac ymgyfod i 'ſpîo dirgelion y Deyrnas a'r Llywodraeth, neu uchel-bethau Difynyddiaeth, os yw hynny uwch law d'*Alwedigaeth* neu [ym marn eraill] uwch law dy *ſynhwyr*.

Yn 3. Na frâth dy ben i fatterion *rhai eraill*, eithr cymmer dy lawn waith ynot dy hun, ac o fewn dy *ſwydd-gylch* dy hunan: Cofia bŷth nad yw yſpîo i weithredoedd a ſtâd rhai eraill ond help i *Falchder*, a *Thraha*, ac *Anghariad* a *Blinder*, ond bŷth ni ddygymmydd â *Gwylder* oddieithr lle bo *dyledſwydd* neu ryw

ryw ſwriad diffuant o *gariad* a *pherthynas* yn ei warantu.

Yn 4. Byth na chluſtfeinia wrth y *drŵs* neu'r *ffeneſtr*, canys heb law ei fôd yn beryglus mae *hyn* yn rhuthro am ben *dirgelwch* dy gymydog, ac yn egor yr hyn a gaeaſei ef ar fedr na egorid mono. Byth na ymorol beth ſy ganddo wedi ei guddio mor ddichlyn, canys digon yw ei fôd wedi ei guddio yn ddichlyn. Yma y perthyn gwilio *egor llythyreu* oddieithr trwy gyffredin awdurdod, neu trwy gyffelybrwydd dâ o gennad, neu o gariad.

Yn 5. Mae gan bôb dyn yn ei fuchedd *ei hun* ddigon o bechodeu, yn ei feddwl *ei hun* ddigon o ſlinder, yn ei ffortun *ei hun* ddigon o ddrygau, yn nghyflawniad ei ſwyddeu fwy na digon o walliau i ymorol ar eu hôl; yn gymmaint ac na's gall *Yſmaldod* ym matterion rhai *eraill* fôd heb genfigen a bwriad drŵg.

Beth yw hynny i ti os un o'r *India* oedd Taid dy gymydog, neu os Merch ordderch oedd ei N in ef, neu os ydyw un arall mewn pum mîl o bunneu o ddylêd, neu fôd ei wraig e'n anhyſwi. Ond gan fynychaf nid yw rhai *Manwl* neu chwedl yr Apoſtol y *Rhodreſwyr* hyn yn llagadrythu nac yn ſelu dim ar inweddeu dâ rhyw ŵr godidoc, neu lle bo trefnus ac iawn-lywodraeth mewn teulu; ond os oes dim *ynghudd* tan gloieu a barrau, petheu a wridant weled y goleuni, y rhai ſy gywilyddus mewn *moeſau dâ* neu ddirgel wrth *naturiaeth*, hwdiwch hwythau *yno* yn chwilotta, dyma eu gofal a'u gorchwyl *hwy*. Ni waeth gan *Rodreſwyr manwl* am wybodaeth ddiniweid na dyſcedic: Eu hymborth *hwy* yw chwedleu o *greulondeb*, a Haneſion o *drychineb* a *mawr ddrygau*: ac ato dywedwch iddynt *hên* Storiaû ynghylch *treiſio morwynion* diwair, ynghylch mawr *dlodi* rhai *gŵyr o ddyſc*, neu ynghylch *erlidieu* yr hên *Seinctiau*, neu am *fyſnewidieu Teyrnaſoedd*, neu ynghylch afliwydd a

drygau a ddigwyddaſant mewn rhai Gwledydd *pell*, ac ſe allei'r petheu hyn dorri'r ysfa arnynt am wybod Storiau *twrſtan*: Etto oni ddywedwch iddynt *hwy* hanes rhyw aflwydd *diweddar*, rhywbeth a wnaeth-pwyd o fewn terfyneu *eu cydnabod* a'u *perthynas eu hunain* ni byddwchwi ond diflas ac annifyr ganddynt; pe 'ſy arwydd hyſpys mai Yſpryd *drŵg* yw hwn ſy gan ddynt: *Cenſigen* yn briod â *Seguryd*, ac wedi eſcor ar *goeg-Fanyldra*. Odiaeth gan hynny a cyffelyba *Plutarch* y Cluſtiau *mawr* ymofyngar, i byrth y *felldith* mewn *Dinas*, na bô yn myn'd trwyddynt ond Dynion *dihenydd*, a *choſpwyr*, a *Thriſtwch* a *Thrychineb*, dim *goneſt diniweid* a *ſanctaidd*. Beth pe cerddai *Phyſygwr* o dŷ i dŷ, heb ei gyrchu, tan ymofyn pa wraig ſy â chancr yn ei pherfedd, neu pa ŵr ſy â nafod ar ei lleingig, oni flinid arno gymmaint agos ac ar y dolurieu eu hunain, er iddo gymeryd arno eu hiachau? Och dra-gwrthuned ynteu yw chwilio am feieu ac anafeu heb liw eſcus eu *hiachau* ond er mwyn cael eu *dinoethi* yn unic!

Manylder yw gwîr *Anniweirdeb* yr *Enaid*, ac nid yw gwreiddin godineb ei hun ddim ond manwl yſnid a chenſigennu cuddiedic bleſer gŵr arall: a gwrth-ddodd llawer terched *glanach* i gael treiſio *gwraig* allan o gauedic feddiant ei gŵr. Ond nid yw'r *chwilenni* yma ond weithieu yn ddiberygl, nac bŷth ond *gwael* a brwnt; nid yw'r ymofynion hyn na *chyſion* na *goneſt* na *hyfryd*, na chan mwyaf ond *ſeithug* i manwl-ymofynwyr. O blegit ſe gais pawb gadw rhagddynt, fel cadw eu bwyd rhag cathod a chigfrain a chuddio eu cyfrinach oddi ar ffordd y cyfryw *ra* neu fel y trown ni ein dillad yn *dynnach* pan fo gwyntoedd tner-graff yn ceiſio datcuddio ein noethni: canys ſe ŵyr pawb y peth a fo dâ gan rai *glywed* y bydd hoff ganddynt ei adrodd. Cura dithe wrth y *drŵs* cyn thuthro ar ddirgelwch dy gymydo

a gwybydd fôd rhedeg yn amryfus i *mewn* gynddrwg ac yſpîo *oddi allan.*

Gweithredoedd o Wylder gwrthwyneb i Hyſdra.

Yn 1. Dŵg bŷth i'th amgylch y fath *olion* o barchedic ofn Duw, a dychrynnu o honot wrth ei leferydd ef, ac ym mhôb digwyddiadau *mowrion*, megis *Taranau, Tymheſtloedd* geirwon a *Daiar grynſâu, Clefydon*, neu ryw *farnedigaetheu* cyffredin, dangos dy fôd yn arſwydo ei fawredd ef, nid yn unic rhag iddo ddeſcyn arnat dy hun neu dy berthynas, ond hefyd i ymddaroſtwng ger bron ei Holl-alluogrwydd ef, ac i gydnabod yr annherfynol *ragoriaeth* ſy rhwng ei *Anfeidroldeb* ef a'n *gwendid* ninneu, yn enwedic ar y cyfryw amſeroedd, pryd y mae e'n rhoi cyn amlyced arwyddion o hynny. Y ſawl ſy'n llawen ac yn hen ar y feiſdon wrth weled tymmheſtl echryſlawn ar y Môr, neu yn dawnſio'n yſcoewan pan fô Duw yn taranu o'r nêf, nid yw wiw ganddo farcio ar Dduw yn llefaru wrth yr hôll fŷd; ac nis gŵyr *hwnnw* beth yw *Gwylder.*

Yn 2. Bydd barchus a gorchwylus a chymmeſur yngŵydd *dy well*, galw bawb yn ôl eu *grâdd* wrth dy henweu a'u teitlau o *anrhydedd*; gan *gadw rhyngot* â hwynt a ſiarad ychydic, ac atteb yn gymmwys, na atteb i gweſtiwn a ofynner i arall, ac na tharo i mewn heb gennad neu achos dâ, a dangos i'th *Oruchafiaid* y tu tec caf bŷth o'th *ymadrodd* a'th *naws* a'th *foeſgarweh* gore

Yn 3. Bŷth na ddywed *gelwydd*, chwaethach e daeru pan i'th gyhudder, ac na chais gyſtawnhau peth yn wîr ſy ddrwg; ond yn orchwylus cywilyddio blegid, gofyn ſaddeuant a gwnâ iawn.

Yn 4. Bŷth *nn foſtia* o'th bechod, eithr o leiaf dyro orchudd ar dy noethni a'th gywilydd, i gael *bynnag* gychwynſa at edifeirwch, ſef coelio mai dy *behaviour* yw dy *gywilydd*. O blegit os ni wridi ar ôl dy fai,

eithr at dy *gwilydd* chwanegu *digynilydd-dra*, nir feddi bellach un Arf i'th edfryd i obaith o Dduwioldeb.

Yn 5. Na fydd i ŷf yn gwirio peth *amheus*, eithr wrth adrodd bydd lednais a *chymmedrol* yn ôl grâdd cyffelybrwydd y peth â grym y rheſwm, a'th *Garn* ditheu.

Yn 6. Nac ymhonna o fwy gwybodaeth nac ſy gennit, ond lle bŷch yn anwybodol bydd fodlon i ymddangos felly, rhag i ti naill ai cywilyddio ai myned yn ddigywilydd.

Gweithredoedd o Wylder gwrthwyneb i Anweddeidd-dra.

Yn 1. Ar dy Weddi mewn *Eglwyſi* a manneu o Grefydd arfer yſtumiau parchedic, dyſal-yſtyriaeth, ymddygiad doeth-brudd a'r munudieu iſaf o eſtyngeiddrwydd, gan gofio mai wrth Dduw yr wyt ti'n llefaru, i'r hwn nid poſſibl i ti wneud gormod o barch.

Yn 2. Ym mhôb ymgyfarfod cyffredin, ymweliad neilltuol, mewn ymddiddanniou, ar ſiwrneiau arfer y cyfryw ffordd o *gyfarch*, o *ſoes* a gweddeidd-dra ac a ſo arferol yn y Wlâd, gan y gwŷr ſobraf, dyro barch i'r hwn y bô parch yn ddyledus, a dyro'r goreu i bawb o'th well, ac o digwydd dadl am ragorbarch dyro di'r *blaen* i'r ſawl a'i mynno, os am dy hâwl d yn unic y bydd yr ymryſon.

Yn 3. Cadw dy wyniau mewn cywair cyfattebo i bôb *ymgyfarfodydd* a *chymdeithion*: na fydd lawe mewn Canhebrwng na phrudd mewn Gwlêdd; eith *llawenhewch gŷd â'r rhai a lawenhânt, ac wylweh gŷd â rhai a wylant.*

Yn 4. Ymattal rhag chwerthiniâl yſcoewan, gwam mal pen-egored, rhag gloddeſt a chellwair annhrefnu ſiarad yn uchel, gwatwar, a'r cyfryw weithredoed ôll ac mewn moeſau dâ a fernir yn anſoeſawl anghyweithas.

Yn

Yn 5. Tu ac at dy *Rieni* gwnâ dy ddyledſwydd gŷd â phôb *Gwylder* a goſtyngedig ymddygiad; tu ac attynt *hwy* a'th hôll *geraint* bydd dra chyfewin yn y *gwylder* a berthyn i *ddiweirdeb*; rhag ofn i hyfdra caredigrwydd naturiol bŷth ymeſtyn i derfyneu anweddeidd-dra. O blegid *Godineb cyfneſeifiaid* [a phob grâdd ac amylchion tu ac atto] yw'r Gelyn pennaf y bŷd i *Wylder*. Ond dyna'r achos yr aeth *Godineb cyfneſeifiaid* yn bechod mor yſceler, ſef am ei fod e'n torri'r *gorchwylus barch* hwnnw a'r peth orchymynnodd Duw a dyn tu ac at ein Rhieni a'n cyfneſeifiaid.

Yn 7. Bydd ſobr a gweddaidd a gorchwylus yn dy *ddillad* a'th *drwſiad*, na fid bŷth uwch law dy gyflwr, na chyfiwch bôb amſer, nac bŷth yn *hoywwych* neu yn *ſerchoc*, na ddangos noethni trwy wîſc deneu tan gymmeryd arnat ei guddio, ac na ofod *fagl i enaid*; eithr cofia beth a weddei i *Griſtion* yn proffeſu ſanctteiddrwydd a diweirdeb, ac Athrawaeth yr *Jeſu* ſanctaidd: a dangos yr arwydd gyntaf o hynny i'th *weinidogion*, wrth fod yn llaryaidd wrthynt ac yn hawdd dy drîn a'th waſanaethu. Canys pwy bynnac a ymdrwſio mewn *digter* ac *anynadrwydd*, diammeu mae e'n gwiſco *balchder* yn iſaf, ac *Anorchwyledd* yn uchaf.

Yn 6. Dal yn ddichlyn ar y petheu a bô'r Cyffredin yn eu cyfri'n *rhanneu o weddeidd-dra*. Canys cyffredin *dŷb* a barn gwŷr doeth cyffredin ydyw y Rheol oreu mewn petheu *di-ddrwg di-dda*, ac mae cariad yn gofyn i ni gyd-ddwyn â Phaniſi'r wlad a'r Anwydeu ac a fô cyttunol â *naturiaeth* neu gyfattebol â *rhinwedd* neu â *chyfreithieu* cyffredin neu â hên *Arferion*: Mae'n erbyn *gweddeidd-dra* i wraig ail briodi tra bô hi yn feichiog o'r cyntaf, neu gymmwys ail gariad cyn ſychu ei dagreu am y cyntaf. Mae rhai gweithredoedd ſy gyfreithlon *o'r neilltu*, etto yn erbyn *Gwylder* cyffredin eu gwneud mewn cynnulleidfa, ac

yn y cyfryw rai mae *neilltuolrwydd* yn ddyledſwydd o *wylder.*

Yn 8. Yma hefyd y perthyn pôb coeg-falch a neilltuol ffordd ar *gerdded*, pôb ffroſtus furſennaidd ac ynfyd yſtumieu ar y corph, paentio ac anllad ymwiſco: y rhai'n oll a gerydda Duw trwy'r Prophwyd, *Yr Arglwydd a ddywedodd o herwydd balchîo Merched Sion, a rhodio â gyddfau eſtyngedic, ac â llygaid gwammal, gan rodio a rhygyngu wrth gerdded, a thryſtio â'u traed. Am hynny y claſra'r Arglwydd gorynneu merched Sion, ac a dynn ymaith addurn yr eſcidiau.* A'r Ddlêd o *Wylder* yn y matter yma yn bedant a orchymynnir yn groyw i bôb Gwragedd Criſtianogol gan S. *Paul*, *Bôd i'r gwragedd eu treſnu eu hunain mewn dillad gweddus, gŷd â gwylder a ſobrwydd, nid â gwâllt plethiedig, neu aur neu emmau neu ddillad gwerthfawr, ond yr hyn ſy'n gweddu i wragedd yn proffeſu duwioldeb a gweithredoedd dâ.*

Yn 9. Megis y dylid gochel y bwydydd a demtio'r *cylla* tu hwnt iw *raid*; felly hefyd y dylei bawb ſynhwyrol ochel pôb golygon a haneſion a chwareuon, pôb ſŵn ac ymgyrch ar na bo'n perthyn i ti ddim, nac er dy lês *moeſawl* na *naturiol*. Ni ddylei dy *ſynhwyrau* fel genethod gwrhydrus a diriaid wibio i farchnadoedd a chymmanfaoedd heb achos cyfreithlon; A phan yrro *Rheſwm hwy* oddi cartref, dychwelyd yn bryſur gŷd a'u neges a ddyleint, ac aros tan *eu Hathro* nes y gyrrer hwy drachefn.

Yn 10. Pwy bynnac wyt bydd dra-*Gwyl* tu ac attat *dy hun*, gan drîn yn weddus dy gorph dy *hun* ac *eraill* a ſo tan dy law di os *byw* os *marw*. Yn erbyn y Rheol hon y troſedda'r ſawl a ddangoſo'i *noethni* ei hun neu a'i ſpio i *noethni* arall, heb angenrhaid yn peri neu ſod iddo gynhwyſiad oddi wrth Dduw.

Yr hôll betheu a'r odfeydd gwahanredol hyn er na welir monynt ond *bychain*, etto nid bychain mo'n dyledſwydd a'n perthynas ni ynddynt. Am hynny

nid oes gan i ond adrodd geirieu Mab *Sirach*, *A ddibrisio ychydig, a syrth o fesur ychydig.*

DOSP. VI.

Am Fodlonrhwydd ym mhôb Cyflwr a Digwyddiad.

MAe *Rhinweddau a Rhesymmau* dâ, fel *Cyfeillion* yn angenrheidiol ym mhob cyflwr; ond y goreu o honynt yw y rhein'y sy *Gyfeillion* yn ein *Tristwch*, ac sy'n ein helpu ni yn ein *gofidiau* a'n *blinderau*: ac wrth hyn ni all nêb *rhinweddol* fod yn *ddi-gyfaill*; nid oes reswm chwaith i nêb achwyn ar *Ragluniaeth* Duw, na chwyno ar gyffredin gam-dresn petheu *dairarol*, nac ar ei annhappusrwydd ei hun, gan dresnu o Dduw i ni un *Feddyginiaeth* i holl ddrygau'r byd, a *honno* yw *Bodlonrhwydd* calon. Canys *hon* ei hunan a wnâ i ddyn fynd trwy'r Tân heb losci; trwy'r Moroedd ac heb foddi; trwy newyn a noethni ac heb eisieu dim. O blegit gan nad yw'r holl *ddrygau* sy yn y byd ddim ond anghyssondeb rhwng y *chwant* a'i *gwrthddrych*, megis pan gaffo dyn yr hyn ni chwennychei, neu chwennych yr hyn ni chaffo, pwy bynnac a gymmono'i *'wyllys* a'i *chwant* at y digwyddiad *presennol*, fe a gaiff amryw odfa iw *rinwedd* heb yr un iw flino o achos nad yw ei chwant ef yn ymgyrraedd dim tu hwnt iw gyflwr *presennol*; ac mae gwir fynhwyrol yn nghanol damweiniau'r byd fel y mae echel yr olwyn ynghanol y *trô* a'r *treigl*, heb arno na chynnwrf na chyfnewid, ond ei fôl o gymdeithas iw ranneu chwidr yn troi yn *araf* ynteu, heb ganddo ronyn o fatter pa rann a fo uchaf neu isaf o'r olwyn: O blegit beth bynnac a ddigwyddo mae iddo ef de i asserta rhyw rinwedd neu i gilydd, naill ai *Ddoethineb* ai *Diolchgarwch*, naill ai *Cariad* ai *Ofn*, un ai *Ymddiriedaeth* ai *Goshyngeiddrwydd*, un ai *Lawenydd*

ai *Bodlonrhwydd.* Ac mae pôb *rhinwedd* o'r rhain mor gy eiriol a'u gilydd at ei brîf *bennod* ef o *Ddedwyddwch Anfaraol.* Bydd hawdd ein cymmod ni â *Thlodi* ac *Adfyd* os gadawn i *Fodlonrhwydd* a *Grâs* Duw wneud y cyttundeb. Canys nid tlawd neb ond a'i *tybio* i hun yn dlawd. Ond mae'r llawnaf arno od â i ymrwyfo am ychwaneg yn datcan ei dlodi a'i waelder Eithr o blegid mai Dyledſwydd fawr yw'r Grâs hwn o *Fodlonrhwydd* a'i lês yn gyffredin trwy holl fywyd dyn, yr uniç *erfyn* i eſmwytho beichieu'r bŷd, ac i ddifino gelyniaeth *blinderau,* cymmwys oedd gethu'r Grâs hwn arnoch, á'r un hoelion ac y rhwymodd Duw ef wrth eich Eneidiau, a rheiny yw *Rheſwm* a *Chreſydd,* eich *Dyledſwydd* a'ch *Lleſhâd,* eich *Angenrhaid* a'ch *Cyfleuſdra,* ſiampleu a chynnhygion o Wobrau godidoc, dim llai na *Heddwch* a *Dedwyddwch.*

Yn 1. Mae *Bodlonrhwydd* i bôb cyflwr yn ddyledſwydd o *Greſydd,* hon yw'r prîf-reſymoldeb o gŷdblygu â *Rhagluniaeth* Dduw, ſy'n llywodraethu'r hôll Fŷd ac a'th oſododd *ditheu* lle'r wyt, wrth drefnu ei *De lu mawr.* Oddi wrtho ef y mae pôb *llê* a phôb *trô* pob *rhôdd* a phôb *rhann,* am hynny mae'n rheſwm iddo Ef eu meddu a'u rhannu fel y mynno: ac os grwgnachwn ni o rann hyn ni allwn y duchanfa neſaf gwymſan eiſieu gwneuthur o Dduw ni yn *Angylion* neu yn *Sêr.* Canys onid yw yr hyn *ydym* neu'r hyn a *feddwn* yn ein bodloni ni allwn anfodloni i bôb peth arall yn y bŷd.

Duw yw *Meiſtr y chwarae,* ac nid i ni mae dewis ein *rhann* ein hunain; nid rhaid i ni oſalu ond am chwarae ein rhann yn ddâ, a dywedyd bŷth, *os yw hyn wrth fodd Duw bydded fel y mae:* a rhaid i ni ſy'n gweddio fôd ewyllys Duw ar y *ddaiar* megis y mae yn y *Neſoedd,* gofio fôd yr *Angylion* yn gwneud beth bynnac a orchymynner iddynt, ac yn mynd pa le bynnac y gyrrer hwynt, heb anfodloni i fath yn y bŷd o

negleſu

negeſau; ac os croeſir hwy yn eu gorchwyl, eiſteddant mewn Heddwch gan *lawenhau* o'r achos. Gwnâ ditheu'r un mòdd. Cadw'r lle y goſododd Duw di ynddo ac ni hiraethi byth am betheu oddi *allan*, eithr gartref yr eiſteddi gan wledda ar Raglunaeth Duw, a'th Reſwm dy hun ſy'n dyſcu fòd yn angenrheidol ac yn dra rheſymmol ymddaroſtwng i Dduw.

Ond Teulu Duw yw'r holl Fŷd? Ond ei greaduriaid ef ydym ni? onid ŷm ni fel clai yn llaw'r Crochenydd. Ond ar ei fwyd *ef* yr ŷm ni yn byw, ac wrth ei nerth *ef* yn ym ſymmyd, ac yn gweithio wrth ei oleuni *ef*? Bèth ydym ni ond a ŷm oddi wrtho *ef*. Ac a ymderfyſca'r *praidd* a'r *gyrroedd* am fòd eu Harglwydd neu eu Bugail yn dewis iddynt eu porfa, heb eu gadel i grwydro i Anialwch a dyryſni? Os nyni a ddewis mae'n *denis* ni mor ffòl na fydd e' nemor o waith nac fawr ennyd wrth ein bòdd ni: Ond mae Duw yr hwn a all wneud a fynno *yn ſynhwyrol* i ddewis yn *ddiogel* troſom ni, yn *garedic* i ymwrando â'n angenrheidiau ni, ac yn *alluoc* i gyflawni ei bòll ddoeth Amcanion. Hyn ynteu yw *ſynhwyr* y *bodlongar*, gadel i Dduw ddewis troſto: o blegit pan roddech di dy 'wllys iddo ef, a ſefyll yn y fann honno o'r frwydr lle y goſododd dy Ben-Capten mawr dydi, rhaid bòd gorphwyſdra i'th enaid tra bò dy gyflwr tan ſiccrwydd *Gallu* a *Doethineb* a *Chariad* Duw.

Yn 2. Mae *Bodlonrhwydd* ym mhòb digwyddiad yn dwyn *keddwch* mawr i'r enaid, ac dyma'r brîf a'r unic ffordd i *Ddedwyddwch daiarol*. Mae hyn yn tynnu'r *colyn* o'r digwyddiad, ac yn peri i ddyn na roddo mo'i *wynfyd* ar ddamain ac anwadal feddylieu dynion, ond yn unic ar *Dduw* a'i enaid ei hun. Tydi dy hun ſy'n gwneud dy fyd yn wynn neu'n ddu; a phed ollygo Duw *Orthrymmwr* arnat, neu *glefyd* neu *anmarch* neu *dlodi*, od oes arnat ofn marw, neu os ni fedri ddioddef, neu os wyt ti'n falch, neu yn chwannog

yna mae'r Cyſtudd yn bwys mawr arnat. Ond os gwyddoſt ti beth yw bôd yn wâs gwŷch, heb ofni'r un *Angeu* cymmaint a gweithred *anoneſt*, os medri edrych ar *Anoddeſgarwch* yn beth gwaeth na *chlefyd*, ac ar *Falchder* ei hun yn bennaf *ammarch*, a bôd *Tlodi* yn well o anfeidrol na phenydiau *Cybydd-dod*: yna er eſmwythed a chynnefined gennit bechod yr awron, ac er amhoſſibled dybygit ei orchfygu, Ti a droi dy ſeddwl yn ebrwydd ac a gyfrifi'r croeſau hynny yn betheu dewiſol.

Ond nid poſſibl i ti fôd fŷth yn ddedwydd os rhoi nemor o'th obaith neu o'th ofn ar betheu *oddi allan*, neu ar ddigwyddiadeu ar law rhai *eraill* neu ar ddamweinieu *Ffortun*, nid yw rhain ond attegion anſiccr a thwyllodrus aruthr i ti roi pwys dy wynfyd arnynt. Gwobrau *Duwioldeb* ſydd *ſiccr*, ac mae darpar dy gynhaliaeth corporol di yn *ſiccr*, neu pettei arnat eiſieu bwyd hyd angeu dyna di'n cael marw o'r dolur hwnnw, ac mae llawer clefyd gwaeth na marw o *Newyn* neu o *Ddrŵg ymborth*. Ond os ei di mewn gwŷn ddwys o achos rhywbeth ſy ngallu rhai *eraill*, nid elli fôd heb driſtwch na ſyndod ddim hwy nac y rhoddo dy elynion i ti gennad, a dêg i un nad y prŷd a'r lle y bô blinaf gennit y tarewir di: lle pe rhoit ti dy ddedwyddwch yn *Nuw* ac yn dy *enaid dy hun* ni chyrhaeddai un Gelyn bŷdol nac yſprydol mo'i niweidio.

Yr ydym ni yn y byd megis gwŷr yn chwarae *Tabler*, nid oes ar ein llaw ni mor *ergyd* ond ei chwarae ef ſydd, ac wedi ei fwrw rhaid i ni wneud ein goreu o hono: ac na fid trwm gennit ddim ond gweithred front, neu fiarad fel ffŵl, neu feddwl drŵg: y petheu hyn a adawodd Duw yn dy allu di: ond am y petheu ſy'n hollawl yn newis un *arall*, nid ŷnt yn perthyn dim i'th ofal, nac am hynny ddim i'th wynieu di chwaith. Fe all dy *ofn* dy wneuthur di yn anhappus, ond ni's gall rwyſtro mor pêth ſy yn *neu*

ngallu neu *ym mrŷd* un arall. Nid oes nêb yn cael y *mwyniant* o Hawddfyd, ond yr hwn ſy heb ronyn o ofn Adfyd, o herwydd mae'r wŷn a'r arſwyd y petheu *rhagllaw* yn lluddias i'r ofnoc fwynhau'r meddiant *preſennol*. O herwydd pa ham o chollaiſt dy *dîr* na choll mo'th *dduwiolder* hefyd, os rhaid i ti farw bêth *cynt* na fydd marw yn *anoddefus* er hynny. O blegit nid oes un digwyddiad a wna niweid i'r bodlongar; *na dim yn druenus i ddyn ond a fo'n anrheſymmol*. Ni all undyn dy wneud ti yn gaeth iddo, oni byddi di'n gyntaf wedi dy gaethiwo dy hun i *einioes* ac *angeu*, i *bleſer* neu *boen*, i *obaith*, neu i *ofn*: meiſtrola di'r *gwyniau* hyn a thi a fyddi rhyddach nac adar y nefoedd.

Arfeu neu Ymarferion i ynnill Bodlonrhwydd.

Yn 1. Pan ddigwyddo rhywbeth gwrthynebus it, dyro gais ar ei eſmwytho trwy droi'r digwyddiad yn *fantais* fydol neu yſprydol. Pan fo dy elyn yn dy waradwyddo edrych arno *ef* megis cyfion adroddwr dy feieu, canys *efe* a'u mynega hwy i ti yn gywiraeh na'th *gyſaill* anwylaf, a thi elli gyfrif ei rybuddion *ef* yn *olew gwerthfawr* er ei fôd yn *torri dy ben*, a maddeu iddo ef ei gaſineb wrth i ti wneud deunydd o'r caſwir. *Pan flino'r ŷch y troedia'ſe waſtattaf*: ac os pair yr *amſ march* i titheu rodio'n bwylloccach a throedio'n waſtattach rhag ofn d'elynion, diau fôd hyn yn well na gweniaith a llîth i falchder a diofalwch. Dyma *Gariad* a *doethineb* y Criſtion *cymeryd Rhagluniaeth Dduw y ffordd deccaf* ac ymgymmodi â hi wrth ei hedrych o'r *tu goreu*: ti ellit wrthod pôb *Phyſyg* pe nad yſtyrit ddim *arno* ond gwaethed ei flas; ond y ffordd arall, ti ellit groeſawu pôb croeſ-ddigwyddiad, o blegid er mai drŵg yw ei flâs etto mae iechyd a medd-yginiaeth ynddo. Pan fo rhyferthwy o ryw *Anffortun* yn curo ar dy yſpryd titheu, yſpia ryw fantais *arno*

marc

marcia pa'le y gallo fòd yn waſanaethgar i ryw ddiben arall o *Ddiwioldeb* neu o *Gallineb*; ſe a drŷ yn rhyw ddaioni o cheiſi ganddo: O'r lleiaf ſe all wneud i ti ſlino ar wagedd y bŷd, a thynnu dy obaith oddi ar attregion anwadal, a derchafu dy galon i'r Wlâd lle mae *Bodlonrhwydd Hanſodol* yn cartrefu. Os gwnâ'r *Aflwydd* ryw lês i'r *Enaid* ſe dâl ormodedd o iawn am yr hôll gyſtudd amſerol. Os metha gennit un *bwriad* a medru o honot ei ddiwygio ág un arall a ſo cyſtal ac ynteu wrth dy fòdd neu well er dy lês, dyna di'n codi dy *gyſlwr* allan o gyrraedd *Ffortun* a Damwain, ac felly dringa'r *ſynhwyrol* yn uwch na'i *ſêr*, a bydd gennit fwy o lywodraeth tros dy wynfyd dy hun, na chan yr hôll *blanedau* ſy ar y Frŵrſafen.

Yn 2. Na chyffelyba fŷth mo'th *cyflwr* â'r rhai ſy'n uwch na thi, edrych ar y miloedd hynny na fynniti er dim ar y ddaiar fô i yn eu lle hwynt. Yn lle pruddhau eiſieu bôd mor grŷf ag *Arthur* neu mor llwyddiannus ag *Alexander*, bydd lawen na lwyr yſpeiliwyd monot fel *Craſſus*, neu na thynnwyd mo'th lygaid fel *Zedekiah*, neu na flingwyd monot yn fyw fel *Valentinian*. Nid oes fawr Frenhinoedd ar y ddaiar, ac o'r rheiny mae llawer yn dra greſynol eu cyflwr wrthit ti. Pa ddelw bynnac ynfydrwydd mawr i ti *driſtau* am ddâ *rhai eraill*, yn lle *llawenhau* am y dâ a roes Duw i ti *dy hun*.

Yn 3. Help ddâ at *Fodlonrhwydd* oedd i ti edrych, heibio i'r peth ſy yn dy ſlino, ar y petheu a ſo'n *hyfryd* ac yn llwyddiannus gennit, fel y bô i ymddangoſiad y *goreu* ddallu golygiad y *gwaethaf*: a deled y gwaethaf mae gennit ddigon i'th gadw yn fyw ac i gynnal a chwanegu dy obaith am y Nêf. Os colla ſti dy gŵyn yn y *Gyfraith*, gadawed dy *dŷ* a'th *dîr* i ti etto, neu mae gennit wraig rinweddol, neu blant gobeithiol, neu geraint caredig, neu obaith dâ. Os collaiſt un plentyn ni hwyrach fôd gennit ddau neu dri etto gartref.

Neu

Neu rifa'r bendithion a gefaiſt gynt, ac wrth hynny bydd fodlon mewn cyhydiad ar dy gylch i dderbyn y *drûg o law'r Arglwydd yn gyſtal a'r dâ.* Neu *ymfydlona mewn gobaith o'r hyn ſy i ddyfod*, o blegit yr oedd y *Triſtwch* hwn uwch dy ben er pan i'th aned, a *thrô* a'th ddûg di iddo, a *thrô* etto a ddichon dy ddwyn allan o hono.

Bwrw fôd arnat y llwyth toſtaf o *gyſtudd* ar a fu erioed, oni oddefit *ef* yn llawen ac yn wrol pettit ſicer y digwyddei i ti ar fyrder ryw *lwcc* dra godidoc i'th iachau, i'th cyfoethogi, ac i'th lawenhau, yn helaethach nac a medrit ti na'i *ddiſgwil*, na'i *ddeiſyf*, na'i *dderbyn*? Pan fo gofid a Blinder ynte'n drwm arnat, cofia mai *Criſtion* wyt, un a fwriadwyd i *dreſtadaeth Jeſu*, a pheth meddi di am dy *ffortun fawr* honno, dy rann o *Dragywyddoldeb*? A wyt ti'n tybied y byddi *cadwedig*, ynteu *colledic*? yn wîr od wyt yn tybio mai *colledic* fyddi, nid oes ryfedd i ti er pruddhau, ie pruddhau hyd oni thorro llinynnau dy galon; ond pam yr wyt titheu'n achwyn am dy golled fydol? beth a wnai dyn damnedic a'r bŷd ôll, yr hwn nid poſſibl iddo ei fwynhau gan faint ei ofid a'i drueni? Pwy erioed a'r crogbren a gwynodd am gael atteb croes gan ei gariad, neu pwy yn y pair poeth aeth i hel ei fân ddwledion? Os wyt titheu'n credu y demnir di, nid wyſi'n dywedyd yr iachâ ond y llynca hynny dy driſtwch di. Ond os wyt ti'n credu y byddi *cadwedig*, Yſtyr faint y *llawenydd* hwnnw, mor anfeidrol yw'r gyfnewid, mor anrhaethawl yw'r gogoniant, mor odidoc yw'r *iawn a'r tâl* hwnnw am hôll ddioddefiadau'r bŷd petteint i gyd ôll yn un baich arnati dy hun: Felly beth bynnac ſy arnat os yſtyri dy gyflwr preſennol a'i gyffelybu â'r llyn ſydd i ddyfod, ni's gelli fôd yn deimladwy iawn o boen dy aflwydd preſennol, am fod i it etto *yn* naill ai llawer mwy o *boen*, neu lawer mwy *lawenydd*. Nid wyt ti yma ond ymdeithydd yn ſiwrnio tu

Wi

Wlâd, lle y darparwyd i ti Deyrnas ogoneddus, gwendid anferthol ynteu yw i ti dorri dy galon am ddigwydd i ti Letty caled ar y ffordd.

Odd mae'r *Gelfyddyd* yma o *ystyried ôl a blaen* yn fwy na digon i gynnal calon *Cristion*: nid oes undyn heb ganddo yn ei feddiant ddigon o *fendithion* er mantoli'r hôll *ddrygau* sy'n ei fawr gystuddio. Rhifa gymmalau dy gorph ac na chwyna ar y *Rhagluniaeth gyffredin* am goes gloff neu am fŷs coll, cyd bo'r lleill i gŷd yn gyfan, a chennit yspryd ardderchog, rhann o Dduw, a'i ddelw ef ei hun, ac wrth fôd heb fŷs ti a wyddost yn well ddaed yw rhanneu diangol, ac a roi fwy o brîs ar y bendithion a adawyd. Os collaist eyw *Le*, yma heb law bôd yn rhydd o'r gofalon ar genfigen, mae genniti etto yr *cynneddfau* a'th wnaeth di'n gyfaddas i'r *Lle*, ac mae *rhein'y* yn well nac un fowydd yn y Deyrnas. Os dy *Stât* a gwttogwyd, nid rhaid i ti ofalu ond llai pa fâth y fô'r Gwladwyr, ai dâ ai drŵg. Croesfwyd ti yn dy *siwrnai*, etto diengaist rhag Lladron, a phe tarawsei ddynion drŵg wrthit, yflyr y gwellit dy ofid presennol yn ymawared mawr rhagor bôd tan y drŵg hwnnw; neu os syrthiaist i ddwylo Lladron, etto ni ddygasant mo'th *dîr* di. Neu os daeth *Attasaelwyr* a *Siryddion* a dwyn oddiarnat fwyr a chwbl. Bêth bellach? edrych o'th amgylch. Gadawsant i ti etto yr Haul a'r Lloer, Dwfr a thân, gwraig caredig, a llawer o geraint i dosturio wrthit, a rhai i'th ddiwallu; ac os mynni ni ddygasant hwy etto mo'th wynebpryd siriol, na'th galon lawen, na'th gydwybod ddâ: gadawsant i ti etto Ragluniaeth Dduw, a hôll Addewidion yr Efengyl, a'th Gresydd, a'th Obaith am y Nêf, a'th Gariad iddynt hwythau: ac yr wyti'n cysgu, yn ymborthi ac yn ymresymmu, ac Ti elli etto ddarllen a myfyrio, a rhodio hyd feusydd hyfryd dy gymmydog, a gweled amryw degwch a gwychder Naturiaeth, ac ymhyfrydu yn mhôb peth

ar ſy hyfryd gan Dduw, ſef yn Rhinwedd a Doethineb, yn yr holl Greaduriaeth, ac yn Nuw ei hun. Ac os dewiſi brudd-der a chennit gynnifer a chymaint achoſion o lawenydd, dâ'r haeddit a thitheu'n chwennych newynu ynghanol llawnder, a bôd yn ddi-gyſur â'r bendithion yn drafrith o'th amgylch.

Yn 4. Mwynhâ di'r *preſennol*, beth bynnac yw, ac na ofala beth ſydd i ddyfod, canys o thynni dy drwed o'i le *preſennol* a'i wthio ymlaen at y *foru*, ti a fyddi mewn yſtum tra aneſmwyth, tebyg yw hyn i beidio a thorri dy ſyched heddyw, rhag ofn y bydd arnat eiſieu diod y foru. Os dâ yw'r bŷd arnat *heddyw* i ba beth y gwnei di e'n waeth trwy ofni y bydd y *foru* yn ddrŵg, canys ni hwyrach y bydd y *foru* yn ddâ hefyd, ac yna beth a wnai'r gofal a'r gofid *heddyw*, ond ei drŵg y fydd, ſe a ddaw dy flinder yn ddigon buan heb redeg yw gyrchu, gâd i'th ofid aros tan ei ddiwrnod ei hun. Ond os happia fôd *heddyw* yn ddrŵg arnat na wnâ mono yn waeth wrth ofalu am y *foru*. *Heddyw* os bendithion y mae Duw'n eu danfon mwynhâ hwynt, os drygau godde'r rheini yn amyneddgar ac yn hynaws. Canys *heddyw*'n unic ſy eiddot ti, yr wyt ti wedi marw i *ddoe* ac heb dy eni i *foru*. Am hynny ynteu mwynâ di'r *preſennol* os dâ yw, yr wyt ti mwynhau cymmaint ac ſy boſſibl ei fwynhau, neu os drwg un diwrnod unic ſy arnat, nid yw'r pwys ond bychan a dibennus: Ond os ei di i ddarogan ac i gyrchu drygau llawer o ddiwrnodieu i feddylieu'r un dwthwn, neu i ſathru bendithion preſennol wrth lygad-rythu ar betheu i ddyfod, yna mae dy gyflwr yn ddi-gyſur ac yn ddi-reſwm hefyd.

Yn 5. *Diſgwil* bôb amſer am *gyfnewidiau*, a pharatô dy feddwl attynt, môdd na'th frawycher pan ddelont: canys y gelyn penna'n y bŷd i *Fodlonrhwydd* i *gwaſtadrwydd* yw ſyndod a chythryfwl calon afrhaſod anyſtyriol. A phan ddêl trô ſydyn ar dy Fforiun,

ni thrŷ dy galon ddim, os oedd hi yn ſefyll i ddiſgwil ar derfyneu *Blinder*. *O Angeu mor chwerw wyti i'r hun ſy'n byw mewn heddwch yn yr hyn ſy ganddo. Ecc.* 41. 1. Ar gŵr goludog a addawſei iddo'i hun lawnder ac eſmwythyd tros lawer o flynyddoedd, och doſted oedd ganddo'r newyld y rhuthrid ei enaid oddiarno'r noſon gyntaf: Ond yr Apoſtolion y rhai oedd beunydd yn curo wrth ddrŵs *Angeu*, a'u golwg arno'n waſtad, a aethant yn dawel ac yn heddychol iw merthyru.

Yn 6. Arfer edrych ar y bendithion ſy gennit â'r un golwg ac yr edrychi arnynt pan fŷch hebddynt. Gwêl mor ddymunol yw *Iechyd* gan y Clâf, neu *Rydd-did* gan y carcharor. Ac os daw ond iâs chwerwdoſt o'r ddannoedd arnat, dyna'r hôll drafferthion eraill a oedd i'th flino, yn ffoi ac yn diflannu. Mae gŵr yn ei *Iechyd* yn flîn ganddo fôd mewn dylêd, ac yn cwyno'i anhappuſrwydd mewn anhunedd ac ympryd; ond trawed arno loes o'r garreg neu o'r Crŷd poeth ac ni fwy ganddo yn ei hôll drallodau cyntaf na phetteint heb perthyn iddo ronyn erioed. Gwêl ditheu roi o Dduw i ti fendith doſtach o anfeidrol ei *hebcor* nac ydyw *goddef* dy ddylêd neu dy dlodi neu dy golled preſennol: am hynny fel y mae'r mwyniant preſennol o'r fendith yn rhagori, felly hi ddylei fantoli dy hôll helbulon. Pettei ond y *bendithion ammhennodol* o gadwraeth rhag drŵg, o nôdded a rhydd-did a chyfanrwydd, dâ yr haeddei rhain ddiolchgarwch dy hôll einioes. Pe danfonai Duw granc gwyllt ar dy wyneb, neu pe tanai grêſt y frêch-fawr hyd dy groen, yna beth a roit ti er cael bôd fel yr wyt ti'r awron? Oni fydditi bodlon tan yr ammod hwnnw i fôd cyn dlotted a minneu neu a'r tlottaf o'th frodyr? Oni ddewiſiti dy golled neu dy gyſtudd preſennol fel peth tra dewiſol wrth *hwnnw*, ac yn ffafr fawr gennit gael hwn yn gyfnewid am dano. Yr wyt ti'n iâch oddi wrth

il o flinderau, y rhai pettei arnat un o honynt fe a'th
nai yn annheimladwy o'th driſtwch preſennol: ac
m hynny gâd i'th *lawenydd* am ſôd yn ddiangol oddi
rthynt, [a ddylei ſôd cymmaint a'th *driſtwch* pan
yrthiech tanynt] iâchau dy anfodlonrhwydd cyſtal ac
ntef. Canys onid wyt ti'n ynfyd ac yn iwin faddeu,
nid wyt ti'n anniolchgar neu yn annheimladwy, mae
lawenydd mawr yn gymmwyſach na *blinder mawr* i
achâu *prudd-der* ac *anfodlonrhwydd*.

Yn 7. Os mynni gadw *Calon fodlon* cymmer feſur
y chwantau wrth dy ſtâd, ac nid meſur dy ſtâd wrth
y chwantau, hynny yw, ymwrando a'th *angenrheidieu* naturiol, nid a'th *phanſi* annaturiol ac â drwg arfer, a wyddorion Balchder. Pe cymerai ddyn wŷdd aradr ſaethu yſcyfarnog, neu ych paſcedig iw dal hi, nid *wrſtan* y gelwit ef am fethu'r marc, ond ynfyd am ddewis defnyddieu mor anghyfaddas: ac felly'r wyt itheu, os ceiſi *Fodlonrhwydd* nid â deiſyfiad o Angenheidieu naturiaeth ond â chwantau *gwneuthur*, ſef âg nghenion *ffugiol* a thaer-ddrwg. Y rhai'n nid oes ôdd iw bodloni, a phettei, nid yw ond *môdd* o'r gwaethaf i ddyn at *Fodlonrhwydd*. Nid wrth fodloni'r cyfryw drachwantau y bwriadodd Natur orphwyſtra ddyn. Ai gwell yw'r anifail ſy ganddo ddau neu dri o fynyddoedd iw pori, na'r wenynen fechan ſy'n ymborthi ar y gwlîth a'r Manna ſy'n deſcyn bôb boreu o dryſor-dai'r Nêf? Ai gwell y tyrr dyn ei ſyched o afon nac o gelwrn llawn? neu ai gwell yr yſ o'r fynnon pan fo wedi ei phalmantu'n wŷch â meini mynor, na phan fo'r graean glân yn ei gwaelod? Nid yw balchder a glythineb *cymmell*, ond dynwared a dygru Naturiaeth, gan wneud dy ymborth yn afiachûs, dy chwant yn aneſmwyth ac yn ddiwala, a'th ſâs-eneu yn gymmyſc, yn ffuantus, ac yn flyſig. Ond o dywedyd y gwîr *Naturiaeth* yw'r hyn a lyſenwit *hodi* a'i chyfranneu cwtta *hi* yw iawn feſurau Dyn,

a'r Moddion cymmwyſaf at *Fodlonrhwydd*. *Gwalchmai* gynt a achwynodd yn drwm iawn am ddillad newyddion, gan fod yn dôſt ac yn gywilydd ganddo fynd i'r Llys yn lledlwm: ond pan gafodd rai gwell a rhoi'r hên ddillad i *Hittyn* dlawd, ſe aeth hwnnw druan tan lammu o lawenydd i glodfori Duw am ei ſawr gyffaeliad newydd; a gwnaethpwyd *Hittyn* yn harddwych ac yn eſmwythglyd á'r un dillad ac a oedd gywilydd gan *Walchmai* eu gwiſco, ac etto'r un eiſieu naturiol oedd ar y ddau: y cwbl ragor oedd bôd gan *Walchmai* attwf o anghenion *gwneuthuredic* a ffuantus nad oedd gan *Hittyn* monynt, yr hwn oedd yn byw wrth *Naturiaeth*, ac nid wrth lygaid a thafod *rhai eraill*, a diffygion gwneuthur, ac am hynny yn haws ei ddiwallu *ef* ac yn rheittach iddo ei lawenydd. Os rhoi dy fwriad ar betheu mwy na thi dy hun neu d'angenrheidieu, ac yna ymgythruddo pan fethoi bwriadau hynny, nid ar Ragluniaeth y dylit achwyn nac ar dy Ffortun, ond ar dy ynfydrwydd. Nis gwnaeth Duw a Natur ddim anghenion ond a oedd yn eu bryd fodloni: os gwnei ditheu rai newyddion edrych am fodlondeb iddynt pan allech.

Yn 8. Ym mhôb trallod a blinder cymmer Noddfa mewn *Duwiolder* a bid *diniweidrwydd* yn angor i'th enaid, iw gadw rhag llongddrylliad, er nas cadwer mono rhag tymheſtl. Canys os am lâdd ei Dywyſog neu am yſpeilio Eglwyſi y llufcir dihiryn iw ddirdynnu, pa ddoethineb a ddichon ei gyffuro? Mae cwppan y cyfryw un yn llawn o driſtwch pûr digymmyſc: ei gorph a arteithir â phoeneu, ei eniw â gogan, ei enaid â gwarth ac erchylldod, a hyn i bara yn dragywydd. Ond pan fô gŵr yn dioddef ar achos dâ, a yn ei gyſtudd heb rodio yn wrthnyſig gŷd â'i Dduw, yna mae nôd S. *Paul* ar ei gyflwr ef. *Yn mhôb peth yr ym yn gyſtuddiol, ond nid mewn ing, yr ydym mewn cyſing gyngor ond nid yn ddiobaith; Yn cael ein*

herlid

herlid, ond heb ein llŵyr adel: yn cael ein bwrw i lawr, ond heb ein diſetha. 2 Cor. 4. 8, 9. A phwy a'ch drygai chwi os byddwch yn dilyn yr hyn ſy ddâ? 1 Pet. 3. 13. O blegid yn wîr nid oes dim yn y bŷd ŷn ddrŵg ond pechod. Oddi mewn i ti y mae'r drygau mwyaf, ac oddi wrthit dy hun y mae i ti ddiſgwil y daioni pennaf, canys Duw yw ffynnon y Daioni, ond ni eſtyn efe mono i ti ond trwy dy ddwylo dy hun: A phan fô pôb peth o'th amgylch yn cwmmyſu'n arwdriſt arnat, yna y cei weled odidocced o gyfoeth yw bôd Duw yn Gyfaill i ti; ac o bôb cyfeillach dyna'r unic un a'th cynnal di yn dy gledi. Canys *pechod* ac *annuwioldeb* ſy'n troi bradgyfarfod yn Grŷd-poeth, a'r Crŷd yn Haint, hwn ſy'n troi ofn yn Anobaith, Digter yn Gynddaredd, Colled yn Wallcof, a Gofid yn Syndod a chythryfwl. Ond os oedditi yn ddiniweid neu os gwnaeth y Cyſtudd di yn edifeiriol, nid yw hyn ond dy yrru i'r *yſcol* i ddyſcu, neu yn union i'r *maes* i ryfela am goron; Cyſtudd yn gweini i ryw bwrpas o drugaredd yw, ac nid cennad Llidiawgrwydd mono.

Na âd titheu i gyſcodion petheu oddi allan dŷ gylch-arwain, ac na farn betheu megis ac a barna penneu gweiniaid cyffredin, ac na wnâ wŷr eraill a hwythau nid o'r rhai doethaf yn Uſtuſiaid ar dy ddedwyddwch, ond bydded Rheſwm a phrawf, bydded Crefydd a Gobaith, a Hyder ar Addewidion Duw yn yſcwîr i ti i farnu dy gyflwr wrthi. Nid oes dim Dedwyddwch erioed heb Rinwedd, ac ni all Rhinwedd ſôd ynghrôg wrth ſidyll anwadal *Ffortun* ddâ neu ddrŵg. Nid bôd yn dlawd yw'r drŵg, ond bôd yn feius ac yn anoddefus.

Moddion i gael Bodlonrhwydd mewn ffordd o Yſtyriaeth.

Yn 1. Yſtyr ac yſpîa bôb cwrr o'r cyſtudd, cymmer ei feſur ôll, a chenfydd ei olion ef, a pherwyl Duw

yn ei ddanfon, a chyffredin gam-dŷb dynion, a'r draws-farn y maent arferol o roi ar bôb croesau. Canys yna ti a gei weled mai rhag escyrn a boncyffion meirwon yr wyt ti'n rhusio, pethau heb na bywyd na niweid ynddynt. Os atteli dy *Obaith* a'th *Ofn* a'u cadw o fewn llywodraeth, bydd eynt i ti orfod y gwaethaf o'r digwyddiad. *Canys nid oes dim yr ŷm ni yn ei deimlo cynddrwg ar hyn yr ŷm ni yn ei ofni.*

Yn 2. Ystyr i gyffredin Ragluniaeth Duw drefnu dâ *Natur* a *Fjortun* felly iw cyfrannu, fel y gallai bawb ddwyn ei faich ei hun a chymmorth diffygion a gwendid rhai eraill. Mae *ef* yn diwallu fy nhlodi *i* â'i *gyfoeth ef* yr wyf finneu yn ei gynghori ac yn ei hyfforddi yntef â'm prawf ac â'm *Dysceidiaeth*: ac mae rhyw un fendith hynod gŷd â diwallrwydd yn abl cynnyscaeth pettei ond *iechyd* neu *gryfder* neu *gyflymder*. C nys anfodlonrhwydd di-reswm yw i mi duchan eisieu bôd gennif cystal Ceiliogod neu Gŵn neu Geffylau ac ty gan fy nghymmydog, a bôd yn fwy anesmwyth am un peth *afraid* fy'n ôl i mi, na diolchgar am bôb pêth *angenrheidiol* sy gennif.

Gellir chwanegu at yr Ystyriaeth hon fôd llawer mâth o gyflwr na ddichon mor cyd sefyll a bathau eraill, megis os mynni'r *naill* rhaid i ti golli'r *llall*, ac os *fodloni* i un ti a golli fwyniant y ddau. Os chwennychi *Ddysceidiaeth* rhaid i ti fyw yn ddi-drafferthion ac yn *ddirgel*: Os bôd yn *Wladwr* rhaid i ti fynd a fôl i gael Prawf: O cheisi fynd yn *gysoethog* rhaid i ti fôd yn gynnil, os bôd yn *gariadus* rhaid i ti fôd yn *hael*. Os mynni fôd yn *enwog* rhaid i ti ddiscwil trafferth a chenfigen, os yn *ddiogel* bydd fodlon i fôd yn *ddiystyr* hefyd. Ond os mynni fôd yn *Sanct* rhaid i ti groesi wu *erlid*. Arfer ditheu yr *Gallu* a roes Natur iaeth, a gywreinidd dy Ddysceidiaeth, ac a rwymod dy Alwedigaeth yn ddyledswydd arnat. A gâd i *Carlyn* orwedd gŷd â'i wrâch godog, ac i'r *Rhodres*

gŷd-yfed â gwŷr mawr; a gwybydd na's gelli di gael mo'r codeu oni chymeri'r wrach hefyd, nac mo ffafr y llall gŷd â'r Pendefigion oni phryni di *ef* yn yr un brîs, ſef rhoi i lawr yn gyntaf dy *Sobrwydd* a chwippyn ar ôl hynny dy *iechyd*; ac yna er gwyched yr olwg ar eu cyflwr hwy, os teimli ef o bobtu yn fanwl cei glywed y piga dy fyſedd di.

Yn 3. Yſtyr faint o rai godidoc ym mhob oes a ddioddefaſant gymmaint neu fwy blinderau nac ſy'r awron yn dy demtio di i *anfodlonrhwydd*. Oni ddengys pob Oes o'r bŷd mai y rhai uchaf o ddyſc fu iſaf o dlodi? Ond ar ferched y rhoes Duw y gwewyr toſtaf o ddwyn plant, i ddangos nad oes un Stât rŷdd oddi wrth ofid, a bôd gan y rhai gwannaf ddigonedd o nerth i atteb i'r cyſtudd mwyaf; ac ni chadd y Brenhineſau mwyaf na Mammeu'r Seinctiau a'r Apoſtolion ddim braint o rydd-did oddi wrth y farn doſturus hon. Ond Arglwydd dynion ac angylion oedd Brenhin y dioddefaint? ac od wyt'n hhno ar dy hugan frâs, cofia *gadachau'r Jeſu*: os yw dy wely yn galed, etto nid oes mono'n waeth na'r *Preſeb*; ac na fid trwm gennit fôd ar ychydig luniaeth, gan fod Brenhin Nêf a daiar yn bŷw ar ychydig laeth bronnau; ac heb law hynny oddef o honaw yr holl ofidiau a haeddaſem ni. Mae'n rheſwm da ynteu i ni wneud y goreu o'r bŷd a fo, ac ymborthi ar *Fodlonrhwydd* gartref. O blegit balchder anferth oedd diſgwil Rhagluniaeth Dduw yn eſmwythach wrthit neu wrth y goreu a'r doethaf o ddynion, yr Apoſtolion a'r Seinctieu, ie na Mâb y tragywyddol Dduw ac Etifedd y ddau Fŷd.

Yn 4. Mae amryw ddamweiniau a gyfrifir yn yn flinderau ac etto mae'n rheſwm eu dwyn *hwy* yn ac yn ddifatter, am nad ydynt yn cyſſwrdd â cyrph na'n eneidieu ni, nid ydynt yn torri na bŷd na'n Crefydd, na'n hoedl na'n Geirda ni. Bet

os diyſtyrwyd ti, neu roi i ti ddrŵg-dafod, ni chododd hynny mor bendro arnat, ni thorrodd chwaith mo'th clûn, ac ni ddûg mo'th Grefydd oni chollaiſti dy Gariad a'th Ammynedd. Chwilia ditheu beth wyt waeth yn dy Enaid neu yn dy Gorph er a ddigwyddodd, canys ar hyn o graffder ſe ddiflanna'r rhann fwyaf o ddrygau.

Yn 5. Yſtyr mai ſtât o *Groeſau* a Chyſtuddiau yw *yſcol Rhinwedd*, ſy'n ffrwyno dy enaid a'th wynieu â *Sobrwydd* ac â *Chymmedrolder*, maent yn ceryddu dy yſafnder ac yn torri ar dy hyfder i bechu. *Dâ* [medd *Dafydd*] *yw i mi fy nghyſtuddio, canys ſelly y dyſcais dy Gyfraith.* A *gwnn Arglwydd mai mewn ffyddlondeb i'm cyſtuddiaiſt.* O blegit Duw'r hwn ſy'n llywodraethu'r bŷd mewn trugaredd a doethineb, ni adawſei fyth i gynnifer o flinderau ddeſcyn ar y doethaf a'r Rhinweddolaf o ddynion, oni bai ei fôd e'n eu bwriadu hwy yn hâd *diddanwch* yn fagwraeth *rhinwedd* yn ymarfer â *doethineb*, yn brawf o *ammynedd*, yn ymdrech am *goron* ac yn Borth *Gogoniant*.

Yn 6. Yſtyr fôd Cyſtuddiau yn fynych yn achoſion o fawr *fanteiſieu bydol*: ac na edrych arnynt lle maent yn pwyſo drymmaf arnat, ond o'r tu y maent yn gwaſanaethu i ddibennion Duw a'i gyffredin Raglunaeth. Pe medraſei ddyn egor un ddalen o Gynghorlyfr y Goruchaf a rhagweled y diben o werthu *Joſeph* yr *Aipht*, fe allaſai trwy achos dâ ſirio'r llangc a lychu ei ddagreu. Ond mae Duw yn cadw ei Gynghorion, iddo'i hun, ac yn cyfrif yn fraint o'i ogoniant ei hun dynnu *dâ* allan o *ddrŵg*; ac wrth hynny nid oedd ond rheſwm i ni adel i Dduw lywodraethu ei Fŷd ei hun, fel y mynno: a goddef yn amyneddgar nes y dêl ymwared o'r blinder, neu tan na ymddangoſo'r achos o honno.

Mae'r Yſtyriaeth hon yn odiaeth hefyd ar lês y ſawl ſy'n cenhgeſtu llwyddiant yr annuwiol a ffyn-

mant

niant Erlidwyr, fel cenfigennu abwyd i'r pyſcod neu friwſion i'r cŵn. Canys ſe a drŷ pôb Erlid yn ogoniant mawr i Dduw, yn llês mawr iw weiſion, ac yn ddeſtryw mawr iw Erlidwyr.

Gellir hefyd am ben hyn chwanegu mai'r mawrddrygau a ddigwydd i'r Doeth a'r Duwiol yn y bŷd hwn, yw un o'r prîf-reſymmeu yn nerth pa rai y gallwn ddiſgwil happuſrwydd a hyfrydwch mewn bŷd arall. Ac yna diau fôd *Croeſeu* yn abl eſmwyth a dewiſol cyd bônt mor fanteiſiol a buddiol i *Ffydd* a *Gobaith* Criſtion. Ond ped yſtyriti pa anrhaethawl boenau a ddarparwyd i'r annuwiol tros bôb tragwyddoldeb, nid ymddigit wrth eu gweled hwy mor ffynnadwy yma, eithr yn hytrach ti a ryfeddit na bai eu rhann hwy yn y bywyd hwn yn helaethach, ti a ryfeddit fôd arnynt un clefyd neu groes neu ammarch, o herwydd pe caent fwy o lwyddiant nac a fedreint dlymuno, ni's gwnai hynny mor iawn iddynt am un awr o boeneu Uffern ac etto dyna eu rhann hwy yn dragywydd.

Wedi'r hôll Yſtyriaetheu hyn ſy'n tarddu allan o *Deimlad* ac o *Brawf*, allan o *Râs* ac o *Reſwm*, mae yn ôl etto ddau Rwymedi, a rheiny yw *Angenrhaid* ac *Amſer*. O blegid

Yn 7. Mae'n rheſwm dâ odde'n amyneddgar y peth a ddanfono Duw, gan na wnai anmoddef ond dy ddryſu ymhellach, megis aderyn yn ymguro yn y Rhwyd, ond ni's gall nac eſmwytho'r blinder na'i rwyſtro, rhaid yw mynd trwyddo, ac am hynny gwell oedd i ti ymwneuthur i fôd yn oddefus tan dy gyſtudd na bôd yn gyffrous ac yn reſynol

Yn 8. Pa fôdd bynnac oni chaiff dim arall dy iachâu, fe a'th wnâ *Amſer* ei hun di'n iâch o'r diwedd, ac yna edrych ditheu ai tros amſer y mae'n dy fryd ti alaru, ai tros byth? os byth, yr wyti'n druenus ac yn ynfyd. Eithr os dros amſer, pa ham na roi di'r awron wrth dŷ ddolur y rheſymmeu hynny a'th iachâu

iachânt o'r diwedd? neu oni adewi i'th *reſwm* dy ichau gwêl leied ſy o *ddyn* a lleied yn ſiccr ſydd o *Griſtion* ynot pan adewit i *amſer* weithio mwy ynot na *Rheſam* na *Duwioldeb*. Pa ddelw bynnac bydd fodlon i ddioddef dy gyſtudd, o achos cyn pen nemor fe dlaw torr arno: ac yn y byd hwn deled y gwaethaf fo'i dibennir gan *Angeu* ac mae'n gwneud i ni weled *hunnu* yn rhŷ agos attom.

Yn ddiweddaf, O'r petheu a gyfrifir yn *ddrygau* mae rhai yn well na'u gwrthwyneb; ac i ŵr dâ mae'r gwaethaf yn abl eſmwyth.

Tlodi neu Brinder.

Yn 1. Mae *Tlodi* yn well na *Chyfoeth*, a chyflwr gwael na Ffortun uchel ardderchoc. Os y cwbl a ellir ei ddywedyd yn erbyn *Tlodi* yw ei bôd *hi* yn gyſtudd, mae Criſtianogaeth ei hun yn gyſtudd hefyd: a'r rhann fwyaf o gyſtudd *Tlodi* yw *diyſtyrwch*, ac mae hwnnw yn ei chanmol *hi* gan nad yw *hi* ddiyſtyr gan nêb ond yn unic gan y drygionus a'r annuwiol Beth bynnac nid yw Ffortun fawr ddim ond oferedd mawr; na chyfoeth ddim ond perygl a blinder a phrofedigaeth. Eithr *Tlodi* yw chwaer *meddylfryd dâ*, mamm *cynghorion ſobr*, a mammaeth pôb *rhinwedd ddâ*.

Nid heb ddirgelwch y nodwyd hyn yn Oeſoedd y Cynfyd, ym mhlîth yr holl neirif o gau-Dduwiau a wnaethpwyd o bôb amryw betheu etto erioed ni's gwnaethant *Arian* neu *Olud* yn Dduw, gan fwrw er maint y mawrygir êf gan y Cyffredin anwybodol, etto na's gallei *Golud*, hynny yw, cymmaint ôll o ddâ bŷd ac a fò tros ben angenrhaidieu Naturiaeth, chwaneeu maint y mymryn ar wîr *Fodlonrhwydd a dedwyddwch dyn*. Pettei gennit hôll aur yr *India*, hôll ŷd *Sardinia*, hôll wartheg *Calabria*, Gweirgloddieu ddeuty *Lyris* hyfryd, pettei gennit hôll Sidaneu *Tyr* a Phioleu arian i foddi dy iechyd ynddynt, nid y rhai

rhain ôll ond Arfeu *oferedd* a *phechod*, sy'n rhagfwriadu clefyd yn yr enaid, cyn y dêl yno flys na hiraeth am un o honynt.

Ond mi a eglurais hyn mewn lle arall yn helaethach. PEN. IV. Dosp. 8. Ac at hynny chwanegaf yma fod mewn Cyfoeth berygion dirfawr i eneidieu, nid i'r lawl a'u chwantio'n unic, ond hefyd i'r sawl a'u meddianno. O bl gid dechreued Gŵr goludog ar rywbeth mewn gwŷn fawr a chyd-bartîaeth, aed ymlaen yn anfynhwyrol, bid yr hôll fwriad yn anghyfion, gwnaed ef trwy'r malis ar gwendid mwyaf yn y bŷd, etto fe gaiff ddigon iw wenieithio, ond ni che ff hanner digon iw geryddu. Rhaid dyn tra hŷf a ddywetto iw Arglwydd ei fod e'n mynd i Uffern, a rhaid iddo ynteu fod yn ŵr hynaws cyn y goddefo'r fath rybudd. Ac er mai drŵg yw'r moesgarwch a syrn groes yw'r parchedigaeth a bair i *gyfeillion* a *perthynas* gŵr adel iddo fynd i ddestryw heb na'i geryddu na'i helpu, rhag bod yn anfoesol wrth bechadur anrhydeddus: etto anhappusrwydd mawr yw iddynt *hwy* fod eu golud a'u mawredd yn eu rhoi mewn pechod, ac etto'n eu gosod tu hwnt i gerydd. Nid rhaid i mi sôn am yr anghymmedrolder sy gynnefin i fyrddeu llownion, nac am y drygau a ddaw o ymrythu, balchder ac anlladrwydd, yspryd gwammal a mwythus, chwedleu mowrion a meddwl meistrolus, dibrisio Crefydd a duwiolder, a diystyru'r tlawd. O ddywedyd y goreu, *Profedigaeth fawr iawn yw i ŵr fod ganddo yn ei allu, beth bynnac a ddêl iw gnawdol ewyllys ef.*

Weithian yn Stât *Tlodi*, ond a draethwyd eusys, nid oes dim heb atteb trosto ond yr *Ofn na chaffer mo'r angenrheidieu*, pe gellid diofalu'r *Tlawd* oddi wrth *hyn*, ni fyddei y rhannau eraill o *Dlodi* ond manteisieu gan wŷr sobr synhwyrol, yn hytrach na lliwiant yn bŷd i'r Cyflwr hwnnw o fywioliaeth.

Ond

Ond at hyn yſtyr fôd ſiccrwydd mawr i ti ac i bôb *Criſtion* gan ddarfod i Grîſt nid yn unic roi addewidion eglur y caem ni *ddigon* i'n cadw yn y bywyd hwn, ond hefyd [i'n gwneud ni yn hyderus] fe a gymmerth lawer o boen ac a ddangoſodd lawer o reſymmeu a alleint fôd yn ddigon o'u grym eu hun heb ſôn am awdurdod y Traethwr. *Mâb Duw* a ddyweid i ni, fôd ei Dâd ef yn gofalu troſom ni. Y gŵr a wyddei gynghorion ei Dâd, ai garedigrwydd ôll tu ac at ddynol ryw, a ddywedodd i ni felly. O faint, a ſiccred, ac angenrheitied yw'r gwirionedd hwnnw a brofodd Crîſt ei hun trwy reſymmeu! Y geirieu godidoc a'r gwerſi cyſſurus hynny ſydd megis *Scrifennadau cyſnewid* ar air pa rai y gallwn ddodi i lawr ein gofal, a chael bôd yn ſiccr o gynhaliaeth wrth ein rhaid yw y rhain a gynhwyſir yn y chweched bennod o Efengyl S. *Matthew* yn dechreu yn y bummed adnod ar hugain hyd y diwedd, [*dymunaſ arnat gymmeryd dy Feibl a throi attynt cyn myned dim ymlaen.*] Yr un rheſymmeu a adroddir gan S. *Luc.* 12. 22. hyd wers. 31. a'r un ffunyd y cymmellir ein dyledſwydd ac a cadarnheir ein hyder gan ddiſcybilon ein Harglwydd bendigedic mewn amryw fannau o'i Scrythyr lân. *Phil.* 4. 6. a thracheſn 1 *Tim.* 9. 17. a thracheſn *Heb.* 13. 5. [*Attolygaſ iti droi at y Scrythyra hyn ôll a'u darllen yn yſtyriol.*] A rhain ôll a grynhoi gan S. *Petr.* yn y wers hon *Bwriwch eich hôll ofal arn ef, canys y mae ef yn gofalu troſoch*, felly *Dafydd* yn 55. *Pſ. gw.* 23. Am ben hyn ni chwanegaſi ddim on yr hyn y mae ef yn ei nodi o'i Brawf ei hun *Mi ſum ieuainge, yr ydwyf yn hên etto ni welais y cyfiawn wedi ei adu, na'i hâd yn cardotta bara.* Bellach wed hyn ôll, mae *Hyder* diarſwyd ar Dduw am *gadwrae angenrheidiol* mor rheſymmol a'i fynd yn ddyle ſwydd arnat: a braidd yr wyt ti yn *Griſtion* os y dy ffydd mor wann a bôd yn amheus o Dduw

yn ofnus am *ddillad* ac *ymborth*; nid oes ynoti ddim o ardderchawgrwydd a Hyder *Cariad*.

Onid yw Duw yn darparu i'r Adar a'r Anifeiliaid i'r Pyscod? Ond yw Adar y tô yn hedeg o'u perth, ac yn cael bôb boreu fwyd lle na's rhoesent mono? Onid yw cywion y gigfrain yn llefain ar Dduw, ac ynte'n eu porthi? Ai rhesŵm ynteu i Feibion y Tŷ ofni rhag iw Tâd roi bwyd i'r cywion ac i'r gweision, iw ddefaid ac iw gŵn, ac na chaent *hwy* ddim? Ys rŵg iawn oedd y Tâd a wnai felly; neu ffol iawn oedd y mâb a dybiei felly am *Dâd dâ*. Eithr heb aw'r *rhesymmol leb* y *ffydd* a'r *obaith* hon, mae gennym *rawf* anfeidrol o honi. Beth mor ddiniweid yw'r Maban, mor ddiofal, ac mor ddiogel, ac etto beth sy mo eisieu? Buom fyw ar gôst Duw hôll ddyddieu'n einioes ac a gawsom ein bwyd megis ar godiad bŷs, hyd yn hyn ni phallodd ef erioed monom: nid oes ni ddim achos iw ammeu *ef* o hyn allan. Chwanega hyn roi o Dduw i ni ei Yspryd glân; efe a addwodd i ni'r Nêf, efe a roes i ni ei Fâb; ac oddi wrth ynny fe ddŷsc y *Scrythyr* i ni dynnu y rhesŵm yma, *a fodd gŷd âg êf na ddyry efe i ni bôb peth arall.*

Siars llawer o Blant.

Mae i ni *iawn* i gael darparu trosom fel yr ŷm ni'n *readuriaid* i Dduw, ac iawn arall fel yr ydym yn *lant* iddo, un arall am ddarfod i Dduw *addo* hynny; am hynny caingc o ffolineb anferthol, ac o *angrheiniaeth* yw ymdrallodi ac ymofalu o achos bôd gennym *lawer* o *blant*. Mae pôb Plentyn sy gennym yn *anyrch* newydd, ac yn hawl newydd i ofal a Rhagluniaeth Dduw, fel mai cyfoeth mawr yw llawer o lant; O blegid pa le y mae y rhagor yn hyn? Mae n *Rŷs* ddêg gwêdd o ychain, a chan *Wenllian* dlawd ig o blant, mae ganddo *ef* ddigon o dîr, o *wraith*, o luniaeth iw hôll weision; ganddi hithau fendithion

dithion ac addewidion a Rhagluniaeth a gwirionedd Duw i gadw ei hôll blant. Mae ei weision a'i geffylau yn treulio ei hôll gnwd *ef*, a'i phlant hitheu a ddigonir ar ei hychydic *hi*. Maent *hwy* yn hel i mewn ac yn ei fwytta; mae *hitheu*'n bwytta, eithr hwynt hwy hêfyd sy'n dwyn i mewn iddi o ystor-dai'r *Nef* ac o *Ydlannoedd* Duw. Canys eiddo Duw yw dy *blant* yn fwy nac eiddot ti.

Angenrheidieu tôst a durfing.

Ond mae rhai a demtir yn drwm; ac yn y fâth gyfeiaeth na aller mo'u diwallu heb ryfeddod; a pheth a wnâ y rheiny? Nid hwyrach mai gwaith eu *balchder* a'u *hoferedd* yw'r angenrhaid sy arnynt, ac nad gwaith *Duw* mono. ac os felly, rhaid iddynt eu hiachau eu hunain trwy ddarostwng ac attal eu *chwantau*; etto os angenrhaid diniweid yw, er na b'asei raid mono bydd Duw arfer o ddiwallu'r cyfryw; ac heb law e fôd êf wrth ein gweddiau ni, yn rhoi i ni fwy e betheu bydol nac a haeddem ni, mae *efe* lawer gwaith yn rhoi i ni fwy nac a weddiom am dano: ac er nad yw hyn beth iw *Ffyddio* etto mae'n abl sail i *obaith* ddaiarol. Ond os matter o *ddîr* angenrhaid sy arnat, na ddryg-nada'n rhochus eisieu i Dduw wneud gwrthieu; Canys rhoes Duw trwy ryfeddod fwyd iw bobl yn yr anialwch, yr hyn ni addawse ef yn bendant mewn un Cyfammod: ac os pall pôb moddion eraill dîr yw y gwnâ Duw ryfeddod cy y torro mo'i air, Efe a all wneud gwrthiau ond torr ei air ni's gall. Etto cofia ditheu nad yw ein rhan ni o betheu bydol ddim ond *ymborth* a *dillad*: N addawodd Duw i ni mor *Cerbydau* a *meirch* na *th gwychion* na *rhyfau* na *fidaneu* na *phêr-aroglau*: ni ad awodd e' chwaith borthi'n anghenion ni yn y ffyrd a osodom ni, eithr yn ei ddewis ffyrdd ei hun. Hel Duw di i dalu dy ddylêd (os wyt yn deisyf arn

neu ſe a'i tâl troſoti, hynny yw, ſe a gymmer dy wyllys di yn lle cyflawniad dy ddyledſwydd, ac a dâl i'th *Holwyr* di mewn bendithion, neu ryw ffordd ddirgel o'i Ragluniaeth. Ni hwyrach roi o hono'r ŷd a'th borthiff di ynghadw yn 'ſcubor dy Gymmydog, neu mai â gwlân *hwnnw* y dillada eſe di. Cynnorthwyodd *Betr* i dalu ei drêth trwy byſcodyn, gwnaeth gigfran yn goges i *Elias* i arlwy lluniaeth iddo: A marchogodd ei *Fâb* ſanctaidd eſ mewn gorfoledd ar Aſſyn a oedd yn pori ym mhorfa *gŵr arall.* Ac felly os rhoes Duw i arall y berchennogaeth ac i titheu'r gwaſanaeth o honynt, ti pieu y rhann oreu o'r ddwy: Mae'r Gŵr *luſengar* yn gwaſanaethu Duw ac yn gwaſanethu d'angenhion ditheu, ac mae'r ddau yn cydſeinio i ddarparu i ti, a Duw yn bendithio'r ddwyran. Ond os darfu iddo ddwyn y *crochaneu cîg* oddi arnat, ſe all hefyd ddwyn dy *chwant* ti, ac a roes i ti *allu* a *gorchymyn* iw goſpi eſ: ac os cwttogodd dy *gynnyrch* ſe ddichon wneud dy *raid* yn llai hefyd; ac onid yw e'n rhoi i ti ond ychydig ſe a wna i'r ychydig hwnnw gyrraedd *ymhell*: neu os Sîr galed y mae e'n ei drefnu it, eſe a fendithia hwnnw er icchyd i ti: ac ondodid ſe a yſcafnnhâ dy *dlodi* trwy roi i ti *Amynedd* a'r grâs o *Fodlonrhwydd.* Canys mae *Grâs* Duw yn ſiccrwydd i ti am dy *luniaeth*, ac hefyd yn porthi dy enaid yn niffyg lluniaeth. Mae *Tlodi* ynteu iw ddewis o flaen *cyfoeth* ac mewn rhyw yſtyr yn ddymunol, ond ym mhôb yſtyr yn ddigon hawdd ei oddef.

Marwolaeth Plant, neu Geraint a Chyfeillion.

Mae rhai hynod a godidoc eu bucheddau, ac yn eu gwyniau yn dra diniweid, ac er hynny yn ddygn edifar ganddynt ymbell feddalwch a gwendid diddrwg: cyfryw ac oedd *Paulina* un o blant yſprydol S. *Heirom*: ac etto pan fai marw un o'i phlant, hi aî yn rhwym o'r fâth driſtwch ac a'i dygei hi i Fîn ei bêdd.

A

A pho meddalaf y gwnêl *Crefydd* ein calonnau hawſa
fyth gennym gymmeryd trymder attom, o bydd y
achos yn ddiniweid ac mewn rhyw yſtyr yn gyſſon
duwiolder a dyledus *ſerch*. Er meddyginiaeth i hyn yſty
fôd yn rhaid i'r hôll fŷd farw, ac am hynny ymgyth
ruddo pan ſo marw un y gwyddit yn hyſpys fôd y
rhaid iddo farw, hyn yw galaru am na aned dy blen
tyn neu dy gâr yn Angel, ac wedi i ti tros ennyd d
ddrygu dy hun â dygn driſtwch anfuddiol, ni hwyrach
y byddi marw dy hun, gan adel i eraill eu dewis a
galaru am danat titheu ai peidio: ac yna y gwelir mor
ffôl oedd y triſtwch hwnnw na helpodd ddim arnat
i fyw, ac o'r diwedd a orphennodd dy lâdd dithe
Ond yn rhodd pa ryfeddod ſydd er dringo gwrei
chionen i fynu, a deſcyn o dywarchen i bwll? pa ry
fedd os llŷſc y pentewyn, neu os tawdd y Gwyren,
neu os bydd marw'r peth ſy farwol? Nid yw ddim
ond a wnâ dyn bôb dydd: canys bôb nôs mae Angeu
wedi cael meddiant o'r dwthwn hwnnw, ac ni chei
byw mŏr diwrnod hwnnw troſto byth ond hynny: a
phan ddêl y dydd diweddaf, nid oes weithian i ni un
diwrnod ychwaneg iw farw. A pheth yw cyſcu a
deffroi, ond marw a bywhau? Beth yw Gwanwyn a
Gauaf, ieuenctid a henaint, Boreu a Phrydnhawn ond
gwîr ddelw o *fywyd* ac *angeu*, ac yn wîr mewn am
ryw affaith yſtyriol yr un ar unrhyw beth ydynt.

Marwolaeth anhymmyg.

Ond nid marw yn unic yw'r lliw ſy gan rai i
ymgreuloni gan alar, ond marw o'r plentyn yn *ieuanc*,
cyn gwybod na dâ na drŵg, na'i law ddeheu ragor yr
aſſwy, ac felly fe gollodd ei hôll rann yn y bŷd hwn,
a pha ddaioni a gaiff e'n y bŷd neſaf ni's gwyddant
hwy. Os yn *ieuanc* y bu efe farw ni chollodd e' fawr,
o herwydd na adnabu ac na chynnwyſodd efe fawr
bleſerau nac fawr ofalon: ond efe a fu farw yn

ddiniweid

ddiniweid, cyn i drachwant a ffolineb ieuenctid anurddo a threisio tegwch ei *enaid ef*: Efe a aeth allan o'r *Bwyty* cyn troseddu trwy anghymmedrolder o fwyd na llifeiriant o ddiod; a chafas ef hynny o ffafr gan Dduw gael digarcharu a dadlwytho ei Enaid yn gynt, fel yr elei yn ebrwyddach i gymdeithas ysprydion anfarwol: a derbynir y *maban* i Baradwys cyn iddo wybod drŵg a dâ [canys yr *wybodaeth* honno a fwriodd allan ein cyndad ni *Adda*, a'r *anwybodaeth* hon a ddychwel y plentyn yno.] Ond o'th rann di dy hun meddwl am yr amser cyn geni dy blentyn, ac yr wyt ti etto fel yr oeddit i'r pryd hynny, ond yn unic ddarfod geni i ti blentyn, ac os drŵg oedd gennit ei eni diolch a ddylit am iddo farw; eithr os dâ, gwell oedd i ti gael y fendith tros dro, na bôd erioed hebddi: ac etto pedfasei ef erioed heb ei eni, ni fuasei byth ddim o'r galar yma. Na fydd ditheu ddim diccach wrth Dduw am roi i ti fendith *tros ennyd* nac a fasit pe na's rhoesei ti *erioed* mo'ni; eithr bwrw di'r fendith gyfan[illegible] honno yn ynnill ac nid yn golled; ac os felly [illegible] thro mo'ni hi yn ofid ac yn dristwch. Eithr od oes i ni achos mawr i gwynfan gan flinderau a drygau ein bywyd, ond bechan yr achos i ni ymofidio eithed gael o'n hanwyl ddyn rann helaethach o honynt a etto nid bechan y fantais a gaiff ein plant wrth *farw yn ieuainc*. Canys siccrheir a diogelir eu rhann *hwy* o Happusrwydd tragywyddol, wrth eu cippio oddi ar ffordd *pechod* peryglus, a'u trosglwyddo iw Cyfloedd ychain o *Ddewyddwch* lle nis gallant wylofain mwy: Dyweded y Rhieni i mi ai nid digon ganddynt y drygau a oddefodd eu rhai bâch? os digon, pam ynteu y mae cyffro arnynt ddarfod eu hachub hwy rhag yr amlach a'r toftach flinderau hynny, y rhai yn mhen encyd o flynyddoedd ydynt ddigwy[illegible] trosi yr hôll *resym* a *chrefydd* a weithiodd *Dyf[illegible] Nefoedd* a *Gràs* Duw ynom ni, i'n cynnor[illegible]

A pho meddalaf y gwnêl *Crefydd* ein calonnau hawsa
fyth gennym gymmeryd trymder attom, o bydd y
achos yn ddiniweid ac mewn rhyw yſtyr yn gyſſon
duwiolder a dyledus *ſerch*. Er meddyginiaeth i hyn yſty
fôd yn rhaid i'r hôll fŷd farw, ac am hynny ymgyth-
ruddo pan fo marw un y gwyddit yn hyſpys fôd y
rhaid iddo farw, hyn yw galaru am na aned dy blen-
tyn neu dy gâr yn Angel, ac wedi i ti tros ennyd dy
ddrygu dy hun â dygn driſtwch anfuddiol, ni hwyrach
y byddi marw dy hun, gan adel i eraill eu dewis ai
galaru am danat titheu ai peidio: ac yna y gwelir mor
ffôl oedd y triſtwch hwnnw na helpodd ddim arnat
i fyw, ac o'r diwedd a orphennodd dy lâdd dithau.
Ond yn rhodd pa ryfeddod ſydd er dringo gwrei-
chionen i fynu, a deſcyn o dywarchen i bwll? pa ry-
fedd os llŷſc y pentewyn, neu os tawdd y Gwvren,
neu os bydd marw'r peth ſy farwol? Nid yw ddim
ond a wnâ dyn bôb dydd: canys bôb nôs mae Angeu
wedi cael meddiant o'r dwthwn hwnnw, ac ni cheir
byw mŏr diwrnod hwnnw troſto byth ond hynny: a
phan ddêl y dydd diweddaf, nid oes weithian i ni un
diwrnod ychwaneg iw farw. A pheth vw cyſcu a
deffroi, ond marw a bywhau? Beth yw Gwanwyn a
Gauaf, ieuenctid a henaint, Boreu a Phrydnhawn ond
gwîr ddelw o *fywyd* ac *angeu*, ac yn wîr mewn am-
ryw affaith yſtyriol yr un ar unrhyw beth ydynt.

Marwolaeth anhymmyg.

Ond nid marw yn unic yw'r lliw ſy gan rai i
ymgreuloni gan alar, ond marw o'r plentyn yn *ieuanc*,
cyn gwybod na dâ na drŵg, na'i law ddeheu ragor yr
aſſwy, ac felly fe gollodd ei hôll rann yn y bŷd hwn,
a pha ddaioni a gaiff e'n y bŷd neſaf ni's gwyddant
hwy. Os yn *ieuanc* y bu efe farw ni chollodd e' fawr,
o herwydd na adnabu ac na chynnwyſodd efe fawr
bleſerau nac fawr ofalon: ond efe a fu farw yn
ddiniweid

ddiniweid, cyn i drachwant a ffolineb ieuenctid anurddo a threisio tegwch ei *enaid ef*: Efe a aeth allan o'r *Bwyty* cyn troseddu trwy anghymmedrolder o fwyd na llifeiriant o ddiod; a chafas ef hynny o ffafr gan Dduw gael digarcharu a dadlwytho ei Enaid yn gynt, fel yr elei yn ebrwyddach i gymdeithas ysprydion anfarwol: a derbynir y *maban* i Baradwys cyn iddo wybod drŵg a dâ [canys yr *wybodaeth* honno a fwriodd allan ein cyndad ni *Adda*, a'r *anwybodaeth* hon a ddychwel y plentyn yno.] Ond o'th rann di dy hun meddwl am yr amser cyn geni dy blentyn, ac yr wyt ti etto fel yr oeddit i'r pryd hynny, ond yn unic ddarfod geni i ti blentyn, ac os drŵg oedd gennit ei eni diolch a ddylit am iddo farw; eithr os dâ, gwell oedd i ti gael y fendith tros dro, na bôd erioed hebddi: ac etto pedfasei ef erioed heb ei eni, ni fuasei byth ddim o'r galar yma. Na fydd ditheu ddim diccach wrth Dduw am roi i ti fendith *tros ennyd* nac a fasit pe na's rhoesei i ti *erioed* mo'ni; eithr bwrw di'r fendith gyfamserol honno yn ynnill ac nid yn golled; ac os felly na thro mo'ni hi yn ofid ac yn dristwch. Eithr od oes i ni achos mawr i gwynfan gan flinderau a drygau ein bywyd, ond bechan yr achos i ni ymofidio eithr tael o'n hanwyl ddyn rann helaethach o honynt? etto nid bechan y fantais a gaiff ein plant wrth *farw yn ieuainc*. Canys siccrheir a diogelir eu rhann *hwy* o Happusrwydd tragywyddol, wrth eu cippio oddi ar ffordd *pechod* peryglus, a'u trosglwyddo iw Cefloedd ychain o *Ddewyddwch* lle nis gallant wylofain mwy. Dyweded y Rhieni i mi ai nid digon ganddynt y drygau a oddefodd eu rhai bâch? os digon, pam ynteu y mae cyffro arnynt ddarfod eu hachub hwy thag yr amlach a'r tostach flinderau hynny, y rhai ym mhen encyd o flynyddoedd ydynt ddigon er tost yr hôll *reswm* a *chrefydd* a weithiodd *Dyscedidaeth Naturiaeth* a *Grâs* Duw ynoin ni, i'n cynnorthwyo a

Wyt

yn erbyn y cyfryw ymdrechiadau. Ac am wŷr a gwragedd mae lle i ammeu, ond am *blant bâch* ni's gallwn mor ammeu nad yw eu Marwolaeth *hwy* yn dwyn iddynt lawer mwy o ddaioni nac y mae e'n ei ddwyn oddi arnynt yn bywyd hwn.

Marwolaeth mewn an-amser.

Mae eraill na phrisiant er marw eu plant yn *fabanod*: ond wedi'r elont tros eu Mebyd neu eu hieuenctid, wedi mynd mewn dŷsc a chymmeriad, ac wedi ennill eu bywioliaeth, pan fo hi'n bryd weithian i'r *Rhieni* fedi ŷ comffordd o'u hôll boen a'u gofal, yna torr-calon oedd eu colli hwy. Mae hyn yn wir i lawer, ond nid cariad i'r *marw*, eithr iddynt eu *hunain* yw hyn; canys gweled y maent ddarfod siommi eu gobaith a'u tŷb wenieithus ei hunain: ac os o serch ar y marw yr ydychwi yn galaru cofiwch, gan eich bôd yn gobeithio ei fyned ef at Dduw, i orphwystra, mai arwydd ddrŵg o gariad yw triftâu am ei Happusrwydd ef. Canys nid y bywyd hwyaf yw'r goreu: ac wedi y descynnom i'r bêdd ni holir pa hŷd ond pa gyn ddaed y buom fyw: ac etto nid yw eu byrroes hwy ddim drŵg ond mewn tŷb; o blegit pettei *ugiain* yn eithaf pennod ein hoedran ni, yna byddem fodlon iddynt farw yn *un ar bymtheg* oed, neu'n *ddeunaw*; ac etto mae deunaw mlwydd yr awron cyhyd ac a fyddei deunaw mlwydd y pryd hynny. Yr ŷm ninneu yn fodlon ac nis galwn yn farwolaeth anamserol o bydd un marw yn *ddêg a thriugiain*, ac etto mae'r oedran yma yn fyrr o'r hên bennodau cyn a chwedi'r *Diluw* o gymmaint ac y mae oed y llanc yr wyt ti yn awr yn ei alaru yn fyrr o eithaf yr hemint *bresennol*. Bwriada ditheu fôd Deddf bennodol o derfyn byrrach wedi ei siccrhau gan Dduw ar y dyn hwn; ac wrth hynny ti elli oddef marwolaeth an[illegible] rydlawn yr ieuanc cystal a marwolaeth yr hynaf

o ddynion, canys maent hwytheu yn marw yn anrhydlon ac yn anamserol wrth yr *hiroes* a fu gynt tros lawer o genhedlaethau. A pham y mae'n ddrwg gennit iddo fedru *Celfyddydau* a *gwybodaeth*, neu ai brwnt gennit na chawsei amser iw harferu hwy? Achos o lawenydd oedd y cyntaf am fôd y *ddysc* yn odiaeth i ryw ddibennion. A'r ail nis gall fôd yn achos o driſtwch, am nad rhaid iddo wrth ddim *celfyddyd* yn y Stât y mae e'n awr ynddo, gan ei fôd ef yn cael ei gadw megis Angel ar *gynhaliaeth Tragywyddoldeb*.

Ond etto ſynier hyn, o'r amſer yr ymddyger dyn yn y grôth ymlaen hyd Tragywyddoldeb na phaid ef byth a *bôd*: a bid hên bid ieuanc y bô marw, mae ganddo fyth *Enaid anfarwol*, ac nis gwnaeth ond dioſc ei gorph tros ennyd yr hwn oedd llenn ei *flinder* ai *ofid* ef a charchar y *doluriau* a'r *clefydon*. Ond mae ef yr awron yn byw mewn môdd ardderchoccach nac y gallei byth yma; ac y mae gwell rheſwm i'r *dyn bâch* leſain am iddo ddyfod o'r grôth *i'r bŷd hwn*, nac ſydd i ŵr wylofain am fyned *o'r bŷd hwn* i Fŷd arall.

Angeu diſyſed neu ddurfing.

Mae eraill yn flin iawn ganddynt y *ſutt* a'r *môdd* y bu farw eu plentyn neu eu cyfaill. *Boddi* neu *dorri ei ben*, neu farw *o'r nodau*, ac dyma ffynnon newydd o alar. Ond nis gall undyn atteb pam y mae'n waeth i blentyn farw wrth foddi mewn *hanner awr* nac wrth ddioddef tair wythnos o *gleſyd*. Ac os dy Gyfaill a gollodd ei ben, etto os ni chollodd ei *waſtadrwydd calon* ai *Grefydd* ſe gâdd farw trwy fawr fantais.

Bôd yn ddi-blant.

Ond och ſe a'm gwnaeth hyn fi yn *ddi-etifedd*? Wele, gâd i hynny fôd, os wyti heb *etifedd* yr wyti heb *etifeddiaeth*. Oni bu feirw llawer o Frenhinoedd ac Ymerodron yn ddi-blant, a llawer Llîn frenhinol

hŵyr ddiddymmwyd. Gorfu ar *Auguſtus* Cæſar *fabwyſo* Mâb ei wraig i etifeddu hôll fowredd Ymerodraeth *Rufain.* Ac mae llawer o wŷr ſynhwyrol heb *priodi* erioed: ac ni ddarllennir yn unlle i un o'r Apoſtolion adel plant ar ei ôl: hefyd trwy *fabwyſiad* yn unic y mae dyfod i etifeddu *Teyrnas Crîſt*, ac nid trwy etifeddiaeth naturiol. nid yw marw yn ddi-etifedd ynteu ddrŵg mawr yn y bŷd, gan ddarfod i *Fâb* Duw ei hun farw yn *Forwyn.*

Plant drŵg, anhappus.

Wrth farw yn ddi-etifedd yr wyti'n rhŷdd oddi wrth y trymder toſtach o gael *ffŵl* neu *fochyn* neu *aſr* i reoli dy betheu ar dy ôl: ac etto mae i'r *Cyſlwr yma* gyſſur iw gael am fôd hyn yn digwydd i'r gwŷr goreu a duwiolaf. Ond meibion *Jacob* ſy'r awron yn *grwydriaid* diyſtyraf o bobl yr hôll fŷd? Nid oedd Mâb *Solomon* ond dyn meddaledd ffôl; a Mâb *Hezekiah* yn ddiffeithwr; A'r hôll *ynfydion* a *gwylltion* bobl, yr hôll *Ladron* a'r *Yſpeilwyr* yr hôll *gaethweiſion* a *thrueiniaid* yr Hôll fŷd, ond Meibion a Merched *Noah* ydynt ôll? A ffôl i ni ddiſgwil braint rhag y rhann honno o driſtwch a roes Duw ar *Noah* ac ar *Adda* ar *Abraham* ar *Iſaac* ac ar *Jacob.* Mi archaf i Dduw drefnu i ni rann *Abraham.* Eithr os digwydd i ni beth a fô gwaeth digon i ni ei ddioddef yn llonydd.

Ein Marwolaeth ein hunain.

A pheth pettit ti farw dy hun? ti wyddoſt ŷ gorfydd i ti hynny. Yn unic ymgweiria di at *Angeu* trwy baratoad *Buchedd ſanctaidd*, ac yna *Marwolaeth* yw'r daioni mwyaf ar a ddigwyddodd i ti erioed: ac oni's gwnei, nid oes i ti ddim cyſſur iw gael. Eithr o darfu i ti waſanaethu Duw mewn buchedd ddâ gyrr allan y *merched* a'r *marwnadwyr*, a dywed wrthynt fôd wylo gormod mor anghymmedrol ac yw

chwerthin

hwerthin gormod: ac yna ar dy ben dy hun neu â hymdeithion *cymmeſur* gŷd â thi bydd farw môdd y ylit, nid fel *Cadno* wedi ei ddal mewn magl. O ble-d os ofni di *Angeu* ni byddi ronyn nês iw ochel, thr ti a'i gwnei e'n doſtach o lawer. Peth angen-heidiol a naturiol yw *marw* ac fe all fôd yn anrhyd-ddus, ond marw yn *anŵrol*, yn *wael* ac yn *bechadurus*, yna'r unic beth a ddichon wneuthur dyn yn druenus. lid caeth ond a fo'n ofni *poen* neu yn ofni *Angeu*. A wnnw nid oes dim a all ei gadw yn ei ddyledſwydd nd *Damwain* ac *Amſeroedd heddychlon*, ac mae ef yn hwymedic i *betheu oddi allan* am ei happuſrwydd, ac rth hynny ni bydd mono yn iawn ddim hwy nac a ynno ei *Elyn*, neu *Orthrechwr*, neu *Leidr*, neu ni wyrach *Gî* neu *Darw* hwyliog.

Gweddiau am yr amryw Raſau a Rhannau Sobrwydd Criſtianogol.

Gweddi yn erbyn Cnawdolrwydd.

O Dragywyddol Dâd yr hwn wyt yn y Nêf yn eiſtedd yn niſcleirdeb dy Hanfodol Ogoniant th Dduwiol Berffeithrwydd, llanw fy enaid i â'r ſfryw ddwys deimlad o odidowgrwydd petheu *yſ-ydol* a *neſol*, fel y diddyfner fy enaid oddi wrth *ddi-rrwch bydol*, a thwyll-hudoliaeth pechod, ac y gallwyf wy ymgaledu yn ſynhwyrol mewn rheolaeth ſanct-dd, a chwantau llywodraethus, a thrwy lawn-fryd lon rŷdd, gadw *ſy ymwareddiad yn y Nef*, ac mewn *ſol* orchwylion; a chan fôd o'r un *wllys* megis yr yf o'r un *gyfiwr* a *Phererin* ac Alltud yma, y ceiſiwyf yr ymegniwyf am *Ddinas barhaus*, ac y caffwyf o'r wedd fy nghynnwys i mewn i breſwylio'n dragy-ydd yn y *Gaerſalem newydd*, yr hon yw ein Mam ni l, trwy *Jeſu Grîſt* ein Harglwydd. *Amen.*

Am Gymmedrolder.

DUw Hollalluoc, raſuſol Dâd dynion ac angylion, yr hwn wyt yn egor dy law ac yn diwallu pôb peth â digonolrhwydd, ac a ddarperaiſt i'th wâs ddigon er porthi ſy hôll angenrheidieu; dŷſc i mi arferu dy greaduriaid yn ſobr ac yn gymmedrol, fel na roddwyf trwy ymlwytho â *bwyd* neu â *diod* fantais i brofedigaetheu ſy ngelyn i'm trechu, na gwneud fy yſpryd yn anyſtwyth at ei ddyledſwydd, na'm corph yn afiachus, na'm gwynieu'n gnawdol ac yn halogedig. O na atto ſy Nuw i'th fendithion a'th roddion di fynd i borthi *pechod* neu *aſiechyd*, eithr iechyd yn hytrach a ſancteiddrwydd; a diolchgarwch; fel y bo i mi yn nerth dy arlwyaeth di yn ſyriol, yn ſywiog, ac yn ddieſceulus dy waſanaethu di; a bwytta yn deilwng ar dy Fwrdd *yma*, fel i'm cyfrifer trwy dy râs yn deilwng i ddyfod i'th *Fwrdd* Neſol at dragywyddol ſwpper yr Oen, i ganu *Allelujah* i Dduw'r Tâd, y Mab a'r Yſpryd glân yn oes oeſoedd. *Amen.*

Am Ddiweirdeb, iw harferu yn enwedic gan rai heb priodi.

HOllalluoc Dduw, ſanctaidd Dâd tragywyddol yr hwn wyt o olwg bûr ac ni elli edrych ar *aflendid*, deſcynned dy Yſpryd *glân* graſuſol ar dy wâs, a cherydded yſpryd y *godineb* ar aflendid, a bwried ef allan; fel y bô Nghorph yn *Deml* ſanctaidd a'm Henaid yn *Gyſſegr* i groeſawu Tywyſog y *Purdeb* ſanctaidd a thragywyddol *Yſpryd Duw*. O na ddi wyned dim *meddylian* ammur mo'm Henaid a ſanc eiddiodd Duw; Na haloged *geirieu* aflan mo'm Taſo a oſoded yn *Organ* i ddadſeinio ei fawl ef, nac un *weithred* halogedig anniwair rwygo llenn ſy Nheml bu wiw gan yr *Jeſu* ſanctaidd ei dewis yn breſwylfa

iddo

ddo'i Hunan; eithr ſelia di rhag pôb gwrthddrych o wagedd, fy hôll ſynhwyreu i, dôd i *Greſydd* gyflawn feddiant arnynt ôll iw cadarnhau â *challineb*, a *gwiladwriaeth* ac â *marwhâd*; fel gan feddiannu fy leſtr mewn ſanctteiddrwydd, y gallwyf ei ollwng ef i lawr mewn Gobaith ſanctteiddlan, a'i gael drachefn mewn Adgyfodiad llawen, trwy *Jeſu Grîſt* ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi am Gariad Duw iw harſeru gan Wyryfon *a* Gweddwon *a ſo'n proffeſu neu'n llawn ſwriadu aros ſelly, ac a all y neb arall a ſynno ei harſeru.*

O Sanctaidd a phûr-lanaf *Jeſu*, yr hwn a deilyngaiſt ddyweddîo pôb enaid ſanctaidd a'i briodi â thi dy hun mewn ſanctaidd undeb a moddion dirgeledig o gyfeillach a *chymmundeb*. O llanw fy enaid â *chreſydd*, ac â deiſyfiadau mor ſanctaidd ac yw meddyliau'r *Cherubiaid*, ac â *thraſerch* yn rhagori ar Gariad *merched*; fel y carwyf di cymmaint ac a carodd un creadur di erioed, ſef â'm hôll *Enaid* ac â'm hôll *Allu*oedd ac â hôll *raddau* pôb *Gallu*. Gwnâ i mi wadu pôb *cariadau* ond y rhai o ddyledſwydd a chariad perffaith, o ufudd-dod a Dyfoſiwn dâ; fel y rhedwyf bŷth ar dy ôl di Brenhin y Gwyryfon, yr hwn y mae Teyrnaſoedd cyfan mewn cariad â Thi, ac y bu feirw Brenhinesau er dy fwyn; ac y bwriodd Brenhinoedd eu *Teyrn-wiail* a'u *Coronau* yn llawen wrth dy draed. Eiddot Ti yw fy enaid i, O anwylaf *Jeſu*, Ti yw fy Arglwydd i, a Thi a ſchaiſt fy llygaid a'm calon rhag pôb *cariadau* dieithrach; Dôd yn *gynhyſcaeth* i mi *Burdeb* a *Goſtyngeiddrwydd*, *Gwylder* a *Dyfoſiwn*, *Cariad perffaith* ac *Ammynedd*, a dwg fi o'r diwedd i'r *Staſell Briodas* i gyfrannu o wynfyd, ac i orwedd ym mynwes y *Priodſab* i dragywyddol Oeſoedd, O Sanctaidd a phyſrydaf Iachawdr *Jeſu*. *Amen.*

Gweddi i rai Priodol *iw harferu troſtynt eu hunian, a thros eu gilydd.*

O Dragwyddol a graſuſol Dâd yr hwn a gyſſegraiſt lân Stât *Priodas* i fôd yn *ddirgelwch* i arwyddoc-cau undeb Crîſt a'i Eglwys, tywyſed dy yſpryd dai-onus fi trwy ddyledſwyddeu'r Stat hon, modd na elo'n bechod i mi, na'r *Rhydd-did* a ſanctеiddiaiſt T trwy'r *Ieſu* ſanctaidd yn achlyſur o gam-rŵyſc, trw fy ngwendid a'm cnawdolrwydd: a maddeu di bôb trô afreolus a rhŷ gnawdol a ddarfu mewn un grâd ddadmer fy nghalon o'i chaledrwydd Criſtianogol Pâr i mi ar bôb trô ac amgylchiad fôd yn llymm y fy nyledſwydd tu ac attati, yn ſerchoc ac yn anwy i'm Gwraig [*neu i'm Gŵr*] yn Flaenor ac yn ſiamp ddâ i'm Teulu, ac mewn pôb llonyddwch a ſobrwydd a Synhwyr a Heddwch ddal ar ôl y Sanctaidd Gym meiriaid a'th waſanaethaſant ti mewn duwiolder thyſtiolaeth ddâ. A bendithion y Duw Tragywyddol bendithion y llaw ddeheu a'r aſſwy a fô ar gorph a Enaid dy waſanaethydd [*fy ngwraig* [*neu fy ngŵr*] a a arhoſo arno ef [*neu hi*] hyd ddiwedd ſanctaidd dedwyddol fywyd; a chaniattâ i ni ein deuwed gael byw ynghŷd yn dragywydd ym mreichieu ſanctaidd a'r tragywyddol *Jeſu* ein Harglwydd a' Hiachawdwr. *Amen.*

Gweddi am y Grâs o Oſtyngeiddrwydd.

O Sanctaidd a graſuſaf Feiſtr ac Iachawdr *Jeſu*, y hwn trwy dy ſiampl a'th orchymmyn, trwy a fer dy hôll fywyd a thrwy amryw ymadroddion a rhwymaiſt ni i fôd yn *addfwyn* ac yn *oſtyngedig*, i ddy ware dy fwyneidd-dra digymmar a'th fawr oſtyn eiddrwydd di. Teilynga roi i mi'r Grâs, fel y rhodda y Gorchymmyn: nertha fi i wneuthur a orchym mynne

mynnech, ac yna gorchymmyn a fynnech. O marweiddia ynofi bôb meddylieu beilchion ac uchel-dŷb o honof fy hun: Bid i mi dalu adref i ti 'r cydnabod a'r ffrwytheu o'r bendithion a roddaiſt i mi, fel gan gyfaddef fy môd yn rhwymediccaf ddyledwr i ti am danynt, nad ymffroſtiwyf o'r petheu a dderbyniais, ac y gorfydd rhoi manwl gyfrif am danynt: a'r peth ſy'n wîr eiddo fi dŷſc i mi ddwys gywilyddio ac ymoſtwng o'i blegid, a hynny nid yw ddim ond *pechod* a *thrueni*, *gwendid* ac *aflendid*. Na flaenorwyfi ar fy mrodyr mewn dim, oddieithr yn ymegnîo i wneud parch iddynt hwy a Gogoniant i Titheu, Byth na cheiſiwyf glôd i mi fy hun, na bôd yn dda gennif ei chael gan arall, fel gan fy nibriſio fy hun y byddwyf cymmeradwy gennit Ti yn yr Anrhydedd â pha un y coroni di dy oſtyngedig a'th ddirmygedig weiſion, er mwyn *Ieſu* yn Nheyrnas y tragwyddol Ogoniant. *Amen.*

Gweithredoedd o Oſtyngeiddrwydd a Gwylder mewn ffordd ar Weddi a Myfyrdod.

I

Mi wn, Arglwydd, fôd fy *Yſpryd* i yn anwaſtad ac yn bigog, a'm *Corph* yn anifeiliaidd ac yn afiach. Yr wyf yn anwadal mewn amcanion dâ, ac yn ddi-anwadal mewn ffolineb, fy *llaſur* ſydd ofer ac anffrwythlawn; fy *Fortun* yn llawn tro a thrallod, yn anfynych yn hyfryd, ac bŷth yn amherffaith; fy *ſynhwyr* fy ffolineb, heb wybod cymmaint a rhanneu na gwynieu fy nghorph fy hun. A pheth wyfi, O Arglwydd, ger dy fron di ond dirfawr ddyledwr, heb gennif ddim i dalu?

II

Arglwydd nid wyfi ddim ac ni feddaf ddim o honof fy hunan llai wyfi na'r lleiaf o'th holl drugareddau.

III

Beth oeddwn i cyn fy ngeni? *Dim* oeddwn i at y cyntaf, ac wedi hynny, *Aflendid.* Beth oeddwn i yn

ſy Mebyd? *gwendid* a *ffolineb*. Beth yn ſy Ieuenctid? Ffolineb fyth a gwŷn, a gwylltineb a thrachwant. Beth trwy fy hôll enioes? pechadur mawr yn cael fy hudo am pendifadu. Arglwydd toſturia wrthif, canys dy ddaioni di yw na bawn i yn ſyrthio i ddychryndod a gwarth wrth feddwl am gywilyddus frynti fy marweddiad, a llygredigaeth fy Natur.

IV

Arglwydd Beth wyfi? ac Arglwydd beth wyt Titheu? *Beth yw dyn i Ti ymweled âg ef, a Mâb dyn pan wneit gyfrif o hono?*

V

Pa ſodd y cyfiawnheir dyn gŷd â Duw? neu pa ſodd y bydd yr hwn a aned o Wraig yn lân? Wele hyd yn oed y lleuad, ni lewyrcha hi, a'r ſer nid ydynt bûr yn ei olwg êf? Pa faint llai dyn yr hwn ſydd brŷf; a Mâb dyn yr hwn ſydd abwydyn? Job. 25. 4. &c.

Gweddi am Galon Fodlon *ac am y Grâs o* Gymmeſurwydd *ac* Amynedd.

HOllalluoc Dduw Tâd ac Arglwydd yr hôll greaduriaid, yr hwn a drefnaiſt bôb petheu a damweinieu fel y baent cymwyſaf i ogoneddu dy *Ddoethineb*, i waſanaethu dibennion dy *Gyfiawnder*, ac i fawrhau dy *Drugaredd*, dy ddirgel a'th anweledig ffyrdd o ddwyn dâ allan o ddrŵg; yn oſtyngeiddiaf mi attolygaf i Ti roi i mi ddoethineb oddiuchod; fel yr addolwyf di ac y mawr ryfeddwyf dy lwybrau a'th *olion* di y rhai ſy yn y dyfnder dirfawr ac anchwiladwy: dŷſc i mi ymoſtwng i'th Ragluniaeth ymhôb pêth, bôd yn fodlon i bôb digwyddiadau, yn fy *mherſon* ac yn fy *nghyflwr* hefyd, bôd yn gymmedrol yn fy *Hawddfyd* a darllen fy nyledſwydd yn nalenneu dy *Drugaredd*; ac mewn *Adfyd* ymrol'n amyneddgar ac yn llonydd, a chraffu trwy'r Cwmmwl, fel y byddwy'n diſgwil am ddiddanwch yr Arglwydd,

ac am Ddydd y Prynedigaeth; ac yn y cyfamser gwneud fy Nyledfwydd mewn diwydrwydd anneffygiol, ac mewn llawnfryd dianwadal; heb hoffi dim o wagedd a meddianneu'r byd, eithr yn codi fy Ngobaith i'r Nêf at wobrau *buchedd ſanctaidd*, gan gael fy nerthu â'r Yſpryd yn y dyn oddi mewn; trwy *Ieſu Grîſt* ein Harglwydd. *Amen.*

PENN. III.

AM GYFIAWNDER CRISTIANOGOL.

Cyfiawnder Criſtianogol a orch'mynnir, yn ei hôll rannau, yn y wers hon o'r Scrythyr lan [*Berth bynnac a 'wllyſioch chwi wneuthur o ddynion i chwi felly gwnewch chwithau iddynt hwy*:] Dyma reol a meſur *Cyfiawnder Cyd-gyfnewid*, neu'r Cyfiawnder hwnnw ſydd iw arferu wrth gŷd-faſnach y naill *ddâ* am y *llall*: megis yr wyf *fi* yn diwallu dy ddiffyg *di*, a *thi* fy niffyg *inneu*; fel y gwnâfi i ti gymmwynas i gael cymmwynas gennit titheu: ac o herwydd y gall pôb dyn gael camm gan y llall, am hynny fe gaiff dy *ddiogelwch* di ſefyll ar fy *niogelwch* inneu, fel onis gadewi di *fi* yn llonydd ac yn ddiogel, na bŷch ditheu diogel chwaith; (ond darfod i Dduw ac i'r Holl fyd trwy reſwm dâ ddwyn *y* môdd i'th goſpi *di* oddiarnafi a dynion *neilltuol*, a'i roi mewn llaw *gyffredin* ganolig a wnêl gyfiawnder yn ddi-duedd i ti ac i minneu) hefyd os naghei *di* dwrn dâ i mi *mi*, ni chei ditheu'r un wrth dy raid gennif inneu. Ac fel hyn rhoes Duw i ddynion *angenrheidieu*, fel y bai ar bawb ddiffyg, ac a roes amryw *allu* i amryw ddynion, môdd y gallai bôb dyn help at ddirwallu'r angenrheidieu cyffredin, a thrwy gŷd-uno a gyflownni pôb diffygion ymgyſſylltu â'u gilydd mewn *Cyfiawnder* fel yr ymgydiodd Rhanneu'r bŷd wrth Natur;

Trefnodd

Trefnodd hefyd bawb yn ddaroſtyngedig i *niweidiau*, a gwnaeth bôb peth ſalw yn ddigon crŷf er ein drygu ni rywffordd neu i gilydd; ac a roes i ni ôll lawn ddigon o *Hunan-gariad*, o chwant i'n hamddiffyn *ein hunian*, i fod megis yn Dorch i gŷd-glymmu hôll rannau *Cymdeithas* ac i'n hattal na wnelom *niweid* rhag i ninneu gael niweid *am dano*.

Y Rhann arall o *Gyfiawnder* a elwir Cyfiawnder *Rhagor-gyfrannol*, ac a orchymynnir yn y Rheol yma, *Telwch gan hynny i bawb ei dyledion, teyrnged i'r hwn y mae teyrnged yn ddyledus, toll i'r hwn y mae toll, ofn i'r hwn y mae ofn, parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus. Na fyddwch yn nlêd neb o ddim ond o garu eu gilydd.*

Gwahenir y Cyfiawnder *yma* oddi wrth y *cyntaf* am nad trwy ryw *ammod* neu *farchnad* bendant y mae *hwn* yn ein rhwymo ni, eithr trwy ryw *Orchymmyn Duw* neu un o'n *Goruchafiaid*, trwy rym *natur* neu *râs*, ſerch neu Grefydd, trwy ſwydd neu trwy ymddiried, yn ôl y gorchymmyn hwnnw [*Pôb un megis ac a derbyniodd rôdd, cyfrennwch â'i gilydd fel daionus orchwylwyr amryw râs Duw*] Ac megis y mae y Rhann *arall* o Gyfiawnder yn *cyſtadlu* pawb yn *gyd-waſtad* a'u gilydd yn eu *cyd-faſnach* neilltuol: mae y Rhann *hon* yn bwriadu *rhagoriaeth* rhwng dynion a'u gilydd, ac heb ddim margeinion neilltuol, ond y fâth gyfrannogaeth angenrheidiol ac a drefno Cyfraith Dduw neu ddyn.

Crynhoaf finneu berthynaſeu gwahanredol y ddwy-rann *hyn* o *Gyfiawnder* tan y pedwar Penn yma; 1. *Ufudd-dod.* 2. *Darbodaeth.* 3. *Cyd-faſnach.* 4. *Iawn.*

DOSP. I.

Am Ufudd-dod i'n Uchafiaid.

EIn *Uchafiaid* a oſoded arnom ni naill ym matterion y *Bŷd*, neu ym matterion yr *Enaid*, ac wrth hynny

hynny gelwir hwy Llywodraethwyr *Gwledig* neu *Eglwyſig*. Ein dyledſwydd tu ac at ein *Uchafiaid Bydol* neu *Wledig*, a bernir fel hyn: [*Rhoddwch gan hynny'r eiddo Cæſar i Cæſar*] ac [*Ymddaroſtynged pôb enaid i'r Awdurdodau goruchel. Canys nid oes Awdurdod ond oddi wrth Dduw, a'r Awdurdodau ſydd gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hynny pwy bynnac ſy'n ymoſod yn erbyn yr Awdurdod, ſydd yn gwrthwynebu Ordinâd Duw: a'r rhai a wrthwynebant a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain.*] a [*Dŵg ar gôf iddynt fôd yn ddaroſtyngedig i'r Twyſogaethau a'r Awdurdodau*] ac [*Ymddaroſtyngwch o blegit hyn i bôb dynol ordinhâd, o herwydd yr Arglwydd: pa un bynnac ai i'r Brenhin megis Goruchaf, ai i'r Llywiawdwyr, megis trwyddo ef wedi eu danſon, er dial ar y drŵg weithredwyr. a mwl i'r gweithredwyr dâ.*]

Am *Uchafiaid Yſprydol* neu Eglwyſig gorch'mynnir i ni fel hyn: [*Ufuddhewch i'ch Blaenoriaid ac ymddaroſtyngwch, o blegit y maent hwy yn gwilio tros eich eneidiau chwi, megis rhai ſy raid iddynt roi cyfrif.*] a [*'r cyfryw rai gwnewch gyfrif o honynt*] ac [*i'r diben yma yſcrifennais attoch fel y cawn braiſ o honoch a wdychwi yn ufudd ym mhôb peth*, ebr S. *Paul* wrth yr Eglwys yn *Corinth*. Gelli gymmwyſo'r Ddyledſwydd hon at dy *Fuchedd* wrth y Rheolau ſy'n canlyn.

Gweithredoedd a Dyledſwyddau o Ufudd-dod i'n Uchafiaid.

Yn 1. Rhaid i ti ufuddhau pôb Cyfreithieu a oſodo'r *Brenhin* neu Bennaeth y Deyrnas; pôb Cyfreithieu meddaf ond a fo gwrthwyneb i Gyfraith *Dduw*.

Yn 2. Mewn ufudd-dod i Gyfreithieu dynol cadw *llythyren* y Gyfraith hyd y gallech heb wneud camm â'r *yſpryd* neu reſwm y gyfraith. Ond lle bô'r *llythyren* yn croeſi'r *yſpryd*, yno cadw *gariad* y Gyfraith yn hytrach na'i *thoſter*, a'r *yſpryd* yn hytrach na'r *llythyren*.

Yn 3.

Yn 3. Cyhyd ac a bô'r Gyfraith *mewn grym* mae dy ufudddod titheu yn ddyledus; a'r ſawl a godo un *Arfer* groes *iddi*, mae e'n pechu; Ond os torri'r Gyfraith pan ſo'r gwrthwyneb Arfer wedi hên godi a'i ſefydlu, 'r wyt ti'n eſcuſodol: Canys bwrîr erbyn hynny fôd yr *Awdurdod* ei hun yn cyd-ſeinio, wrth adel i'r anufudd-dod dyfu yn arfer.

Yn 4. Rhaid i'th *ufudd-dod* i Gyfreithieu dynol fôd o rann *cydwybod*, hynny yw, o rann bôd *Trefn* a *Llês cyffredin* a *Chariad* yn ſefyll ar yr ufudd-dod hwnnw, ac o blegit bôd cyfraith Dduw yn ei orchymyn i ni: er bôd y *pêth* yn ddi-ddrŵg o'r blaen cyn gwneud y *gyfraith* iw wahardd ef, etto nid di-ddrŵg weithian mono: rhaid i ti wneud cydwybod o ufuddhau [yn neſaf ar ôl Cyfreithieu Duw] i gyfreithieu dy *uchafiaid*. A pho *cyffredinaf* neu *uchaf* a fo'r *Swyddog* cyntaf ôll mewn Trefn Ufudd-dod y rhaid gwrando arno.

Yn 5. Ymoſtwng i *gôſp* a barnedigaeth y Gyfraith, ac na chais droi'r *farn* yn ôl, trwy ymoſod yn erbyn: ond gan *ymroi* neu *ffoi*, cais yn ddiſtaw fynd *heibio* iddi neu *trwyddi* fel y gallech, ac er bôd y Gyfraith weithieu yn cynnwys i ti *apelio* oddiwrth Frawdle ſs, etto rhaid i ti waſtatta a ſefyll wrth farn y *pennaf*. Ac os camm goleu'r wŷt yn ei gael cwyna wrth Dduw ar dy *gamm* nid ar y *dynion*; ac *efe a achub dy enaid oddi wrth Farnwyr anghyfiawn*.

Yn 6. Na feddwl ddarfod i ti gyflawni'r Gyfraith wrth *ddioddef ei chôſp hi*: Canys er bôd *ymroi yn llonydd* i'r Gyfraith yn rhann o *Ufudd-dod*, etto nid yw ond y fath rann ac ſy'n arwydd darfod eſceuluſo rhann *arall*. Er darfod i titheu ddioddef cyfiawnder y Gyfraith, etto am y pechodeu o *Anghrefydd* a *Rhwyſtr* ac *Anufudd-dod i Dduw* yr wyti yn gyfrifol ac yn rhwym i erlyn am *Edifeirwch* a *Maddeuant* iw golchi ymaith.

Yn 7. Na fydd rŷ bryſur yn ceiſio *cyhuddiad* i *eſceuluſo pêth o'r Gyfraith*, ac wedi cael y *cyhuddiad* na

arfer

arfer mono ddim hwy nac y parhao'r achos a barodd ei geiſio; canys nid yw *cynhwyſiad wrth raid* ond argoel o wendid naturiol, *ac heb raid* arwydd yw o yſpryd anllywodraethus ac heb farweiddio.

Yn 8. Tâl i'r *Brenhin* a'i *Swyddogion*, i'th *Rieni* a'th *Athrawon Yſprydol* y cyfryw barch ac ſy ddyledus yn ôl arfer y wlâd iddynt ôll, yn eu hamryw *raddau*; ſef i'r rhai *uchaf* dôd y parch *mwyaf* ac felly i'r lleill yn gyfattebol ac yn gyflawn.

Yn 9. Na chyfod bŷth dy law yn erbyn dy *Frenhin* na'th *Rieni* eithr cymmer bôb dirmyg ar eu llaw *hwy*, ac na chais ddim rhwymedi ond *ffoi* neu *ymroi* yn dduwiol ac yn amyneddgar i weddio.

Yn 10. *Na leſata ddrŵg am Lywodraethwr dy bobl*, na felldithia na'th Dâd na'th Fam, na ddifenwa mo'th *Fugeiliaid Yſprydol*, na ddatcuddia *noethni* na *gwendid* yr un o honynt, eithr arfer *Wylder* parchus a chrefyddol tu ac attynt, a chadw yn ddihalog eu hawdurdod *hwy* gan wneud cyfrif rhagor-freiniol ac anrhydeddus o honynt.

Yn 11. Tâl *drethi* a *theyrnged* i'th Frenhin yn ôl y Cyfreithieu, a *chadwraeth* i'th Rieni yn ôl eu hangenrheidieu, a *chynhaliaeth* parchus i'r Eglwyſwyr yn ôl teilyngdod y *Swydd*, ac arferion y wlâd.

Yn 12. Cofia bŷth nad rhann o *Gyfiawnder Gyda-ſaſnachol*, ond mai gweithred o *Gyfiawnder Rhagor-gyfrannol* yw ufudd-dod tu ac at ein *Uchafiaid*. Hynny yw, er bod yn dra dyledus ar Lywodraethwyr, Eglwyſwyr a Rhieni iawn reol a meithrin eu *Hiſafiaid*, etto nid dlêd o *Gyfiawnder* yw hyn arnynt, ond yn unic o *Greſydd* tu ac at Dduw ac o *Garedigrwydd* tu ac at eu *Hiſafiaid*. Pwrpas y rheſwm hwn at dy ddyledſwydd di yw hyn: Os palla'r Brenhin neu dy Rieni yn eu dyledſwydd *hwy*, ni waſanaetha i ti er hynny gilio dim oddi wrth dy ddyledſwydd *di*; canys yr wyt ti yn attebol iddynt hwy ac i Dduw hefyd,

gan

gan dy fôd yn gyfrifol i'th holl *Uchafiaid* ac felly maent *hwy* iw *Uchafiaid* hwytheu, maent *hwy* yn uwch na thi, a Duw yn uwch na hwytheu.

Cynghorion rhag Anufudd-dod, a Moddion i amlhâu a hawddgaru ufudd-dod.

Yn 1. Gwêl mai oddi wrth Dduw y mae pôb Awdurdod yn deſcyn, ac mae'n hôll *Uchafiaid* ni yn dwyn delw yr *Awdurdod Nefol* a ſeliodd Duw arnynt, megis ar *Eulyn* o glai, neu fel Aur yn gadel ei ôl ar ryw fettel amherffeithiach: gwilia ditheu anurddo delw Brenhin y Brenhinoedd na diyſtyru ei awdrdod ef pa ſe pynnac yr argrapher *hi. Y ſawl a'ch diyſtyro chwi a'm diyſtyra i.* Ac medd S. *Paul, Yr Awdurdodau ſydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio.*

Yn 2. Mae *Heddwch* a Rhydd-did glân oddi wrth bechod o ymroi i 'wllys a gorchymynnion rhai eraill: o blegid am y bŷch di ſiccr o'th ddyledſwydd tu ac at Dduw, mae eu gorchymmyn *hwy* ym mhôb peth arall yn dy warantu. Mae'n gnawd i mi chwennych y peth a wahardder i ni: Ac fel y mae gweithred ddiniweid os gwaherddir hi, yn mynd yn ddrŵg dim ond o rann darfod ei gwahardd; felly y mae gweithred ddi-ddrŵg ddi-ddâ os gorchmynnir hi a'i gwneud o ufudd-dod i'r gorchymmyn, yn mynd yn weithred ddâ a gobrwyawl dim ond o achos darfod ei gorchymmyn *hi.*

Yn 3. Trwy *ufudd-dod* y cyſſylltir dynion â'u gilydd mewn *Cymdeithas* a *Gwladwriaeth* rhagor gyrroedd o *Aniſeiliaid*, a heidieu o *wybed* y rhai a wnant a ddêl erddynt, ac am hynny lleddir a difethir hwythau heb na chyfraith na gwobr.

Yn 4. Trwy *Ufudd-dod* y cymmwyſir ni i dderbyn yr hôll gymmwynaſeu o Lywodraeth, y rhai a arwyddocca S. *Paul* yn y geirieu hyn [*Gweinidog Duw*

yw

yw eſe i ti er daioni.] a S. *Petr* yn y rhain [*Llyniawdwyr a ddanſonwyd trwyddo eſ er dial ar y drŵg weithredwyr ac er mawl i'r gweithredwyr dâ.*] A phwy bynnac a welodd, neu a deimlodd, neu a fedr fwrw drygau *Annrheſn* a *Therfyſc cyffredin*, neu erchylled yw pentwr o ſynn-feddylieu athriſt ammhennodol, ſe all wrth hynny ddirnad odidocced o beth yw *Treſn*, a gwerthfawrocced yw ffrwytheu *Llywodraeth*. Os dâ yw lechyd i'r Corph neu Heddwch i'r Enaid, cyſtal yw Llywodraeth i Gynnulleidfaoedd o Ddynion, o bôb Bendithion *bydol* pennaf ar lês y *Cyffredin yw hi.*

Yn 5. Ni chroſpodd Duw bechod erioed mor atcas ac *Anufudd-dod*: Ym mhlîth pôb rhyw blâau a choſpedigaethau, erioed ni chlybuwyd i'r ddaiar ymagoryd a llyncu nêb ond gwrth-ryfelwyr *anufudd.*

Yn 6. Mae *ufudd-dod* yn weithred well na'r *neilltuol* weithredoedd o *Ddduwioldeb*, a gwell y mae *hwnnw* yn gwaſanaethu Duw a ganlyno'i Frenhin mewn gwaſanaeth cyfreithlon, na'r *llall* a wrthodo'i orchymmyn eſ, tan eſcus mynd i weddio. Ond *gwrthryſelgarwch* a gyffelybir i'r pechod hwnnw ſy'n edrych annaturiolaf a damneliccaf o'r hôll anfad-ddrygau. *Gwrthryſelgarwch ſy megis pechod Dewiniaeth.*

Yn 7. Mae *Ufudd-dod* yn weithred *luoſawg* o Rinwedd yn cynnwys llawer o Raſau yn gŷd-blethiedig, ſef, *Goſtyngeiddrwydd*, *Marwhâd*, *Ymwadu â ni'n hunain*, *cariad ar Ddduw*, *a gofal tros y Cyffredin*, *Treſn a Chariad perffaith*, a *buddugoliaeth arnom ein hunain* a'n gwynieu afreoluſaf a gwrthnyſiccaf.

Yn 8. Yſprydion *ufuddgar* yw'r *Angylion*, maent *hwy* yn waſtadol yn gwneuthur 'wllys a gorchymmyn Duw; ac mae pôb *Gwîr ſynhwyrol* a *dâ* trwy'r Hollfŷd yn *ufudd* iw *Llywodraethwyr*, a thragywyddol Fâb Duw a gyfrifei *yn fwyd ac yn ddiod wneuthur ewyllys ei Dâd*, a thrwy'ei *Ufudd-dod* yr ennillodd e'r gogoniant mwyaf. Ni ddaeth nêb erioed i *Berffeithrwydd* ond

trwy

trwy *Ufudd-dod.* Oni ddewiſodd miloedd o Seinctieu y cyfryw fywioliaeth ac a rwyſtrei iddynt ddewis eu gorchwylion eu hun, na chanlyn eu h'wllys na'u bodlonrhwydd eu *hunain*, eithr bôd yn attebol i *eraill*, yn rhwym i ddiſcybliaeth, ac yn *ufudd* i orch'mynion, gan wybod mai dyna Brîf-ffordd y *Groes*, y ffordd a ddewiſodd Brenhin y *Dioddefaint* a'r *Goſtyngeiddrwydd*, ac felly yr aeth e'n Frenhin y *Gogoniant*.

Yn 9. Nid aeth nêb erioed i Uffern ar a ddilynodd *yn gyntaf* orch'mynion Duw, ac *yn neſaf* wllys ei oruchafiaid; eithr damniwyd miloedd dim ond am ddilyn eu h'wllys eu *hunain* a hyderu ar eu barn a dewis eu ffyrdd, a gwneuthur eu dychmygion eu *hunain*. Canys anfynych y mae'r hyn a ddechreuom o honom *ein hunain* yn ddi-ddrŵg yngolwg Duw.

Yn 10. Mae *Gwrthryfelgarwch* ac *Anufudd-dod* mor yſceler a gwrthwynebus i Yſprydion ſanctaidd na feiddiei Angel o *rådd is* wrthddywedyd mo Gythrael o *rådd uwch*; Y rheſwm tra dwyſaf hwn a neſaf o rwym at orchymmyn Duw a geir gan S. *Jud.* [*Yr un ffunyd heſyd y mae'r breuddwydwyr hyn yn halogi'r cnawd, yn diyſtyru Llywodraeth, ac yn cablu y rhai ſy mewn Awdurdod. Eithr Michael yr Archangel pan oedd ef wrth ymddadlu â Diawl yn ymreſymmu ynghylch Corph Moſes, ni feiddiodd ddwyn barn gabledd arno.*

Graddau o Ufudd-dod.

Yr rådd gyntaf yw Ufudd-dod *yn y weithred oddiallan*, ac dyna'r cwbl a ofyn *cyfraith ddyn* am nas gall orchymmyn dim i'r *galon* o herwydd na chyrraedd *dyn* farnu mo *honno*; ac nid trwy ddeiſyfiad dâ yn y galon ond trwy wîr weithredol gyflawniad y gwaſanaethir y Llês cyffredin: ac os ufuddhei yn erbyn dy 'wllys mae hynny yn ddigon gan *gyfraith ddyn*.

Yr ail yw *Ufudd-dod yr Ewyllys*, ac mae hwn heſyd yn

yn angenrheidiol yn ein *hufudd-dod* i gyfreithieu dynol, nid o rann bôd Dyn yn ei ofyn trosto'i hun ond o achos bôd *Duw* yn ei orchymmyn tu ac at *Ddyn*, ac er mas gall dyn etto fe fynn Duw gyfrif o hono. Canys rhaid i ni *ufuddhau megis i'r Arglwydd ac nid i Ddynion*, hynny yw, *yn ſiriol, yn barod* ac *yn egnîol o ddewis gwirfodd y galon.*

Y trydydd yw *Ufudd-dod y Dealltwriaeth* yn gyffredinol er nad ym mhôb odfa neilltuol, ſef yw hynny, rhaid i ti iawn gydnabod a deall godidowgrwydd *ufudd-dod*, er nad ŵyt ti yn rhwym i gredu am bôb Cyfraith a wneler ei bôd *hi* o'r fath ddoethaf.

Ond dyma i ti Reol ddigon amlwg a diogel yn hyn o beth; Holed dy *Ddealltwriaeth y ddynol ordinhâd* â yw *hi* yn gyttunol â'th ddyledſwydd tu ac at Dduw, ac os yw *hi* ufuddhâ *iddi* heb ymorol dim ymhellach.

DOSP. II.

Am Ragddarbodaeth, neu y Rhann honno o Gyfiawnder ſydd ddyledus ar Uchafiaid iw Hiſafiaid.

MEgis yr argraphodd Duw ei *Awdurdod* mewn amryw rannau, ac ar amryw Raddau o ddynion, ſef, Brenhinoedd, Rhieni, ac Athrawon yſprydol: felly fe a droſglwyddodd ac a ollyngodd ranneu o'i *ofal* a'i *ragluniaeth* arnynt hwy, fel y baent yn Bibellau i ddwyn i ni'r cyfryw fendithion a ffrwytheu *Llywodraeth* ac a wêl Duw fôd arnom eu heiſieu. O blegid gan fôd Duw yn rheoli'r Bŷd megis *Brenin*, ac yn rhagddarparu i ni megis *Tâd*, ac yn athrawiaethu ac yn cyfarwyddo'n hyſprydion ni megis *Penn yr Eglwys* a *Bugail* mawr ac *Eſcob* ein heneidiau, y ſawl a gâdd eu rhann o'r *uchel-ſwyddeu* hynny, mae arnynt rann o'r gofal a'r *darbodaeth heſyd.*

† *Dyledſwyddau* Brenhinoedd *a* Barnwyr *a* Llywodraethwyr Gwledig *ac* Eglwyſig, *heb law eu bôd yn*

faith ac yn ddyrus, maent hefyd yn ammherthynol fywaeth i'r Iaith Gymraec *am fôd y cyfryw rai yn hyddyfcach ac yn gynnefinach âg Ieithoedd* eraill.

Dlêd R*hieni* tu ac at eu *plant* a'u *hwyrion* a ddangofir ar fyrr gan S. *Paul Eph.* 6. 4.

Dlêd Rhieni tu ac at eu Plant.

Yn 1. Y *Tadau na yrrwch eich plant i ddigio*: hynny yw, byddwch dyner garedic, a thofturiol a mwynaidd *wrthynt*, yn cyd-ddwyn a'u gwendid *hwy*, ac yn eu hamryw *oedran* cyfrennwch iddynt amryw ymgeledd yn ôl eu diffygion a'u cymmwyfdra.

Yn 2. *Maethwch hwynt yn addyfc ac athrawiaeth yr Arglwydd*: hynny yw, achubwch a ficcrhewch *Ddwyioldeb* ynddynt, tymherwch eu blynyddoedd ieuangaf *hwynt* â Gwyddorion *crefydd* a *fynhwyr*, gwnewch *iddynt* hoffi Rhinwedd, ac ymgynnefino â *hi* cyn gwybod drŵg a dâ, fel y bô eu *dewis* hwythau yn haws ac yn ddiberycclach. O blegid tra bônt tan addyfc, hwy a fugnant y petheu a ddyfcer gyntaf iddynt ac a'u credant yn dra rhyfeddol. Darperwch iddynt *Athrawon fynhwyrol* a dyfcedig, *Cymdeithas* a *dyfc* ddâ, *Bedydd* prydlawn, *Catechifm* a *Chonffirmafiwn*. canys ynfydrwydd mawr yw gofalu am *gyfoeth* i'n plant, ac heb ofalu dim am y *plant* fydd i gael y cyfoeth: Hyn fy megis pe gofalai ddyn fwy am ei *efcid* nac am ei *droed*.

Yn 3. Rhaid i *Rieni arfer Dwyioldeb gartref*, hynny yw, rhaid iddynt *ofod* iw *plant* fiampl ddâ ac ymddygiad parchedic, a phôb arwyddion o ferch a charedigrwydd, tiriondeb ymwareddiad, mwyneidd-dra, mynych rybuddion, pôb tynerwch hynaws, a gofal gwiliadwrus, a ddylei R*hieni* ddangos tu ac at eu *plant* fel y cyfrifont eu *Rhieni* megis eu *Ceidwaid* a'u *Cyfeillion* eu Nodded a'u Hamddiffyn, eu Tryfor a'u Hyfforddiad.

Yma y perthyn *magu'r* plant yr hyn yw'r caredig

rwyd

rwydd cyntaf a naturiolaf a ddichon Mammeu ddangos iw rhai bâch: dyledſwydd na all dim ei heſcuſodi oddieithr methiantwch, clefyd, perygl, neu ryw gyffredin angenrhaid.

Yn 4. Rhaid i *Rieni* ddarparu tros eu heiddo, yn ôl eu *Stât* a'u *Dŷſc* a'u *Galwedigaeth*; Hyn a eilw S. *Paul Caſclu tryſor iw plant*, ſef, eu cymmorth a *chynnhyſcaeth* weddol, a dŷſc, neu grefft ddâ, neu gelfyddyd iw cadw, rhag Tlodi a Theintaſiwn a gwael ddichellion truenus. Ac er na waſanaetha gwneud hyn trwy *gybydd-dod* ac aneſmwyth wanc i ymgyfoethogi, etto dylid ei wneuthur trwy *ofal* a *ſerch* mawr, gŷd â phôb rhag-weliad a *phwrpas* ſynhwyrol, ac yn ôl *ein gallu*. Ac os gallwn yn ddi-bechod chwanegu ein meddiannau *i'n plant* mae hynny yn rhann o'n dyledſwydd tu ac attynt.

Mae y Rheol yma yn cyrraedd i'r hôll *hiliogaeth*, o phechaiſt a bôd gennit heppil anghyfreithlon mae rheiny yn rhann o'th ofal di, ond nid i wneud camm â'r plant cyfreithlon.

Yn 5. Rhaid i chwi yn ôl eich gallu a'ch rheſwm, ofalu am *wŷr* a *gwragedd* i'ch plant. Yn hynny edrychwch am ſiccrhau *Duwiolder* a chrefydd a *ſerch* a hoffder y ddwylyw iw gilydd: ac am ben hyn darperwch at gyfleuſdra a manteiſieu eraill, oreu y galloch. Cofiwch bŷth nad poſſibl i chwi wneuthur dygnach camm â'ch plant na'u clymmu *o'u hanſodâ* â rhaffau o *groes-dueddiad*, megis rhwymo *Oen* wrth *Flaidd*, neu blannu *Gwinnydden* mewn gardd o *freſych*. Eu hannog a ellwch trwy reſymmau a'u perſwadio a'u cynghori i gydſeinio â'ch wllys chwitheu, ond er dim *na chymmellwch* monynt. Gwell bôd ar draed trwy'r nôs na mynd i gyſcu gydâ *Draig*.

Dyledſwydd Gwŷr a Gwragedd &c.

Gwêl BENN. II. Dosp 3.

Rheolau i rai Priodol.

Rhaid i'r *gŵŷr* roi iw gwragedd gariad, maentumiad, dyledſwydd a mwynder ymwareddiad, [a rhaid i'r gwragedd dalu iddynt hwy gwbl a feddant ac a allant, gŷd â'r llòg o *uſudd-dod* a *pharch*;] a rhaid i'r ddau fod o'r *un* dueddfryd a'r *un* hawl heb ddim ſon am *Eiddo fi* ac *Eiddo ti* rhyngddynt. Ac o bydd peth tan *henw*'r gŵr neu'r wraig etto bydded y *mwyniant* o hono yn gyffredin i'r ddau: eithr diwygied ſynhwyr y gŵr bôb gwall ac anghymeſurwydd. Bydded pôb peth arall yn ddi-ddadl, a'u *Dâ* fel eu *plant*, yn ddi-neillduaeth eithr o'r un meddiant a'r un gofal: Beth bynnac ſy amgenach na hyn nid *Priodas* ond *Maſnach* yw. Mae'n iawn i'r *wraig* gymmeryd o ddâ'r *gŵr* at ryw weithred ddâ a ſo dyledus arno *ef* neu *hitheu*, neu ar y *ddau* fel eu gilydd, neu er llês iw heneidieu, ac heb wneud camm â chymmaliaeth y Teulu, os bydd y *gŵr* yn anwllyſgar. Megis y gwnaeth *Abigail* o'i hiawn ei hun anrheg ddrudfawr i *Ddafydd* pan naghaeſei *Nabal* ei gŵr hi. Dylei'r *gŵr* reoli a'r y *wraig* fel y rheola'r *Enaid* ar y *Corph*, gan gŷd-ddioddef a chŷd-garu, a chŷd-chwennych a chŷd-lyſu, trwy gŷd-gynhwyſiad a lleſâd eu gilydd, fel y bo *Priodas* yn gydiad cyrph a chalonnau a lleſadau, yn gŷd-gyſſylltiad yr hôll eniloes, ac yn ſâth ardderchoccaf o *gymdeithas*. Ond wedi'r hôll ymddygiad têg, a'r mwynder diwair a diniweid, os â'r gŵr yn ſûr ac yn anfwyn, ymreſymmed y wraig fel hyn: Oi yw fy ngŵr yn fy eſceuluſo a mi yn gwneuthur fy nyledſwydd, beth a wnai ef ped eſceuluſwn i yntef? ac od yw *hi* yn meddwl am *yſcar* o achos buchedd anniwair ei gŵr, yſtyried mai dyna'r ffordd y llŵyr anrheithio ef yn anaelef, canys cwbl wllys ei ordderchadon oedd ei gael ef iw meddiant fel humain.

Dyledſwydd Pen-Teuluoedd.

Yn 1. Dylei'r un *goſal* ymledu tros ein hôll *Deulu* ac ſy tros ein *Plant*, er nad yr un *meſur*; yr un *ſylwedd* ond nid yr un *graddau* o *ofal*: o blegit trwy *lywodraeth* S. *Paul* *Nid oes ragor rhwng y gwâs ar Etifedd tra byddo tan oed.* Mae gweiſion a Meiſtred o'r un garennydd, o'r un natur, ac yn etifeddion o'r un addewidion; ac wrth hynny, 1. Rhaid darparu iddynt luniaeth *pûr* a chynnaliaeth angenrheidiol. 2. Rhaid bôd *yn drugarog* wrthynt. 3. Heb eu llwytho â gwaith *anoddef*. 4. Na dal wrthynt yn *rhŷ gaeth*, eithr 5. cynnwys iddynt *ddiſyrrwch gweddol* ac iachus. 6. Rhaid edrych at eu *crefydd* hwy a llês eu *heneidiau*. 7. Eu *ceryddu* yn eſmwyth, yn tynhwyrol ac yn drugarog, nid am bôb gwall bychan, na phob amſer, nid â thafod-drwg, trahaus, ac amharchus; eithr â'r cyfryw ſenn ac a nodo'r *bai* ac a wellao'r *dyn*. Ond yn hyn ôll rhaid cymmeryd *meſur* wrth y cyttundeb a wnaed, wrth Gyfreithieu a Defodeu'r Wlad, wrth farn gwŷr ſobr a tynhwyrol a thrugarog, ac wrth y rhybuddion a roes Duw i ni megis hwnnw drwy S. *Paul* [*gan wybod fôd gennym ninneu hefyd Feiſtr yn y Nêf.*] Ni ddylei Feiſtr fod yn Llew yn ei dŷ, rhag iddo gael ei ufuddhâu a'i gatau hefyd, a chael ei borthi yn ei *lygad* ac eſceuluſo'i negeſeu yn ei *geſn*. Ni wnâ un Gweinidog mo'i ddyledſwydd ond naill ai o gydwybod ai o gariad ar ei feiſtr. Onis gwnâ efe *hi* o rann *Duw* neu o rann ei *Feiſtr* ni bydd raid iddo mo'i gwneuthur o'i rann ei hun ond weithieu.

Dlêd Golygwyr ac Athrawon.

Athrawon a *Golygwyr* ydynt yn lle *Rhieni* ac am hynny mae arnynt mewn gwirionedd hôll ddyledſyddau *Rhieni*, oddieithr y rhwymedigaetheu ſy wîr *naturiol*.

DOSP. III.

Am Negeſwriaeth neu Fargeinion bydol.

MAe y rhann *yma* o *Gyfiawnder* yn ſefyll *yn union* ar Gyfraith dyn, ac *yn ddilynol* megis trwy reſwm *cyfaryſtlys* ar Gyfraith *Dduw*: Ynteu wrth cyfreithieu bŷd, ac wrth y cyttundeb neilltuol y mae cymmeryd ei meſur *hi*. Ac er bôd ein Dyledſwydd ni yn hawdd ac yn hynod, yn gofyn goneſtrwydd yn ein margenion, gwirionedd didwyll yn ein geiriau, purdeb wrth farchnatta a ffyddlondeb wrth gyflowni; Etto gellir helpu peth arni *hi* wrth y *Rheolau* ar Yſtyriaethau ſy'n canlyn.

Rheolau a Meſurau Cyfiawnder wrth fargeinio.

Yn 1. Wrth fargeinio gochel ſiarad llawer, ychydig eirieu a all waſanaethu i gloi margen; a'r hwn a ſiarado leiaf, ſy'n meddwl deccaf, a chanddo lai cyfleuſdra i dwyllo.

Yn 2. Na ddywed ddim *celwydd* er na mawr na bychan, nac am y farchnad-beth ei hun, nac am ddim perthynol *iddo*, nac ar *air* nac ar *weithred*: hynny wy, na wnâ liw o'r peth *na bô*, ac na chuddia'r peth *ſydd*: ac na chais haeru neu wadu dim ond fel y gallo dy borthmon dy *iawn-ddeall di*: O blegit y ſawl a dwyllo'r *prynwr* neu'r *gwerthwr* wrth ddywedyd y gwîr mewn ffordd na bo'r llall yn ei gymmeryd neu'n ei ddeall ef, mae hwnnw yn gelwyddwr ac yn Lleidr: Canys mewn Margenion nid *celwydd* yn unic, eithr pôb mâth ar *dwyll*, ſy raid ei ochel.

Yn 3. Am *brîs* marchnatta marſiandîaeth *anhyſpys*, ti elli yn gyffredin brynu rattaf a gwerthu ddrutaf ar y medrych, am y bô hynny *yn gyntaf*, heb ganun

â nêb, ac *yn ail*, pan fŷch di yn marchnatta â margeinwyr cyn galled a chyn gwbl gyfarwydded yn y peth â thi dy hun, hynny yw, *Marſiandwyr* â *Marſiandwyr*, gwŷr *call* â gwŷr *call*, *cyſoethog* â *chyſoethog*, ac *yn drydydd*, pan na bô dim twyll, na dim angen, na dim rhag-brynu i ddruttau'r farchnad. Canys yn y Margenion hyn, ſef, pan fô'r Marchnatwyr yn gyfartal a'u gilydd, ac heb ddim mantais i'r naill ragor y llall, mae'r ddywlyw yn fodlon, ac wrth hynny ni all fôd dim anghyſiawnder na chamm i'r un.

Etto cymmer di'r yſtyriaeth hon yn ychwaneg, na ddylid pwyſo ar y cyffredin trwy *briſiau anrhe-ſymmol* ac anghyfion; y rhai a feſurir wrth y Rheolau hyn, ſef,

Yn 4. Gwnâ dy *brîs* yn ôl y *Meſur* hwnnw o *ddâ* a *drŵg* a ſefydlwyd trwy air a barn y gwŷr ſynhwyrolaf a thrugaroccaf a wypo oddi wrth y *gwaith* neu'r *farſiandiaeth*; ac na faelia ond a ganiattaer yn rhwydd i bawb o'r un gyffelyb alwedigaeth.

Yn 5. Na chyfod ar dy *briſieu* ddim o rann *angen* neu *anghyfarwyddyd* y Margeiniwr: Canys anghariad goleu i'r *dyn* ac anghyſiawnder yn y *peth* yw'r *cyntaf*) am nas gall *angen* y dyn wneud dy farſiandiaeth di ddim gwell ynddi ei hun;) a thwyll a gorthrymder yw'r *ail*. Ni ddylei nêb yn ſiccr ynteu *wneuthur* anghenion; megis trwy rag-brynu i godi gwerth, trwy attal ŷd, a'r cyfryw groes-ddichellion canys mae'r cyfryw rai yn draws iw porthmyn ac yn orthrymmwyr i'r Wlâd.

Yn 6. Yn dy gŷd-faſnach âg eraill, na wnâ meithaf a allach yn gyfreithlon ei wneuthur, eithr arbe-ryw feſur; ac er bôd peth rhŵyſc i faelio wrth brynu a gwerthu, na chais di mo'r geiniog eithaf *ydd* neu a dybiech di ei *bôd* yn gyfreithlon; can

pe rhôn iddi fôd yn gyfreithlon, etto nid yw ddiberygl: a'r nêb a faelio y leni gymmaint ôll ac a allo yn gyfreithlon, a deimtir y flwyddyn neſaf onddodid i elwa rhyw feſur tros ben cyfreithlon.

Yn 7. A wertho yn ddruttach o rann ei fôd e'n gwerthu *ar goel*, ni ddylei chwanegu mor prîs ddim mwy nac a'i digolledo, yn ôl *Rheolau'r* Farchnad am yr *amſer* y bu heb ei arian, yn ôl barn gyffredin, gan fwrw ei berygl hefyd, ond gwnaed hynny yn gall, yn ofalus ac yn garedigol. Ond er mai Rheol *cyfiawnder* yw hyn, etto o rann bôd prynu ar goel yn digwydd i'th *gyfeillion* neu i bobl *dlodion* anghenus, ti a ddylit wrth hynny wneud rhann cyfaill a chymydog yn ôl rhwymedigaetheu cariad perffaith rhag i *Gyfiawnder* droi yn *Anrhugarogrwydd*.

Yn 8. Ni ddylid bôd yn ddruttach i nêb o achos un rhagor-gyflwr yn ei *berſon* ei hun. Rhaid gwneud cydwybod â Brenin cyſtal ac â dyn cyffredin; a rhaid i gardottyn gael cyfiawnder cyſtal a Thywyſog; ond bôd hyn o ragor, mae'r meſur *eithaf* o gyfiawnder yn *anrhugaredd* â'r *tlawd*, ond mae'n ddiniweid â'r cyfoethog, am ei fod yn *gyfiawnder* ac nid rhaid i *hwnnw* wrth dy drugaredd di.

Yn 9. Na ddôs bŷth o rann dy *dlodi* dy hun, yn doſtach a chreulonach yn dy fargeinion, eithr yn llonydd ac yn llaryaidd, yn ddiwyd ac yn amyneddgar, gorchymmyn i Dduw dy gyflwr, a gwnâ dy oreu ynddo, a gâd ar Dduw y digwyddiad: canys mae'r ffordd yma yn debyccach i'th godi di, ac yn ſiccr i ynnill i ti fendith a diwygiad; ac os ni thynnant ymmaith dy *dlodi* etto tynnant ei *cholyn hi* ac dyna'r cwbl ſy *ynddi* ar a all dy flino.

Yn 10. Na attal *gyflog* y cyflog-ddyn, canys mae pôb grâdd o'r *gwytnwch* hwnnw tros yr amſer yn *anghyfiawnder* ac yn *angharedigrwydd* iddo, ac yn *malu* [illegible] *wyneb ef* hyd at ddagreu a gwaed: Tâl ditheu yn

yn gyfrdo yn ôl y cyttundeb a'i anghenion yntef.

Yn 11. Cadw yn grefyddol bôb *Addewid* a *Chyfammod*, er ei fôd er niweid i ti, ac er dy fôd yr awron yn gweled y gallasit wneud yn well: na ddatro un weithred a wnelych o rann dim a ddigwyddo wedi hynny. Na wnaed dim i ti dorri dy Addewid, onid yw'r peth yn amhossibl neu yn anghyfreithlon, neu fôd y peth yn anghyfleusdra anafus i ti, ac heb fawr lês i'r llall, neu gael o honot gennad eglur neu debygol wrth reswm.

Yn 12. Na chymmer fyth na dobr na chyflog am ddim gwaith ond a fedrych neu a allech ei gychwyn, a'i gyflowni hefyd yn syrn lesol ac esmwyth a manteisiol, i ti ac i'th gyflogwr.

Yn 13. Na pherchennoga i ti dy hun ddim ar a drefnwyd i fôd yn *gyffredin* gan Dduw o'i fawr drugaredd neu'r Wladwriaeth. O blegit mae hyn yn torri *Cariad* a *Chyfiawnder* hefyd. Ie d'ngosodd Duw trwy wrthieu ateased ganddo'r pechod *hwn* Pan gauodd Brenhinoedd *Naples* y Gerddi lle descynnai'r *Manna* goreu, fel nad allai nêb mo'i hel heb dalu teyrnged, peidiodd y *Manna* nes tynnu ymaith y *deyrnged*, ac yna descynnodd fel cynt. Digwyddodd y cyffelyb yn *Epirus* pan osodwyd toll ar *halen*, collodd yr *halen* nes tynnu'r doll oddiarno. A phan roesei Raglawiaid *Antigonus* drêth ar y cleifion a ddeueint i yfed o ryw ffynnon dra iachus oedd newydd godi, sychodd y ffynnon yn ddisymmwth a'r gobaith o elw oddi wrthi a ddiflannodd.

Swmm y cwbl ôll a grynhoir yn y geirieu hyn eiddo S. *Paul* [N*a byddo i nêb orthrymmu na thwyllo'i frawd mewn dim*, Canys *dialudd yw'r Arglwydd ar y rhai hyn ôll.* Ac mae'n Iachawdwr bendigedig wrth gyfrif dyledswyddeu *cyfiawnder* wrth y Gorchymmyn [N*a ledratta*] yn cyssylltu [N*a cham golleda*] felly trwy egluro meddwl yr Hên Gyfraith, yn gwahardd

y dirgel yſtrywgar ledrad *hwnnw* o dywllo'n brodyr mewn margeinion bydol. Ac i'n cymmell i ochel hynny nid rhaid wrth *reſwm* arall ond darfod i'r Arglwydd ymrwymo i fod yn ddialudd ar y rhai hyn ôll. Ac megis y mae'n ddîr y dial ef yn Nydd mawr y Taledigaeth, felly fe a wnâ hynny *yma* hefyd gan fynychaf, trwy droi'r *geiniog* ddrŵg *anghyſion* yn Gancr i yſſu a difetha'r hôll gynnyrch: mae *honno* yn ynnil Trueni a Thlodi, neu feddwl melltigedig anyſprydol, enw drŵg, ochenaid a rhegfa'r gorthrymmedic a'r ſiommedic, ac Afradlonwr neu Ffŵl yn Etifedd.

DOSP. IV.

Am Iawn neu Ddiwygiad.

Iawn yw § Rhann *honno* o *Gyſiawnder* y mae dyn yn rhwym iddi trwy *Fargen* neu trwy *fai* o'r blaen, trwy ei waith *ei hun* neu *arall*, *trwy* neu *heb* ei 'wllys. Y ſawl a echwyno mae e'n rhwym i *dalu*, ac yn ſiccr y ſawl a ledrattao neu a dwyllo: Canys yr hwn a echwyno ac ni thalo adref, mae e'n *anghyſion* ac yn lleidr, am ei fôd e'n meddiannu eiddo *arall* heb yn waethaf i'r perchennog. A'r nêb a gymmerth eiddo arall heb ei gennad mae e'n yr un gyflwr, cyhyd ac y bô'r peth yn ei law, ac yw'r Dyledwr wedi'r pryd y dylaſei ac y gallaſei dalu. Canys ym mhôb *pechod* y mae rhagor rhwng y *weithred* ei hun ſy'n darfod yn ebrwydd, a'r *ffrwyth* melltigedic ſy'n para. Nid yw'r *weithred* o ledrad ond byrrbwyll a darfodedic, ond mae ei *ffrwythau* drŵg hi yn barhaus ac yn rhwymo'r lleidr i *gôſp* y Gyfraith, ac *iawn* iw gymmydog ac i *edifeirwch* tu ac at Dduw.

Os *lledrad* neu pa gamm bynnac a wnacthoſt i'th gymmydog (heb law dioddef *côſp* ac *edifeirwch*) yr

yr wyti'n rhwym i wneud *iawn* iddo yntef, ac i dynnu maith y drŵg a roiſt ti arno, ac onidê mae e'n cael *camm*; a bôd undyn yn waeth o'th achos a'th waith ti, a thrwy dy fwriad ti, mae hyn yn erbyn y Rheol fawr o *Gyfiawnder* ac o *Gariad*. Nid wyti yn gwneuthur âg *arall* mo'r *hyn a wllyſit i* arall *wneuthur â thi*. O ba herwydd ſ'aeth yn ddihareb ym mhlîth Deſeinwyr *Na ſeddeuir bŷth mo'n pechod nes i ni dalu'r hyn a gamm-ddygaſom neu a gamm-attaliaſom*; nes talu (meddaf) mewn *gweithred*, neu mewn *deiſyfiad*, ac mewn llawn fwriad i wîr gyflowni pan allom. A'r athrawiaeth hon heblaw eglured ac amlycced yw hi wrth reſwm, a dynnir allan o eirieu croyw yr Yſcrythyr, ſy'n cyfrif *Iawn* yn rhann angenrheidiol o *Edifeirwch* at faddeuant pechodeu [*Os yr annuwiol a ddadrydd wyſtl, ac a ddyru yn ei ôl yr hyn a dreiſiodd &c. Gan fyw y bydd y eſe byw ni fydd eſe marw. Ez.* 33. 15.]

Yr ymarfer o'r Rhann hon o *Gyfiawnder* a uniomr wrth y Rheolau ſy'n canlyn.

Rheolau i wneud Iawn.

Yn 1. Pwy bynnac ſy wîr affeithiol achos o *gamm* iw gymmydog, ni waeth trwy ba *ſôdd* neu *erfyn* y gwnêl hynny, pa un bynnac ai trwy *beri* ai trwy *geſnu*, trwy *gynghori* ai trwy *ganmol* y peth, trwy ei *wneuthur* ai trwy *beidio* a'i *rwyſtro* pan allaſei ac y dylaſei, mae e'n rhwym i wneuthur *Iawn* iw Gymmydog; os o'th rann neu trwy dy waith di y bu'r *camm* ac heboti ni ſ'aſei mono. O blegit trwy'r un rheſwm ac y mae pôb ffordd o'r *rhain* yn cuog o'r *pechod*, ac yn achos o'r *camm*, trwy'r un hefyd y maent yn dy rwymo i wneud *iawn* a diwygiad; o rann mai trwoti y drygwyd dy gymmydog, rhaid i titheu ei roi ef yn ei ôl yn gyſtal ei Stâd ac yr oedd cyn ei ddrygu. A bwrw i ti annog *camm* i'th gymmydog,

ac

ac a b'aſei eraill yn ei annog pe nas buaſit ti, etto ſyth yr wyt ti'n rhwymedic, o achos mai ti yn wîr a wnaeth y *camm*; yr un ffunyd y b'aſeint hwytheu pes gwnaethent; ac nid wyti ronyn rhyddach o rann bôd eraill o'r un ſeddwl drŵg â thitheu.

Yn 2. Y ſawl a *barodd* y *camm* ſy rwymediccaf, y neſaf yw'r hwn a'i *gwnaeth*, a'r neſaf *at hynny* yw'r ſawl a oedd ſelly yn helpu fel trwy na b'aſei mo'r *camm* hebddo ynte. O gwnaed *iawn* gan y d[illegible] *gyntaf* nid yw'r *olaf* rwymedic i *iawn*, ond i *ediſeirio*. Eithr oni ddiwygiwyd y gŵr a gafas y *camm*, [illegible] pôb un o honynt yn llŵyr euog o *anghyfiawnder* ac wrth hynny yn rhwym i wneuthur *iawn* pennodol a chyflawn.

Yn 3. A ſwriado *gamm bychan* iw gymmydog ac a'i gwnêl, ac wrth hynny ddigwydd o ddrŵg *mwy*, mae e'n rhwym i lawn-ddiwygio'r cwbl, yr hyn a oedd yn ei fryd, a'r hyn nad oedd yn ei fryd, ond a wnaeth ef er hynny â'i erfyn a gyrhaeddodd ymhellach nac yr oedd e'n bwriadu ar y cyntaf. Y nêb o falis iw gymmydog a roddo dân mewn pren *Maſarn*, a goſod o'r pren Maſarn Dŷ ei gymmydog ar dân, mae e'n rhwym i dalu am yr *hôll golled* o rann mai ei falis ef a'i parei. Mae hyn megis *mwrdwr* a wnêl dyn meddw, gweithred *anwyllyſcar* mewn pêth o'r *affaith*, eithr *wllyſcar* yn y rhanneu eraill o *honi* ac yn yr hôll *achos*, ac am hynny mae'r euog yn attebol am dani i *gŷd ôll*.

Yn 4. Y ſawl a rwyſtrodd ŵr ſyberlan i roi eluſen i ddyn tlawd, mae e'n rhwym i dalu *iawn*, os trwy *dwyll* neu *drais* y rhwyſtrodd ef, o achos mai *cyfiawnder* y dyn tlawd ydoedd y *gerdod* erbyn darfod i'r gwrda ei llawn fwriadu *hi* iddo, am hynny ynteu mae'r hwn a'i *rwyllodd* neu a'i *cymmellodd* ef, yn draws, ac yn gwneud *camm* a'r tlawd. Yr un yw achos Gŵr yn ei *Lythyr Cymun*, yn gadel peth o *luſeni* neu *addewid*, neu

gyfri

gyfri o *ddlêd*. Y nêb a rwyſtro y Rhôdd *luſengar* trwy *dwyll* neu *drais*, neu y Rhôdd *ddyledus* trwy *ddymuniad* mae e'n rhwym i dalu *iawn*: Yr achos yw am fod yr hwn a *ddymuno* neu a gynghoro *bechod* mor euog a'r ſawl a'i gwnêl; ac os heb ei gyngor ef ni wnelſid mo'r *pechod* neu'r *camm*, efe mewn ffordd yw'r cyflawn *achos*, ac wrth hynny mae ef cyn rhwymedicced i ddiwygio'r *camm*, ac yw'r gŵr ei hun a gwnaeth.

Yn 5. Y ſawl a naghâo heb wobr wneud rhyw rann o'i ddyledſwydd [ág ynte'n rhwymedic iddi *ffordd arall*] rhaid iddo dalu'n ôl yr arian hwnnw, am iddo'i gymmeryd ar *gamm* iw gymmydog, ac nid o union wobr *ei waith* neu *ei ſynhwyr* [gan ei fôd e'n cael *cyflog* eufys am hynny ôll] neu wedi ymrwymo i wneud hynny o'i waith a'i wirfodd ei hun.

Yn 6. Etifedd gŵr *rhwymedic* nid yw rwym i wneuthur *Iawn*, os ar ei *berſon* ef yr aeth y *rhwymedigaeth*, eithr od aethei o'i *Berſon* iw *Yſtâd*; yna mae'r *Etifeddiaeth* yn deſcyn â'i hôll bwys gŷd â *hi*. Os y Tâd *ei hun* trwy annog ei gymmydog i wneud *anghyfiawnder* oedd rwymedic i ddiwygio mae y rhwymedigaeth yn terfynu ym marwalaeth y Tâd; o achos mai pechod y Tâd a'i rhwymodd ac nis gall yn union rwymo'r Mâb, wrth hynny mae'r Mâb yn rhydd. Ac dyma fel y mae ym mhôb gweithred *berſonawl*, oddieithr lle bô'r Gyfraith fyd yn taro i mewn ac yn barnu'n amgenach.

Yn 7. Yr hwn trwy weithred neu air, neu arwydd, trwy dwyll neu trwy drais a wnêl niweid i gorph, enioes, dâ, enw dâ, cyfeillion neu enaid ei gymmydog, mae e'n rhwym i wneuthur *Iawn* yn ôl yr amryw *odſeydd* hyn hyd yn y gallet eu diwygio. Yn hyn ôll mae rhagor rhwng *denu* a *chymmell*, rhwng *dymuno* a *thwyllo*. Pe cynghorwn fy Nghymmydog i odinebu, etto'r wyf yn ei adel *ef* neu *hi* mewn

mewn rhydd-did i *ddewis*, ac er fy môd i am fy mhe-
chod yn attebol i Dduw, etto nid wyf i'm Cymydog
Canys os denais hi etto hitheu a aeth yn *wyllyſcar* o
diwedd, ſef, fel yr oeddwn inneu ar y cyntaf. Eithr o
arferais *dwyll*, a gwneud iddi goelio celwydd ar hyde
pa un y gwnaeth hi'r weithred ac hebddo ni's gwnae
thei; [fel pe dywedwn i wraig farw ei gŵr, neu e
fôd a'i fryd ar ei llâdd hi, neu ei fôd e'n odinebwr:
neu os arferaf *drais*, hynny yw, ei *chymmell* hi, neu
fygwth ei llâdd neu ei hanafu, neu rywbeth a ddycco
ei rydd-did i ddewis oddi arni, yr wyfi'n rhwym i
wneud *iawn*, a'i hadferu hi iw hiawn ddealltwriaeth,
a'i llawn rydd-did, a ſymmyd y *dwyll* neu'r *trais*
oddi wrthi.

Yn 8. Rhaid i'r *Godinebwr* dalu *iawn* i'r ſawl a
gâdd y *camm* hyd y galler ei ddiwygio; hynny yw,
darbod tros y plant anghyfreithlon, môdd na ddrygont
mo'r plant eraill wrth gŷd-gyſrannu â hwynt. Ac
os y gŵr y traws-feddiannwyd ei wely a'i hola ef
am y *camm* mewn rheſwm, mae e'n rhwym iw
ſodloni ef.

Yn 9. A laddo ŵr mae e'n rhwym i *Iawn*, trwy
roi i blant a chyfneſeifiaid y *marw* gyfryw gadwraeth
ac a gollaſant trwy ei farwolaeth êf, gan yſtyried a
ſynied ynghyfer pôb amgylchiad, megis *oedran* y
gŵr, ei *iechyd* a'i *debygolrwydd* i fyw.

Yn 10. Y ſawl a ddrygodd *enw dâ* ei gymmydog
trwy *drais* neu *ddichell*, mae e'n rhwym iw iachau
â'r *Moddion* priod, ſef, cyfaddef *ei fai ei hun*, tyſt-
iolaethu ei *ddiniweidrwydd*, a'i *haeddiant* ynteu, gan ei
berchi a'i fodloni âg *iawn*.

Yn 11. Y ſawl a anafodd ei Gymmydog mae
e'n rhwym i goſtio'r Meddyg, a'r hôll draul arall,
a'i ddigolledu ynteu am y rhwyſtr iw *waith* neu ei
farchnad; ac felly hefyd y mae am *gam-garcharu*
ym mhâ achoſion nid oes dim iw ddiwygio ond

affaith

affaith a *ffrwyth* y weithred; canys mae'r weithred ei hun yn attebol i *gôsp* neu *ediseirwch*, ac heb perthyn dim i *lawn*. Ond yn y rhain a phôb achosion eraill, rhaid yw edfryd y dyn y gafas y *camm* (hyd y bô possibl) i'r un cyflwr perffaith a dâ, ac y tynnwyd ef o hono trwy *dwyll* neu *drais*.

Yn 12. A yspeilio'i gymydog o'i ddâ, neu a gamattalio ddim trwy *drais* neu *ddichell*, mae e'n rhwym rid yn unic i adferu'r *hawl* ond hefyd pôb *llês* a *gwellâd* a 'nillasei'r perchennog wrthi *hi* tra y daliwyd ef hebddi. Wrth gyssondeb i'r Rheolau hyn bernwch pa rwymedigaeth sy ar bawb o'r rhai *Trawsion* megis *Cyssegr-ladron*, *Attalwyr degymmau*, *Cribddeilwyr*, *Ussusiaid anghyssion*, *Gau-dystion* ac *Achwynwyr*, y rhai sy'n *sommi* neu yn *cymmell dynion* i *bechu*, y rhai sy'n *gwthio diod* ar bobl, yn *gwawdio* ac yn *amherchi Duwioldeb*, y rhai sy'n *annog* neu yn *canmol* drwg, ac yn *sswsfordd* yn *erlid Crefydd*, a phawb o'r cyffelyb.

Yn 13. O gwnaethost *gamm* â chynnifer, ac yn y cyfryw fôdd (megis trwy fasnach feunyddiol) na s gwyddost *ym mhâ faint* y gwnaethost, nac *i bwy*; rhaid i ti *ddiwygio* dy fai trwy *'lusenau* a rhoddion i'r tlodion, yn ôl gwerth dy gam-fasnach, cyn nesed syth ac y medrych ei gyfartalu. Gwell i ti synd i'r Nêf tan gardotta na mynd i Uffern yn llwythoc o yspail trais ac *anghyssawnder*.

Yn 14. Y dresn o dalu dyledion o *iawn*, neu *gyttundeb*, a bennir yn Nghyfreithieu'r Deyrnas ac ar y rheiny y mae i ti ddal. Ond yn nissyg y cyfryw Reolau, Ystyr *yn* 1. Angen yr Holwr, *yn* 2. pa hyd yr oedodd ef, ac *yn* 3. Y rhwymedigaethau yspysol o *gyfeillach* neu *garennydd*: wrth y rhain hefyd yn eu hamryw *raddau* y mae gwneuthur *lawn*, os nid wyt yn abl er talu cymmaint ôll ac a ddylit; eithr os yd-wyt, y ffordd oreu yw gwneuthur hynny gyntaf byth tr y gallech, mewn rhesym teimladwy a synhwyr; ond

ond edrych di yn ddyfal at y ddeubeth hyn: *Yn gyntaf*, Na lŵyr *eſceuluſech* y ddyledſwydd, *Yn ail*, Na *oedech* moni ddim o *gybydd-dod* nac o un achos bechadurus arall. Coſia mai pan dalodd *Zacheus lawn* i bawb a gawſei gamm ar ei law ef, y dwthwn hwnnw y traethodd Crîſt ddyfod Iechydwriaeth iw dŷ ef.

Yn 15. Ond heb law'r *ddlêd* ſy'n dyfod wrth *gyttundeb* neu *fai*, mae *dled* arall ſy'n codi o *gymmwynaſau* a *charedigrwydd* a *chyfeillach*. Y ſawl a wnaeth i mi dwrn dâ fe am rhwymodd i dalu *iawn* o *Ddiolchgarwch*. Nid yw y rhwymedigaeth hon yn dyfod trwy *gyttundeb*, na thrwy ei fwriad yſpys yntef, eithr o natur y *peth*; dyledſwydd yw *hon* yn codi yn *nghalon* y dyn rhwymedic, ſy'n naturiolach *iddo* garu ei gyfaill a gwneuthur dâ am ddâ, na thalu drŵg dros ddrŵg; o blegit fe all dyn anghofio *camm*, ond bŷth ni ddyſei anghofio *cymmwynas*. Canys beth bynnac ſy *odidoc*, beth bynnac ſy *fudliol*, a pheth bynnac ſy ddâ *ynddo'i hun*, neu ddâ i *mi*, ni all na charom *hwnnw*, a'r peth a garom mae'n gnawd i ni ei achleſu a bôd yn ddâ ŵrtho. A wrthodo wneuthur daioni i'r ſawl y mae e'n rhwym iw garu, neu garu'r ſawl a wnaeth ddaioni iddo, mae e'n anghenfil annaturiol o ddyn, yn meddwl mai iw borthi *ef* y ganed pawb *eraill*; ie mae e'n waeth ei lwngc na'r *Môr eigiawn*, yr hwn er ei fôd yn yſed yr hôll Afonydd, etto mae ef trwy'r *cwmmylau* a'r *ffynhonnydd* yn talu *iawn* digonol iddynt.

Dy ddyledſwydd tu ac at dy *Gymmwynaſwyr* yw eu caru a'u perchi, gwneuthur iddynt gyhydiad cyfattebol o waſanaeth, o ddyledſwydd neu o lês, yn ôl dy allu di, a'u diffyg hwythau, ac yn ôl yr achlyſur a gaffech, a graddeu eu caredigrwydd hwy; a gweddio ar Dduw troſtynt, ar iddo ef dalu'r pwyth iddynt am eu hôll ddaioni tu ac attat,

attat, a'r ddlêd hon o *weddio* a ofynnir gennit tu ac at dy hôll *Holwyr* y rhai o wîr gariad a ddiwallodd dy angenrheidieu.

Gweddiau perthynol i amryw Rwymedigaetheu a ſwyddau Cyfiawnder

Gweddi am y grâs o Ufudd-dod iw dywedyd gan bawb a fô tan Lywodraeth.

O Dduw tragywŷddol, enwoc Lywodraethwr Dynion ac Angylion, yr hwn a ordeiniaiſt bôb peth mewn trefn ryfedd, gan wneud yr hôll Greaduriaid yn ddaroſtyngedig i *Ddyn*, a'r naill ddyn i'r llall, a'r cwbl i *Ti*, a dolen eithaf y *Gadwyn* ryfeddol hon yn rhwym dynn wrth droed dy Orſedd-fainc; dŷſc i mi ufuddhau i bawb a oſodaiſt arnaf, eu hanrhydeddu ac ymoſtwng yn llaryaidd iw hôll orchymynion cyfreithlon hwy, gan dderbyn yn wllyſcar yr hôll feichieu a roddo ſynhwyr ac Angenrhaid y Deyrnas arnaf; Na rwgnachwyf er dim yn erbyn *Llywodraeth*, rhag i Yſpryd y balchder a'r cythryfwl, Yſpryd y grwgnach a'r annhrefn fy nghymmeryd am nodi at gael rhann gŷd â'r anufudd ar gwrthryfelgar gŷd â dirmygwyr Llywodraeth, a difenwyr Awdurdod. Caniattâ hyn Dduw ſanctaidd er mwyn y gŵr a gâdd, am ei ufudd-dod iw Dâd, ei ogoneddu dros dragywyddol Oeſoedd, ein Harglwydd a'n Hiachawdwr *Jeſu Grîſt*. *Amen.*

Mae Gweddieu tros Frenhinoedd a phôb Swyddogion, a thros ein Rhieni a'n Bugeiliaid Yſprydol yn

yn y Letaniau *ſy'n canlyn yn niwedd y bedw aredd Bennod rhagwyneb.*

Gweddi iw dywedyd gan Ddeiliaid pan ddêl Gelynion am ben y Wlâd yn gyrch cyhoeddog, o bobl greulon ddrygionus, a Chaſeion Crefydd *neu'r* Llywodraeth.

O Dragywyddol Dduw yr hwn yn unic wyt yn llywodraethu yn Nheyrnaſoedd Dynion, Ti yw Duw mawr y Rhyfeloedd, Ti pieu talu'r pwyth; Dy Ddoethineb gogoneddus, a'th nerth Holl-alluoc, a'th ddirgel Ragluniaeth di ſy'n rhag-drefnu pôb digwyddiadau ac ymgyngoriadau dynol, a dychweliad Heddwch a Buddugoliaeth. Teilynga weithian adel i lewyrch dy wynebpryd ac i ffrwytheu Trugaredd ogoneddus a graſuſol faddeuant ddychwelyd i'r Tîr yma. Ti a weli faint o ddrygau 'ſy arnom trwy drais a chreulondeb Rhyfel; ac er ein bôd ni yn ymoſtwng ac yn addoli dy gyfiawnder yn ein hôll flinderau, etto bid wiw gennit doſturio wrth ein trueni ni, a gwrando'n cwynfan, a darpara i ni gymmorth yn ein hadfyd preſennol: Na chywilyddier Amddiffynwyr *uniondeb*, ac na wradwydder ein cynghorion bŷth; na orchfyger ein Plaid, na lether ein Crefydd, na ddigalonner Dyſceidiaeth, ac na anrheithier monom o'r hôll Addurnau gweledic, Arfau a Manteiſiau Duwioldeb, y rhai a deilyngaiſt i ni gynt er mwyn helpu'n gwendid mewn Dyſceidiaeth a Chrefydd. *Amen.*

II.

YR ŷm ni'n cyfaddef, Dduw anwyl, ddarfod i ni haeddu ein llŵyr ddifuddio a'n torri ymaith o *Gymmun y Sainct*, a diddanwch Crefydd, a'n gwneud yn gaethweiſion i wehilion poblach anghyfion ac anwybodol,

bodol, neu i oddef pôb blinder arall a ddanfonech di arnom yn e'fyn o'th ddigofaint, yr hwn a gyffroetom ni mor fynych i ddîg ac i eiddigedd. Yr ŷm ni, Arglwydd, yn gorwedd i lawr yn oſtyngedic tan faich dy wialen, gan ddeiſyf arnat gofio'n gwendid, ac anghofio'n cameddau, ein cynnal ni â'th ffonn, ein codi â'th law, a'n llonni á golygiad graſuſol. ac os rhaid i ni aros yn y cwmmwl hwn o Adfyd bydol, egor i ni ffeneſtr y Nêf, fel á llygad Ffydd a Gobaith y canfyddom tu hwnt i'r cwmmwl, ac y rhagwelom y trugareddau a ddarperaiſt ti, yn dy ddirgel Raglunaeth a'th fawr Ddoethineb, i'th hôll weiſion, yn niwedd y fâth ddechreuadau greſynol ac annhebygol. Dyſc i ni wneud ein hôll Ddyledſwydd yn ddiwyd ac ymddaroſtwng i'th holl 'wllys di yn llawen; ac o'r diwedd bydd raſuſol i'th bobl ſy'n galw arnat, ſy'n ymddiried ynot, a'u hôll obaith ym mynwes Duw, ac heb un Cynnorthwywr ond Tydi. *Amen.*

IIII.

AMgylcha'n Brenhin â byddin o Angylion, cau di arno ac amddiffyn ef môdd na ddêl ar law ddrŵg bŷth niweid iddo. Cynnal di ef â chymmorth o'r Nêf yn ei hôll Ryfeloedd, a'i brofedigaethau a'i beryglon, fel yr elo pôb grâdd o'i brofedigaeth yn anwylach fŷth gennit Ti, a dychwel ditheu atto ef â thrugaredd ac ymwared. Dyro iddo galonneu ei hôll bobl, a dôd yn ei law ef ffonn anorchfygol o haiarn, teyrnwialen o nerth, a chleddyf chyfiawnder, a chynnorthwya ef i amddiffyn a diddanu'r hôll Eglwyſi ſy dan ei gadwraeth ef.

V.

BEndithia ei hôll Drâs a'i Berthynas ef, ei Gyfammodwyr a'i Gynnorthwyr; una eu calonneu hwy, llywia eu cynghorion, cryfhâ eu dwylo, a bendithia eu gweithredoedd. Dyro iddynt ſwriad ſanctaidd,

aidd, môdd y gallont ganlyn ar Fatter Duw a'r Brenhin yn dra thirion a bonheddigaidd. Sancteiddia hôll *ſoddion* ac *arfeu* eu hamcanion hwy, fel nad trwy greulondeb a thrais y caffont eu cyfion ddymuniant, a chorona di eu hôll ymgais hwy â llwyddiant, fel y cŷd-weithiont ô'll tu ac at, ac y gwîr gyrrhaeddont y bendithion mawr hynny yr ym ni'n eu herfyn gennit: Anrhydedd a diogelwch i'n Pennaeth, Cadwraeth ei gyfion freintieu, heddwch iw bobl ef, cadernid ſefydlog a derchafiad i Grefydd, Mantais a chefn Ddyſceidiaeth a Duwioldeb, ymwared i'r gorthrym medic, a diddanwch i'th hôll ffyddlon bobl, ac oddi wrth y rhain ôll, Ogoniant i'th enw ſanctaidd. Caniattâ hyn O FRENHIN y brenhinoedd er ei fwyn Ef trwy'r hwn y rhagnodaiſt ni i'th hôll drugareddau a'th addewidion, ac i'r hwn y rhoddaiſt bôb Awdurdod yn y Nêf a'r ddaiar, ein Harglwŷdd a'n Iachawdwr *Jeſu Grîſt. Amen.*

Gweddi i Rieni iw dywedyd tros eu Plant.

HOll-alluoc a thrugaroccaf Dâd, yr hwn a addewaiſt blant yn wobr i'r cyfiawn, ac a'u rhoddaiſt i mi yn dyſtiolaeth o'th drugaredd, ac yn rhwymedigaeth o ddyledſwydd arnaſi; Teilynga di fôd yn Dâd iddynt, a dyro iddynt gorph iachus, enaid deallus, ac yſpryd ſanctеiddiedic, fel y bont yn weiſion ac yn blant i Ti tros eu hôll ddyddiau. Poed i'th fawr drugaredd a'th Ragluniaeth eu tywys hwy trwy beryglon a phrofedigaeth ac anwybodaeth eu hieuenctid, môdd na redant i ynfydrwydd a ſcelerder trachwant afreolus. Trefna di felly ddamweinieu eu hôll Fywyd hwy, fel trwy ddŷſc ddâ, Athrawon gofalus, ſiarp'e ſanctaidd, cymdeithas ddiniwed, cynghorion pwyllog a'th

a'th râs cadwedigol di, y cadwer hwy yn eu dyledſwydd tu ac attat Ti ynghanol Cenhedlaeth gyndyn a throfaus: ac os gweli di'n ddâ nertha finneu i ddarparu cymmeſur gynhaliaeth iddynt, fel na bônt yn anghenus ac yn druenus ar fy ôl i; neu os rhoi di i mi ddyfyn cynnharach o'r bŷd hwn, bydded yn gynnyſcaeth iddynt dy ofal, dy drugaredd a'th Ragluniaeth di tros eu heneidieu a'u cyrph: O cadw hwy bŷth rhag byw'n ddrŵg a marw o drychineb an-amſerol; eithr bid iddynt dy ogoneddu di mewn iſudd-dod gwirfodd, a dyledſwyddau *Buchedd Sanctaidd*: Fel pan ddarffo iddynt dy waſanaethu di yn eu cenhedlaeth, a bôd yn fuddiol i'r Wladwriaeth Griſtianogol, y bônt yn gŷd-etifeddion âg *Ieſu*, yn Ngogoniant dy dragywyddol deyrnas, trwy'r unrhyw ein Harglwydd *Jeſu Grîſt*. *Amen.*

Gweddi i Ben-teuluoedd, i Guwradiaid, Athrawon, neu eraill a ſo mewn gofal iw dywedyd tros eu Siars.

HOll-alluoc Dduw, trugaroc a graſlawn, cymmer drugaredd ar fy Nheulu (neu fy Scolheigion, neu Mhlwyfolion &c.) a chwbl a orchmynwyd tan fy ngofal i: Sancteiddia hwy â'th râs, cadw hwy â'th Ragluniaeth, amddiffyn hwy rhag pôb drŵg â gwiliadwriaeth o'th Angylion, tywys hwy ar hyd ffordd Tangneddyf a Chrefydd ſanctaidd, trwy gymmorth a chyfarwyddyd dy lân Yſpryd, ac urdda hwy ôll â chyfran o'th Râs, a'th Fendith yn y Bŷd hwn, â chyrph iachus, a dealltwriaeth dâ, ac eneidiau ſancteiddied[illegible] gyflawn fwynhau dy Ogoniant yn ôl hyn[illegible]rîſt ein Harglwydd. *Amen.*

Gweddi

Gweddi i Farſiandwyr, Marchnattawyr, a Chrefftwyr

O Dragywyddol Dduw, ffynnon y *Cyſiawnder*, y *drugaredd* a'r *ſendith*, yr hwn trwy fy nyſc ac affeithiau eraill o'th Raglunaeth a'm gelwaiſt i i'r Alwedigaeth hon, fel y byddei i mi trwy fy niwydrwydd gŷd-weithio at fy llês fy hun ac eraill; Yn oſtyngedic mi attolygaf i ti â'th râs fy unioni yn fy mwriad, ac yn nghyſlawniad fy ngalwedigaeth, fel y byddwyf di-eſceulus, cyfion a ffyddlāwn; a dyro i mi dy ffafr fel y cymmeradwyer fy ngwaſanaeth hwn megis rhann o'm Dyleſwydd angenrheidiol. A dyro i mi dy fendith i'm helpu ac i'm llwyddo yn fy Ngalwedigaeth cymmhelled ac y dewiſech di yn dy drugaredd droſofi, a theilynga fôd o'th Yſpryd glân fyth yn breſennol gŷd â mi fel nad ymroddwyf i gybydd-dod a drygchwant i gelwydd na thwyll, nac i ddim cam-ddichellion gwael annrhefnus; eithr dyro i mi ſynhwyr, goneſtrwydd a phurdeb Criſtianogawl, fel y ſancteiddier fy *Ngalwedigaeth* gan fy *Nghrefydd*, a'm llafur trwy fy mwriad goneſt i, a'th fendith ditheu: megis wedi i mi wneud fy rhann o'r gwaith a oſodaiſt i mi a hwſmonaetha'r dalent a orchymynaiſt i mi, a gwaſanaethu'r Wladwriaeth yn ôl fy ngallu, y caffwyd derbyn uchel gamp fy Ngalwedigaeth Nefol, yn hon yr wyſi'n ei diſgwil, ac yn ei thaer-ddeiſyfu yn rhann ac etifeddiaeth y bŷth-fendigedic Brynwr ac Iachawdwr *Jeſu. Amen.*

Gweddi in dywedyd gan Ddyledwyr a phawb ar ſy'n rhwym trwy Fai neu trwy Gyttundeb.

HOll-alluoc Dduw yr hwn [illegible] bawb, Ffynnon a Thr[illegible]

Cyfiawnder a phôb Trugaredd a phôb Haelioni, i'r hwn yr ŷm ni ôll yn *rhwymedic* am gwbl a ydym ac am gwbl a feddwn, ac yn Ddyledwyr i Ti trwy'n *Pechodeu*, a thrwy'r *Cyſammod* graſuſol a wnaethoſt â ni yn Nghrîſt Jeſu; dŷſe i mi yn gyntaf gyflawni fy hôll *rwymedigaetheu i Ti*, o uſudd-dod a Diolchgarwch, ac yn neſaf cymmorth fi i dalu fy *nyledſwydd* i'm hôll gymmydogion, a'm *dyledion* i'm hôll *Holwyr*, môdd na anrheithier ac na waethyger nêb yn ei Stâd am ei garedigrwydd i mi, neu ei gŷd-faſnach â mi. Maddeu i mi'r hôll bechodeu a'r troieu anllywodraethus hynny a'm rhoes i mewn Cyfrifon yn ddyfnach nac y b'aſei raid i mi; ond na ddioddefont hwy am fy mhechod i. Arglwydd gobrwya di eu hôll garedigrwydd hwynt iw mynwes, a gwnâ *iawn* iddynt lle na's gallwyfi, a gwnâ finneu'n dra-wllyſcar hyd y gallwyf, a gallu hyd yr wyf rwymedic: neu os dy 'wllys di yw fy nghyſtuddio trwy fy nal yn y cyflwr hwn, etto tâl y pwyth iddynt hwy rywffordd; fel yr ennillo gweddi dy wâs o'r lleiaf gael gennit dalu fy nyled mewn bendithion. *Amen.*

O Arglwydd Sanctteiddia di a maddeu i bawb ar a hudais i i ddrŵg, trwy fy ymadrodd neu fy ſiampl: hyffordddia di yn yr iawn lwybr y rhai a dynnais i ar gyfeiliorn, ac na âd i mi fyth yrru ymlaen y *ſcôr ddu* o bechod, eithr dilea di'r hôll ddrygau a wneuthym âg Yſpwrn dy ddioddefaint, ac â gwaed y Groes; a dyro i mi ddwys a godidoc Edifeirwch, a Maddeuant rhŷdd graſuſol, fel yr attebech droſo fi Arglwydd, ac i'm nerthech i ſefyll yn y farn, Canys ynot Ti, O Arglwydd,

yr

yr ymddiriedais na'm gwradwydder yn dragywydd. Toſturia wrthif a chyfarwydda fi, tywys a chynnal fi, maddeu i mi ac achub fi, er mwyn fy anwylaf Iachawdwr *Jeſu Grîſt. Amen.*

Gweddi tros ein Cyfneſeifiaid a'n Cymmwynaſwyr.

HOll-alluoc Dduw Ffynnon pôb daioni a godidowgrwydd i Ddynion ac Angylion, eſtyn dy ffafr helaeth a'th drugaredd i'm hôll *Garedigion*, a'm hôll *Gyfeillion* a'm *Cymmwynaſwyr*; gobrwya di a thâl yn helaeth iddynt am yr hôll ddaioni a gefais i trwyddynt *hwy* oddi wrth dy ddaionus Ragluniaeth *di*. Diſcleiried llewyrch dy wynebpryd arnynt, ac na ddêl bŷth arnynt na chyſtudd na Thriſtwch ond a fo er gogoniant i Ti, ac er Tragywyddol ddiddanwch iddynt hwythe'i. Maddeu iddynt eu hôll bechodeu, a chadwed dy Yſpryd duwiolaf hwy rhag pôb gweithredoedd y tywyllwch. Pâr i'th weinidogion yr Angylion eu hamgylchu hwy rhag pôb niweid yſprydion drŵg. A Thi'r hwn a wyddoſt bôb grâdd o'u Hangenrhaid hwy trwy dy *Ddoethineb*, o diwalla eu hôll ddiffygion o'th raſuſaf *Drugaredd*, gan gadw eu Cyrph a ſancteiddio'u Heneidieu â bendithio'u hôll Berthynaſau a'u harwain hyd Lwybrau Cyfiawnder, ac hyd Ddyfroedd Diddanwch, i Wlâd y Tragywyddol orphwyſtra trwy *Jeſu Grîſt* ein Harglwydd. *Amen.*

PEN. IV.

AM DDUWIOLDEB CRISTIANOGOL.

DUwioldeb yw y Rhann honno o'n dyledſwydd ni ſy'n perthyn yn yſpyſol i *Dduw*, ein gwaith ni yn ei *foli* ac yn ei *Addoli* Ef, yn *cydnabod* ei Odidowgrwydd, yn *caru* ei Berſon Ef, yn *mawrygſeddu* ac yn *clodfori* ei Ddaioni Ef, yn *Credu* ei Air Ef, ac yn gwneud Iddo bôb *Parch* ac anrhydedd trwy foddion priodol ac unſwydd. *Duwioldeb* y gelwir hi o achos mai'r dyledſwyddau ſy'n unic ac yn bendant tu ac at *Dduw* y mae *hi* yn eu cynnwys, ſef Gorchmynion y llêch gyntaf. Yn yr yſtyr hwn y didola S. *Paul hi* oddiwrth *Gyſiawnder* a *Sobrwydd*: ac yn yr un yſtyr yr egluraf finneu weithian ei rhanneu hi.

Am Weithredoedd o Dduwioldeb oddi mewn.

Gweithredoedd o *Dduwioldeb oddi mewn* y galwaf y rhei'ny a wnâ'r *Enaid* ei hun yn unic, wrth waſanaethu Duw yn y gweithrediadau yſpyſol o *Ffydd*, *Gobaith* a *Chariad perffaith*. *Ffydd* ſy'n credu datcuddiad Duw, *Gobaith* yn diſgwil am ei Addewidion ef, a *Chariad* yn tra hoffi ei Odidowgrwydd a'i Drugareddau ef. *Ffydd* a ddyry'n *dealltwriaeth* ni i Dduw, *Gobaith* a eſyd yr hôll *wyniau* a'r anwydau ar y Nêf a nefolion bethau: a *Chariad* a offrwm yr *wyllys* i'r gwaſanaeth i Dduw. *Ffydd* ſy'ngwrthwyneb i *Anghrediniaeth*, *Gobaith* i *Anobaith*, a *Chariad* i *Gaſneb* a Gelyniaeth. Ac mae'r *tair hyn* yn ſancteiddio'r hôll ddyn, ac yn gwneud ein dyledſwydd tu ac

at Dduw a'n hufudd-dod iw Orchmynion ef yn wafanacth *gwirfodd*, *hyfryd* a *rheſymol*, ac wrth hynny yn *gyflawn*, *yn barhaus*, ac *yn hollawl*.

DOSP. I.

Am Ffydd.

Gweithredoedd a ſwyddau Ffydd yw

Yn 1. Credu pob peth a ddatcuddiodd Duw yn ei Air, heb ymholi, eithr ymroi yn oſtyngedic gan wybod fod llawer o betheu'n anchwiliadwy i'th fâs ddealltwriaeth di.

Yn 2. Na chredech ddim am Dduw a'i [illegible]en nac *anrhydeddus* a *godidog*, gan wybod nad *parch* i Dduw mo'r ffydd a gredo ddim *ammarchus* am dano Ef: *Ffydd* yw mamm *Cariad*, a pheth bynnac a gofleidio *Ffydd* rhaid bod yn hoff gan hwnnw genhedlu *Cariad* ar Dduw. Ond yr hwn ſy'n credu fod Duw yn *greulon* ac yn *anrhugarog*, neu yn llawen ganddo *ddîr* ddamnedigaeth y rhann fwyaf o'r byd, neu a ddywetto un peth a thybio peth arall yn ddirgel, mae e'n meddwl petheu drŵg am *Dduw*, o'r fath ac a wnai *ddyn* yn gâs gennym; mae hyn yn elyn i *Ffydd* am ei fod yn llâdd *Cariad*. Rhaid i ni *ffyddio* am Dduw wrth fel y datcuddiodd ac y dangoſodd ef ei hunan ei odidowgrwydd ei hun, ac wrth ymreſymmu na fwriwn arno ddim amherffeithrwydd, eithr cyfrif iddo bôb godidowgrwydd.

Yn 3. Ymoffrwm yn hollawl i Grift mewn *calon* a *dymuniant* i fôd yn ddiſcybl iw Athrawiaeth ef o'th *wirfodd* (cyſtal a *thrwy raid*) a bod yng'ŵydd *Duw* megis *Gwirion*, hynny *yw*, heb ddim o'th ddoethder dy hun i wrthwynebu Gwirionedd Duw, eithr ŷf yn chwannog y cwbl a ddyſcodd Duw, a chrêd e'n hollawl ac ymhoffa yn ei gredu.

Yn 4. Credu holl *Addewidion* Duw, ac y cyflawnir pob

peth

eth a'r a addawodd y Scrythyr o ran Duw, cyn iccred a phettit eusyo meddiannol o hono. Gwnâ yn i tì hyderu ar Dduw cyn hyfed ac yr hyderit ynt ar dy Rieni, pryd nad amheuit gael dim a ai raid i ti a phosſibl iddynt hwy.

Yn 5. Credu hefyd *Ammodau* 'r addewid, neu y hann honno o'r Scrythyr a berthyn i'th ddyledſwydd. Hoff iawn gan lawer gredu 'r Pwnc o *Paddeuant echodau*, ond heb gredu 'r ammod o *edifeirwch* a rwytheu *Buchedd ſanctaidd*: hynny yw, credu'r pwnc n y gwrthwyneb i amcan Duw. Canys gwrthdrych *a Phennod* ein *Ffydd* ni yw *Cyſammod yr Efengyl*, c mae hwn yn bwriadu ac yn gosod ein *Dyledwydd* ni ynghyfer ei *ffafr yntef*, y bydd Duw yn Dduw *i ni* tra bôn ninneu yn bobl *iddo ef*. *Nid Ffydd 'r llall* ond Gweniaith.

Yn 6. *Proffesu ar osteg* Athrawiaeth Jesu Grist gan yfaddef ar gyhoedd beth bynnac a ddatcudd hodd neu a orchmmynodd *Ef*, heb fod yn gywilydd ennit ei Air ef, na dim o'r Arferion a orchmynnir nddo; a hynny yn ddibartîaeth heb briſio mewn afr na geirieu têg, heb ofni dirmyg, na cholled, nac nghyfleusdra, ie na marwolaeth chwaith.

Yn 7. Gweddio heb *ammeu*, heb *flino*, heb *ymollwng*, eb na drwg-dybio na gwan-goelio dim am Dduw, eithr bôd yn hyderus fod Duw yn dy wrando, c mai graslawn a thrugaroc fydd ei atteb ef os wnei di dy ddyledſwydd beth bynnac, neu pa fodd ynnac yr attebo.

Mae'r *Ffydd* hon mewn amryw raddau yn ngweiion *Jeſu*, nid yw hi gan rai ond megis gronyn o aid mwſtard, mae rhai yn tyfu yn blanhigyn, a hai i gyflawnder Ffydd: ond rhaid i'r Ffydd leiaf r ſydd fôd cyn gryfed a gwneud i ni fynd an gyflawni 'r hôll ddyledſwyddeu a adeiladodd *Ca* ſail Crediniaeth. *Eithr* goreu y gwybydd

a oes gennit wir *Ffydd* wrth yr Arwyddion hy
Tair a gyfrifai S. *Hierom.*

Arwyddion o wîr Ffydd.

Yn 1. Gweddi *daer* a *durfing*; Canys amhossi
i ti ddwys gredu gogoneddus bethau Duw a'r *Esen*
ac na thaer ddeisyfiech hwynt. O blegit wrth fel
Credech di odidowgrwydd y peth a'i bossiblrwydd,
bydd dy chwant ti iddo.

yn 2. Na wnelech ddim er gwâg-ogoniant, o
yn hollawl er mwyn *Cresydd* a'r *Pynciau* hyn yr w
ti'n eu credu, heb prisio dim mewn molach dynio
eithr yn nghlôd Duw i'r hwn trwy *Ffydd* y rhoi
dy holl Ddealltwriaeth.

Yn 3. Ymfodloni i gymeryd Duw yn Farnw
yn Geidwad, yn Arglwydd ac yn Gyfaill, gan dde
syfu fod Duw oll yn oll ynot, megis yr wyt tith
yn hollawl eiddo yntef yn dy wynieu a'th gynneddfa
Chwanega at y Tair hyn.

Yn 4. Bod yn ddieithrol ar y ddaiar yn dy d
eddfryd a'th holl feddyliau, a'th Chwanteu mwyaf
fatterion *Ffydd* a nefolion bethau. O herwydd pe d
wisei'r Brenhin di yn Etifedd iddo, diammeu (os maw
gredit fod hynny yn wîr dilys) ti a ddiystyrit
gyfiwr presennol, a byddei dy *flys* yn gynt na'th *fr*
prysuraf i gyrchu at dy Dâd i'r Brenhinllys, a'th hô
feddyliau a'th fwriadeu a'th ddeisyfiadeu yn rhed
ar dy Oruchafiaeth newydd. Wele ynteu gwnae
BRENHIN y brenhinoedd di yn etifedd iw Dey
nas, yn gyd-etifedd âg *Iesu*; pe credit hyn, ti a ro
dy frŷd a'th hoffder a'th ymgais arno. Ond os wyt
yn *ymhyfrydu* mewn budrelw a'th galon ar y *by*
ac ar dy feddiannau têg, od wyti'n ymddigrifo
lawenydd *trancedig*, od yw Colledion yn dy ana
a byrr erlid yn dy wallcosi, os yw dirmyg neu dl
di ar achos dâ yn bêth anoddef gennit, nid oe
ti'r un etifeddiaeth yn y Nêf, neu nid wyt ti e

yn coelio fod, nac yn credu ddarfod dy wneud yn ſáb i Dduw ac yn Etifedd Gogoniant annherſynol. Ond *Yn* 5. Arwydd S. *Iaco* yw'r oreu, *Dangos i mi dy ffydd trwy dy weithredroedd.* Ffydd a wna'r Marſiandwr yn ddiwyd ac yn ddiarſwyd a hynny a'i gwneiff e'n gyfoethog. Credodd Brenin yr *Hiſpaen* y chwedl a ddyweid *Columbus* wrtho, ac am hynny fe a'i ffwrneiſiodd ef â llongau i'r daith ac wrth ei *ffydd* yn *Columbus* fe a gyrhaeddodd y Gorllewin fŷd. Ond *Harri*'r ſeithfed o *Loegr* ni's credodd, ac ni ymddiriedodd i longwriaeth *Columbus* am hynny yntef a gollodd bwrcas y ffydd honno. Dyweid Criſt i titheu [*A faddeuo ſe faddeuir iddo*] pe credit hyn diammeu y maddeuit i'th elynion, o blegit mae ar bawb flŷs ac eiſieu maddeuant. Nid poſſibl i ni ddibriſio na bod heb ddeiſyfu 'r fâth odidoccaf betheu gogoneddus ar a ddatcuddir i weiſion Criſt, ac etto nid ŷm ni yn gwneud dim o'r *ammodau* at eu cael hwy. Nid oes nêb yn credu ond a wnêl yr hyn a wnai arall a fai yn credu ar gyffelyb achos. O chreda dyn fod ennill arian trwy berygl yn well na thlodi diogel, ef a anturia am dano trwy diroedd a moroedd dieithrol; ac felly y gwnâ'r hwn ſy'n credu mai gwell yw mynd i'r Nêf trwy lafur, nac i Uffern trwy ddifyrrwch.

Yn 6. Nid yw'r hwn *ſy'n credu yn pryſuro*, eithr yn diſgwil yn ymarhôus hyd oni ddêl *yr amſeroedd i Orphwys*, efe a feidda hyderu ar Dduw am drannoeth, âc nid ymofala am y flwyddyn neſaf ronyn mwy nac am y llynedd. Diammeu nad oes dim *ffydd* gan y gŵr a feiddio fod yn ſiccrach o'i fywioliaeth pan fo ei arian yn ei gôd nac wedi iddo'i ddanfon i Dduw trwy ddwylo'r tlodion; na chan y gŵr a hydero fwy ar ei ddiwydrwydd a'i gelfyddyd ei hun nac ar Ragluniaeth Duw pan ballo'r gelfyddyd honno. Os llyfeſi hyderu ar Dduw pan fo'r peth yngolwg dyn yn amhoſſibl; a

hyderu hefyd o'th wirfodd ac nid o ran nad oes dim arall gennit i hyderu arno, dyna di'n rhoi tyſtiolaeth dda o'th *Ffydd.*

Yn 7. Mae *gwîr ffydd* yn *hyderus*, ac a anturia'r hôll fyd yn nerth ei chrediniaeth. A roi di dy feddiannau, dy enw dâ, dy hoedl ar fod athrawiaeth IESU GRIST yn wîr ymhôb pwnc? yna mae gennit *Ffydd.* Ond yr hwn a ofno ddynion yn fwy na Duw, mae e'n *Credu* yn nynion fwy nac yn Nuw.

Yn 8. Lle bo *gwîr* a bywiol *Ffydd* yn cyfiawnhau rhaid bod yno *ſuchedd* dda: mae *ffydd* yn gwneud gwyrthiau, gan droi'r meddw yn ſobr, a'r anllad yn ddiwair, a'r cybydd yn haelˆ; mae *hi'n* gorchfygu'r byd, yn *gwneuthur cyfiawnder*, ac a'n gwnâ ni yn ddiwyd i wneuthur, ac yn barod i ddioddef beth bynnac a a oſododd Duw ar ein ffordd ni i'r Nêf.

Y Moddion a'r Arfeu i ynnill Ffydd yw,

Yn 1. Meddwl goſtyngedig, 'wyllyſcar a hyddyſc, neu chwant i ddyſcu ffordd Dduw; o blegit yn araf dêg fel pelydr yr haul y daw crediniaeth i mewn, ac nid mewn rhôch; nid rhaid i ti ond egor y ffeneſtr, a thynnu'r llenn, a goleuiff *Haul y Cyfiawnder* dy dywyllwch di.

Yn 2. Gochel bôb *rhagfarn* a drwgddŷſc, a hoffder ar ddim gwrthwynebol i *Ffydd. Pa fodd y gellweh chwi credu ſy'n derbyn clod gan ei gilydd?* ebr Criſt. Anhawdd dwyn *yr anllad* i gredu na chaiff e' byth heb *purdeb weled* wyneb *Duw.* Braidd iawn y crêd y *Cybydd* yr athrawiaeth o *Ymwrthoit â'r bŷd.* Ac nid yw *Eluſen* na *Merthyrdod* a ffordd *y groes* ond ynfydrwydd gan y ſawl ſy 'n caru ei *eſmwythyd* a'i *bleſeran.* Yr hwn y bo ynddo un gwreiddyn gwrthwynebol i *athrawiaeth Ffydd* bydd anhawdd iddo fynd yn ddiſcybl.

Yn 3. *Gweddi* yr hon ſy'n help i bôb daioni a gafas addewid

addewid yſpyſol yn hyn o beth. *O bydd ar nêb eiſieu Doethineb gofynned gan Ddiw*, ac *os chychwi a ſedrwch roi rhoddion da i'ch plant, pa faint mwy y rhydd eich Tâd* nefol *yr yſpryd i'r rhai a ofynnant ganddo?*

Yn 4. Myfyrio ar *Hollalluogrwydd* Duw a'i *Ddoethineb* anfeidrol êf, a'th anwybodaeth ditheu ſy'n help dda at iachau pôb amheuaeth a diſtewi pob ſibrwd *angrhediniaeth.*

Yn 5. Gochel bôb *mannl chwilio* a hylldremio ar ranneu ac amgylchion *Dirgeledigaethau.* O blegit mae *gwîr Ffydd* yn llawn bonheddigeiddrwydd a difaleiſrwydd calon, yn ſynhwyrol ac yn hŷf yn hyderu ar betheu 'n *gyffredinol*, yn lle ſelu ac *yſpio* i betheu *neilltuol*, afraid ac anchwiliadwy. Ni chwîſc nêb allan yn y maes i ofalu pa fodd y bo'r ŷd yn tyfu, eithr hyderu ar *gyffredin* gwrs Rhagluniaeth; a'r cynhauaf ni wêl moi ſiommi.

Yn 6. Yn amſer profedigaeth na fydd rŷ bryſur i ymreſymmu, eithr ymſwrw ac ymollwng ar Dduw ac na ymryſon âg ef mewn dim ond mewn gweddi, ac os yngynnyg i ti yn dy wendid mwyaf ryw *newydd goelion* gwrthwyneb i'th *grediniaeth* pan fŷch oreu'n dy ſynwyr, bydd ſiccr o'i cyfrif yn demtaſiwnau, a'u gwrthod megis cyfryw.

Yn 7. Ffordd ſynhwyrol oedd i ti yn dy iechyd a'th hawddfyd gaſclu tryſor o reſymmau yſpyſol, ac o *Arfau Crediniaeth a hyder* erbyn Dydd mawr yr angenrhaid iw dwyn allan; a hynny yn enwedic yn y pethau y bŷch cynnefinaf o gael dy demtio, ac ſy angenrheitiaf, ac ymhâ rai y bô leiaf dy hyder ac y bo Diawl ſynychaf yn rhuthro arnat yn Nydd dy ymweliad.

DOSP. II.

Am Obaith Criſtion.

Y rhagor ſy rhwng *Gobaith* a *Ffydd* yw bod *hon*

yn helaethach ei *gwrthddrych* ac yn ddwyſach ei *grâdd*. Gwrthddrych *ffydd* yw *pob peth ar a ddatcuddinyd* dâ a drŵg, gwobrau a choſpedigaethau, petheu ſy, y fu, ac y fydd, petheu a berthyn a phetheu na pherthyn i ni ddim; Eithr nid yw *Gobaith* â'i golwg ar ddim ond pethau *dâ* a chymwys iw gobeithio, petheu i *ddyfod*, a phethau yn *perthyn i ni'n hunain*. Ac o herwydd na chynnygir y petheu *hyn* i ni ond ar *ammodau* cyn hawſed eu torri, ac yw i ninneu droi'n meddwl, am hynny nid yw *Gobaith* ſy'n ſefyll ar dy ymddygiad ti cyn ſiccred ac yw diyſcog *afaelion Ffydd* ſy'n ymgynnal wrth air Duw, Bod Nef i'r duwiol ac i titheu yn eu plith hwy o gwnei dy ddyledſwydd, yw gwrthddrych dy *ffydd*, ac y mae'n ſiccr ddiammau; Ond y cei di'r Nêf nid dy *ffydd* yw hynny eithr dy *obaith*, ac nid yw ddim ſiccrach nac y bo dy ddyfal-barhâd ti yn ffyrdd Duw.

Swyddau Gobaith yw

Yn 1. Rhoi d'oglud ar Dduw a hyderus ddiſgwil ei Addewidion ef, gan edrych fyth ar bob addewid Duw megis tryſorgell o'r holl râs a'r cymmorth a all fod arnat ei eiſieu, yn y peth y bo'r *addewid* iddo. *Mae pob grâdd o obaith yn râdd o hyſder.*

Yn 2. Peidio ac edrych ar ddim peryel nac afrwydd-deb a ddigwyddo megis pall o ran Duw, ond naill ai yn *drugaredd* o'i rann ef, ai yn fai o'th rann di: Canys yna y byddi ſiccr o ymddiried yn Nuw pan welech mai Ef yw dy *Hyder*, ac mai ti dy hun yw'r achos o bob aflwydd. *Mae Gobaith Criſtion yn gall ac yn Grefyddol.*

Yn 3. Llawenhâu ynghanol aflwydd ac *enw* triſtwch, gan wybod y gall hyn droi yn ddaioni ac y gwnâ hefyd oni fydd y byrder arnati i'th enaid. Hyn yw pen ſwydd *Gobaith*, canfod trwy'r cwmmwl ac edrych am belydryn o oleuni oddi wrth

Dduw

Dduw; a hyn a eilw'r Scrythyr *llawenhau mewn Cyſtudd*, pan ſo *Duw 'r gobaith yn ein llenwi ni a phob llawenydd trwy gredu. Mae pôb grâdd o Obaith yn dwyn grâdd o lawenydd.*

Yn 4. Deiſyfu, gweddio, a hiraethu am wrthddrych mawr ein *Gobaith*, uchel gamp ein Galwedigaeth, a dymuno *petheu'r bywyd hwn* dim ond fel yr addawyd hwynt, ſef, hyd y bônt angenrheidiol a buddiol i ni at Ogoniant Duw, a *Phennod* fawr ein Heneidiau. *Gobaith* ac *Ymbryd* yw dwy aſcell *Gweddi.* Nid yw *Ymbryd* ond megis aden Aderyn, ond mae *Gobaith* fel aſcell Angel, yn dwyn ein gweddieu i entrych Nêf hyd at Orſeddfa'r Grâs. Heb *Obaith* amhoſſibl yw gweddio, ond ſe wnâ Gobaith ein gweddiau yn rheſymmol, yn draſerchoc a chrefyddol. *Fel y bo dy Obaith o ſaint felly* y bydd *awyddfryd a hoffder dy Weddieu.*

Yn 5. *Dyſal-bara* yw 'r ffrwyth a'r ſwydd olaf o *Obaith*; cyhyd ac y parhâo dy *Obaith*, yr un hŷd y pery dy ddiwydrwydd yn dy ddyledſwydd. Canys pwy a gychwyn beth oni bydd e'n gobeithio cyrraedd diben a gwobr ei waith?

Rheoleu i lywodraethu dy Obaith.

Yn 1. Bid dy *obaith* yn *gymmedrol* yn gydweddol â'th *râdd* â'th *berſon* ac â'th *gyflwr*, os am roddion neu raſau, neu os am fendithion bydol. Gobaith *drahaus-falch* yw i rai y bo eu diwydrwydd fel y rhai ſy leiaf yn Nheyrnas Nef ddiſgwil y cânt cyfuwch eiſteddle a *S. Paul* neu'r fendigedic *Fair* forwyn, Nid cymmedrol i Geibiwr obeithio mynd mor ddyſcedic a *Selyf ddoeth*, nac i gardottyn ddiſgwil canpunt yn y flwyddyn. Gobeithia di y bendithia Duw dy lafur â chyfran gymmeſur o'r gwobr y mae e'n ei roi yn rhodd ac yn rhâd, ac etto'n ei

roi

roi yn ôl ein *cymmwyſdra* ni. Gobeithia am ffynniant yn ôl grym yr achos a'r moddion, neu ychydic tu hwnt i hynny. Gobeithied yr Arddwr am gynhauaf da, nid am Frenhiniaeth dêg neu am oreſcyn teyrnaſoedd.

Yn 2. Sylfaena dy Obaith yn dda â'i phwys lle gallo hyder, ſef ar Dduw yn *ôl ei addewidion*. Canys mae'n boſſibl *i* Obaith ar Dduw fod yn ofer: ac ym marn *Creſydd* rhyfyg yw gobeithio tamchwêydd o raſau a thrugareddau Duw ar ddynion diowgſwrth a diowgrym at fyw yn ſanctaidd, ofer yw diſgwil *diben* croes neu wrthwyneb i dueddiad y *moddion*. Ofer i ti ddiſgwil mynd i *Lundain* tra bych yn ymlwybran ac yn wynebu tu a *Chaer-Gybi*. Mae pôb camdŷb mewn Creſydd fel Corſen yr *Aipht* yn dwyllodrus ac yn beryglus. Na hydera mewn petheu bydol ar *goelion* a *daroganeu*, nac ar dy lewdyd a'th ddiwydrwydd dy hun, nac ar Arian nac ar Geraint, nac ar Grefft na Chelfyddyd: etto arfer bôb moddion cyfreithlon, ond na *hydera* arnynt ddim pellach na'u grym naturiol ac arferol, ac wrth eu harferu ar Dduw y diſgwili am y fendith. Nid yw *gobaith* yſcafn hygoel ond braich o gnawd, attreg drŵg heb aſcwrn.

Yn 3. Bid dy *obaith* heb *goegni* na *rhodres* yſpryd, eithr yn ſobr, yn bwylloc ac yn ddiſtaw; bydded yn dy galon nid ar flaen y tafod, yn addas i gynnal dy yſpryd *oddi mewn*, nid i godi cenfigen *oddi allan*.

Yn 4. Na obeithia ond am betheu *poſſibl*, *diogel*, a *Heſol*. A obeithio am gyfle i wneud godineb neu ddial neu yſpail, gobeithio am odfa i wneud mowrddrŵg iddo'i hun y mae. Pob *drwg* i ti dy hun neu i'th frodyr, petheu iw *hofni* nid iw *gobeithio* yw rheini.

Yn 5. Bid dy *Obaith* yn *ymarhous*, heb flino na phryſuro i bennu *amſer*. Na oſod ddim terfynau na phennodeu i Dduw, eithr dôs ymlaen yn dy weddiau a'th lafur tan ddyfal ddiſgwil ar ddibennion

ddibennion *Rhagluniaeth* Duw. Bwriadodd gwŷr *Bethulia* na ddiſgwilient wrth Dduw ond pum diwrnod ymhellach, ond ni ddaeth yr ymwared tan ben y ſeithfed, ac er hynny hi a ddaeth.

Na chymmer bôb croes-ddamwain yn achos o anobaith, eithr dôs di ſŷth rhagot tan obeîthio, ac o digwyddodd i ti rwyſtr dechreu'r gwaith o newydd.

Arfeu i ynnill Gobaith, a chynghorion rhag Anobaith.

Ymoddion i iachâu anobaith ac i gadw a chynnyddu *Gobaith*, a geir rai trwy *Fyfyrdod* a'r lleill trwy *Ymarfer*.

Yn 1. Dyro dy fryd ar iachau holl briod *achoſion* Anobaith, a rheiny yw *gwendid yſtŷd* neu *gryſder gwŷn*. A ſo *awyddus* yn chwennych, a fydd *anoddefus* i ymaros, ac *anobeithiol* os croeſir ef: a'r ſawl ſy wann ei galon mae e'n wann ei obaith, ac yn hylithr i brudd-der ac *Amheuaeth*.

Yn 2. Dibriſia betheu'r byd hwn, a bydd ddifatter yn hôll droieu a digwyddiadau Rhaglunaeth. Ond am betheu Duw ti elli fod yn ſicer y cyflawnir yr addewidion. Ond os rhoi di dy obaith ar ddim o betheu'r byd yma, fe a balla'n fynych dy ddiſgwiliad, a thitheu trwy'r cyfryw goeg dwyllodrus obaith a gynnefinir ac a dywyſir i *Anobaith*.

Yn 3. Cyd bô dy obaith wrth reol a rheſwm, ie mewn matterion *bydol*, megis Ymwared rhag d'elynion, Diangfa o dymmeſtl, Eſcor o glefyd, moldd i dalu dy ddyledd, &c. Gwybydd fod rhai petheu cyffredin a rhai anghyffredin rhag *Anobaith*. Yn *gyffredin* gwybydd fod yr *ymddiried* yn Nuw yn anwyl ganddo, ac yn fodd i gael y fendith. [*mi ai gwaredaſ ef am iddo ymddired ynoſ.*] *Yn ail* mae yn Nuw y fath briodoliaethau gogoneddus a godidog ac a

allei

allei wrth natur godi a chadarnhau Gobaith ynot. Mae Duw 1. yn *grŷſ*, 2. yn *ddoeth*, 3. yn *Eirwir*, 4. yn *garedic*. Ni all ac ni raid un briodoliaeth arall i greu hyder oblegit nid poſſibl trwy 'r rhain fethu cael dim a fo gweddol i ni. *Yn drydydd*, Fe ymrwymodd trwy addewid y caem ni 'r *daioni* o bôb peth a ddeiſyfiom? canys colledion hefyd a nâg a weithiant ôll er *da i'r rhai a ofnant Duw*. Ond *anghyffredin* a rhyfeddol betheu Duw, mae rheiny yn ddigonol pan gollo pôb poſſiblrwydd naturiol. 1. Rhoes Duw rym rhyfeddol at *weithio*, megis i *Sampſon* â charr gên lâdd lliaws, ac i drychanwr lâdd byddin. 2. Rhoes hefyd *ddioddefaint* rhyfedd, a nerth i'r Dioddefwyr, gan eu harfogi â chalondid godidoc, gwroldeb rhagorwych, llownfryd anorchfygol, ac amynedd gogoneddus; ac wrth hynny nid yw e'n goſod dim arnom ond a allom ei ddwyn, canys pan chwanego 'n dioddefaint mae e'n ei leihau trwy chwanegu 'n amynedd ni. 3. Mae ei Raglunaeth yn dwyn allan betheu rhyfedd tu hwnt i'r *cynneſin reolau*. Y gŵr a dwyſodd *Iſrael* trwy fôr ar draed, ac a alwodd ddwfr o'r Clogwyn, a bara a chîg o'r Nef iddynt, y gŵr a wnaeth i gaereu dinaſoedd ſyrthio ac i fyddinoedd cyfan drengu wrth floedd a ſŵn gwâg; a all wneuthur a fynno; ac mae'r un cariad ganddo etto iw bobl a'r un Rhagluniaeth troſtynt ac oedd ganddo erioed. Ac amhoſſibl i hwnnw anobeithio fy'n credu fod ei Helpwr yn Holl-alluoc ac yn gallu gwneud a fynno. Fe *all* ti weli os *mynn*. Tyred rhagot a gwêl ei fôd e'n anfeidrol o *Garedigrŵydd*, ac felly yn ddigon wyllyſcar hefyd: ac mae e'n *ddoeth* anfeidrol yn dewis yn well troſoti nac y medriti troſot dy hun. Hyn ymhôb oes a digwyddiad a gynhaliodd holl gyffuddiedic bobl Dduw. ac a'u dûg *hwy* i'r lann allan o Fôr côch. Mae Duw yn

gwahodd

gwahodd ac yn achleſu *gobaith* dynion trwy ddangos pob *dieithr* yn ei Ragluniaeth iddynt.

Yn 4. Os daeth dy gyflwr i'r adwy waethaf a'th ſôd ar ymmyl y pwll, ar fîn y bêdd, etto nac anobeithia; o'r lleiaf oeda dippyn hwy, a gwybydd pa ddiben-loes bynnac ſy'r awron yn dwyn oddi arnat bob *gobaith* od arhôi ronyn hwy a'i ddiodde'n dêg yn y cyfamſer, y dwg hi bob *anobaith* hefyd oddi arnat. Canys pan elech i derfynau Angeu ti gei orphwys oddiwrth dy hôll lafur a'th ofn.

Yn 5. Y ſawl a demtier i *anobeithio* i *iechydwriaeth*, yſtyried faint a ddioddefodd *Criſt* i'n prynu oddiwrth *bechod* a'i *gôſp* dragwyddol, a ddwys yſtyrio hyn rhaid iddo weled nad oedd 'wllys Duw i'n hachub ni ddim llai nac anfeidrol, ac wrth hynny nad yw hawdd mo'i ſodloni yn ſeuthug.

Yn 6. Nac anobeithied nêb o faddeuant Duw onid yw e'n ſiccr ſod ei bechodau ef yn fwy na thrugareddau Duw. Os nid ydynt mae i ti lawer o reſwm i obeithio mai'r defnydd cryfaf a geiff y mâes, tra bŷch di mewn amſer a chyflwr Edifeirwch, ac o fewn poſſiblrwydd llêd y Cyfammod, a thra gallo un *Addewid* gymaint a chil-dywynnu arnat ẽ yſtlys pelydryn o gyſſur. Ni hwyrach dŷ ſod yn barnu'n rhydda o'th gyflwr am hynny *ofna*, Duw nid yw hynny ddim yn hyſpys am hynny na *anobeithia*.

Yn 7. Cofia mai i *Ynfydion* ac i *Ddiffeithwyr* ſceler megis [*Ahitophel* neu i *Suddas*] neu i Ddrawſiaid a dynion damnedic y perthyn *Anobaith*, Ac fel y mae'r *Gobaith* o *iechydwriaeth* yn gychwynſa dda tu ac atto, felly mae *anobaith* yn rhagnod hyſpys i dragwyddol ddeſtryw. Fe all dyn fynd yn gollediga-

anobeithio

anobeithio bod yn gadwedic. Gwŷn briodol i *ddamnedigaeth* yw *Anobaith. Rhoes Duw Wirionedd a Gwynfyd yn y Nef, Manylgais ac edifeirwch ar y Ddaiar, ond Trueni ac Anobaith yw cynnyſcaeth Uffern.*

Yn 8. Hel ynghŷd i'th enaid ac iw dryſordy [y *Coffadwriaeth*] hôll *addewidion* Duw, a hefyd dy hôll *brawf* ditheu o'i fwynderau ef gynt, ac ymreſymma oddi wrth yr amſer a aeth heibio at yr amſer ſy i ddyfod, ac at fendithion mwy. Canys er nad yw *Gobaith* cyn gadarned ſiccred a *Ffydd*, etto mae hitheu'n helm rhag anhyder mewn petheu *bydol*, ac yn angor diogel i'r enaid rhag pob ſawd a chythryfwl calon mewn matterion yſprydol. Mae S. *Bernard* yn cyfrif holl *prîf-ſylfeini Gobaith* trwy rifo amryw ſiamplau o drugareddau Duw. Ac ninneu a allwn wrth y rheiny wneud y Rheolau hyn iw harferu wrth ein rhaid, fel hyn. 1. Cadwodd Duw fi rhag llawer o bechodeu, mae ei drugareddau ef yn anrhif, mae 'ngobaith y ceidw fi rhag ychwaneg, ac byth. 2. Pechais ac ni tharawodd Duw mon-ſol, mae ei drugareddau ef byth ar yr edifeiriol; gobeithiaf y gweryd fi rhag yr hôll ddrygau a haeddais. Maddeuodd i mi lawer o bechodeu *maleiſ-ga*, am hynny fe a doſturia'n ſiccr wrth fyngwendid i. 3. Ymwelodd Duw â'm calon ac a'i troes. Hôll ganddo ef waith ei ddwylo'i hun, ac felly y mae naturiol i'r awron, 'r wy'n gobeithio yr hoffa fe *hon* hefyd. 4. Pan edifarheais fe a'm derbyniodd i yn raſuſol, ac am hynny mi obeithiaf oſ gwnafi fyngoreu y maddeu ef *yn hollawl* i mi. 5. Cynnorthwyodd fy nechreuadau hwyrdrwm i, ac am hynny mae ngobaith y tywys efe fi i berffeithrwydd. 6. Wedi iddo roi i mi ychydig ar y cyntaf, yna fe a roes i mi ychwaneg: gobeithiaf wrth hynny y ceidw ef fi rhag ſyrthio ac y dyry i mi'r gras o ddyfalbarhâd. 7. Dewiſodd fi i fod yn ddiſcybl o

ſt, gwnaeth fi yn etholedig i Deyrnas ei *râs*, ac
hynny gobeithio y byddaf i Deyrnas ei *Ogoniant*.
Fe ſu farw droſoſi pan oeddwn elyn iddo, am
nny gobeithiaf yr achub ef fi wedi iddo 'nghym-
odi âg ef ei hun. 9. Rhoes Duw i ni ei *Fâb, pa fodd*
d âg ef na ddyry ef bôb peth i ni? Crynhoe S. *Bern-*
d y cwbl tan y tri phen hyn. *Yn* 1. *Cariad* Duw
ein *mabwyſo* ni; *Yn* 2. *Gwirioneddau* ei addewidion
Yn 3. Ei *allu* ef i gyflawni: Pwy bynnac a ddwys
tyrio y rhai'n, ni all un gwendid na chroes
rri ei *Obaith* yn friwſion anweledic, na bô ganddo
i cryn yſtyllod wedi'r dymmeſtl a'r llong-ddrylliad
rwinaf. Dyma erfyn S. *Paul* [*Prawf a genhedla*
aith, a Gobaith ni chywilyddir.]

Yn 9. Gofala di am dy ddyledſwydd ac am
ddion ac arfeu priod at dy bwrpas, a gâd ar Ddduw
diben, gorchymmyn hwnnw iddo Ef, ac efe a
mmer ofal am bôb pêth a ymddirieder iddo.

Yn 10. O daw rhuthr o *Anobaith* fydol arnat
n ryw beth perthynol i'r *corph*, gochel adel *iddi* naw-
at dy enaid, nac ymgymmyſcu dim â'th fyfyrd-
au yſprydol. Ond yn hytrach dyſced i ti gadarnhau
enaid mewn Duwioldeb a Chreſydd, a gobeithio'n
yſfach yn dy *gadernid yſprydol* pa mwyaf y ſoom-
er di yn dy *hyder daiarol, fel* yr êl Anobaith o
yddiant bydol yn angenrhaid o bôb rhinwedd yſ-
ydol.

DOSP. III.

Am Gariad perffaith neu Serch ar Ddduw.

Ariad yw'r peth anwyaf a ddichon Duw roi i ni.
Canys *Cariad* yw Duw ei hun: a *chariad* yw'r peth
wyaf a'r a allwn ninneu roi i Ddduw am y dyn
humain â'n hôll eiddo. *Rhwymyn perffeithrwyda*
ddi yr Apoſtol, *Cariad* yw *Calon* Orchymyn
Cariad

newydd a'r *mawr*, ie *Cariad* yw'r holl Orchmynion, ſef *cyflawnder y Gyfraith*. Gwneiff *Cariad* waith yr holl *Raſau* eraill heb ddim help ond ei briod rinwedd ei hun. O herwydd megis y gwnâ *ſerch ar bechod* i ddyn bechu yn erbyn ei holl reſwm a'i ſynhwyr ei hun a chynghorion ei gyfeillion; a hynny heb profedigaeth na chyfle: Felly y gwnâ *Cariad ar Dduw* o'r tu *arall*, fe a wnâ ddyn *yn ddiwair* heb nac ympryd na garwder corphorol *yn gymmedrol* ynghanol Gwleddoedd, ie mae *Cariad* yn fywiog ddigon heb ei ddobri, ac â'i freichieu'i hun yn unic mae e'n cyrraedd *Gogoniant* trwy galon *grâs*. Grâs yw *hwn* a bair i ni *garu* Duw erddo'i hun, a'th Gymmydog er Duw. Gweled daioni Duw ai haelioni, a phrawf o'r lleſol a'r odiaethol ffrydieu a ddylifant beunydd oddi wrtho, hyn fynychaf a bair ddechreu ei garu Ef. Ond pan neiâech *gyntaf* i mewn a chael blâs ar ddaioni Duw, yna ti geri'r Ffynnon er ei mwyn ei hun, yna ti a ei rhagôt o *wŷn i reſwm*, o *ymreſymmu* i *addoli*, o'r *ſynhwyreu* i'r *Enaid*, o wynebu attat dy hun i gymmundeb â Duw; ac dyma ddrŷch neu gîl golygiad ar y *Nef*, dyma *ddelw* a *llûn* Gwynfyd, neu yn hytrach dyma *febyd* a *gwawr* Gogoniant. Afraid i mi hel neiriſ o gynhyrfiadeu i'th annog i garu Duw am nas gelli garu dim arall trwy wîr na rhîth achos, na bo'r achos *honno* yn *Nuw* yn enwoccach o anfeidrol. Dau beth a grea *gariad*. 1. *Perffeithrwydd*, a bair i'r carwr ei *fawrhau*. 2. A *lleſoldeb* a bair iddo'i *ddeiſyfu*. *Mawrhau* a *deiſyfu* yw calon *cariad*. I wneud i ti ynte'i *fawrhau* mae yn *Nuw* Natur annherfynol. Anfeidroldeb heb na medr na meſur, Anghyfnewidioldeb, Tragywyddoldeb, Hollalluogrwydd, Holl-wybodaeth, Sancteiddrwydd, Llywodraeth, Rhagluniaeth, Haelioni, Trugaredd, Cyfiawnder, *Perffeithrwydd* ynddo'i hunan, &c. Ef yw'r Diweddnod y dylei bob peth a phôb gwaith gyfeirio atto a therfynu ynddo. Helaethir

hefyd

hefyd y Myfyrdod hwn od yftyri y *rhagor* a'r pellder fy rhyngot *ti* a'r gogoneddus betheu hyn. O mor fychan, mor ddarfodedic, mor ddiddim wyti! dy anwadalwch fel y gwynt, dy oedran fel rhychwant, dy wendid a'th dlodi, dy hurtrwydd a'th anyftyriaeth, dy anallu a'th anwllys i ddaioni, dy ddrygnaws erwin a'th athrylithr annhrugaroc, dy hollawl anwiredd, dy anghenion a'th pwys nid yn unic ar Dduw ond hefyd a'r y gwaelaf o i greaduriaid ef, a'th fod tan berygl y gwannaf a'r diyftyraf o honynt. Ond yn *ail* i wneud i ti *ddeifyfu Duw*, y'yr fod ynddo Eigion *o ddifyrrwch* i'r moethus, Ffynnon o *anhrydedd* i'r uchelgais, a *Thryfor diwaelod* i'r chwannog. Yr wyt ti mewn cariad â *chyfcodion* difyrrwch ac â gwâg eulyn Perffeithrwydd, y rhai nis ceir monynt yn *wîr* ac yn *fylweddol* yn unlle ond yn Nuw.

Swyddau Cariad a'r Dduw yw y rhain.

Yn 1. Gwneiff *Cariad* bob pêth at *fodloni'r* Anwylyd, a cheidw'i hôll Orchymynion ef: ac dyma un o'r odfeydd a'r arwyddion mwyaf o gariad a ofyn Duw ini. [*Hyn yw cariad cadw o honom ei orchmynion ef*] *Mae cariad yn ufudd.*

Yn 2. Gwneiff *Cariad* wrth *amneidiau* a dirgel arwyddion o wllys ei Hanwylyd; ac mae hyn yn radd uchel o *gariad*, mae'r ufudd-dod *cyntaf* yn cymmeradwyo 'r cariad, ond *hwn* a'i gwnâ yn fawr a nodedic. Y *cyntaf* yw'r lleiaf ac hebddo nis gelli wneud mo'th ddyledfwydd, ac heb yr *ail* nid ei byth i berffeithrwydd.

Yn 3. Ymâd cariad â phôb peth er mwyn ei Hanwylyd, hi a ddiwalla'r fawl a fynnai ef ddiwallu, ac a ymdreulia yn y fâth wîr ffrwytheu ac a fo poffibl iddi ddangos. Erioed ni charodd hwnnw Dduw a ymadawo [illegible] oi Greſydd er cael arbed ei arian. *Mae Cariad [illegible] hael ac yn ymgyfrannu.*

Yn 4. Mae *cariad* 'yn *dioddef* pob [illegible] a o[illegible] hanwylyd.

hanwylyd arni, neu a ddêl oi achos neu wrth ei waſanaeth ef, yn ſiriol, yn hynaws ac yn wllyſcar: tan ddiſgwil ar Ddnw droi'r cwbl yn ddaioni ac yn foddion o Ddedwyddwch. [*Mae Cariad yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim*] ac yn fodlon i bob peth am y caffo ei hanwylyd hefyd.

Yn 5. Ni all cariad aros dim a anfoddio'r anwylyd, eithr câs ganddi bechod ſy'n elyn iddo. O blegid mae cariad yn cymmeryd yr un garennydd, yn priodi'r un gyfeillach a'r un cafineb ag yntef, ac mae pob Serch i bechod yn llwyr anghymmodol â chariad Duw. Nid yw cariad yn ymrannu rhwng Duw a'i Elyn ef: Rhaid i ti garu Duw â'th hôll galon, hynny yw rhaid i ti roi iddo gariad cyfan a digyfran heb garu dim arall ond y cyfryw ac y mae 'n rhoi cennad a gorchymmyn iw caru, ac yn eu caru ei Hunan hefyd.

Yn 6. Mae *cariad* yn chwennych byth fod yn breſennol, i ymgyfeillachu, i *fwynhau* ac i *ymuno* â'i Hanwylyd, dâ fydd ganddi ſôn am dano, datcan ei fawl ef, cofio'i hanes, adrodd ei chwedleu, dynwared ei ymddygiad ef a dilyn ei ôl ef ym mhôb peth; ac mae pôb gradd o *undeb* a phôb grâdd o *debyg*, yn radd o *gariad*. Mae gwîr *Gariad* yn ddiorphwys nes mwynhau Duw yn yr oddfeydd y bo'i eiſieu ef arni. Mae *hi* fel newyn a ſyched, nis bodlonir hi nes cael ei phorthi; ac yn ſiccr ni all dim eilfyddu *preſennoldeb* Duw, na diwygio'i *abſen* ef.

Yn 7. Mae gwîr *Gariad* ar bôb tro a'i golwg ar yr Anwylyd, i farcio pa ffordd y bo'i *anadl* ef, pa fodd y bo'i peth yn ei foddio neu 'n ei anfoddio ef, ac yn ôl hynny y bydd hithe 'n drwm neu 'n ſiriol. Ni anfodlona *Cariad* i un tro na chyfnewid a wnêl Duw yn ei Deulu, ac ni cenſigenna wrth ei roddion ef i eraill: eithr *hi* a ddewis fel y mynno Ef, hi a lywodraethir wrth ei farn Ef, ac a fydd yn hollawl o'r un dŷb ag ynteu, yn hoff ganddi ddyſcu lle bo Duw'n Ddyſcawdr, ac yn fodlon i fod yn annyſcedic lle bôDuw yn tewi ac heb ei ddatcuddio'i hun

Yn

Yn 8. Mae *Cariad* yn ddichlyn mewn petheu *bâch*, mewn amgylchion a meſurau a throieu bychain, ni chynnwys hi ddim gwendid heb geiſio'i drechu, gan fwrw am ychwaneg fyth nac a allodd hi etto'i gyrraedd, hi a gais fod mor *bur* ac Angel, mor *ddinitweid* ac mor *wreſowglym* a Seraphin; a chyn edifared ganddi *air ſegur*, ac a fai gan ymbell un weithred o *odineb*; ac ni ymfodlona i ddigio cymmaint ac a gyffroe blentyn, nac i feddwl am aflendid mewn breuddwyd.

Ac dyma fanylder a *mwythuſdra Cariad Duw*, dyma *Ofn* Duw yr hwn yw ffrwyth *Cariad*.

Meſurau a Rheolau Cariad Duw.

Ond o herwydd bôd y Wŷn yma (o *Gariad*) yn bur fel y drŷch llyfnaf a diſcleiriaf, mae hithe'n hawdd ei llychwîno â phôb anadl lled-fudr. Llywodraether dy *Gariad* ar Dduw wrth y Meſurau hyn.

Yn 1. Bid dy *Gariad* yn beraidd yn dêg ac yn *dawel*, heb ddim rhuthreu *cyffrous* nac ammwyll, ond yn mynd rhagddi yn *waſtad-lyfn* mewn gweithredoedd dyledus a chyfattebol i'th *Stât preſennol*: nid yn ol eithaf dy *'wllys*, eithr yn ol tebygolrwydd a meſureu dy *allu*. *Rhuthrau* rhy *bryſur* a *Blaengarwch anamſerol* ac angall yw'r ddwy Graig ſy'n rhy fynych yn torri llongau dechreuwyr ieuengaidd mewn crefydd a Duwioldeb.

Yn 2. Bid dy *Gariad* yn fynhwyrol ac heb ddim hudoliaeth na Choel-grefydd; Pan êl Crefydd yn *Ofer-goel* mae Cariad yn troi yn *ynfydrwydd*. Nis gall un *gradd* o *Gariad* fod yn amhwyllog, ond etto gall ei *arwyddion* fod. Nid poſſibl i ti garu Dûw ormod, eithr ti elli ddangos dy gariad mewn moddion anweddus.

Yn 3. Bid dy *Gariad* yn *ddwys* ac yn *ddianwadal*, yn ddi-ylcog ac yn ddi-yſcar, nid fel y traeth yn llenwi ac yn treio, eithr yn dàl i ddeſcyn megis Afon ddibaill ar ei rhedeg tu ac Eigion *Godidowgrwydd Duw*, tan yrru ymlaen

hyd Ganolydd *Ufudd-dod* gwastadol, byth heb peidio a bod yr hyn yw, hyd oni bô hi'r hyn y mynnei ei bod. gan bara fyth yn *Afon* hyd oni throer hi yn *Gefn-for* anfeidrol o Dragwyddoldeb dedwydd.

Yn 4. Er bod ystyried *Godidowgrwydd* a thrugareddau Duw yn fwy na digon i wneud i ti garu Duw (yr hwn er na weli mono etto nid yw e' neppell oddi wrthiti, yr wyti 'n ei deimlo ef yn ei tendithion, 'r wyti'n ymborthi arno yn y Sacrament, mae e'n preswylio yn dy galon drwy ffydd, ac fe aeth yn un â thi trwy gnawdoliaeth a gogoneddiad yr *Jesu*) etto fel y bô haws i ti gynneu a chynnyddu dy Gariad ar Dduw, ni fyddi ti gwaeth er ymarfer â'r cynghorion sy'n canlyn.

Cymmorthion i chwanegu 'n Cariad ar Dduw mewn ffordd o Ymarfer.

Yn 1. Bwrw ymaith bob cariadau *bydol*, canys mae rheiny yn diwyno ac yn halogi'r Cariad *Ysprydol* pur. Mae pob serch i *bechod* a phob *tra* serch a thra hoffder i *betheu'r byd* yn elyn i *Serch Duw*, a pheth tra cywilyddus oedd i ti ddwyn un rhann oth serch iw roi ar ei greadur ef ar draws y *Creawdwr*, neu ar *Ddiawl* ei Elyn cyfaddef er ammarch i *Ffynnon* pob godidowgrwydd a hawddgarwch.

Yn 2. Attal a ffrwyna dy *Phansi*, oblegit rhann uchelwyllt amherffaith o'r *Meddwl* yw 'r *phansi*, am hynny'i ymhoffa hi mewn cyscodion a theganeu: ac o herwydd bod *petheu'r byd* yn llenwi'r *Phansi* a'r fâth ddelweu o degwch phansiol, mae hitheu'n cynnyg y rheiny i'r *serch* a'r *Ewyllys* megis petheu *cariadus*. Pobl o *phansi* megis *gwragedd* a *phlant* sy fyth yn caru ddwysat, am hynny ynteu o chymeri di ofal beth a ollyngech ith *phansi* bydd haws i ti unioni dy *gariad*.

Yn 3. Gochel ofid a gormod o ofalon a negesau bydol oblegit os rhoi dy fryd a'th ŵg a'th waith ar y rheiny hwy

hwy a lwyr feddiannant dy *Serch* hefyd. A thra bo 'r *Serch* yn llawn o beth *gwaelach*, amhosſibl iddo gynnwys peth arall a fo *godidoccach*.

Yn 4. Ymgydnebydd â Duw mewn mynych *Weddiau*. Yn enwedic chwennych fod dy chwantau yn union, a hoffa gael dy hoffder yn drefnus ac yn ſanctaidd. I'r diben hwn cyfarch Dduw yn dra mynych mewn *dwys Ocheneidiau*, a *Chymunau*, a dyfal *ddyfoſiwn beunyddiol*. Dangos iddo ef dy holl ddiffygion; achwyn wrtho *êf* dy holl gamm; goſod fel *Hezekiah* dy holl aflwydd a'th newyddion drŵg oi flaen *ef*; *tana hwynt ger bron yr Arglwydd*; galw arno *ef* am iechyd, rhed atto *ef* am gyngor, ymbil ag ef am faddeuant: a'r Hwn y ceffir fel hyn ymgyfarch ag ef, ac ymgynnal wrtho, mae mor naturiol ei garu ef ac yw i blant garu eu Rhieni.

Yn. 5. Yſtyr anfeidrol helaethrwydd cariad Duw tu ac attom ni, yr hwn a eglurir yn holl ffrydieu ei Ragluniaeth êf. 1. *Yn ein creu ni* ac, 2. *Yn ein Cadw ni*. Canys nid dy *Feiſtr* neu dy *Gâr* neu dy *Gyfaill* ſy'n dy gadw, ac yn diwallu dy angenrheidiau, eithr *Duw*, yr hwn a wnaeth yr ŷd ac a greodd y gwlân y mae dy Gâr yn ei roi i ti, ac a'i cadwodd yntef ſydd â chymaint o anghenion naturiol ac o wir wendid arno a thitheu. 3. *Yn rhoi i ni ei Fâb*. 4. *Yn maddeu ini ein pechodeu*. 5. *Yn ein Mabwyſo ni i Ogoniant*; a mîl ſyrddiwn o fwynderau bychain a ddigwydd wrth wneud pob un o'r rhain; ac nid oes boſſibl am gymmaint cariad na rown ninneu gariad iddo ynteu, nid oedd fawr i ni roi *dyn* am *Ddduw*, ac ymadel â'n *trueni* am *ddedwyddwch*. Ie cymmaint yw cariad yr *Jeſu* ſanctaidd, y *Duw-ddyn* ac yr ymadawei ef eilwaith â'i holl ogoniant gorfoleddus, a marw unwaith etto tros *ddyn* pettei raid hynny i ynnill iddo ef ddedwyddwch.

Yddwy ſtât o Gariad ar Dduw.

1. Rhaid i'r Cariad lleiaf ar ſydd fod yn *ufudd*, yn

bur, yn *ſyml* ac yn *ymgyfrannu*: rhaid iddo gau allan bob *ſerch i bechod* a phob traſerch i'r byd a rhaid iddo ymddangos yn ôl dy allu ym mhôb odſa o'th ddyledſwydd, a bod yn gariad er mwyn Cariad; yr odſa uchaf o'r Cariad ymma yw *Merthyrdod*, ſef Parodrwydd meddwl i ddioddef pôb drŵg yn hytrach na gwneud dim drŵg.

2. Y ſâf *uchaf* o Gariad yw *zêl* cariad, ſy'n ymdanu yn attwſo ſân-geinciau megis prenn hyfryd a ffrwythlon, yn torri allan yn ddeigrynnau, ac yn dwyn ffrwythydd anarferol a rhagorwych o faint. am yr hwn rhaid yw dàl ar y Rhybuddion hyn.

Rheolau a Gocheliadau ynghylch Zêl, neu atwyddfryd Cariad.

Yn 1. O bydd Zêl yn dyfod o un achos arall amgen na *hir brifiant* mewn *Cariad rheolus* a *chymmedrol* mae'n amheus mai awch *gwyn ddynol*, nad Brigyn cariad *Duwiol* yw hwnnw.

Yn 2. Nid da'r un Zêl ond a fedro mewn cariad gwreſoc ymddangos yn oeredd. Canys berwed dy gariad ti uchaf ar y gallo, etto os beirw troſodd i weithredoedd rhyfedd ac afreolus, ni fydd i ti fawr, a bydd arnat eiſieu llawer, ith eſcuſodi.

Yn 3. Rheola dy Zêl â ſynhwyr ac â dealldwriaeth, a bid ei drigfa yn yr *Wllys* a'r *Dewis* nid yn y *Phanſi* ar *gwyniau*; canys gwneiff y rhain Zel yn llawn o drŵſt ac yn wâg o leſâd; eithr iawn *ddealltwriaeth* a'i gwneiff e'n ddyſn ac yn llyfn, yn ddeſnyddiol, ac yn ddyfoſionol.

Yn 4. Bwried dy Zêl ei angerdd pennaf mewn petheu perthynol i *ti dy hun*, ac nac ymyrred â nêb *arall* heb attal a gofal mawr.

Yn 5. Zel tu ac at *eraill* ni all ymddangos mewn dim ond ymhôb gweithredoedd a moddion a dyfeiſieu caredic er lleſâd iddynt. Ond os rhaid weithieu ei dangos mewn *dig* bydded yn doſtach yn d'erbyn dy hun na nêb arall.

Yn 6.

Yn 6. Gelli adel i *Zêl* ei rwysc mewn gweithredoedd neilltuol *ysprydol* a so o'th union ddyledswydd, megis wrth *weddio* ac *addoli*, a *diolch*, ac aml gyfarch i Dduw, am y bo hyn yn ddi gymmyrraeth a phetrusder. Gwnâ holl ranneu dy ddyledswydd *oddi mewn* mor ddygn ddifrifol, a phettei iechydwriaeth yr holl fŷd, a hôll ogoniant Duw, a gwradwydd yr holl Gythreuliaid yn sefyll ar bob un weithred.

Yn 7. Swmm y cwbl yw hyn, Nid dyledswydd mo Zêl, eithr attwf a blaen Dyledswydd arall sef *Cariad perffaith.* Wrth hynny nid dâ 'r un Zêl ond a so 'n union yn helpu ymlaen ac yn chwanegu'n ufudd-dod i Dduw a'n cariad i'n cymydogion.

Am y Gweithredoedd o Dduwioldeb oddi allan.

Mae *Duwioldeb* yn ein dyscu i gynnyrchu i Dduw ein cyrph, cystal a'n heneidiau, am sod Duw yn Arglwydd y ddau: ac od yw'r corph yn gwasanaethu'r Enaid mewn gorchwylion naturiol a bydol, ni's dylei sod yn segur yn swyddau *Duwioldeb* yn unic, o disgwilir iddo ddim rhann o wobrau Duwioldeb megis ei *Adgyfodi*, ei *ail-gyssylltu*, ai *ogoneddu.*

Mae 'n cyrph ni i Dduw yn Aberth bywiol, a'u presentio hwy iddo sydd *sanctaidd* a *chymmeradwy.*

Y Gweithredoedd *corphorol* sy'n wasanaethgar i Dduwioldeb ydynt yn perthyn naill ai i *Air* Duw, ai i *Weddi*, ai i *Edifeirwch.* ac dyma ranneu *Gweithredoedd Duwioldeb oddiallan.* 1. *Darllein* a *gwrando* Gair Duw. 2. *Ympryd* a *chaledrwydd*, a eilw 'r Apostl *Ymarferion corphorol.* 3. *Gwledda* neu gadw *Gwyliau* cyhoedd o *lawenydd* a *diolchgarwch.*

DOSP. IV.

Am Ddarllen neu Wrando Gair Duw.

Darllen a Gwrando Gair Duw ydynt ddwyffordd o'r un Ddyledſwydd ſydd yn bennaf er gweithio *Ffydd*, ac yn ddilynol pôb Graſau yſprydol eraill. Mae llawer na fedrant mor *darllen*, a rhaid i'r rheiny gymmeryd *Gair Duw* trwy'r Glûſt : a'r ſawl a fedr ddarllen a gaiff â'i Lygad weled yr un *Gair Duw*. Ei ddyſcu ſy raid i bawb rywffordd neu ei gilydd, ac ni waeth amcan pa ffordd a'i trwy 'r *llygad* ai trwy 'r *glûſt* y dyſcer ef, am y gwneler ar ei ôl. Os clywi S. *Paul* yn dywedyd wrthit [*Heb ſancteiddrwydd ni cheiff neb weled Duw*] neu os darllenni hynny yr wyti bob un o'r ddwyffordd yn cael digon o rybudd, ac rhaid i ti fôd yn wllyſcar i ddyſcu ac i wellhau wrth *wrando* cyſtal ac wrth *ddarllen* y *Gair*. *Gair Duw* ydyw'r hôll *Orchmynion* ar *Datcuddiadau*, yr *Addewidion* a'r *Bygythion*, yr *hiſtoriâu* a'r *pregethau* a goffeir yn y BIBL: Nid oes dim arall yn Air Duw hyd y gwyddir yn ſiccr. Yr hôll Bregethau a Llyfrau dâ eraill, nid ydynt ond Geirieu dynion, i gymmell neu egluro *Gair Duw*. Mewn *Pregeth* neu *Homili* nid oes dim yn briod *Air Duw* ond y *teſtyn* : er bod *Pregetheu* dâ yn dra buddiol a manteiſiol i Dduwioldeb; etto 'r holl lês a allant hwy yw ein helpu ni i fucheddu yn ôl geirieu ſathredig y *Scrythyr lân*. Ond,

Yn 1. Diammeu mai'r *Yſpryd glan* yw'r unic *Bregethwr* a'r *pregetheu* goreu yw Geirieu'r Yſcrythyr. Duw ei hun ſy'n pregethu trwy ddirgel gymmorthion, trwy yſprydoliaetheu a chynnyrfiadau ſanctaidd.

Yn 2. Mae hôll Athrawiaeth *iechydwriaeth* wedi eu goſod i lawr yn y *Bibl* mor eglur ac y dichon y mwyaf anyſcedic o ddyn, wrth glywed ei ddarllen, ddeall ei ddyledſwydd. Beth a all ſod eglurach na hyn [*Na ladd.*

Na

a ledratta. Na feddwer chwi. Y gwyr cerwch eich gwra-dd. Beth bynnag a wllyſiech chwi wneuthur o ddynion i wi felly gwnewch chwitheu iddynt hwy.] Ni ddichon dyis dyn ddywedyd i ni 'n dyledſwydd ddim eglurach na awnach nac y gwnaeth yr Yſpryd glân euſys.

Yn 3. Yr hyn a ddywed *Abraham* wrth *Ddifes* ſy ymmwys i minneu ei ddywedyd wrth bawb, *Mae gandynt Moſes a'r Prophwydi gwrandawant arnynt hwy. Eir oni wrandawant ar y rheiny, ni chredent chwaith pe cei un oddi wrth y meirw* i bregethu iddynt.

Yn 4. Mae *Darllen* y *Scrythyr* lân yn ddyledſwydd a rch'mynwyd i ni yn loyw, a hyn a eilw 'r Scrythyr *Pregethu*] canys nid yw pôb pregethiad arall ddim ond rwyth celfyddyd a diwydrwydd dynol. Ac er ei bod i'n gelfyddyd dra lleſol, etto nid yw hi ond *Defod Elwyſic.* Eithr *gwîr Bregethu* yw *darllen* a *gwrando Gair Duw* fel y mae e'n y *Scrythyr.*

Ac dyma i ti Reoleu i ymarfer â'r ddyledſwydd hon.

Rheoleu i Wrando neu i ddarllen Gair Duw.

Yn 1. Yn ôl cyfleuſdra dy Alwedigaeth a'th orchwyl angenrheidiol penna a neilltua ryw rann o'th amſer at ddyſcu *Gair Duw*: ac o bydd poſſibl i ti mynn ddarllen neu glywed darllen peth o hono beunydd: mae'n ſicr i ti fod *hwnnw* yn dyſcu pob gwirionedd, yn gorchymmyn i ti bob ſancteiddrwydd, ac yn addo i ti bob ledwyddwch.

Yn 2. O chei dy ddewis ymgynnefina â'r ſcrythyreu hynny ſy egluraf a ſiccraf am dy ddyledſwydd: ac yn cynnwys hanes Bywyd a Marwolaeth ein Iachawdwr bendigedic. Darllen y *pedwar Efengylwr*, a *Pſalmau* Dafydd: ac yn enwedic y darneu hynny, ſef yr *Epiſtolau* a'r *Efengylau* goſodedic iw darllen ar bob *Sul* a *Gwyl.*

Ymgynghora hefyd âg Athro yſprydol pa rannau eraill iw dewis a pha ſodd ſuddiolaf i dreulio dy amſer.

Yn 3.

Yn 3. Na phalla ddàl yn ddiwyd i ddarllen y Scry-thyr ar bôb *Gwyl*. Canys ar y Dyddieu hynny he law dyſcu dy ddyledſwydd, ti a gei *fendith*, am ſo *Chwilio'r Gair* yn rhann o Wyl-barchus Addoliad Duw.

Yn 4. Pan ddarllenner neu bregether i ti *Air Duw* bydd ſicer o ſod yn *barod* mewn calon a meddwl, y rhydd oddi wrth ofalon a meddylieu bydol, yn ddiwy i wrando, yn ofalus i farcio, yn aſtud i gofio, ac yn chw annoc i ymarfer â'r cwbl a orchmynner i ti, ac i fyw a ei ôl. Na wrando er mwyn dim arall, ond er gwellha dy ſuchedd, a mynd yn hyddyſc ymhôb gweithred ddâ a chynnyddu yn nghariad a gwaſanaeth Duw.

Yn 5. Ymbil â Duw trwy *weddi* ar iddo ef roi i t *ufudd-dod* a *chymmyrch* yſprydol, ar iw Yſpryd ef ſcrifen nu'r *Gair* yn dy galon, a thitheu ei gopîo yn dy ſuchedd Er mwyn hyn arfer *Ocheneidieu* gwreſoc o fyrr-weddie pwrpaſol, cyn a chwedi'r Ddyledſwydd hon.

Am Lyfreu dà yſprydol a Phregetheu, cymmer hyn o Gynghorion hefyd.

Yn 1. Na âd i ragfarn ddrwgdybus am *berſon* nêb rwy ſtro i ti dderbyn lleſâd wrth ei athrawiaeth ef, o bydd h yn ôl duwioldeb: eithr derbyn di'r *Gair* a bregether me gis cennadwri oddi wrth Dduw a'r Gweinidog megis e Angel neu ei Negeſwr ef attat.

Yn 2. Yſtyr a dàl ſulw ar yr athrawiaeth a oſod ger dy fron ym mhob ymadrodd, a yw hi yn gyſſon *Gair Duw*: ac am ben hyn os chwanega 't Pregethw ryw eglurdeb neu gynhyrfiad i helpu dy wendid ac i fy wioccau dy yſpryd mewn diwydrwydd a llawnfryd ſan ctaidd, coſia ditheu hwnnw, a gwnâ ddeunydd o hon Eithr os gŵr gwann yw'r Pregethwr, etto mae'r *Teſty* yn cynnwys dy holl ddyledſwydd di, a di gŵyn i ti wra do ar adrodd a chymmell a mynych gethru *hunnw* ar d goffadwriaeth. Heb law hynny, o bydd y Lle yn gyſſe

gred

redic a'r Gweinidog yn urddedic mae 'n dra lleſol ac yn ddyledus i ti berchi 'r ordinhâd, a rhoi ſiampl ddâ o oſtyngeiddrwydd, a chariad, ac ufudd-dod.

Yn 3. Ymgynghora â'r Gweinidog neu ryw wr ſynhwyrol arall i ddewis y fâth Lyfreu yſprydol, ac a ſo lleſol a chymmwynaſcar i adeiladu dy enaid mewn *Bucheddſanctaidd*; a bwrw nad ofer dim a dreuli 'oth amſer *yn gwrando* neu *yn darllen* Llyfreu da bucheddol: gwybydd fyth fod Duw wrth wrando arnati mewn *Gweddi* yn dy rwymo i wrando arno ynteu pa un bynnac ai yn ei *Air* a'i mewn Ymadroddion eraill cyſſon iw Air y llefaro wrthit.

DOSP. V.

Am Ympryd.

YMpryd o'i rann ei hun nid yw Ddyledſwydd, ni orchymyn ac ni chynghora'r Scrythyr yn unlle mo'no, oddieithr er mwyn dibennion yſprydol. ac ni pherthyn ddim i *Griſtion* ond hyd y bo ef yn Erfyn lleſol i'r *yſpryd* i ddarottwng chwanteu'r *cnawd* neu i dynnu ymmaith rai o rwyſtreu Duwioldeb. Er hynny ymhôb Oes o Griſtianogion arferid *Ympryd* a chynghorid ef megis help godidoc i'r tair Swydd hyn. 1. At helpu *Gweddi*. 2. *Marwhau* Chwantau'r corph. 3. At *Edifeirwch*.

Ac wrth y Meſureu hyn y mae arferu *Ympryd*.

Rheolau i Griſtion Ymprydio.

Yn 1. *Ympryd* er help i *Weddi* rhaid ei feſur yn ogyhyd â *Phrydiau* Gweddi: hynny yw, rhaid i ti ymgoſpi yn hollawl oddi wrth bob lluniaeth nes y darffo'r Gwaſanaeth, oni thery rhyw angenrhaid i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn ôl gorchymyn yr Eglwys ac arfer y gwŷr duwiolaf ym mhôb Oes, i'r diben yma, fel y bo'r Enaid yn fwy eglur ac Angylaidd, wrth ſod yn beth yſcafnach o lwythi cîg trwmlûog.

Yn 2.

Yn 2. Rhaid i *Ymprydd* a ſo at *Weddi* gwbl arbed pôb bwyd, neu leihau'r maentioli; canys yr help a wnâ *ympryd* at *Weddi*, nis ceir mo'no wrth droi cîg yn byſcod, neu ſwyd llwy yn fwyd ſŷch, ond wrth droi *llawer* yn *ychydig*, neu *ychydig* yn *ddim* nes y darffo'r *Pryd Gweddio.*

Yn 3. Rhaid i Ympryd at *Weddi* ſod ynghyd â chymmorthion eraill o gyffelyb rinwedd a grym âg yntef, cyſtryw ac yw *bwrw heibio* tros y tro *bôb gofalon* a *negeſeuon bydol*; ac am hynny mae'n lachawdwr yn cyd-gyſyllu rhain a'u gilydd yn yr un rhybudd [*Edrychwch arnoch eich hunain rhag i'ch calon drymhau trwy lothineb a meddwdod* a *gofalon* y byd hwn, a dyfod o'r dydd hwnŵ arnoch yn ddiſymmwth.] At hyn chwanega *Eluſen*, canys ar eſgyll *Ymprydd* ac *Eluſen* y dring *Gweddi* ſanctaidd i'r Neſoedd yn ddiſêth.

Yn 4. Pan fwriader *Ymprydd* yn help i'r ddyledſwydd o *Edifeirwch* goreu yw e'n fyrr, yn llymm ac yn affeithiol; hynny yw, naill ai ymarbed hollawl oddi wrth bôb ymborth tros yr amſer pennodol i ddàl wrth y gwaith: neu os chwanegi'r toſter, gan gadw dy ſîd i'th *bechod* fel y dylit gadw dy driſtwch, bob amſer mewn cyrraedd galw arno'n fynych; yna gwrthod tammeid blaſus, coſpi dy flŷs a chymmeryd sîr galettach a ſô iachus, gan groeſi dy chwant trwy ommedd iddo fodlonrhwydd cyfreithlon, am yr un anghyfreithlon a gymerodd ynteu trwy loddeſt a rhydraul.

Yn 5. Bîd yr *Ymprydd* a fwriader at *Edifeirwch* ynghŷd a dirfawr ofal i ymprydio oddi wrth *bechod*: canys nid oes dim yn y byd ynfyttach ac anweddeiddiach nac i ti wneuthur y peth y bŷch yr awr honno yn dy farnu ac yn dy fwrw dy hun o'i blegid.

Yn 6. Os ymprydi er *Edifeirwch* rhaid i ti, tra pharâo'r gwaith, ymatal oddi wrth bôb *difyrrwch corphorol*: o blegid ni thâl dim i ti alaru yn dy *ympryd* ac ymlawenhau yn dy *ddiſyrwch*; wylo bryd ciniaw, a chwerthin trwy'r

wy'r dydd wedi; cadw diſtawrwydd yn dy gegin, a uwſic yn dy neuadd; barnu dy gylla a gwledda dy ôll ſynhwyreu eraill; o herwydd pechu o'r holl ddyn, m hynny dylei'r hôll ddyn drittau.

Yn 7. Pan ſo'r *Ympryd* yn weithred o *Farwhâd*, ſef o daroſtwng y cnawd, neu ddoſi anwes rhyw drachwaneu cryſion a thaerddrwg, nid ympryd byrr a llymm a urſing y dylei fôd, eithr cwrs a bywioliaeth o *ympryd*, leihau beunydd dy gyfrann o ſwyd a diod, a dewis y ſâth ſîr galed ac a bortho leiaf ar chwanteu'r cnawd.

Ped ymprydit heb fwyd dridieu ti a wanheit ſwy ar anneu eraill o'th gorph nac ar dy ranneu godinebus, a phan droit eilchwel y dwfr at y ſelin mynnent hwy eu porthi gydâ'r cyntaf; heb law'r gwrês dyſodiad a ddigwydd o'r fâth hîr ymprydiau, a hwnnw yn cynnal anlladrwydd nes y dychwelo'r bwyd iw borthi ſel cynt. Either lleihau'r ymborth beunydd a wareiddia'r corph, ac a brifia'n feddyginiaeth affeithiolach.

Yn 8. Pob Ympryd at ba *berwyl bynnac* y bo, rhaid ei arferu heb dybio i fôd yn beth angenrhaid ynddo i hun, heb feio ar eraill, gyd â phôb goſtyngeiddrwydd, yn gymmwys at y perwyl y bwriader ef: nid yw *ympryd* ond megis *cymmeryd phyſyg*, ac nid ymfalchîa neb o hynny, ac nid oes neb a'i tybia 'n angenrheidiol, ond pan ſo dyn yn *glâf* euſys, neu yn berygl ac yn dueddol i fôd.

Yn 9. Pob *ymprydiau cyffredin* a oſoder trwy gyfreithlon Awdurdod, rhaid eu cadw at yr un dibennion ac a goſoded hwy ou plegit; pa un bynnac ai at *Weddi*, ai at *Farwhâd*, ai at *Edifeirwch*, ac â'r unrhyw ymddygiad ac mewn ymprydiau *neilltuol*.

Yn 10. Pob Ympryd *neilltuol* a *chyffredin* ni ddylid eſceuluſo'r un, o achos na all un diwrnod o *ympryd*, ac na ddichon ympryd ei hun chwaith neb gymmorthion eraill wneuthur y gwaith y bwriader êf atto. Canys er na all un diwrnod gyflawni'r

ni'r pwrpas, etto ſe all rywbeth tu ac at hynny, ac e nas gall ympryd ei *hun*, etto gyd â chymmorthion cyffe lyb *eraill* (a bendith Dduw arnynt, ſe a ddichon gwb hau dy ddymuniant.

Yn 11. Pe rhôn i ti gael meddyginiaeth rhag y bri achos yr ordeiniwyd yr Ympryd *cyffredin* o'i phlegi megis pe ceit lân briodas rhag *godineb*: Etto nid wyt t nês er hynny 'n unic i ſod yn rhŷdd oddi wrth *Ympry dieu* 'r *Eglwys* os gallant wneud i ti ryw dwrn arall Grefydd megis Gweddi, Edifeirwch neu farwhau rhyw ddrygchwant arall.

Yn 12. Yn gariadus ac yn ſynhwyrol y mae arfer *ympryd*; o herwydd nid oes un diben a geir trwy Ym pryd nas gellir ei gael trwy foddion eraill; am hynny ni's dylei er dim fynd yn achos o betruſder, nac yn elyn i'r iechyd; na'i oſod ar rai afiachus neu oedrannus, na ar drafaelwyr lluddiedic, na gwragedd beichiogion n phlant bâch, na phobl dlodion, na neb y bo'n angha redigol neu yn anfuddiol ei roi arnynt. Gofaled pawb yn bennaf am ei Dduwioldeb, ac yn neſaf am ei *iechyd*, modd y gallo'r corph yn hwylus waſanaethu'r enaid, a'r ddau waſanaethu Duw.

Yn 13. Na âd i *Anghymmedrolder* na chau na 'goryd ar dy *Ympryd* rhag iddo yn lle tynnu ymaith y pechod fynd yn achlyſur iw chwanegu: ac am hynny gochel ddyſod ynghynffon dy *ympryd* un weithred o *rythni* mewn bwyd na diod i halogi Duwioldeb yr holl ddwthwn; eithr bwytta 'n gymmedrol wrth feſur prydiau eraill, modd na bo *Glothineb* yn cadw'r un o ddeu-ddrws *Ympryd*.

Cymmwynaſau Ympryd.

A gymmero arno gyfrif hôll gymmwynaſeu *Ympryd*, ſe all yn y ddalen neſaf riſo cymmwynaſau Phyſygwriaeth: Canys nid dyledſwydd angenrheidiol eithr erfyn buddiol yw *Ympryd*, ac yn yr yſtyr hwnnw ni all neb na'i feio na'i

ddibrisio, ond y sawl na ŵyr ddim oddi wrth na
lfyddydeu ysprydol, nac angenrheidieu ysprydol.
d mae Dyscawdwyr yr Eglwys yn galw *Ympryd* yn
borth Gweddi, ffrwyn Trachwant, esgyll yr enaid,
Angylion, arf Gostyngeiddrwydd a Marwhad, a phu-
igaeth yr yspryd, a'r *culni* a'r teneuder a ddaw wrth
ych ymprydio ydyw'r *nôd yn y talcen* (medd S. *Basil*)
th ba un y nodai'r Angel y seinctieu iw cadw rhag
ofaint Duw. *Bar* 2. 18.

DOSP. VI.

Am gadw Dyddieu Gwyl i'r Arglwydd, ac yn entwedic y Sul.

ORdinhâd cyntaf y *Sabboth Iddewig* oedd er coffad-
wriaeth o orphwystra Duw oddi wrth waith y
readigaeth, ac er cydnabod ei *Ddaioni*, ei *Hollalluo-*
wydd, a'i *Ddoethineb* ef, sy a'u hôl mor amlwg yn ei
ôll Weithredoedd ef. Am hynny y gorphwysai'r
dewon bôb Sabboth mewn caeth seguryd. Ond nid
guryd oedd orphwystra *Duw*, yr hwn nis medrei flino,
d oedd raid iddo orphwyso: Eithr *Gorphwystra Duw*
d oedd ddim ond golygu a gorfoleddu yn ei waith gor-
hennedic. Ac am hynny gwell y coffawn ni Orphwy-
ra Duw trwy gydnabod a gorfoleddu yn ngweithre-
oedd Duw ac yn ei ddirfawr ogoniant ef.

A hyn yw perwyl a gorchwyl priod y *Sabboth Christi-*
nogol, yr hwn a droes yr Apostolion i fôd ar y dydd
yntaf o'r wythnos sef y *Sûl*, o achos mai ar y dydd
wnnw yr adgyfododd ein Iachawdwr bendigedic, am
ynny y gelwir ef Dydd *yr Arglwydd*. Ac megis y cad-
wei'r *Iuddewon* eu Sabboth er mawl i Dduw Creawdwr
bôb peth, felly ninneu'r *Sul* er mawl i Dduw ein Pry-
wr bendigedic a'n Creawdwr hefyd. Hefyd yn yn
ninneu'n gorphwyso oddi wrth orchwylion bydol ar y

Sul,

Sul, nid o ran bod hynny yn ddylêdſwydd i *ni*, megis oedd i'r *Iuddewon*, ond o blegid ei ſod yn angenrheid i gael o honom ennyd at orchwylion yſprydol a Dyle wyddeu *Duwioldeb*. Ac er bod i ni reſwm naturiolach chymmwyſach i gadw dydd yr *Arglwydd* nac a oedd yr Iuddewon i gadw'r *Sabboth*, etto'r oedd ganddy hwy orchymyn Duw am eu dydd *hwy*, peth nid oes ein dydd *ni*: Ond mae arnom ninneu lawer o orch'm nion i wneud i Dduw yr hôll barch a bwrpaſwyd y *pedwerydd orchymyn*; ac at wneud hynny yn gyhoedd yn gyd-ymgynnulledic dewiſodd yr Apoſtoſion ſ ctaidd y dydd cyntaf o'r wythnos, ſef y dydd cynta Iawenydd a gâdd Criſtianogion erioed.

Y modd i addoli'r Arglwydd ar ei ddydd ei hun, n i iawn gadw Sul a Gŵyl i'r Arglwydd, cymmer wrth Meſureu ſy'n canlyn.

Rheoleu i gadw Dydd yr Arglwydd a Gwylieu Criſtianogol eraill.

Yn 1. I wneud rhagor rhwng Dydd *gwyl* a dy *cyffredin* na fyrrhâ dy weddieu a'th ddyſoſiwnau beu yddiol, fel yr edrycho'r dyſoſiwn cyffredin yn fwy a dydd gŵyl: eithr parhâ di dy ddyſoſiwnau arferol b dydd, ac ar y Diwrnod gŵyl chwanega.

Yn 2. Dylid ar *Ddydd yr Arglwydd* ymarbed oddiwr bôb llafur a thrymwaith, oddieithr gwaith o wîr a genrhaid at ein cynhaliaeth cyffredin, neu o fawr G riad. Nid yw Gorchwylion o Gariad a Duwiold ddim yn erbyn meddwl ac yſpryd y Gorchymyn: mae *llythyren* y Gyfraith wedi ei llwyrdroi yn *yſpryd*, had oes arnom ni Griſtianogion un Gorchymyn ond a weithredoedd *Yſprydol* a ſanctaidd. Ie gallei'r *Iuddew* ar eu Sabboth ladd eu hanifeiliaid a'u trwſio at yr Aber a gallei *Griſt* er ei eni tan y Gyfraith iachau dyn clâf gallei'r clâf ddwyn ei wely a llemmain i Duw o laweny

a di

a diolchgarwch; gellid hefyd arwain ŷch i'r dwfr, a thynnu buwch o'r fîôs; gellid cymmeryd Phyſygwriaeth, a bwytta bwyd ac wrth hynny rhaid oedd fod rhai iw drwſio ac iw heilio; ac nid oedd yr yſpaid tra y gwneid hynny wedi ei phenni mewn munudiau a therſynau pennodol; ond yr oedd, ie'r pryd hynny, gynhwyſiad gweddol o amſer, am y cauid allan bôb gwaith afraid a diles i ddibennion *Duwioldeb* a *Chariad*. Rhaid ynteu chwanegu'r cynhwyſiad hwnnw tan yr *Efengyl*, gan nad yw *gorphwyſo* ddim yn ddyledſwydd i ni, eithr help yn unic at ein gwîr Ddyledſwyddau *yſprydol*. Yn Sabboth *Criſtianogion* rhaid gwaſanaethu *Angenrhaid* yn gyntaf, yna *Cariad*, ac yn olaf *Crefydd*. Canys rhaid i *Grefydd* roi lle i *Gariad* ar achoſion mawr, a rhaid i *Gariad* roi lle i *Angenrhaid* ar bôb achos; ac felly ymhôb peth *rhaid addoli Duw mewn yſpryd a gwirionedd*.

Yn 3. Gan mai coffadwriaeth o Fendith fawr yw *Dydd yr Arglwydd*, rhaid iddo fod yn ddydd o *lawenydd* a hyfrydwch, a gorfoledd *yſprydol* a *diolchgarwch*: am hynny gwaith priod a chymmwys i'r Diwrnod oedd dreulio 'n meſoſiwnau mewn *canu* neu *ddarllen Pſalmau*, yn datcan mawrion Weithredoedd Duw, yn coffa'i drugareddau, yn addoli ei odidowgrwydd ef, yn clodfori ei Briodoliaethau, ac yn mawrhau ei Berſon ef, yn danfon rhanneu o Sîr ddâ i'r rhai ſy heb ddim iw arlwy, a thrwy bôb delfyddyd a modd o dderchafu Gogoniant Duw a Pharhedigaeth Crefydd. A gweddus iawn oedd i ti ar bob ſûl gadw coffadwriaeth o'r *Adgyfodiad*, hyn a elli wrth godi 'n brydlon at ddyſoſiwnau boreuol ac ymneillduo ar bôb hamdden rhwng Prydiau *Gwaſanaeth cyffredin*.

Yn 4. Na phalla fôd mewn pryd yn gydrychiol wrth waſanaeth cyffredin, tyred i'r Eglwys yn *foreuol*, yn *ſiriol* a yn *ddefoſionol*, gan ddyfal-ylſtyried yn barchedic, ac nos yn ammyneddgar hyd ddiwedd y Gwaſanaeth, a chyd-ſeinio 'n dduwiol yn y gweddiau, a gwrando'r bre-

geth yn wllyſcar: ac na eſceuluſa er dim (oni bydd eſcu
tra rheſymmol) gymmeryd y Cymmun pan ei cynnygier
gan mai hwn yw Prîf uchelſwydd Diolchgarwch,
gwaith priodol y *Sul*.

Yn 5. Rhwng y Gwaſanaeth Boreu a'r Goſper, (fel
caffech achlyſur) ymwêl â rhai cleifion, cymmoda ym
rafaelion, gwnâ droieu o gymdogaeth ddâ, ymwran
do âg anghenion y Tlodion, yn enwedic y rhai ſy'n cadw
tŷ, iw diwallu yn ôl eu diffygion hwy a'th allu ditheu
canys yna'r wyti'n gwîr lawenhau yn Nuw pan wnelech
i'th gym'dogion, aelodau tlodion Crîſt gyd-lawenha
â thi.

Yn 6. Beth bynnac a wnelech dy hun ar ſy angen
rheidiol rhaid i ti edrych ar i eraill hefyd a fo tan dy ſian
di yn ôl eu grâdd a'u hachos hwy, wn euthur yr unrhyw
Dŵg dy weinidogion i'r Eglwys, a chynnifer ôll o'th
deulu ar a aller eu hepcor oddi wrth orchwylion Teulu
aidd mawr ac angenrheidiol: ac aed y rheiny bôb yn ai
a diwygier hynny ffordd arall oreu y galler: a myn
iddynt ar y Suliau'n enwedic hyfforddiad ym Mhyn
ciau'r *Ffydd*, ac yn y rhanneu *angenrheidiol* o'u Dyled
ſwydd.

Yn 7. Y rhai ſy'n gweithio'n drwm hyd yr wythno
rhaid canhiadu iddynt ddiſyrrwch iw ſirio ar y Sul, ga
fod hynny yn gariad ac yn 'luſeni mawr: Ond gwili
gynnwys iddynt ddim chwaryddiaeth anghyfreithlon, n
dim gwradwyddus, na pheryglus am dynnu *pechod* gy
âg ef: dim chwareon tueddol i *drythyllwch*, neu *feddwdo*
neu *ymgynhennau*, neu i *goelgrefydd*; eithr bydded eu *diſy*
rwch hwy yn ddiniweid, yn garedigol, yn ddi-ogan ac y
ddi rwyſtr iw Dyledſwyddeu *Duwiol*.

Yn 8. Ar ôl hyn a ddywedpwyd, gan na rwymod
Duw na dyn monot ddim ymhellach, cymmer a chadw d
rydd-did Criſtianogol, ac arfer ef yn ddi amheuaeth
canys os amheui, f'all y weithred oreu fynd yn fagl ac y
bechod i ti. Ond cymmer hyn yn Rheol ddiſiommedi

Ygor

Ygoreu am gadw'r Sul, yw'r nêb a'i cadwo â mwyaf o Dduwioldeb ac *o Gariad perffaith.*

Yn 9. Os yw coffadwriaeth o'r *Adgyfodiad* trwy reſwm dâ yn dychwelyd bôb wythnos, nî all ſod yn anrheſwm ddychwelyd o goffadwriaeth y *Pynciau* eraill o'r *Credo* unwaith yn y flwyddyn, megis Coffadwriaeth o *Ddeſcyniad yr Yſpryd glân* neu'r Sulgwyn, a'r *Natalic* neu Bwnc Genedigaeth ein Iachawdwr, a Phwnc y *Dyrchafael* : ys da'r haeddei gymmaint bendithion a rhain uchel-goffadwriaeth blynyddawl, a thra anniolchgar yw'r dyn na choffao hwynt yn fynych trwy'r flwyddyn, gan eu cyfrif yn ſail ei obaith, yn wrthddrych ei Ffydd, yn gyſſur ei ofidieu, ac yn fawr damchwêydd o drugareddau Duw. Chwanegaf at hyn ſod cyd-goffa *Pyncieu'r Credo* ar Wylieu ac Uchel-ſwyddeu arbennic yn erfyn godidoc i daro teimlad a chôf o'r *Pwnc* ar enaid y mwyaf annyſcedic.

Yn 10. Mae Coffadwriaeth y *Seinctieu* yn werthfawr gan Dduw, ac am hynny dylei fôd felly gennym ninneu; a'r rhai a waſanaethaſant Dduw trwy fyw yn ſanctaidd, a phregethu'n ddiwyd, a marw yn grefyddol, da'r haeddeint gael cadw parch iw Henweu, a chyhoeddi a dilyn eu Dyſceidiaeth a'u Bywioliaeth. Ond y ffordd oreu o gadw'r Dydd-gŵyl yw diolch i Dduw am y *Sanct* godidoc neu'r *Apoſtol* neu'r *Merthyr* y bych yn ei goffa, a dilyn ei fuchedd dda ef: ſe all pawb wneud hyn; a'r ſawl a allo gadw'r ŵyl hefyd, ſe ddylei ei gadw o bydd wedi ei orchymyn trwy gyffredin awdurdod.

Y Gweithredoedd cymmyſc o Ddduwioldeb yw 1. *Gweddi.* 2. *Eluſen.* 3. *Edifeirwch.* 4. *Derbyn y Cymmun bendigedic.*

DOSP. VII.

Am Weddi.

NID oes arwydd bennach yn y byd o'n perygl yſprydol ni a'n hanwllys i *Dduwioldeb*, nac yw'r anhwyluſdra ſy gan lawer bob amſer, a chan bawb weithieu i *Weddîo*; mor ſlinedig ar y gwaith, mor lawen o'i ddarfod, mor fedrus i eſcuſodi a ſiommi achlyſur; Ac etto nid yw'r cwbl ddim ond erfyn ar Dduw roi i ti'r petheu mwyaf a godidoccaf ar a' all fod arnat eu heiſieu, ac all dy wneud yn wnynfydedic: Gwaith yw *gweddio* mor hawdd, mor barchedic, ac mor dra-buddiol, nad oes trwy hôll arwyddion *Crefydd* a *Rhagluniaeth* un argoel amlyccach o'wllyſcarwch Duw i'n hachub ni, a'n hanwllyſcarwch ninneu, o'i ddaioni ef a'n hanraſlondeb ninneu, o'i fwynder anfeidrol ef a'n dioſalwch gwallcofus ninneu, na'i fod ef yn gobrwyo dyledſwydd mor hawdd â bendithion mor ddirfawr.

Annogaeth i Weddio.

Nîs medraf ddywedyd dim dwyſach na'r Yſtyriaethau uchod i wahodd Criſtianogion i ſynych weddio. Ond ti elli yſtyried, 1. Fod *Gweddi* yn ddyledſwydd a orchmynodd Duw a'i ſanctaidd Fâb. 2. Mae *hi*'n weithred o râs ac o dramawr anrhydedd i ni lŵch a lludw gael ein cynnwys i lefaru wrth y Duw Tragwyddol, cael rhedeg atto megis Tâd, i ddangos ein diffygion, i gwyno'n beichieu, i egluro'n amheuon, i ofyn rhwymedi ac eſmwythâd, cynhaliaeth a chyngor, iechyd a diogelwch, ymwared ac iechydwriaeth. 3. Gwahoddodd Duw ni trwy amryw raſuſol addewidion y gwrandawai ef arnom. 4. Trefnodd ei ogoneddus Fâb yn battrwm i ni i *weddio*, ac i *Eiriol* troſom ni yn Ngorſeddfa'r Grâs. 5. Ordeiniodd

hefyd

hefyd Angel i breſentio *Gweddieu* ei weiſion. Ac, 6. Mae *Chriſt* yn eu huno wrth ei Weddieu ei hun, yn eu ſancteiddio, ac yn eu gwneud hwy 'n llwyddiannus ac yn affeithiol. Ac 7. Rhoes hefyd ar law dyn trwy rym *Gweddi* ddadtroi holl *ammodol* Ordinhadau Duw ac a fo'n perthyn i'n cyflwr tragwyddol, ac i lawer o'n digwyddiadau cyfamſerol. 8. Achubodd *Gweddi* Ddinaſoedd a Theyrnaſoedd rhag diniſtr. Cododd *gweddi* rai o farw i fyw, attaliodd angerdd y tân, cauodd ſafneu gwylltfilod, troes gwrs Naturiaeth, parodd wlaw yn yr Aipht a ſychder yn y Môr, gwnaeth i'r Haul droi o'r Gorllewin tu a'r Dwyrain, ac i'r Lleuad ſefyll, ac i Greigieu a mynyddoedd rodio. Iachâodd Gweddi glefydon heb Phyſyg, hi a bair i *Phyſyg* wneud gwaith *Natur*, ac i *Natur* wneud gwaith *Grâs*, ac i *Râs* wneuthur gwaith *Duw*: ac a ddwg i ben betheu tra-rhyfeddol. Ac etto nid yw'r *Weddi* fy'n gwneud hyn oll ddim ond *derchafiad y galon at Dduw*, deiſyf petheu cymmwys iw deiſyfu, a lleſaru 'r deiſyfiad yma i Dduw fel y medrych ac y gweddei i ti. Ac nid yw dy gyndynrwydd di i *Weddio* ddim ond difrawch am y peth y dylit yn dra awchus hiraethu am dano, neu ddewis bod heb dy fodlonrhwydd a'th wynfyd yn hytrach na'i ofyn. Ymarfer ditheu â *Gweddi* wrth y Rheoleu hyn.

Rheoleu i ymarfer â Gweddi.

Yn 1. Gochel fyth ofyn i Dduw ddim a fo *pechadurus* neu'n union dueddol i *bechod*: canys nid yw hynny ond attolwg i Dduw ei ddi-anrhydeddu ei Hun, a'th anrheithio ditheu. Rhaid i ti edrych beth a weddiech, canys cyn y dychwelo'r weddi yn fendith rhaid ei huno ac Gyfryngdod Crîſt, a'i phreſentio i Dduw. Gweddia'n bennaf am allu a chymmorth i wneud dy ddyledſwydd, i ogoneddu Duw, i wneuthur gweithredoedd da,

i fyw'n ſanctaidd, i farw yn ofn a ffafr Duw, ac am fywyd tragwyddol: y petheu hyn ſy lawen gan Dduw eu rhoi, ac a bair ef i ni eu gofyn, ac ti a elli fod yn ſiccr ddiogel o honynt, ond i ti eu gofyn a gwneud dy ddyledſwydd tu ac at eu cael.

Yn 2. Pa bethau *daiarol* bynnac ſy rydd i ti eu chwennych, mae'n rhydd eu gofyn gan Dduw trwy *weddi*: Ti elli ofyn calon ddealltwrus, ſynhwyr parod, corph iachus a dianaf, enw dâ, a thi a gei dy ofyn neu fendith am ofyn. 1. Ond y pethau ſy angenrheidiol ith gynhaliaeth, ti au cei yn ddi-os ond eu gofyn, mae i ti ſiccrwydd am dy fwyd, peth nid oes i ti ddim am dy fywyd, *ymborth* ith cadw yn fyw, a *dillad* rhag noethni a chywilydd; etto na feddwl di am ddillad ac ymborth wrth dy *flys*, eithr wrth dy *angenrhaid*. 2. Beth bynnac ſy gyfleus i ti, a hyfryd mewn gweddeidd-dra ti elli weddio am dano, am y gofynnech yr holl betheu hyn a'u cyffelyb, yn *gyntaf*, Tan ymroi ac ymoſtwng i wllys Duw. Yn *ail*, Am na ofynnech ddim oferbeth diyſtyr, ond rhywbeth a fo mor ſynhwyrol a pherthynol ac y bo gweddus ei grybwyll rhwng Duw a'th enaid. Yn *drydydd*, Na ofynnech monynt iw treulio ar dy drachwanteu, ond i ryw ddibennion o *Gyfiawnder*, neu o *Gariad* neu o *Ddiwioldeb*, a'u harferu mewn *Sobrwydd*.

Yn 3. Os mynni *Weddio* yn affeithiol, rhaid i ti fyw yn ofalus ac yn ddiwiol. Canys er bod Duw yn gollwng bendithion cyffredin y bywyd hwn ar yr annuwiol, etto nid ydynt ond melltithion iddynt hwy mewn gwirionedd, canys ni allant na'u dilgwil gan Dduw yn hyderus, na'u derbyn yn ddiberygl, na'u harferu heb gnoſa breſennol a deſtryw tragwyddol yn eu canlyn. Ac megis y mae pob *Pechod* yn rhwyſtr i *weddi*, felly mae rhai rhwyſtrau enwediccach na'u gilydd, cyfryw ac yw Anghariadoldeb a Digter, Rhagrith preſennol, Balchder a Thrachwant, am fod y rhain trwy halogi'r corph neu'r Enaid yn troi'r *weddi* yn bechod hollawl.

Yn 4.

Yn 4. Rhaid ymhôb Gweddi fod *Yfydd* a *Gobaith*, hynny yw, rhaid i ti *gredu* yn ddiogel y derbyni 'r grâs a barodd Duw i ti ei ofyn, ac rhaid i ti *obeithio* am y cyfryw betheu ac a rhoes ef gennad iw gofyn; ac nid â dy *obaith* yn ofer er na chaffech mo'r petheu ni's addawed yn hollawl, am y trŷ'r nâg yn fendith i ti cyſtal a'r rhodd. Rhaid ynteu ficcrau 'r ammodeu uchod, ſef, Na weddiech ond am betheu *angenrheidiol* neu o leiaf petheu *da*, *diniweid*, a *lleſol*, a'th fod titheu *dy hun* yn hwylus ac yn *gymmeradwy* ger bron Duw, ac yna ni all fod dim rhwyſtr, canys ar rann Duw y mae'r hyn ſy'n ôl, ac nid poſſibl i hwnnw fethu.

Yn 5. Rhaid i'th *Weddieu* fod yn *wreſoc*, yn *ddwys*, ac yn *daerddifrifol*, pan weddiech am betheu o berthynas mawr ac angenrhaid. [*Yn dyfal barhau mewn gweddi, ymdrechu'n waſtadol mewn gweddi: gan weddio mwy na mwy nôs a dydd: gan weddio bob amſer a phôb rhyw weddi.*] Medd S. *Paul.* [*Byddwch wiliadwrus i weddio*] Medd S. *Petr: gweddio'n daer*, Medd S. *Iaco.* Ac nid oes i ti ſaddeu gronyn o hyn ym matter dy *enaid*, a'th ddyledſwydd; o blegit fel y bo dy ddeiſyfiadau y bydd dy weddiau, ac fel y bo dy weddieu felly y bydd dy râs, ac fel y bô dy râs felly y bydd dy *râdd* o ogoniant.

Ond mae'r *taerddwys wreſogrwydd* yma yn cynnwys graddau yn ôl fel y bo dy gwrs di o ſywioliaeth: ond nid oes iddo ddim amgen meſur na bod o hono cymmaint fyth ac y gallech, goreu po mwyaf, na oſod ddim terfyneu pennodol i ti dy hun.

Mewn gweddieu am betheu llai angenrheidiol, nid oes i ti arfer ond llai o daerddifrifwch. *Gweddia am dano cyn ddwyſed ac y bo rhydd i ti ei ddymuno.*

Yn 6. Rhaid i'th ddeiſyfiadau fod yn barhaus, ai i'th *Weddieu* fod yn *aml*, yn *ddyfal* ac yn *waſtadol*: nid gofyn peth unwaith a gadel ar hynny: eithr adnewyddu dy erfynion beunydd, ac ymarfer â'th Amynedd a'th hirymaros, a'th Ffydd, a'th Obaith, a'th Ddduwioldeb, tan

ymroddi, ac ymwadu â thi dy hun hyd y pwyſer attat. Dyſcodd ein Iachawdwr i ni 'r *dyfalwch* yma wrth ddywedyd ſod yn *rhaid gweddio yn waſtad ac heb ddeffygio.* Ac o herwydd nas medri di bôb amſer oſyn amryw betheu, a bod arnat aml ddiffyg yr un peth, a'r rheiny yn betheu perthynol i'th Fatter mwyaf; am hynny pair S. *Paul* i ti [*Weddio yn ddibaid*] *O'r achos hyn yr attolygais yr Arglwydd deirgwaith.* Ac felly y gwnaeth ein Harglwydd bendigedic, yntef a aeth *deirgwaith* at Dduw am yr un neges, â'r un geirieu, yn yr un darn noſwaith. Ac ſel hyn y dylit titheu bôb amſer weddio am *faddeuant pechodeu*, am *gymmorth grâs Duw*, am *Gariad perffaith*, ac am *fywyd tragwyddol*, heb peidio (ar un achlyſur) fyth hyd Angeu: ſel hyn hefyd y mae i ti weddio am dy *ddirfawr angenrheidieu* bydol; a gwilia byth beidio o ran *blinder* nac annioddef. O blegid mae Duw lawer gwaith yn oedi rhoi i ti d'ofyn, am ſôd yn dda ganddo dy glywed yn ymbil, a'i fryd ar roi i ti fwy na'th archiad, ſef bodloni dy hôll ddeiſyfiadau, a'th ſendithio am y taerni.

Yn 7. Bydded *geirieu* dy weddi yn berthynol, yn bwylloc, ac yn ddefnyddiol; nid yn llawer, ond yn ol dy raid yn ddigonol i draethu dy ddiffygion, ac i ddangos dy daer-ddifrifwch. Nid cynt y gwrendy Duw di am dy aml eirieu, eithr llawer cynt am dy daer-ddeiſyfiad; etto yſpyſer y deiſyfiad â geirieu addas a digonol. Nid yw Gweddi ferr neu hîr ond yr un fath gan Dduw, canys nid wrth ei *hyd* y priſia Duw 'r weddi, ond wrth *wreſogrwydd* a *charedigrwydd* y Gweddiwr. * *Iweddi neilltuol* y perthyn y Rheol hon. Ond mewn Gweddiau *Cyffredinol* a chyhoedd, rhaid i ti feſur dy ddyfoliwnau yr un hyd â'r Gwaſanaeth goſodedic, a chais faentumio gwrês dy galon â dyfeiſiau yſprydol, fel y bo dy yſpryd *neilltuol di* yn rhann o'r Yſpryd *Cyffredinol*, ac y derbynier ditheu i gymdeithas a bendithion *Cymmun y Saint*.

Yn 8. Ynghanol dy *Erfynion* taro *ddiolch* i mewn,

modd

nodd y cynheſo dy Weddi *breſennol* mewn gobaith o Fendith *ddilynol* wrth i ti adroddi mawl am a gefaiſt *euſys.* Dyma gynghor S. *Paul* [*Ymhôb peth mewn gweddi ac ymbil gyd â diolchgarwch, gwneler eich deiſyfiadau chwi yn yſpys ger bron Duw.*]

Yn 9. Beth bynnac a erfyniech gan Dduw mewn Gweddi, gweithia hefyd a thro bob carreg am dano, os peth yw o ddyledſwydd, neu iw gael trwy ddiwydrwydd. Canys hôff gan Dduw fendithio poen, eithr câs ganddo borthi diogi. Am hynny mae'n Iachawdwr gyd â *gweddio* yn peri i ni *wilio.* Gweddia rhag profedigaeth, ond rhaid i ti hefyd *wrthwynebu Diawl*, ac yna *fe a ffy oddi wrthit.* Gofyn i Dduw ddigon o fodd i fyw; ond rhaid i titheu *weithio â'th ddwylo.* Ni elli di ond *gwneud dy oreu*, a gweddio ar Dduw am fendith, a gadel y ffynniant arno ef; pellach na hyn nid oes i ti na gofalu na rhagfyfyrio; ond hŷd yma y mae'n rhaid.

Yn 10. I'r perwyl hwn aſtudia dy *Weddieu*, a darllen dy ddyledſwydd ynddynt. Canys ſwmm dy *Ddyledſwydd* y ddylei fod deſnydd dy *Weddiau*: ac megis y dylit ofyn i Dduw dy holl ddiffygion, felly ti a ddylit weithio a llafurio am dy hôll ofynion. Ac os troi dy weddiau yn orchymynion, bydd haws i ti droi dy ddeiſyfiadau difrifol yn arferion affeithiol.

Yn 11. Wrth *weddio* gwilia 'n ddyfal ar y gwaith, ac na âd i'th feddylieu mor gwibio ar betheu amherthynol ith eirieu, chwaethach gwrthwynebol iddynt. Ac o chrwydrant weithieu o'th anfodd dŵg hwy adref trwy gall a thôſt ddyfeiſieu, a chais ymhôb ſutt yſpryd ſobr a dichlyn, a chalon waſtad-ddwys ddigyffro.

Yn 12. Bydded dy *yſtum* a goſodiad dy gorph mewn *Gweddi* yn barchedic, yn ſobr, ac yn oſtyngedic: yn ôl cwrs cyffredin, a'r ſiampleu goreu, os yn gyhoedd: ond os or neilltu, gweddia 'oth ſefyll, neu ar dy linieu, neu orwedd o hyd gyhyd, yn dy weddiau *prydlon* arferedic. Ond wrth biccio ymbell ddwys *ochenaid* o ferr-weddi, gydâ pharchedic

chedic dduwiolder yr enaid, mae pôb yſtum gweddus ar y corph yn gwaſanaethu: o blegid ti elli weddio yn dy wely, ar dy geffyl, *ymhôb mann, a phôb amſer*, ac mewn pôb amgylchion: a da iawn i ti wneud felly: ac ni chaiff rhai gweithwyr llafurus mo'r ennyd i weddio cyn ſynyched ac y mynnei eu heneidieu oni thorrant eu chwant hwy â'r cyfryw fyrr-ddyfoſiwneu digwyddawl.

Yn 13. *Bydded gweddiau ac ymbiliau a thalu diolch dros bob dyn. Tros Frenhinoedd, a phawb mewn Goruwchafiaeth; Canys hyn ſy dda a chymeradwy gan Dduw ein Ceidwad.* Nyni y rhai ſy i garu ein cymmdogion fel ni ein hunain, a ddylem weddio troſtynt hwy fel troſom ein hunain. Ond bod hyn o ragor, ſef y gallwn weddio yn ddycnach ac yn helaethach am lwyddiant bydol i *Frenhinoedd* nac i ni ein hunain, am fôd yn rhaid iddynt hwy wrth ſwy iw cymmorth i lywodraethu'n ol eu dyledſwydd, ac i faentumio Crefydd a Chyfiawnder. Y rhann hon o *weddi* a eilw 'r Apoſtl [*Eiriol*] ac yn ddiau ni a ddylem yn dra gofalus gofio ein perthynaſau, ein Ceraint, ein Teulu, ein ſiars, ein Cymmwynaſwyr a'n Holwyr, a chofiwn ofyn tros ein Gelynion faddeuant a chariad, a nawdd Duw rhagddynt.

Yn 14. Mewn matterion o bwys na hydera ar dy Weddi *dy hun*, eithr cais oreu y gallech o gymmorthion rhai *eraill* i weddio troſot. Canys dyna'r lleſâd mawr o *Gymmun y Sainct*, fod Gweddi gyffyllttedic yn gadarn, megis Byddin gyſanſoddedic; ac odiaeth gan Dduw gael ei warchae â rheffynnau *Cariad*, a'i gymmell trwy drais ſanctteiddiol.

Yn 15. Pob hamdden oddiwrth ddyledſwydd arall ſy gymmwys ddigon i *Weddi*: ond hwyr a boreu na faddeu mo'ni mwy na'th bryd bwyd. fel y bo Duw yn nechreu ac yn niwedd dy hôll orchwylion; canys felly y bendithi di Dduw ac y bendithia Duw ditheu. Ac etto na phalla gael neu wneud achlyſur i addoli Duw rywbryd arall; O leiaf trwy ocheneidio byrr-

byrr-weddieu naill ai mwy ai llai, naill ai wrth gwrs ai heb gwrs, naill ai yn gyffredin ai o'r neilltu, fel y gallech neu y caffech ennyd: A gwybydd fel y mae pob *pechod* yn râdd o berygl ac enbydrwydd, felly y mae pôb *gweddi dduwiol* ac achlyſur a iawn dreulier yn râdd o ddychweliad at *Obaith* a *Maddeuant.*

O chedwi y Rheolau hyn, bydd dy *Weddieu'n* dduwiol yn llwyddiannus. Ond o blegid nad yw'r ddyledſwydd hon heb ryw brofedigaethau yſpyſol, rhaid oedd dy arfogi â chynghorion yſpyſol rhagddynt. Y Peryglon yw, 1. *Meddylieu gwibgrwydrus*, ac 2. Annioddef a *Gwander yſpryd.* Rhag y cyntaf, cymmer y cynghorion hyn.

Cynghorion rhag Meddylieu gwib-grwydrus wrth Weddio.

Os clywi dy enaid yn grwydraidd yn dy Weddiau, ac yn cilio i'r *byd*, neu i betheu diles oferwag amherthynol,

Yn 1. Gweddia am help i *weddio*: gweddia am yſpryd ymbil, am enaid ſobr, ſafadwy a dyſal: a chwanega ſucheddol ddiwydrwydd i gadw dy feddylieu gartref yn ddiyſcog; Ar ôl hynny pa wibiadau bynnac a ddêl o'th wîr anfodd, trueni ac amherffeithrwydd Natur ac nid pechod monynt.

Yn 2. Mewn *Gweddi* o'r *neilltu* da oedd i ti dorri dy Ddyſoſiwn yn ddarnau neu Golectau byrrion, modd yt helpio gorphywys ar ben pob Colect dy ddiſyg yſpryd ac anadl.

Yn 3. Pan grwydro dy feddylieu yn neppell oddi cartref, ymrwyma i ail-adrodd y *weddi* trwy wîr ddyſalyſtyriaeth, neu gnô dy gîl a'r ei defnydd a'r meddwl, a'r deiſyfiadau a ſo ynddi: Ac odid iawn na phaid y Temtiwr wrth gael ei guro â'i ffonn ei hun, a herrio i wagedd arnat, pan welo na wnâ hynny ond dy gyffroi i dduwioldeb a gofal, heb golli dim o'th *wobr* eithr dyblu dy ddiſrifwch.

Yn 4.

Yn 4. Os hyn ni bydd prydlon na chyfleus na chymmwys i ti, etto bydd ficcr o ddywedyd *Amen* o eigion dgalon i'r hôll *weddi*, âg un deisyfiad cyfan dwys-ystyrio gan daer chwennych y grasau cynnwysedic yn y Weddi canys mae'r taer chwennychiad hwnnw yn ficcrhau'r fendith, os o'th lwyr anfodd y crwydrasei dy feddylieu a thi'n gwneud dy oreu iw hattal.

Yn 5. Gochel liaws o negeseuau bydol, ac yn y rhai anhepcor cais Dawelwch a gwastadfryd calon, fel y bych yn llysn a digyffro yn hôll dymhestloedd Fortun: canys gwell y gwili ar *Dduwiolder* pryd na bo fawr wynian gwael na gosalon a matterion bydol i'th groes-dynnu.

Yn 6. I'th annog i arferu'r cynghorion hyn neu eraill a gaffech, ystyr mai anweddeidd-dra mawr yw erchi i Dduw wrando dy weddi, a thitheu dy hun heb wrando ar lawer o honi. Oni thalei hi i *ti*, ni thalei hi yn ficcr i *Dduw* moi hystyried.

Arwyddion o Yspryd blinedic yn ein Gweddi, ac ymhôb Gweithred o Dduwioldeb.

Yr ail Demtasiwn mewn *Gweddi* yw Blinder calon, neu alaru ar y gwaith, ail i'r *Iuddewon* a gwynasant eu bod wedi blino ar eu newydd-loerau, a'u hen aid wedi alaru ar *amlder* y sabbothau: felly 'sywaeth y mae llawer o Gristianogion, yn *gweddio*'n ddiwres ac yn ddifraw, ac yn ail yn *myfyrio*'n ansynych ac yn anffrwythlawn, neu yn drydydd ni *holant* mo'u *cydwybodau* ond yn anaml, a phan holant, o mor yscafn a diowgswrth y gwnânt, heb ddwsbigiad calon, na llawnfryd difrifol, na ffrwytheu o wellhad. 4. Ymhyfrydant yn cofio a mwynhau petheu *daearol*, at y rheiny y rhedant am gyssur ymhôb trifliwch ac aflwydd. 5. Nid hoff ganddynt aml *Sacrament*, nac yr un o arfeu Duwioldeb megis *Pregethau, Cyffessau, Gweddiau Cyffredin, Ympryd au*, eithr anwyl gan-

ganddynt esmwythyd, a byw mewn rhydd-did a rhwysc. 6. Nid ufuddhânt iw Huchafiaid, ond canlyn eu cyngor eu hunain, pan so eu cyngor yn dilyn eu gwyniau, ma gwynieu'n dilyn eu pleserau bydol. 7. Maent yn esceuluso neu yn ymddieithro, neu'n oedi, neu heb ddâl ar y cynnyrsiadau a ddyry'r Yspryd glân yn eu heneidieu iw hannog i dduwioldeb. 8. Ymsodlonant yn y rhanneu angenrheidiol o Grefydd, a gorphwysant yn y graddeu isaf o dduwioldeb, pan ddelont hyd yno ni phoenant synd ddim ymlaen at Berffeithrwydd, 9. Ymosynnant ar ba achos y mae'n rhydd esceuluso dyledswydd: ac er na wnaent lai na'u dîr ddyledswydd, etto ni wnânt ddim mwy chwaith; canys o hunan-gariad ac ofn y gwnânt, nid o gariad arDduw, nac o yspryd sancteiddrwydd a zêl. Diwedd y ffordd honno yw hyn: Y sawl ni wnêl ddim ond ei ddyledswydd angenrheidiol, ni fydd hîr nas dêl i addeu peth o honno, ac i dybio fod llai yn angenrhaid nac sydd.

Meddyginiaethau rhag Blinder Yspryd.

Yn 1. Trefna felly dy weddiau neilltuol fel na bo mo'r *weithdra rhybir* yn achos i ti flino, eithr crynhô dy bethau yn gynhwysach, gan gadw fyth hôll ddefnydd y weddi, a'r hyn a dalsyrrech oi hŷd hi, diwygia hyn â mwy o daer-ddifrifwch calon, ac yna ni bydd dim o lled.

Yn 2. Tro call oedd i ti geisio amryw *Weddiau* ar yr un pwrpas, fel wrth eu newid i borthi'r phansi y bo gwell blâs gan dy yspryd arnynt. Ni hwyrach y clywi rnat dywedyd *Hymn* neu Psalm, pryd y bo *Colect* yn ddiflas gennit, neu *ganu* Psalm yn hytrach na'i *darllen*, neu'r naill Psalm yn hytrach na'r llall, sicer yw sod yn da gennym amheuthun, a pha un bynnac ai natur ai wendid yw hynny, os cyd-ddygir âg êf, fe a dyn ymaith eth o'r Temtasiwn yma.

Yn 3.

Yn 3. Dyſc dynnu dy feddylieu a'th chwanteu odd ar bethau a phleſerau'r byd. Canys yr unic wîr feddy giniaeth i'r drŵg yma yw torri ymaith bôb cariadau glyniadau eraill. Treſna ſelly dy negèſau, fel y b *Duwioldeb* yn *wobr* gennit, ac mai *Gweddi* ſo dy *noddf* a Chariad perffaith a gweithredoedd da, ſo dy ſiccrwyd a'th dryſor. Gwêl nad yw dim arall ond porthiant i rhann anifeiliaidd o ddyn, ac mae rhain yw dainteithio yr *enaid*, rhann Dduw, y rhann ardderchog o honot ſy dy wneud ti'n well nac anifail. A pha erſyn bynn arall, neu ymarfer, neu yſtyriaeth a wnêl lês at ddiddy nu dy hoffder i'r byd, bydd hôff gan hwnnw oſod d ſerch ar Dduw.

Yn 4. Na chais mor teimlad preſennol o *lawenydd hyfrydwch* yn dy *Weddi*, eithr edrych di at wneud cyd wybod o'th ddyledſwydd. Canys er bod Duw weithie yn cŷd-ddwyn â'n gwendid, ac yn cefnogi'n diwydrwyd âg ymbell damchwa fechan o lawenydd yſprydol, a di ſyrrwch a melyſder calon wrth weddio, hyd oni bo dy yn teimlo rhyw belydryn bâch o'r Nêf, a chyſſura mawr oddi wrth Yſpryd y Diddanwch; etro nid dioge i ti gael y rhain bôb amſer, na'u diſgwil chwaith; a os gwnei fe a'th oera hynny di i geiſio ac i wilio Grîſt pan ſych hebddynt. Rhedeg yw hyn ar ei ol am y torthau ac ni dam y gwrthiau, nid am ryſedd-b theu Duw a chwant iw fodloni Ef, ond am y pleſer o'r foddio dy hun. Os medr dy enaid waſanaethu Duw y awyddus oth wirfodd, o ran gwîr gydwybod o'th ddy ledſwydd, mae hynny yn well ynddo'i hun, ac yn ddi berycclach i titheu.

Yn 5. Arfer feddalhau dy galon trwy fynych fyſyrio ar bethau trîſt a galarus, megis *Angeu*, *dychryniada* Dydd y Farn, ofnadwy *farnedigaetheu ar bechaduriaid* digwyddiadau *rhyfedd* ac *erchyll*, ofn *digofaint Duw*, *poe neu Uffern*, anrhaethawl *ddychryndod y damnedic*, ac mo anoddef yw'r baich o *Drueni Tragwyddol*. Canys beth bynnac

byrnac a godo *ofn*, ac a gadwo 'r enaid mewn *Triſtwch* dut iol, bydd hôff ganddo feddalhau 'r *galon* a'i chadw hi'n ddefoſionol ac yn yſtwyth at bob rhann o Ddyledſwydd. Ofn mawr anhwylus a fâg *Goel-grefydd*; ond ofn ſynhwyrol a iawn hwylier a genhedla wîr *Grefydd*.

Yn 6. Gweddia'n *fynych* a thi a weddii'n *fynychach*, a phan ymgynnefinech â mynych *weddi*, hi a ymgyſylltra'n ddiarwybod â'th Natur ac â'th ſerch di, hyd onid êl yn flîn gennit faddeu dy weddieu arferol, a'r hyn a ennillech di trwy boen a chroeſi dy feddwl, a eiff o'r diwedd mor anhawdd gennit ei adel ac oedd gennit ar y cyntaf ei gychwyn. Canys heb law bod *Greddfau* a hîr-Arferion yn troi pôb peth yn ail Naturiaeth, ac yn gwneud eu gweithredoedd yn hawdd, yn aml, ac yn hyfryd: Mae natur *Grâs* hefyd i ymlioſogi 'n ôl ei rhyw, gan ymgynnyddu a thyfu o hadau bychain yn anfad brenniau, o fymryn i anferth faintioli, o funudieu i Dragwyddoldeb. Ond gwilia di unwaith eſceuluſo dy *Weddiau beunyddiol* heb ryw achos mawr; er y gellir hynny 'n ddibechod; canys wedi 'r eſceuluſech ychydig, cyn y bô hîr ni ruſi di er hyn, a thi a demtir i eſceuluſo tippyn ychwaneg.

Yn 7. Yn fynych ac yn ddifrifol bwrw dy hun yn dy feddwl ar dy *Wely-angeu*, ac yſtyr pa ddirfawr lawenydd a gei wrth gofio pob diwrnod ar a iawn dreuliaiſt, a pheth a roiti 'r pryd hynny er darfod i ti dreulio felly dy hôll ddyddiau. Gelli fwrw amcan wrth ychydig; canys dîr yw y bydd nôs hyfryd a llwyddiannus i'r ſawl a dreuliodd y dwthwn yn ſanctaidd. Mewn tangneddyf y gorchmyni dy enaid i ddwylo Duw wrth farw, os arhoi yn dy fyw yn Nhangneddyf Duw, ac yn Ngweithredoedd *Duwioldeb*. Nid yw'r bywyd hon ddim ond a ddaw yn ſicr i ben. *Goſoded i bawb farw unwaith, ac wedi Marwolaeth bod Barn*; Mae'r meddwl am y petheu hyn yn *ofnadwy*, a'u dyſodiad

fydd

fydd *anoddef* oni byddi trwy ſanctteiddrwydd a Duw... deb wedi dy gymmwyſo at y ſâth ymddangoſiad mowr- ddwys ardderchog.

Yn 8. Yn ymyl hyn gwnai lês yſtyried *iau Crîſt*, y gddidowgrwydd a'r hyfrydwch ſy mewn *Duwioldeb*, yn heddwch cydwybod, llawenydd yr Yſpryd glan, a gor- foledd yn Nuw, ſymlrwydd a diſyrrwch *Rhinwedd*; dyryſni, blinder, a thrafferth pechod; bendithion, ac iech- yd, a gwobrau'r naill; melltithion, clefydon a ſcelerder y llall: ac os blini ar lafur *Duwioldeb* ti a flini ar bôb peth, am nad oes dim arall heb ynddo fwy o anfeidrol o boen a gofal, ac o flinder ac anhawſder,

Yn 9. Gwybydd hyn heſyd mai *Blinder* a *diflaſiwydd* *yſpryd* yw dechreuad y cyflwr peryccla'n yr Hollfyd Canys mae e'n ogwyddiad trwm at y pechod yn erbyn yr Yſpryd glân; mae'n hôff ganddo ddwyn dyn i ſtât o *wrthnyſſigrwydd* a *di-adenedigaeth*, ac i ddychwelyd iw chwydfa a'i fudreddi, ac naill ai gwneud y dyn yn annio- ddefus, ai ei gyflwr e'n amheus ac yn anfodlon, ie'n ddiflas ac yn ddiobaith. Nid oes yn yr holl fyd ſiccrach arwydd o fod yſpryd colledig yn dechreu ar ddyn, na'i fod ef yn gynnefinol ac yn gyfannedd, neu gan fyny- chaf, yn dibriſio, yn blino, ac yn diflaſu ar Orchwy- lion ſanctaidd.

DOSP. VIII.

Am Eluſen.

MAE *CARIAD* yn ymgyfrannu fel Tân, ac mor bryſur a bywiog ac yntef. Trugaredd ac *Eluſen* yw Enaid a Chorph y *Cariad* hwnnw ſy ddyledus arnom i angen a thrueni ein Cymmydog: a gorchymyn yw a oſo- dodd Duw i'r perwyl yma, fel y tymherid ac y gwaſtat- teid peth ar y *rhagor* a'r anghyfartalwch ſy rhwng cyflwr a meddianneu rhai dynion a'u gilydd, ac y cynnwyſid y trueiniaid i ryw deimlad a chyfran o ddedwyddwch.

Gweith-

Gweithredoedd o Drugaredd, neu'r amryw fathau o Eluſeni Corphorol.

Mae cynnifer o weithredoedd *trugaredd* ac ſydd o fathau o *ddiffygion* ac o *drueni* yn y byd. Bydd ar ddyn eiſieu *bwyd* neu *ddiod*, neu *ddillad*, neu *dy*, neu *ryddid*, neu *ymgeledd* neu *fêdd*. Ynghyfer y *diffygion* hyn pennir ſaith weithred o *Drugaredd* a ſeithryw o *Eluſeni Corphorol*. 1. Porthi'r newynoc. 2. Diodi'r ſychedic. 3. Dilladu'r noeth. 4. Gwaredu'r caeth. 5. Ymwelyd â'r clâf. 6. Croeſawu dieithriaid. 7. Claddu'r marw. Eithr ſe a ellir chwanegu etto lawer at hyn meſ. 8. Rhoi phyſygwriaeth i gleifion. 9. Dwyn y rhyhyd a'r anwydoc at gynheſrwydd tân, canys weithieu wnâ dillad mo'r gwaith, ac ni allwn roi tân iddynt, yd na's gallom roi dillad. 10. Hyfforddio'r dall. 11. enthygio atian. 12. Maddeu Dyledion. 13. Maddeu Fforffedion. 14. Tacclu prif-ffyrdd, a phynt. 15. yfarwyddo Trafaelwyr a fo ar gyfeiliorn. 16. Eu elpu âg arfeu iw gwaith, neu â cheffylau iw ſiwrnai gludo neu ſudo. 17. Amddiffyn y gwann a'r tlawd ag eu gorthrymmwyr. 18. Marw tros fy mrawd.

Gweithredoedd yſprydol o Eluſen a Thrugaredd yw,

1. Dyſcu'r anwybodol. 2. Cynghori'r amheus. 3. hybuddio pechaduriaid yn bwylloc, yn ddiwyd, yn ydlon, ac yn garedic: ac ail i hyn yw cefnu ac annog i eithredoedd da. 4. Cyſſuro'r cyſtuddiedic. 5. Maddeu i Droſeddwyr. 6. Swccrio a chynnal y gweiniaid. Gweddio tros bôb ſtât o ddynion, ac am gymmorth hôll angenrheidieu hwy. At hyn etto gellir chwanegu. 8. Coſpi a cheryddu'r gwrthnyſig. 9. Bod yn mwyth ac yn garedic wrth farnu ar weithredoedd rhai aill, 10. Sefydlu ac ſiccrhau eneidieu rhuſiedic, gwi-

fydd *anoddef* oni byddi trwy ſancteiddrwydd a Duw... deb wedi dy gymmwyſo at y ſâth ymddangoſiad mawr... ddwys ardderchog.

Yn 8. Yn ymyl hyn gwnai lês yſtyried *iau Crîſt*, y... gddidowgrwydd a'r hyfrydwch ſy mewn *Duwioldeb*, y... heddwch cydwybod, llawenydd yr Yſpryd glan, a gor... foledd yn Nuw, ſymlrwydd a difyrrwch *Rhinwedd*... dyryſni, blinder, a thrafferth pechod; bendithion, ac iech... yd, a gwobrau'r naill; melltithion, clefydon a ſcelerder... y llall: ac os blini ar lafur *Duwioldeb* ti a flini ar bôb peth, am nad oes dim arall heb ynddo fwy o anfeidrol o boen a gofal, ac o flinder ac anhawſder,

Yn 9. Gwybydd hyn heſyd mai *Blinder* a *diflaſ*[illegible]*wydd yſpryd* yw dechreuad y cyflwr peryccla'n yr Hollfyd... Canys mae e'n ogwyddiad trwm at y pechod yn erbyn yr Yſpryd glân; mae'n hôff ganddo ddwyn dyn i ſâth... *wrthnyſſigrwydd* a *di-adenedigaeth*, ac i ddychwelyd iw... chwydfa a'i fudreddi, ac naill ai gwneud y dyn yn annio... ddefus, ai ei gyflwr e'n amheus ac yn anfodlon, ie'n... ddiflas ac yn ddiobaith. Nid oes yn yr holl fyd ſiccrach arwydd o fod yſpryd colledig yn dechreu ar ddyn, na'i fod ef yn gynnefinol ac yn gyfannedd, neu gan fynychaf, yn dibriſio, yn blino, ac yn diflaſu ar Orchwylion ſanctaidd.

DOSP. VIII.

Am Eluſen.

MAE *CARIAD* yn ymgyfrannu fel Tân, ac mor... bryſur a bywiog ac yntef. Trugaredd ac *Eluſen* yw Enaid a Chorph y *Cariad* hwnnw ſy ddyledus arnom... angen a thrueni ein Cymmydog: a gorchymyn yw a oſo... dodd Duw i'r perwyl yma, fel y tymherid ac y gwaſtat... teid peth ar y *rhagor* a'r anghyfartalwch ſy rhwng cyflwr... a meddianneu rhai dynion a'u gilydd, ac y cynnwyſid y... trueiniaid i ryw deimlad a chyfran o ddedwyddwch.

Gweith...

Gweithredoedd o Drugaredd, neu'r amryw fathau o Eluſeni Corphorol.

Mae cynnifer o weithredoedd *trugaredd* ac ſydd o fathau o *ddiffygion* ac o *drueni* yn y byd. Bydd ar ddyn eiſieu *bwyd* neu *ddiod*, neu *ddillad*, neu *dy*, neu *ryddid*, neu *ymgeledd* neu *fêdd*. Ynghyfer y *diffygion* hyn pennir ſaith weithred o *Drugaredd* a ſeithryw o *Eluſeni Corphorol*. 1. Porthi'r newynoc. 2. Diodi'r ſychedic. 3. Dilladu'r noeth. 4. Gwaredu'r caeth. 5. Ymwed â'r clâf. 6. Croeſawu dieithriaid. 7. Claddu'r marw. Eithr fe a ellir chwanegu etto lawer at hyn mes. 8. Rhoi phyſygwriaeth i gleifion. 9. Dwyn y rhyhyd a'r anwydoc at gynheſrwydd tân, canys weithieu wnâ dillad mo'r gwaith, ac ni allwn roi tân iddynt, yd na's gallom roi dillad. 10. Hyfforddio'r dall. 11. enthygio atian. 12. Maddeu Dyledion. 13. Maddeu Fforffedion. 14. Tacclu prif-ffyrdd, a phynt. 15. yfarwyddo Trafaelwyr a fo ar gyfeiliorn. 16. Eu elpu âg arfeu iw gwaith, neu â cheffylau iw ſiwrnai gludo neu ſudo. 17. Amddiffyn y gwann a'r tlawd ag eu gorthrymmwyr. 18. Marw tros fy mrawd.

Gweithredoedd yſprydol o Eluſen a Thrugaredd yw,

1. Dyſcu'r anwybodol. 2. Cynghori'r amheus. 3. hybuddio pechaduriaid yn bwyllog, yn ddiwyd, yn ydlon, ac yn garedic: ac ail i hyn yw cefnu ac annog i eithredoedd da. 4. Cyſſuro'r cyſtuddiedic. 5. Maddeu i Droſeddwyr. 6. Swccrio a chynnal y gweiniaid. Gweddio tros bôb ſtât o ddynion, ac am gymmorth hôll angenrheidieu hwy. At hyn etto gellir chwanegu. 8. Coſpi a cheryddu'r gwrthnyſig. 9. Bod yn mwyth ac yn garedic wrth farnu ar weithredoedd rhai raill. 10. Sefydlu ac ſiccrhau eneidieu rhuſiedic, gwi-

biog, ac anwadal. 11. Cadarnhau'r cryſion, 12. chel rhoi achos Tramgwydd. 13. Rhyddhau dy oſa. 14. Achub morwynion rhag anniweirdeb a p teindra.

At y ddeuryw hyn o weithredoedd gellir chwa trydydd o'r ywogaeth ganolic rhwng *Corphorol* ac *Yſp* Megis. 1. Cymmodi gelynion. 2. Codi Yſcolion o Ddyſc neu Golaſau. 3. Maentumio Pregethau da. Rhoi gwaith i'r ſegur, a chrefftau goneſt i blant. blegid ni all y rhanneu gwahanredol o *Drugaredd* a *luſen* fod ddim llai o nifer, nac y bo anghenion dyn ac mae gormod o honynt i mi draethu am bob un a ben: ond bod ein lachawdwr wrth orchymmyn *El* yn penni'r ddau hyn o honynt oll, ſef, *diwallu yr tla maddeu cammau*; ac wrth y ddau hyn mae'n hawdd ſur y lleill ſydd oll yn ddyledſwyddeu rhwydd a haw ac amlwg ac angenrheidiol.

Ond yn gyffredin wrth y Rheolau hyn y mae rha Eluſen.

Rheolau i roi Eluſen.

Yn 1. Na roed neb *Eluſen* o eiddo arall, canys talu hwn nid ei roi a ddylid; mae hwnnw'n ddyledus i'r perch nogion nid i'r tlodion: o blegid mae ar bawb eiſieu e ddo'i hun, a rhaid edrych at hynny yn gyntaf, ac meddwl am anghenion y tlawd. Yneb a roddo eluſen hyn nid yw eiddo mae e'n ei wneud ei hun yn Lleidr tlodion yn Dderbynwyr. Nid wy'n ſôn na bo'n rhy ŵr heb allu taln ei ddylêd roi cardodau bychain i'r dion: ond nis dylei roi'r ſâth roddion ac a allo ffordd y byd ei rwyſtro i wneud cyfiawnder: ond y ſâth g dodau na helpent fawr at hynny pe cedwid hwy ſy gy wys yn eluſen, gwnaed yn hyn y peth a allo, nas gall yn y llall wneud y peth a ddylai. Ond yn g redin nis gall Yſpeilwyr a Thwyllwyr roi *Eluſen* o'r hy

dwyllaſ

dwyllaſant neu a ledrattaſant, ond ei roi adref i'r perchennogion a ddylid, neu onis gwyddant pwy a yſpeiliaſant rhoent gymmaint arall i'r tlodion o *iawn* i Dduw, canys nid *eluſen* mono.

Yn 2. O arian a ddèrbynier am beth anghyfreithlon, megis am gam-dyſtioliaeth neu frîb, neu gyllog putteiniaid, a bargeinion anghyfion, neu o ſudr elw megis cyflog am weithio ar y Sul, am dy anffurfio dy hun, am ſodyn *Huttan ddigrif* neu'n gŷff clêr. Mae'r rhain a'r cyfryw arian ôll wedi ei wenwyno â'r nodau, rhaid iddo fynd trwy'r tân cyn y bo cymmwys ar *Eluſen*; ſef, rhaid i'r dyn edifarhau, ac ymwrthod yn lân â'r bai, ac yna fe all ac y ddylei ei roi yn eluſen i'r tlawd.

Yn 3. Os rhoi *Eluſen* dyro o *drugaredd*, hynny yw, mewn gwîr deimlad calon o Drueni dy frawd gan ei glywed ynot dy hun mewn rhyw feſur, ac yna ceiſio dy helpu dy hun a'r llall o'ch cyd-trueni. Troſeddir y Rhêl hon gan y rhai a roant o rann arfer, neu glod, neu o rann dannod i'r llall ei dlodi, neu ei wneud e'n rhwymedic, neu unrhyw ddiben anrhefnus arall. Ond os nedri di gadw dy lygad a'th galon yn *ſyml*, a'th fwriad yn bur, a bod yn ſicr na bo dim o'th fryd ar *glôd dynion*, yna ti elli roi yn yr amlwg cyſtal ac yn y dirgel. O blegit cau'allan falchder a rhagrith oedd bwriad ein hachawdwr pan barodd roi Eluſen yn *y dirgel* gan mai yn oi orchmynion eraill ef yw *Llewyrchu o'th oleuni ger bron dynion*: Godidoccach yw hyn, o'd diogelach yw'r llall.

Yn 4. Wedi y gwnelech dwrn dâ na ſôn byth am dano neiwn ffrôſt na lliwiant; os gwnei dyna di'n talu i ti dy hun, ac yn colli *gwobr* ac ardderchawgrwydd y weithred.

Yn 5. Dyro *Eluſen* â chalon ac â wynebpryd *ſiriol*, *rid yn athriſt*, *neu trwy gymmell*, *canys rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu*: am hynny dyro'n *bryſur*, pan ro'r allu ar dy law, a'r angen yn dy gymmydog, a'th gymydog yn drŵs, *Dwy rodd yw rhoi yn fuan.*

Yn 6. Yn ol dy allu dyro i bawb a ſo newn eiſieu, ac mewn eiſieu cyd-waſtad dyro'n gyntaf i'r rhai da, yn hytrach nac i'r drŵg, ac felly hefyd mewn eiſieu anwaſtad, oddieithr bod angen y tlottaf yn ddurfing ac yn berygl: ond os bydd y dyn drwg mewn dygn eithaf angen, rhaid i ti ei ddiwallu o flaen gwr da a allo oddef yn hwy hebddo.

Yn 7. Na ddyro i bobl ddrwg mor cymmaint ac a faentumio'u *pechod*, megis *ſeguryd* neu *feddwdod* neu *anlladrwydd*. Y cyfryw rai pan ddelont i ddygn eiſieu diwaller hwy o feſur ychydig, fel y bo cymmwyſaf i gadw eu cyrph yn fyw, au trachwantau yn farw.

Yn 8. Y rhai 'luſenaf oll eu diwallu yw Perchen tai tlodion a llawer o blant,, neu rai wedi bod yn byw'n ddâ, a llithro i dlodi tôſt; pobl tan erlid, gweddwon, ac ymddifaid eu dyſcu neu eu prentiſio. Chwilia ddiffygion Teuluoedd lluoſoc anghenus; mae llawer heb ganddynt ddim ond y *gwaelder* a'r *gwylder*, a throſglwydda felly du *'luſen* iddynt modd na chywilyddiech monynt.

Yn 9. Dyro heb ddiſgwil *dim drachefn*, hynny yw heb feddwl am fanteiſieu i ddyfod, dyro i blant, i hên bobl, i'r anniolchgar, i rai yn marw, i rai na chei weled byth ond hynny monynt: o blegit os amgen, nid *Cariad* neu *Eluſen* yw dy roddion, eithr marchnatta neu farſiandiaeth: A gwêl na eſceuluſech ddiwallu angen dy elyn neu'r traws, canys felly bydd poſſibl yr ennilli ef i ti dy hun, eithr cais di ei ennill ef i Dduw.

Yn 10. Na ymddiried dy *'luſen* i law *ganol*, ac na oſod rannwr tanat: amcan y Rheol hon yw nid yn unic ſiccrhau'r eluſen i'r iawn law, ond ſiccrhau dy oſtyngeiddrwydd dirfeu hefyd, neu dy *lafurus gariad* chwedl S. *Paul*. Ac os ymgynnefini â bythod neu 'luſendai, a rhoi â'th law dy hun yr hyn a rag-fwriadodd dy galon, cei weled y cynneſa dy galon wrth y trueiniaid tlodion, y delweu godidoccaf o *Griſt*.

Yn 11.

Yn 11. Beth bynnac a ſo yn dy Stât gyd â *digon* rhaid ei roi e'n *eluſen*. *Yneb ſy ganddo ddwy bais rhodded i'r nêb ſy heb yr un*, hynny yw, y neb ſy ganddo fwy nai raid rhoed hynny a ſo tros ben. Ond bod i ti gyfriſ yn *rhaid* nid yn unic ath gadwo 'n fyw, ond hefyd a êl i faentumio gweddoldeb dy *ſtât* ath *Râdd*, nid yn unic mewn angenrheidieu preſennol ond hefyd mewn angenrheidieu a digwyddiadeu tra-rhebygol i ddyfod, ond nid dim ymhellach: nid wyti 'n rhwym ddim tu hwnt i hyn, oni weli angenrheidieu dirfawr cyffredin a greſynol. Ac os ymeſtynni tu hwnt i'th feſureu a rhoi mwy na'th allu mae i ti 'r *Philippiaid* a llawer o wŷr ſanctaidd yn *battrwm*, mae S. *Paul* i'th *annog*, mae Criſt ith *gynghori*, mae Duw ith *obrwyo*, a Thryſor mawr i ti 'n y Nef yn *iawn* ac yn *Daledigaeth*. Ond gwiliwch er dim fod yn fanwl na mwythus, nac anweſoc wrthych eich hunain wrth fwriw beth yw cymmwyſder a *gweddoldeb* eich ſtât ach grâdd, torrwch *yn gymmedrol* attoch eich hunain y fâth gynnwyſiad ac a weddei i *Griſtianogion*: ac dyma 'r llês a ddaw o hynny, bydd cymmorth digonolach i'r Tlodion, a'r ddyledſwydd yn ddi goſtach, a chwitheu 'n aplach iw gwneuthur, ac ynhaws i chwi roi 'ch cyfrif i fyny pa fodd y treuliaſoch eich meddianeu bydol. Os rhoi dy fryd ar aſtudio 'r Gelfyddyd o *Eluſen* ti a gei ddigon o ffyrdd i wneud y ddyledſwydd hon yn yſcafn, yn lleſol, ac yn llwyddiannus. Megis,

Yn 1. Od ei i *chwarae* rhaid i ti fod cyn fodloned i golli ac i ennill, ond os rhoi dy holl ennill i'r tlawd mae hynny 'n well nai gadw, ond gwell na'r llall oedd gadw i'r tlawd yr hyn yr oeddit fodlon iw golli a gadel y chwaryddiaeth heibio, a chwarae am Dragwyddoldeb. Dyna un ffordd.

Y llall yw *Cadw Ymprydiau 'r Eglwys*, a chynniſer o ymprydieu neilltuol hefyd ac a fynnech, ac os yw dy gyfiwr i allu cadw peth ynghyfer pôb pryd a gollech yn

y flwyddyn, ti a gei oddi wrth hyn gryn gymmorth i'r tlawd. Ond oni chlywi arnat ymprydio weithieu modd y gallo dy frawd fwytta, drwg y bydditi farw troſto. Rhoes S. *Marthin* y cwbl a feddei 'n y byd i'r tlawd ond un bais, ac a rannodd honno hefyd rhwng dau gardottyn. Mwy na hyn ymwerthodd S. *Paulinus* i gaethiwed i brynu rhydd-did i lanc yr oedd ei fam yn dra galarus am dano: a dywedir i S. *Katherine* ſugno archollion gwenwynic i ddiffeithwr a'i drygaſei hi yn dra digwilydd. Ac mi a ddywedaf i ti *Gariad* mwy narh ain ôll ynghŷd: *Criſt* ai rhoes ei hun i gywilydd ac Angeu, i brynu ei Elynion o Gaethiwed, a Marwolaeth, ac Uffern.

Yn 12. Dyſc gan y *cynnil*, (ond i ti ochel pob *baweidd-dra*) a thro'n hwſmon dâ, a newid dy ofid i ennill yn ofal tros y tlawd; a thi a ei 'n ebrwydd yn gyſoethoc mewn gweithredoedd da: a pham nas gwnei o *gariad* gymmaint ac o *gybydd-dra*; am y *Nêf* gymaint ac am y *byd* darfodedic; er mwyn Duw a'r *Jeſu* ſanctaidd, gymaint ac er mwyn diles ormodedd *cefn* a *bòl*?

Yn 13. Nid yw'r Gorchymyn o *Eluſen* yn rhwymo i bob mâth ac odſa o luſeni fel eu gilydd: canys os gwell gennit borthi'r tlawd a threulio dy hôll rann ffordd honno, nid wyti rwym i fynd i garcharau i brynu caethion; eithr wrth yr amgylchion preſennol yr wyti 'n rhwym, ac fel y bo Rhagluniaeth yn trefnu i ti weled trueni a greſyndod yr awron ac yn llegys, felly yr wyt titheu 'n rhwym i'r weithred yma neu 'r llall o *Eluſen*.

Yn 14. Onid oes gennit *ddim iw roi*, etto rhaid bod gennit *Drugaredd*, rhaid i ti reſynu a thoſturio wrth y tlawd, a gweddio troſtynt, a bwrw dy ddeiſyfiadau deſoſionol i gŷff y tlodion: ac os gwnei di'r hyn a allech bid mawr bid bychan, corphorol neu yſprydol, *Eluſen* neu *weddi*, cwppaned o wîn neu gwppaned o ddwfr, pettei ond *cariad* i'r brodyr neu wllys i helpu holl dlodion

Criſt,

Criſt, ſe a fydd cymeradwy yn ol yr hyn ſy gan ddyn nid yn ol yr hyn nid oes ganddo; O blegid nid yw hwn ar hôll Orchmynion eraill ond *Cariad*, a hwnnw a'i dengys ei hun lle y gallo; a lle ni's gall, etto *Cariad* ſyth yw ef, ac mae'n ddrwg ganddo na's gall.

Annogaethau i Eluſengarwch.

Yr annogaetheu i'r Ddyledſwydd hon yw y rhai a gynnyg y Scrythyr lân i ni, trwy ddatcan ei godidowgrwydd a'i Gwobr dilynol *hi*. Nid oes un ddyledſwydd a orchmynodd *Criſt* iw ddiſcyblion cyn ddyfned ddwyſed a hon o *Gariad* ac *Eluſen*. Chwanega at hyn eirieu 'n Harglwydd, *Gwell yw rhoi na derbyn*. A phan feddyliech faint y fendith nad wyt ti yn cardotta o ddrŵs i ddrŵs. y ffordd oreu o ddiolch i Dduw yw i ti er ei fwyn ef ddiwallu'r neb ſydd. 2. Wrth y ddyledſwydd yma y cerdd y Farn fawr y Dydd diweddaf. Canys yn ôl ein *cariad* ni a'n *Eluſen* yn unic y cyhoedda *Criſt* ei farn dragwyddol arnom. 3. Ymddangoſodd Criſt ac ymwnaeth yn rhyfeddaf ſiampl feunyddiol o *Gariad* ac *Eluſen*. Efe a aeth oddi amgylch tan wneuthur daioni, gan bregethu 'r Efengyl ac iachau clefydon; ac nis gallwn ddynwared Duw Tâd mewn dim ond mewn *purdeb* a *Thrugaredd*. 4. Mae *Eluſen* a rodder i'r tlawd yn priſio 'n llês i'r Rhoddwr yma ac yn dragywydd. 5. Mae *hi* yn help at faddeuant pechodeu. Gan mai wrth feſur ein maddeuant a'n *trugaredd* ni i eraill, y mae i ninneu hyderu a gobeithio a gweddio am faddeuant i ni 'n hunain. 6. Mae hi 'n ynnill Tryſor yn y Nef a Chyfeillion ar ol ein marwolaeth. Beth bynnac a wnelom i'r tlawd, fe a'i cyfrifir fel pe gwnelſid i *Griſt*. Am hynny pan ofynno dyn i ti er mwyn *Criſt* os bydd yn iawn iddo ofyn *er mwyn Criſt*, ſef os bydd e'n *Griſtion* ac yn *anghenus*, dyro iddo os gelli. 7. *Eluſen* yw un o eſcyll *Gweddi* i hedeg wrthi hyd Or-

ſeddfa'r gras. 8. Eluſen a gorona holl Waſanaeth Duw. 9. Hi a bair ddiolch i Dduw o'n plegid ni. 10. Ac i ymyſcaroedd y tlodion ein bendithio a gweddio troſom. 11. A'r rhann honno o'th feddianneu yr êl y pummed allan o honi neu'r degfed neu ryw offrwm i Dduw at faentumio *Duwioldeb* neu'r *Tlodion*, a ddychwel yn ddiſiommedic â bendith fawr ar yr hôll rannau eraill. Mae hi megis tywalltiad yr Olew ar y Wraig o *Sidon*, tra thywalltei hi i leſtri gweigion, ni threuliodd ddim tra bu hi yn porthi'r Prophwyd. 12. Clô ar y cwbl yw geirieu 'n Iachawdwr bendigedic, *Rhowch Eluſen ô'r hyn ſy gennych, ac wele bob peth yn lân i chwi.* 13. Ond at hyn gellir chwanegu mai *Cariad* neu *Drugaredd yw* priſ nôd Etholedigion Duw, ac arwydd o Rag-ordinhâd i fywyd tragwyddol: hyn o fantais a ddyſc S. *Paul* i ni [*Megis Etholedigion Duw, ſanctaidd ac anwyl, gwiſcwch an danoch ymmyſcaroedd trugareddau, cymmwynaſgarwch,* &c. *Gan gyd-ddwyn â'u gilydd a maddeu iw gilydd, os bydd gan neb gweryl yn erbyn neb*] Crynodeb o hyn oll a ddarllennir yn ngeirieu S. *Cryſoſtome. Medru'r gelfyddyd o Eluſen ſy well na gwiſco Brenhinbleth Tyernaſoedd: ac er hynny mae troi un enaid yn fwy na thywallt dengmil o dalentau i gydeu 'r tlodion.*

Ond o blegid mai gwaith o *Drugarogrwydd* yw rhoi *Eluſen*, rhaid i ni ymegnîo âg arfeu priod i farweiddio gwraidd Anrhugarogrwydd, a rheiny yw 1. *Cenſigen.* 2. *Digllondeb.* 3. *Cybydd-dod.* rhagddynt cymmer help y Rheoleu a'r arfeu ſy'n canlyn.

Cynghorion rhag Anrhugarogrwydd ac Aneluſengarwch.

1. *Rhag Cenſigen, petheu iw Hyſtyried.*

Rhag *Cenſigen* ni cheiſia'i ond yr un rheſymeu ac a wnawn ith berſwadio rhag y Frêch-fawr, neu'r crŷd poeth, neu'r Dropſi. 1. Canys trwm gleſyd yw *Cenſigen*,

Ineb

heb na phlesser *ynddi* na themtasiwn *iddi*; eithr yn llawn o boen a gofid: *hi* a fwytty'r cnawd, *hi* a sych y mêr, *hi* a wnâ'r llygaid yn geudyllau, a'r gruddieu'n gulion, a'r wyneb yn lâs. 2. Nid yw hi ddim gwell na rhoi diofryd mynd i'r Nêf rhyd y ffordd arderchoc o lawenhau yn naioni rhai eraill. 3. Mae *hi* 'n wrthwyneb i Dduw. 4. Acyn stâd union-wyrthwynebol i ddedwyddwch a gorchwylion y Nêf, lle mae pob seren yn chwanegu llewyrch y llall, ac mae lluosog nifer y gwahoddedigion ar swpper yr Oen yn gwneud y Wledd dragwyddol yn orfoleddusach o lawenydd. 5. Perffaith stât Uffern yw *Cenfigen* a gwŷn y Diawliaid, canys holl waith y rheiny yw anobeithio ynddynt eu hunain, a chenfigennu wrth elmwythyd a diogelwch rhai eraill. ac ni fedrant hwy mor llawenhau mewn *dâ* nac mewn *drwg*, er dycned a thaered y ceisiant rwystro 'r dâ, a helpu 'r drwg trwy bob dyfeisieu a dichellion o falis a chyfrwysdra mawr. 6. Ni all *Cenfigen* ddim llês at ddim yn y byd; nis gall foddio dim, na gwneud dim, na rhwystro dim ond happusrwydd a bodlonrhwydd ei pherchen. 7. Nid oes liw na rhith o gyfiawnder i *Genfigen*, fel y gall fod i *Gasineb* ac *angharedigrwydd*: cefais gamm, ac yna mae i mi ryw rith escus o gasineb, ond nid camm i mi nac i neb yw *synhwyr* a *llwyddiant* un arall, ac etto wrth y rhain yr ysta *Cenfigen*. 8. O'r holl feiau, bryntaf yw hi, canys dyhuddir malis a digter â chymwynasau, eithr ffyrnigo ac ymgreuloni a wnâ hi, gan genfigennu i'r llwyddiannus ei *allu* ai *wllys* i wneuthur daioni: ac oni ollwng Duw ar y cyfryw damchwa ryfedd o *edifeirwch* a *chariad perffaith*, ni phaid y Fulfran hon a chnoi'r afu nes y dycco i pherchen i wlâd y *Genfigen* a'r poeneu tragwyddol.

2. *Cynghorion rhag Digllonedd, iw Hymarfer.*

Ai! Elyn Trugarogrwydd ac Elusen yw *Digllonedd*, rhag pa

pa un mae Arfeu pwrpaſol mewn ſynhwyr a Chrefydd.

Yn 1. *Gweddi* yw'r brif-feddyginiaeth rhag *Digllonedd*: canys dîr yw bydd y *digter* wedi cilio peth cyn cychwyn *gweddio*, a chyffelyb erbyn y darffo 'r *weddi* y derfydd *ynteſ*. Rhaid i ti faddeu a gochel pob digofaint preſennol wrth ymbaratoi at *Weddi*: Os ymroi i daer weddio am help ith *ddigllonrhwydd* gan Dduw, rhaid i ti 'n gyntaf trwy dy ddyfal ddiwydrwydd *dy hun* ymegnio i ymwrthod âg *êf*: a phan weddiech ac yr ymegnîech di fel hyn, mae'r holl Fendithion a addawodd Duw i *Weddi* yn ſiccrwydd i ti o ffynniant.

Yn 2. Pan gynhyrfo *dîg* yn dy fynwes cau chwippyn dy wefuſau, ac na âd iddo le i dorri allan, canys yna fel tân fe a'i lletha'i hun. Da mewn *cryd poeth* yw bod y *tafod yn dyner ac yn eſmwyth*, a gwell mewn gwŷn *boeth o Ddigter*. Canys mae gwŷn digofaint fel tân, a geirieu digllon fel megin iw chwythu, mae'r ddau ynghŷd fel y dur a'r maen calleſtr yn gwreichioni tân wrth ergydio yn eu gilydd. Medr ymbell un ymboethi wrth chwedleua, ac os ei gymmydog hefyd a gymmer dân, hwy a gyd-ffaglant mewn angerdd cynddaredd.

Yn 3. *Goſtyngeiddrwydd* yw'r help naturiol odidocca'n y lwyd rhag *Digllonedd*, o blegit os yſtyri beunydd dy wendid a'th wallieu, a gweled ynot dy hun amryfuſedd dy gymydog neu dy wâs, a chofio fod arnat bob dydd eiſieu maddeuant Duw a chariad dy frawd, bydd anhawdd gennit ymgythruddo wrth wendid, neu dwrſtaneiddwch neu ammwyll un arall, a thitheu 'n ſynych ac yn ddieſcus dy hun yn euog o fwy.

Yn 4. Yſtyr eſampl y byth fendigedic *Jeſu* a oddefodd holl wrthiaith pechaduriaid, ac a gymmerth bob dirmyg a chabledd gan Ynfydion maleiſus a gwaedwyllt; ac etto ynghanol y cwbl yr oedd ef mor dawel a di gyffro ac yw'r Heulwen hâf, ac yn ei oſod ei hun yn hynny yn battrwm i titheu. Canys os goddefodd *Diniweidrwydd* ei hun gymaint camm a diyſtyrwch, nid yw fawr i ti gymeryd

gymeryd yn llaryaidd holl flinderau Ffortun, a gwallieu gweinidogion, ac amryfuseddau Cyfeillion, ac angharedigrwydd Ceraint, a chreulonder gelynion, a thitheu wedi haeddu y rhain ôll, a gwaeth, sef Uffern ei hun.

Yn 5. Os tybi gael o honot achos i ddigio, etto *Oeda gwplaw* dy *ddigter* nes y medrych farnu 'n well: Os dy Weinidog a haeddei gôsp heddyw, ni all aros dan yforu mo'i wneud e'n ddiniweid, ond ni hwyrach y gall dy gadw di felly, trwy rwyftro i ti daro dyn heb achos, neu ymgynddeiriogi am oferbeth.

Yn 6. Bwrw oddi wrthit bob annogaeth ac yspardyn i *Ddigllonedd*, yn enwedic, 1. Pob chwarae am *wyftlon mawr*. Lladdodd *Patroclus* ei gyfaill yn ei gynddaredd newydd golli tro croes ar y Dabler. Cyfryw hefyd yw manyldra a negeseu bydol a gofal am danynt: eithr ymosod yn ddifatter ac yn ddibris o betheu *odddi allan*, ac na warria arnynt un *wyn*, am fod hynny yn fwy nac y dalant.

Os ni chwennychi ond ychydig, ni chroefir monot ond mewn ychydig. 2. Gochel o falchder a manylder afradlon bentyrru llawer o ddodrefnau breuon, ac o diysau gwerthfawr a siomgar, am fod yr aml ddamweiniau a ddigwydd i golledu neu anrheithio 'r cyfryw deganau, yn achosion anorchfygol o ddurfing *ddigllonedd*. 3. Na chroesawa ddim *athrodwyr*, canys hwy a hudant yn gyntaf dy *gluft* ti, ac yn nesaf dy *grediniaeth*, ac yna dygant dy *amynedd*, ar cwbl ondodid am gelwydd: ac os gwîr yw, ni thâl mo'i ystyried, neu os tâl mae'r peth yn escusodol; a thi elli ddianc rhag *digter* i un o'r ffyrdd hyn, nalll ai, 1. Na wrando ar ddrwgabsen, neu 2. Na chreda monynt, neu 3. Na phrifia ynddynt, neu 4. Maddeu i'r dyn. A dedwydd oedd i ti fyw gyd â phobl laryaidd a heddychol.

Yn 7. Na 'spîa ar fatterion rhai eraill, nac ar feieu dy weinidogion, nac ar amryfuseddau dy Gyfeillion; ond y peth a ymgynnygio i ti trîn wrth y Rheolau uchod,

uchod, ond na ddôs di allan i hèl cynnud i loſci dy dŷ dy hun. A chwanega hyn, os dâ y dyweid neu y gwnaeth dy gyfaill yn y peth a'th *ddigiodd wrtho*, arnati y mae'r bai ac nid arno ef, eithr os drŵg, e fe a gaiff atteb ac nid tydi, o blegit un ai *camgymmeriad* oedd, ai *malis*, a a pha un bynnac achos yw'r ddau o *doſturi* ac nid o *ddigofaint*.

Yn 8. Arfer bob rheſymeu i eſcuſodi ac yſcafnhau beiau rhai eraill, canys mae llawer yſtyriaeth a all dy laryeiddio, megis mai byrbwyll oedd y bai, a di-falis, neu anfynych, neu hurtrwydd y dyn, ei edifeirwch, a'i debygolrwydd i wellhau, dàl ar y rhai'n neu rywheth dâ yn lle dàl ar y *drwg* a gefaiſt neu a ddioddefaiſt.

Yn 9. Ar godiad gwŷn o *ddigter* tro'n ebrwydd i ddwyſ-fyfyrio Llawenydd y Nêf neu Boeneu uffern, o blegid mae *Ofn* a *Llawenydd* yn naturiol i ddyhuddo *angerdd llîd*.

Yn 10. O digwydd cynnen, bydd di yn Ddioddefwr nid yn weithredwr, yn Amddiffynnwr nid yn Darawr, ac yno hefyd dyro atteb llaryaidd, a derbyn boethder a hylldod y llall fel twmpath o figwyn yn derbyn carreg, yna cei weled hawſed y diffydd yr ymryſon.

Yn 11. Yngorchwylion *Duwioldeb* bydd ofalus i dymheru pôb gweithred â *llaryeidd-dra*, ac â phriod arfeu *Addfwynder*: os hawdd gennit ddigio nac ymprydia'n dôſt ac nâ chymer hyntieu rhyboeth o zêl: eithr ſiccrhâ dy ddyledſwydd â gweithredoedd gwaſtad a phwyllog, ac â thymmer ddâ o gorph, â difyrrwch gweddol i'th ſirioli.

Yn 12. O chyfyd gwŷn ſydyn a ffromwyllt o *ddîg* ynot, attal hi â myfyrdod, a diwedded hwnnw mewn gweddi ddifrifol tros y ſawl a wnaeth i ti'r cam neu debyg. Canys mae Yſtyriaeth yn rhwyſtro'r wŷn, eithr Gweddi ai llâdd hi'n lân, ac ai diwygia hefyd.

Cyngho-

Cynghorion rhag Digllonedd iw Hyſtyried.

1. Yſtyr mai Gelyn *Cyngor da* yw *Digllonedd*, gwîr ymmeſtl yw'r *wyn* hon lle nis clywir neb *oddi allan* yn eſaru nac yn galw, canys os yn arafedd y cynghorir di, i chlywi, os yn grôch ac yn daerddwys, dyna di'n mgreuloni ymhellach. Bydd ditheu darbodus ymlaenaw i gaſclu yſtôr o reſwm ac yſtyriaeth ſynhwyrol fel y ych megis Dinas warchaedic yn barod o amddiffyn *oddi newn*, gan nad wyt ti debyg i gael dim cymmorth *oddi allan*. 2. O'r hôll Wyniau, *hon* yw'r Elynes bennaf i Reſwm. 3. Gwenwyn cyffredinol yw *hi* yn ymrygnu wrth bôb rhyw beth, ni bu nêb erioed mor *ſercboc* a rhoi i gariad ar Lyffant, naneb er ioed mor *genſigennus* a grwgnach wrth gyflwr y truenus, nac mor *ofnus* ac arſwydo gwenynen farw; ond medr *Digllonedd* ymyſu a ffrommi wrth bôb peth, a phôb dyn, a phôb digwyddiad, ac wrth hynny oni lethir, hi awnâ gyflwr dyn yn ddiorphwys. 4. Os mawr fydd achos y *wyr* hi a dry'n gynddaredd, os bychan anynadrwydd yw *hi*, ac felly mae hi bob amſer un ai'n ofnadwy ai'n ynfydffol. 5. Hi a wnâ gorph dyn yn aruthrol, yn wrthun, ac yn ddirmygus, y llais yn erchyll, y llygaid yn greulon, y wynebpryd yn biglas neu yn danllyd, y cerddediad yn ffyrnigwyllt, a'r lleferydd yn grôch ac yn rhochus. 6. Nid yw hi na gwrol na bonheddigaidd. 7. O lyfrdra a gwendid calon y daw *hi*, hyn y bair fôd gwragedd, a phobl afiachus, a hên a thrueiniaid anffortunus yn ddigllonach nac eraill. 8. Gwŷn yw hi gymmwyſaeh i wybed ac i gaccwn, nac i Griſtianogion: Mae hi'n faich nid yn unic iw pherchen ond hefyd i bawb a'i gwelo, ac nid oes dim mwy anfoes nac anghroeſaw i ddeithriaid nac ymhyllu ac ymgynddeiriogi yn eu gŵydd. 9. Hi a wnâ *Briodas* yn ddîr flinder anochel, a phôb cymdeithas yn faich anoddef. 10. Hi a dry feddwdod yn wallcof. 11. Hi wnâ gellwair diniweid yn

ddeebreu

ddechreu Trychineb. 12. Hi a dŷ gariad yn elyniaeth. Hi a bair i ddyn ei golli ei hun, a'i reſwm, a'i ddadl. Hi a dŷ chwant gwybodaeth yn yſfa ymdaeru. Hi a wnâ'r galluoc yn drahaus. Hi a dry gyfiawnder yn greulonder, ac yſcolheigtod yn bengaledwch anhyddyſc. Hi a wnâ'r llwyddiannus yn ddi gariad, a'r anffortunus yn ddiŵyn. Cydlif yr hôll ddrwg-arwydau afreolus yw hi, mae *ynddi* genfigen a thriſtwch, balchder a rhagfarn, hylldod ac ammwyll, gorfoledd mewn drwg ac 'wllys i ddrygu, hunan-gariad ac annioddef ac yſmaldod, ac i ddiweddu, er blined yw hi i eraill mae hi'n flinach iw pherchennog.

Wrth arfer y Rheſymmeu hyn a'r Ymarferion o'r blaen, gwilia'n ddyfal rhag wrth geiſio llethu dy *Ddigllonedd*, ymboethi a digio wrthit dy hun am fod yn ddigllon. Eithr dôs yn llaryaidd yngylch ei marweiddio *hi*; a chychwyn yn gyntaf tros ddiwrnod, gan lawn-fwriadu na *ddigiech* am ddim y dwthwn hwnnw; ac nid yw fawr i ti wilied arnat dy hun tros un diwrnod; ond yna ar ôl un diwrnod, bydd cyn hawſed i ti ymattal ddeuddydd wedi, ac oedd un ar y cyntaf: ac felly dôs rhagot nes yr êl y peth yn hawdd ac yn gynnefin.

Ond gwybydd hyn nad yw *Dîg* ddim yn feius ond pan fo yn erbyn cariad i ti dy hun neu i'th gymydog: os gofeli di na bo yn dy *Ddigter* ddim cilwg o ddirmyg, na chreulondeb ar y Troſeddwr, nac o falchder, nac angerdd, nac ammwyll ynot dy hun, fe â *Ddigter* yn *Gariad* ac yn Ddyledſwydd. Un gair am gant, *Os mynni ddigio'n ddibechod, na ddigia wrth ddim ond wrth bechod.*

3. *Cynghorion rhag Cybydd-dod, trydydd Elyn Trugarogrwydd.*

Gelynes arall i Eluſen yw *Cybydd dod*: Yr iawn feddyginiaeth rhagddi yw'r annogaethau i *Gariad* a'r priod Reolau *Cyfiawnder*, y rhai ſy o'r blaen. Gellir hefyd at y rheiny chwanegu,

Yn 1.

Yn 1. Mae *Cybydd-dra* yn gwneud dyn yn *anhappus*, am nad yw cyfoeth ddim help at wneud dyn yn happus: pettei *ddeduyddwch*, neu *ſynhwyr*, neu *râs* ar werth am arian neu olud, hanercwyn oedd ymhyfrydu mewn lliaws o gyfoeth a meddiannau bydol: ond nid oes dim o'r ſath beth; a hynny ſydd o wynfyd mewn cyfoeth, ni leſys y *Cybydd* mo'i oſſio, ſef eu treulio mewn haelder a ſyberwyd.

Yn 2. Nid yw Cyfoeth ond *diles* ac *anfuddiol*, canys ni ŵyr Natur ddim deunydd o gyfoeth tu hwnt i *angenrhaid* a *chyfleuſdra*. Canys *nid oes dim gynhilach na'r cefn a'r bol* os iawn arferir hwy: ond pan elont i ymoſod at lygaid dieithriaid, pan elont i ymhoywi ac i rodreſu, yna daw *cyfoeth* i oſod allan yr Olwg ac i ffwrneiſio'r chwarae â *llownder* o *oferedd*: wrth feddiannu mwy na'th *raid* yr wyti'n colli'r meddiant arnat dy hun, yn gymmaint ac na fedri beidio a chwennych byth ychwaneg. A chan na's gall y meddiant o gyfoeth dorri mo'th chwant i gyfoeth, ni all ynteu'n ſicr mo'th wared oddiwrth ddim drŵg arall. Tyrr bwyd dy newyn, a thyrr diod dy ſyched, a phan fo arnat anwyd a galw am dy hugan, pan gaffech hi dyna di wrth dy fodd, on dy lethu a wnai ſaith neu wyth o huganeu. Ymfodloniff Natur a gorphywys pan gaffo'i *rhaid*, ond nid yw dim tu hwnt i hynny ond blinder a baich: oni ddychwelir ef mewn *Eluſen* neu *Ddutwioldeb*, nis gall leſhau ar ddim ond ar gamwedd ac oferedd. *Nid oes dim Cyfoeth a dyrr chwant cybyddus i Gyfoeth.*

Yn 3. Mae cyfoeth yn *flîn* ac yn *drafferthus*, ond mae'n rhwydd ac yn hawdd cael porthiant i'r chwanteu a wnaeth Duw a Natur. Pwy erioed a dalodd lôg arian am ruel blawd a dwfr iw gadw'i hun? Ond pan elech i chwantio tai têg o ddull Tai *Lloegr*, neu i flyſio tlyſau gwychion, neu dyddyn dy gymmydog neſaf, neu i hiraethu am wîn *Ffrainc*, neu am bêr-lyſiau'r *India*, neu am geffylau *Barbaria* yna ni fodlonir byth monot nes

cael

el y cwbl a'r goreu o'r peth a phanſiech: ond cyn delech o hyd i hanner dy chwantau gorwyllt ni a'th gawn di'n gaethwas i uſurwyr, a phe ſy waeth, i'th drachwanteu creulon, ac i boeneu cynfigen ac anniodde. Ond ti a gei weled, y ſawl a yfant ymlaen wedi torri eu ſyched, neu a fwyttânt newydd giniawa'n llawn, y gorfydd arnynt chwydu nid yn unic y gormodedd ond hefyd yr hyn ydoedd angenrheiddiol, felly y ſawl a wancio ychwaneg nac allo trwy *gymmedrolder* ei arferu gnawd iddo gan fynychaf ymadel a'i dreftadaeth a allaſei ei gadw mewn rhydd-did a pharch, a phorthi ei hôl chwanteu rheſymmol ef hefyd.

Yn 4. Iechyd ynteu yw Bodlonrhwydd, o ran mai gwîr *glefyd* yw *Cybydd-dra.* Pan ſo dyn newydd fwytta ac yfed ei raid, ètto heb ei ſodloni, nid bwyd a diod ſy arno bellach ei eiſieu eithr Phyſygwr, rheitiach iddo gael ei arloeſi na'i lenwi, felly *Cybydd-dod* ni ellir byth mo'i digoni, am hynny nid oes ffordd iw hiachau ond trwy leihau ac ymarloeſi. Nid oes help na gorphwyſtra i'r Cybydd nes y dêl yn ei ôl at *gymmyſder* a *meſureu ei anghenraid naturiol.* Canys erbyn y caffo un Tyddyn, fe a glwyfa wrth un arall, pan gaffo hwnnw fe a'i gwêl ei hun yn deccach ei le am un mwy, ac felly cynnyddu waethwaeth a wna'r Clefyd. Ond deſcynwch ef at feſureu Naturiaeth, ac yno fe a fydd ſicer o gael gorphwyſtra. Canys wrth Naturiaeth ni all neb chwennych ond llond ei fol pan ſo arno newyn, rhyw un câr neu wr luſengar a ddichon iachau ei angen ef, ond nis gall yr hôll fyd iachau moi *Gybydd dod* ef.

Yn 5. *Cybydd-dra* yw'r *Frâd-gyfarfod* groeſaf ac ynfyttaf yn yr hôll fyd, mae hi'n anaelef am ei bod hi yn ymdrechu yn erbyn ei meddyginiaeth ei hun. Ni ymgeidw neb rhag bwyd dim ond o ran bod arno newyn; na rhag dillad o ran bod arno anwyd: Ond fe a wnâ'r *Cybydd* hynny, canys efe a daer ddeiſyf gyfoeth o ran bod arno'i eiſieu medd ef, a chwedi ei gael, ei eiſieu byth y fydd

y fydd arno, am na leſys mo'i gymeryd. Cyn ca[illegible] dillad ſe a'i cais, am nas gall ſod hebddynt, ond wedi eu gael ſe all, ſel pettei arno fwy o eiſieu ŷd iw' Scubor nac iw ſol, neu fwy eiſieu dillad iw gîſt nac iw geſn. Mae *Cybydd-dod* yn codi blŷs ac yn gommedd y pleſer oi ſoddoni, mae hi'n chwanegu'r chwant ac yn attal y modd iw dorri. Mae'r *Cybydd* yn gwyrdroi Cwrs Naturieth a phwrpas Duw, yr ŷd y gwîn, y gwlân ar arian a ſwriadodd Duw iw treiglo a'u harferu er diwallrwydd a hioldeb iddo'i hun a'i frawd, a geidw ef ôll i edrych arnynt ac iw rhifo, ac i gael wrthynt eu berchi a'i fawrhau gan ffyliaid, a'i alw'n gyfoethoc yn ei fyw ac yn reſynol with farw, i gael gadel (fel crochenyddion *China*) fwy pentwr o ddom iw heppil, ac ynteu ei hun yn mynd i gymeryd meddiant trag wyddol mewn rhann o etifeddiaeth *Difes*. Ac etto peth mawr a rhyfeddol yw, os medrei'r dyn hwn ymfodloni ar sîr galed, a gwilied yn ofalus a gweithio'n ddygn, a goddef dirmyg ac ammarch, er mwyn cael ennill arian fwy na'i raid, O hawſed y gallai ynnili y Nef! a maint o adfyd a blinder a gymmerth efiw wneuthur ei hun yn golledic! Haws faſei iddo cyn yrru ymfodloni ar ei dlodi cywir a rhinweddol, nac weli ar dlodi gwneuthur ſy'n helbulus ac yn bechadurus. Yr un sîr a llai o laſur a'i gwnaethai ef yn happuſach yma ac yn wynfydedic fyth.

Yn 6. Clô ar y cwbl yw'r hyn a ddyweid yr Apoſtl, *mae Cybydd-dod yn Eulun-addoliaeth*; hynny yw, mae *hi*'n mawrhau arian oi ran ei hun, mwy nac o ran ei arfer; mae *hi* 'n *Hyderu* ar Gyfoeth, ac yn ei *Garu* yn fwy na Duw, na Duwioldeb. *A hi yw gwreiddin pob drwg*; hi a ddyſc bobl yn greulon ac yn gyfrwyldrwg, yn ddichlyn ac yſceler, yn llawn gofal a malis, *hi* a wnc etifeddion ieuainc, ac â fâl wyneb y tlodion, ac an heithia'r ſawl ſy'n perthyn yipyſaf i Gadwraeth Duw, y diymadferth, y difalis, a'r diniweid; *hi* a rifa

oedran rhieni, ac a ddeiſyf farwolaeth ceraint; *hi* a wnâ Gyfeillach yn gelfyddyd o ſclyfaetha, *hi* a drŷ Gydwr yn Gigfran, a Chydymaith yn Lleidr: ac ni leſâ'r cwbl iddi *hi* ronyn am na leſys *hi* arferu mor pentyrrau wedi'r hôll drais a'r dwyll. Ac os lliw gofal tro eich heppil yw'r holl bentyrru yma gennych (fel Llygod *Affrica* a gûdd y mŵyn aur yn eu coluddion, ac n ymadawant â'r aur amrwd nes y tynner eu perfedd) gwybyddwch ſôd y peth oedd afraid i chwi, mor afraid i'ch plant, a gall y rheiny fod hebddynt cyſtal a'u Tadau na arferodd monynt. Yn arfeu o ryw bechod iw Meibion y trŷ da'r Cybyddion fynychaf: fel y bydd y plant mor ddiles i'r Wlâd ac oedd yr Arian iw Tadau, yn Ffyliaid neu'n Afradloniaid, yn ormes iw gwlâd ac yn gôſp am Gybydd-dod eu Tadau; ac odid a balla cyn pen tair oes ryw gyfnewid neu i gilydd a dyllo dîn y cŵn oni redo'r holl olud hyd y byd. Canys mae hôll dryſorau'r Cybydd yn ſyrr o un fendith, ond ni phalla ficca felldith o hir ddilyn hirddrwg.

Yn 7. Yſtyr yn ymyl hyn fanteiſieu *Tlodi*, Stâd heb fawr broſedigaeth na pherygl, na blinder ond un, ſtâd ddiogel tan ofal Duw, y mae ef yn darbod ac yn arlwy beunydd *iddi*. Stât y teilyngodd *Criſt* yn amlwg ei pherchennogi, ac mae llawer o wŷr ſynhwyrol yn ei haddunedu beunydd: Beth yw'r Goludog ond fel llynn y rhêd y tlodion iddo, ac a'i cynhyrfant yn gyntaf, ac yna diyſpyddant ef: Nid yw ef o'i hôll gyfoeth yn mwynhau dim ond ſy *gymmedrol* ac *angenrheidiol i ddyn*; ni all ynteu mo'r bwytta cymaint a Blaidd neu Forfil. Ni wnâ amryw ddainteithion ond porthi pechod à chlefydon: le mae'r tlawd yn gwledda'n fynychach na'r cyfoethoc, am fod pôb gwellâd bychan yn wledd ir tlawd, ond yr hwn ſy mewn gwledd bôb amſer nid yw e'n gwledda un amſer, am nad oes le iddo gael dim *diriſhr* ac *amheuthun*: Ni chŵſc y cyfoethoc mor iachus a'i

a'r tlawd llafurus; mae arno ſwy o ofn a mwy o ofynion, a mwy o angen; canys pa un dlottaf ai'r hwn ſy arno eiſieu pumpunt, ai'r gwr ſy arno eiſieu pummil o bunneu? Ceiff y tlawd ddigon i lenwi ei fol, ac ni chaiff y cyfoethog mor digon i lenwi ei lygad. Ac nid yw uchel-chwant dynion yn ymgyrraedd am Feddiannau mawrion ond fel gwerthu *Ffynnon* i brynu *cleſyd*, neu roi *Bodlonrhwydd* yn gyſnewid am *angen*.

Mae ngobaith yr helpa'r Myſyrdodau hyn at iachau *Cybydd-dod*, fel wedi i'r Grâs o *Drugarogrwydd* ehengi dy galon, y bo dy law yn egored a'th fraich yn eſtynnedic i'r tlawd mewn *Eluſen*.

DOSP. IX.

Am Edifeirwch.

E *Difeirwch* a wnâ'r gyſnewid fwyaf yn y Byd; mae Hi yn newid petheu yn y Nef ac ar y Ddaiar; canys *hi* a newid yr hôll Ddyn o *Bechod* i Râs, o'r greddfau gwaethaf i arferion ſanctaidd, o gyrph aflan yn Eneidieu Angylaidd, o fôch yn Ddoethion, o Feddwdodi Gynghorion ſobr: a Duw ei hun, *gyd a'r hwn nid oes gyfnewid na chyſcod troedigaeth* a deilyngodd gan ddeicyn at ein gwael ddealltwriaeth ni, ddywedyd ei fod ynteu yn newid ar *edifeirwch* dyn, ei fod e'n newid ei Ordeiniadau, yn dadtroi ei farn, yn dileu'r cywilydd a'r triſtwch, ac yn tynnu'r Cwynion allan o Gof-lyfreu'r Llŷs Nefol, ac yn derchafu'r pechadur o fedd i fywyd, o'i garchar i deyrngader, o Uffern ac euogrwydd poen dragwyddol, i'r Nef a hawl Dedwyddwch anherfynol. Os rhwymir di ar y Ddaiar, rhwym fyddi yn y Nef, o chei ollyngdod yma, ti a gei ollyngdod yno; os edifarhei di, edifarhâ Duw, ac ni enfyn arnat y drŵg a haeddafit.

Ond mae *Edifeirwch* yn Gadwynbleth o amryw ddyledſwyddau; ac yn cynnwys ynddi hôll ranneu Buchedd ſanctaidd, o amſer dy ddychweliad hyd y munud olaf oth einioes; ac mae ynddi rywbeth a berthyn i'th bechodeu or blaen yn yſpyſol, y rhai weithian a ddiddymmwyd trwy foddion yſpyſol, ac a'th rwymodd ditheu i orcheſtion yſpyſol, ac a ddûg lawer o angenrheidiau newyddion arnat, ac a'th roes mewn llawer o berygl. Ac o herwydd ei bod *hi* yn Ddyledſwydd yn cynnwys cynnifer o ranneu, a chymaint o waith, mae hi'n gofyn hefyd lawer o amſer, ac yn dy adel di yn yr un grâdd o

Obaith

Obaith am faddeuant, ac a fo dy ddychweliad titheu i Stât o *gyfiawnder* a *ſanctteiddrwydd Buchedd*, y rhai a addawſit yn dy Fedydd. Canys gwybydd nad oes ond un *Edifeirwch* trwy dy hôll enioes, os deellir *edifeirwch* yn ôl priod feddwl Cyfammod yr Efengyl, ac nid yn ôl y cyffredin yſtyr. Hynny yw nid oes i ti ond unwaith newid hôll *ſtât* dy fuchedd o lwyr feddiant Diawl, o gyflwr Pechod ac Angeu, o gorph llygredigaeth, i fuchedd Grâs, i feddiant yr *Jeſu*, i Deyrnas yr Eſengyl; a hynny a wneir ym Medydd y *dwfr*, neu ym Medydd *yr Yſpryd*, ſef pan gyntaf y gwirier dy *Fedydd* trwy ddyfodiad grâs Duw arnat, a thrwy i titheu ufuddhau i'r Alwedigaeth Nefol, gan gydweithio â Duw.

Wedi'r Gyfnewid hon, os ſyrthi bŷth i'r gwrthwyneb gyflwr, ac ymddieithro'n hollawl i Dduw a Chrefydd, a'th broffeſu dy hun yn wâs i *anghyfiawnder*, ni wnaeth Duw i ti ddim cyfammod i eſcor mwy, nid oes dim lle mwyach i *Edifeirwch*, neu Iwyr-gyfnewidiad neu ailenedigaeth: ni ellir ail-eni dyn ond unwaith. Cyfryw yw gwirfodd a maleiſus Ymadawyr â'r Ffydd, Hudolion, a dynion gwrthnyſig anedifeiriol, a'r cyffelyb.

Ond os goddiweddir di mewn gwendid, a mynd i gyffiniau a therſyneu'r Cyflwr hwn, a gwneuthur pechod gorthrwm, neu ddeg, neu ugain, trwy na bych yn nghyflawn feddiant y Cythraul, yr wyti tros y tro preſennol mewn cyflwr colledic os byddi marw; ond os byddi byw ti elli eſcor, canys *felly* ti elli'n fynych edifarhau. Nis gelli edifarhau neu godi o *farwolaeth* ond unwaith, eithr o *glefyd* lawer gwaith; ac os codi felly trwy râs Duw ti a gei faddeuant. Ond mae dy Obaith di o faddeuant yn union fel y bo dy *edifeirwch*, os bydd *hi'n* amſerol, yn ddifrifol, yn ddiwyd ac yn affeithiol, Duw a'i cymmer, nid gan bwyſo gronynnau a thippynnau, ond gan ſwrw dy dueddfryd cyffredin a phrif ddar-

ueu dy fywyd. Ymgais galonnoc a hollawl gyf. newid affeithiol a gaiff y pardwn; canys troir heibio dy wendid anochel, a'th hên ddrygau, a'th ammherffeith. rwydd presennol, a'th wallieu byrrion y bŷch di 'n gwilio, yn gweddio, ac yn ymdrechu yn eu herbyn, iw rhoi ôll ar scôr y Groes, wedi i'r *Jesu* sanctaidd weddio trostynt. Dyma gyfiwr ac ansawdd *Edifeirwch*: ei rhanneu a'i gweithredoedd *hi* wrth y Rheoleu hyn y mae eu barnu.

Gwei-

Gweithredoedd a rhanneu o Edifeirwch.

Yn 1. Mae'r *gwîr Edifeiriol* yn alarus *iawn* am ei bechodeu o'r blaen, nid âg ochenaid neu ddegryn yſcafn arwynebol ond â *thriſtwch toſtlym, cyſtuddiol*; y fâth driſtwch ac a gaſâ 'r pechod cymhelled ac y dewiſei 'r dyn farw yn hytrach nai wneud ef mwy. Y *Triſtwch* hwn a eilw 'r Yſcrythyr [*Wylo'n dôſt, wylo mewn chwerwedd calon, wylo ddydd a nôs, gofid calon a rhwygiad yr yſpryd.*] A gelli ddarllen dull a gradd y *triſtwch* yma yn Ngalarnad a gofidus accenion *Jeremias* wrth wylo tros bechod ei genhedl; trwy dorr-calon *Dafydd* wrth alaru am ei lofruddiaeth a'i odineb, neu wylofain chwerwdoſt S. *Petr* wedi gwadu ei Feiſtr. Mae dangoſiad y Triſtwch hwn yn amryw yn y naill ddyn ragor y llall, yn ol tymmer y corph, yr oedran, y rhyw, amgylchiad y weithred, yr annogaeth i driſtwch, trwy amryw ddigwyddawl feddalwch, neu ffyrnigrwydd gŵraidd; ac nid wrth y dagreu y mae barnu 'r *edifeirwch* ond wrth y *triſtwch*, ac nid wrth y dolur teimladwy y mae barnu'r triſtwch, ond wrth gaſineb y galon ar bechod, ac wrth y gweithredol barodrwydd i ymwrthod âg ef, a llawn-fwriadu a gwîr wrthwynebu ei demtaſiwnau ef rhagllaw. Rhai a wylant am bôb peth, y lleill ni wylant am ddim; eithr gwîr olion a phriod affeithiau *Triſtwch Duwiol* yw ofn barnedigaetheu Duw, ymarſwyd rhag ei ddigofaint; gwilio ac ymdrechu yn erbyn pechod, goddef yn amyneddgar y groes o driſtwch a ddanfono Duw yn gôſp am danynt, achwyn arnat dy hunan, a gwaſtadol greu am faddeuaint, gwael ac iſel dŷb o honot dy hun, a holl olion naturiol y rhain, yn ôl tymmer ac anſawdd y corph. Canys od wyt arfer o wylo am be-

theu eraill, drŵg oedd nad wylit yn dy *edifeirwch*, nid am ſod wyló oi rann ei hun yn ddyledſwydd, ond o blegit os bydd y triſtwch cymmaint, yr ymddengys cymmaint arwyddion o honaw.

Yn 2. Dylei dy *driſtwch* am bechod ſod yn gyſattebol i'th bechodeu, er nad yn gyſartal iddynt, nid oes wybód ddim meſur pennodol ar bechodeu, am hynny ni rwymir monot i ddim manwl feſureu o *driſtwch*, ond cadw o honot *gydweddoldeb*; hynny yw, bod am bechod mawr driſtwch mawr; a phechod llai, llai cafod a'i gylch ymaith.

Yn 3. Unionaſ y cymmwyſir *grâdd* dy driſtwch am bechod pan fo'r *triſtwch* ynghŷd â'r hôll gyſtudd a phenyd dyledſwyddeu *edifeirwch* cymmaint, neu ſwy na 'r diſyrrwch y gefaiſt with wneuthur y pechod.

Yn 4. Dyledſwydd o gôſp yw *gwîr Edifeirwch*, gweithred o driſtwch yn barnu ac yn bwrw 'r pechod, trwy wirfodd ymddaroſtwng i gyſryw ofidiau ac a ddanſono Duw arnat; neu ragflaenu barnedigaeth Duw trwy dy farnu dy hun a choſpi dy gorph a'th enaid, â'r cyſryw anſeu o *Ddutwioldeb* ac a ſo blîn i'r corph: megis ymprydio, gwilio, hîr weddio, yſtumieu poenus wrth weddio, eluſenau treulſawr, a phôb ymddaroſtyngiad oddi allan. Canys pan farnech dy hun, rhaid i ti dy ſwrw dy hun os wyt euog, a phan ſwrner di rhaid dy goſpi, ac os berni felly di dy hun, ſe rwyſtra hynny farn yr Argſwydd arnat fel y dyſc S. *Paul* ni *. Mae penyd corphorol yn gwneud i Dduw faddeu neu leihau 'r barnedigaethau bydol a ſwriadaſai yn erbyn y pechodeu, megis yn nghyſlwr *Abab*. Ond etto nid oes dim o hyn oll yn cymmodi'r pechadur

* 1 *Cor.* 11. 31.

chadur i *dragwyddol* ffafr Duw, canys nid yw hyn ond y Cynddrws i *Edifeirwch.*

Yn 5. Mae pob *gwîr Edifeiriol* yn rhwym i gyſaddef ei bechodeu, ac i ymddaroſtwng ger bron Duw byth. Mae addewid yſpyſol i Gyffes pechodau [*os cyfaddefwn ein pechodeu ffyddlon yw efe fel y maddeuo i ni.*] hynny yw, ſe a ymrwymodd i faddeu i ti os iawn gyffeſi a gwneud yr hyn oll yr ordeiniwyd Cyffes o'u plegid; ſef, ymgywilyddio o'u plegit, ac ymwrthod â hwynt byth rhagllaw. Canys heb hyn, beth a dâl dy Gyffes di? Mae Ef yn gwybod ac yn cofio dy holl bechodau 'n llawer gwell nac y medri di eu hadrodd iddo: Eithr Cyffes i Dduw a ddêl o *driſtwch*, a *chywilydd*, ac a ſo 'n weithredd o *ymddaroſtwng* ac *ymddifarnu*, ac o ledu dy friwiau er mwyn cael meddyginiaeth, dyna'r Gyffes ddyledus yr ymhyfryda Duw ynddi.

Yn 6. Rhaid i'r *gwîr edifeiriol* ddwyn i weithred ei holl feddylieu ai ſwriadeu ſanctaidd, rhaid i ti ddechreu a diweddu Stât o *Fywioliaeth ſanctaidd* gwrthwyneb i'r ſtât o dywyllwch y rhodiaiſt ynddi gynt; Canys bwriadu gwneud perh, ac heb ei wneuthur yw torri dy ſwriad a'th ffydd, gwatwar Duw, ffugio a dirymmu dy holl weithredoedd edifeirwch o'r blaen, a gwneud dy bardwn yn ddiobaith, a'th obaith yn ddiffrwyth. Os bwriedi fyw 'n ddâ pan ſo arnat berygl, neu ofn mawr, neu pan fych newydd borthi dy drachwant, ac etto pan ddychwelo 'r temtaſiwn y bechi, ac yna a ymdriſtei ac a lawnſwriedi eilwaith yn ei erbyn, ac etto a ſyrthi pan ddêl y temtaſiwn, nid wyti ond ofregedd yn lle gwîr *edifarhau*, ac nid ydwyt yn ghyflwr Grâs; ac os happia i ti farw ar un o'r oriau dâ hyn, rhwng dau bechod, nid wyti ar gyfyl iechydwriaeth:

dwriaeth: canys os angenrhaid i ti *fwriadu* byw 'n dda, mae'n angenrhaid i ti *fyw* 'n dda hefyd. Ni ddichon neb fod yn ffafr Duw trwy feddylieu a bwriadeu da heb weithredoedd dilynol: Nid yw 'r *Bwriad* ond megis y Porth neu'r Cynddrws at Faddeuant: *Buchedd ſanctaidd* yw unic berffeithiad *Edifeirwch*, a'r unic angorfa ſiccr ddiogel y gelli fwrw angor dy Obaith yn Nhrugareddau Duw trwy *Jeſu Griſt*.

Yn 7. Na fwrw gael o honot faddeuant yn ebrwydd er dy ddychweliad cyntaf i ddechreuad buchedd dda; eithr dechreu dy obaith a'r graddeu oth hyder, yn ôl fel y bô'r pechod yn marw a grâs yn bywhau ynot, fel y bo 'r greddfau drŵg yn lleihau, a chyfiawnder yn cynnyddu, fel y bo pechod yn dychwelyd yn anamlach, yn wannach, yn llai ei groeſo, ac yn yngwrth, heb ei ragfwriadu, eithr ei fawrgaſau, ai daro 'n ebrwydd yn y Graig *Criſt Jeſu* trwy driſtwch ſanctaidd, a mwy gofal a gwiliadwriaeth gaethach. O blegit os *Buchedd ſanctaidd* yw dy rann di o'r Cyfammod, fel y dychwelych di at Dduw, y dychwel Duw attat titheu, ac y dychwel dy gyflwr at debygolrhwydd o faddeuant.

Yn 8. Rhaid i bob dyn weithio allan ei iechydwriaeth trwy ofn a chrynu; a chwedi gwneud pechodeu dylei dy ofn gynnyddu, am fod pob pechod, a phob gogwyddiad trwm oddiwrth ffyrdd Duw, yn radd newydd o berygl, ac a chwanegodd ddigofaint Duw, ac a wnaeth yn anhaws ganddo faddeu, a phan wnêl, nis maddeu ond ar ammodeu toſtach o *wneuthur a dioddef*; hynny yw, rhaid i ti wneud mwy am faddeuant, ac ondodid ddioddef llawer mwy. Canys gwybydd mai o feſur ychydig y maddeu Duw; fel y bo dy ufudd-dod ti yn cynnyddu, a'th ofal yn gallach ac yn fywiocach, felly y mae digofaint Duw yn

cilio

cilio ac yn lleihau; ac etto ni hwyrach ddarfod i'th bechod diweddaf wneud i Dduw fwriadu'n ddifaddeu ddanfon arnat ryw farnedigaeth arwdoſt. Anyſpys a thywyll i ti yw'r damweinieu pennodol ar bôb achoſion, am hynny rheſwm da oedd i ti bob amſer alaru dros dy bechodeu a gythruddaſant Dduw, ac a wnaethant dy gyflwr mor beryglus.

Yn 9. Rhaid ir *gwîr Edifeiriol* ddàl i ymbil am faddeuant holl ddyddieu ei enioes, ac na thybia'r gwaith wedi ei orphen hyd farw, na thrwy un weithred dda o'r eiddot dy hun, na thrwy weddi'r Eglwys, na thrwy faddeuant y dyn a gadd gamm, na thrwy dalu iawn iddo. Arfeu affeithiol yw y rhain, ac yn ſicr dyma y rhai a wnâ'r gwaith o'r diwedd, ond fyth etto mae *pechod* yn gorwedd ar y drws, ac yn barod i droi attat mewn barn a damnedigaeth, o throi ditheu atto ef mewn 'wllys a gweithred. A pheth a wyddoſt a faddeuodd Duw i ti, neu pa cyn belled y maddeuodd, ac nid yw'r cwbl a wnaethoſt deilwng o ennill maddeuant, am hynny gweddia fyth, ac byth ymofidia am i ti erioed ei wneuthur, ac byth gwilia rhagddo; ac yna 'r dechreuadau o faddeuant y buwyd yn eu gweithio rhyd y ffordd, a gwbl-berffeithir yn Nydd yr Arglwydd.

Yn 10. Nac *Oeda* dy *edifeirwch* ddim, chwaethach hyd dy Wely-angeu. Nid gwaith hawdd yw dadwreiddio greddfau pechod a gaſclwyd ac a gadarnhawyd trwy dy hôll enioes. Cei dy wala o waith yn marweiddio un anwyl ddrygchwant ynghanol d' amſer a'th gryfder goreu, a chyn iddo wreiddio cymhelled ac y bydd e'n niwedd bywyd annuwiol; am hynny ynteu bydd yn amhoſſibl pan êl y gwaith cymmaint a'r nerth cyn lleied, pan êl *pechod* mor gryf

grŷf a *grâs* mor wann; canys mae'r ddau elyn yma fel y gwrês a'r oerfel fel y llenwo'r naill ſe a dreia'r llall, fel y cynnyddo *pechod* y mae *grâs* yn lleihau; felly po mwyaf y bo arnat eiſieu *grâs* lleiaf a gei di'r pryd hynny, am ddarfod i anſerth ſwmm dy bechodeu ſy'n gwneud yr eiſieu. leihau 'n ddiddim y grâs Duw a ddylei dorri dy eiſieu. Chwanega etto 'r Ytyriaeth hon, fod dydd *Edifeirwch* ar wely-angeu wedi darfod: Canys dychweliad i *fuchedd ſanctaidd* a byw bywyd grâs, yw *Edifeirwch*; ond gwallcof yw dywedyd y gall dyn fyw buchedd ſanctaidd ac ynte 'n marw: yn enwedic os yſtyri fod byw o bechadur fuchedd ſanctaidd, yn gofyn gorchſygu o hono ei holl ddrwg-arferion, ac yna darfod iddo ynnill y gwrthwyneb raſau, trwy fawr boen a challineb gwiliadwrus, ac ymwadur âg ef ei hun, a thrwy doſter a chaledrwydd. *Nid ar frys y gwneir dim godidog.*

Yn 11. Wedi i ti ddechreu *eſcor* ofna 'n anfeidrol *adglefychu*; am hynny wrth y gofidus brawſ a gefaiſt marcia pa le y methaiſt, a thrwy yſpyſol ddyfeiſieu cryſhâ'r gynneddf ac ymarfoga rhag y temtaſiwn hwnnw. O blegid os yr holl driniad a'r ymgeledd a arfer Duw tu ac attat i gadw dy ddiniweidrwydd, os dy berygl diweddar a'th ofnau, a daioni Duw yn gwneud i ti unwaith ddianc, a gwradwydd dy gwymp, (a maint yn enwedic a gŷſt i ddyn ei adgyweirio!) a gwybod dy amryw wendid dy hun; os ni wnâ hyn oll i ti wilied rhag ſyrthio, bydd perycclach o anfeidrol os ti a ſyrth elchwel, nid yn unic rhag na dderbynio Duw monot i faddeuant, ond hefyd ſe a'th wnâ hyn ditheu yn fwy anobeithiol ac anoddefus, ath gywilydd a dŷ yn ddigywilydd-dra; a'th wllys a eiff yn fwy dieithrol, a thaerwyllt, a gwrthnyſig, a *bydd dy ddiweddyn waeth na'th ddechreuad.* Yſtyr etto ym mhellach,

mhellach, dy bechod a oedd gynt mewn cyffelybrwydd têg am faddeuant, a ddychwel arnat nid yn unic â'i feichieu ei hun, ond hefyd a'r ffieidd frynti o *annuolchgarwch*, a theifl hyn di cymhelled ac erioed oddi wrth y Nêf, a'th holl lafuriau, a'th ofnau, a'th wiliadwriaethau, a'th ymorcheſtion a gyfrifir yn ddim; oddieithr yn arwyddion i ddannod i ti dy ynfydrwydd, yr hwn wedi i ti oſod un troed yn y Nef, a dynnaiſt hwnnw yn ei ol, ac a eiſt â'r ddau i Uffern.

yr bud drogonud drawsanian
y douthum i dithio ŷn nouth glan
hofud o fûd ŷn y fan
dellu ŷn nouth ŷr âſ iallan.

---

arglwydd maddau fy meiau
i mi gorheudur
bauch yduit anigri
duw diau gall na âd udolium gou
ar bris drud ti amprynaiſt i

Ll. Ɠ is hano — *Annog ac heu*

Annogaetheu i Edifeirwch.

Ni cheiſia'i mo'r rheſymmeu i'th annog i *edifarhau* ond dywedyd i ti onis gwnei y derfydd yn ddiammeu am danat; ac os edifarhei yn amſerol ac yn gyflawn, hynny yw, byw *Buchedd ſanctaidd*; maddeuir i ti, a chadwedic fyddi. Etto i helaethu peth ar y Rheſwm yma; Cofia,

Yn 1. Fod derbyn dynion i Edifeirwch a Maddeuant yn fwy ffafr nac a roes Duw erioed i'r Angylion a ſyrthiodd, ni chaniadwyd iddynt hwy erioed le na chennad i *edifarhau*; ni ocheneidiodd *Criſt* un ochenaid troſtynt hwy iw hedfryd i obaith byth o wynfyd ar ôl eu cwymp cyntaf, ni oddefodd un archoll nac un dirmyg, nis tywalltodd un defnyn o'i waed troſtynt hwy. Eithr ſe a wnaeth hyn droſom ni: Ef a dalodd yſcôr ein pechodeu ni, dim ond fel y caem gynhwyſiad i *Edifarhau*, ac y bai'r *Edifeirwch* hwn yn ffynnadwy ac yn affeithiol i'r dibennion mawr o lechydwriaeth a Gwynfyd.

Yn 2. Yſtyr fel y coſtiodd hyn i *Griſt* fyrddiwn o gweddieu ac ocheneidieu a griddfanau, felly mae e'r munud hwn, ac a fu er ys dau cant ar bymthec o flynyddoedd ddydd a nôs yn gweddio am râs i ni i *edifarhau*, ac am faddeuant os gwnawn, ac am raddeu o faddeuwch na mefur ein gwendid, a mwy na haeddiant ein gwaith gwell na'n gwellâd, ac ni thyrr ef ar y Weddi hon [*mae e'n byw bob amſer i weddio dros* ni] ac fel gwyppeh am ba beth y mae e'n *gweddio, St Paul* a ddywed i ti ei bwrpas ef [*Yr ydym ni*

yn

yn Gennadau tros Griſt; megis pe byddei'n deiſyf arnoch trwom ni, yr ydym yn erfyn *tros Griſt cymmoder chwi â Duw*:] a'r hyn y mae *Criſt* yn ei erchi i ni ei weiſion ei wneud, mae e'n erchi i Dduw ar wneuthur o honom, canys efe yw Ffynnon y *grâs* a'r *gallu*, ac heb ei help ef nis gallwn wneuthur dim.

Yn 3. Yr oedd cael o honom le i edifarhau yn bwrcas mor ddrudfawr ac yn berthynas mor bwyſſawr, ie mae Duw ei hun yn cyfri'r digwyddiad yn beth mor odidoc, ac y dywed ein Iachawdwr bendigedic i ni fod *llawenydd yn y Nefoedd am un pechadur a edifarhao.* Sef pan âi ef ar ddeheulaw ei Dâd i eiriol troſom ni ac i weddio am ein hedifeirwch ni, fod dychweliad ac *edifeirwch* pob pechadur yn rhann o Ogoneddiad *Criſt*, yn atteb iw weddiau ef, a Gwobr ei ddioddefaint ef, yn yr hwn y mae e'n gorfoleddu'n hanfodol trwy lawenydd ei ogoneddus Ddyndod. Canys er mwyn hyn y dioddefodd efe unwaith, ac o achos hyn y llawenhâ efe'n dragywydd: Pan ddêl Pechadur edifeiriol i dderbyn cyflawn berffeithrwydd a ffrwyth Maddeuant, gelwir hynny [*myned i mewn i lawenydd yr Arglwydd,*] hynny yw, cyfranm o'r llawenydd hwnnw a gafodd *Criſt* wrth ein dychweliad ni, ac a fwynhaodd byth wedi.

Yn 4. Chwanega at hyn fod Gwobrau'r Nefoedd mor ddirfawr a gogoneddus, a baich Criſt mor yſcafn, a'i iau mor eſmwyth, a bod yn brês o ddigywilydd-dra ddiſgwil cymmaint Gogoniant ar lai prîs nac yw gwaſanaeth cyn lleied, yn rhattach na *Buchedd ſanctaidd* [fe a goſtiodd i *Fab Duw* waed ei galon gael i ni] Nid ar ammod yma, a phwy a fydd etto marw i gadw'r Nef ar ammodau haws? Beth a wneit pe [illegible] ti ladd dy Fâb hynaf, neu weithio yn y mwyngloddiau ſil o flynyddoedd tu untu, neu ymprydio yn dy [illegible]

ar fara a dwfr? oni fyddei'r Nef am hyn oll yn abl margen? A phan nad yw e'n goſyn gennit ddim ond byw yn *Sobr* yn *Gyfion* ac yn *Dduwiol*, (petheu ſy o honynt eu hunain yn ddedwyddwch mawr i ddyn, ac yn angenrheidiol i'th hawddfyd preſennol) a edrychi di ar hyn yn faich anoddef, ac yn ormod prîs am y Nef? Wyti'n meddwl y cymer Duw cyſiawn ebwch neu ochenaid wrth farw, ac ychydig ddagreu ac addewidion diles yn gyfnewid am dy holl ddyledſwydd di?

Os yw'r *annogaetheu* hyn ynghŷd â'th *Lês* dy hunan dim llai na *Dedwyddwch* a *chael gweled Duw*; a gochel anoddef boenau Uffern, a llawer o goſpedigaetheu cyfamſerol, os yw hyn oll yn rhŷ ſychan ith gyffroi i adel, 1. Brynti, a 2. Thrafferth, ac 3. Anesmwythyd, ac 4. Anrheſymmoldeb *pechod*, a throi at Dduw, nid oes dim iw ddywedyd, na modd na ddarffo am danat yn dy ynſydrwydd.

DOS

DOSP. X.

Am Ymbaratoad tu ac at, a'r modd pa ſutt i dderbyn y Sacrament bendigedic o Swpper yr Arglwydd.

1. CADW'r Cymmun ſanctaidd yw Dirgelwch mawr y Grefydd Griſtianogol, a ddaeth yn lle'r hên Gyfraith o aberthu anifeiliaid tros bechod. Ond ni allei'r Aberthau hynny buro'r Enaid oddiwrth bechod, eithr cyſcodion oeddynt yn darogan Aberthiad rhywbeth a allai. Hyn gan nad allei ond Duw-ddyn ei gwplau a gymmerth *Jeſu Griſt* arno, ac a gwplaodd drwy ei aberthu ei hun ar Allor y Groes.

2. Yr *Aberth* hwn am ei fod yn berffeithgwbl nis gallei fod ond *un* nac ond *unwaith*: ond o blegid y parhae anghenion y Byd cyhyd ac y parhae'r Byd, angenrhaid oedd fod Gweinidogaeth waſtadol wedi ei ſefydlu trwy ba un y gwneid yr un *digonol Aberth* hwnnw yn affeithiol i'r holl anghenion a godei hyd ddiwedd y Byd, i bawb a'r a fai rywffordd yn gymmwys ac yn deilwng iw derbyn.

3. Megis y teilynga Crîſt ddangos byth iw Dâd yr Aberth mawr hwnnw, megis modd o gymmod ac iawn tros bechodeu'r holl fŷd eithr mewn bwriad yſpyſol tros yr holedigion, ſef pawb ar a'i gwaſanaethant ef mewn *ffeiddrwydd*; felly fe a ordeiniodd Breſentiad o'r un erth ar y ddaiar hefyd, ac i hynny fe a drefnodd ac a lltuodd Weinidogion pwrpaſol, i *ddangos Marwolaeth Arglwydd*, trwy'r Sacrament, ac i weddio Duw yn yr modd ac y gwna'n Harglwydd a'n Harchoffeiriad mawr hynny yw, offrwm a dangos iddo *Griſt* wedi ei abiu, gan breſentio felly i Dduw troſtynt eu hunain a wb eraill y gweddiont troſtynt, Anrheg gymeradwy hôll ddibennion y bu farw *Griſt* o'u plegid.

4. Megis y mae'r Gweinidogion trwy ddull Sacramenwl yn cyflwyno i Dduw yr Aberth ar y Groes, gan dynwared gwaith *Griſt* yn Eiriol; felly y mae'r Bobl u eu dull hwy en aberthu hwythau. Canys trwy dei-

lwng dderbyn y Bara a'r Gwîn, maent yn debryn Crîſt iw mewn, ac erbyn hynny gallant hwytheu ei offrwm E i Dduw, yn eu haberth o ufudd-dod a diolchgarwch Offrwm eu cyrph a'u heneidieu, a'u gwaſanaeth i Dduw ynddo Ef, a thrwyddo Ef, a chydâg Ef yr hwn yw Ar wylyd ei Dâd *yn yr hwn y bodlonir ef*, ni all hyn na b cymmeradwy at bob pwrpas o fendith, o râs, ac o ogo niant.

5. Dyma ſwmm y Sacrament, yr hwn yw y *Dirgeledigaet* mwyaf o'n Crefydd ni; coppi o'r Dioddefaint, dym weinidogaeth a dangoſiad ardderchoccaf Ddirgelwch e Prynedigaeth ni; ac am hynny beth bynnac ſy raid roi i ni hawl i ragorfreintieu cyffredinol Dioddefai Crîſt, mae hynny oll yn angenrheidiol ith gymmwyſo gadw Sacrament ei Ddioddefaint ef, Canys trwy ddyl dus gadw *hwn* y mae cymeryd a derbyn mwyniant llesâd y Dioddefaint. Rhanneu gwahanredol yr *Ymbar tond* at y Sacrament a ddangoſir yn y Rheoleu ſy'n canly

Yn 1. Na ryfyged neb neſau at fendigedic ſacrame Swpper yr Arglwydd tra byddo mewn ſtât o *un pech anedifeiriol*, hynny yw, oni bydd ef wedi mynd mew ſtât o *Driſtwch duwiol* a Gwellâd, rhag dywedyd am da fel am *Suddas*, llaw'r hwn a'm bradycha ſy gyd â mi a Bwrdd: O blegid y ſawl a dderbynio Griſt î gorph n enaid aflan, mae e'n gyntaf yn troi'r lluniaeth godidoc yn wenwyn, ac yna'n ymborthi arno.

Yn 2. Dylei bob Cymmunwr fod wedi ei holi ei h ſef profi ſtâd a chyflwr dy enaid, a chwilio allan y c nwydydd dirgel, ymwrando â'th wendid a'th wallia pha le y bo'r *fodfedd feddal* arnat ſy rwyddaf i bro gaeth; fel trwy ymglywed â'th glefyd y gallech dde y feddyginiaeth, a thrwy ganfod dy hoffder a'th tu ſtyd y gallech gadarnhau dy fwriadau preſenn wellâd, ac ymarfogi yn erbyn peryglon â phrofedig eu rhagllaw.

Yn 3. Gwaith dyn ei hun yw'r *Holi* a'r Chwilio'i fyw Ond hefyd fe a ddylei hyn dy yrru di 'mlaen at y rh urddodd Phyſygwr mawr ein heneidieu ni *Criſt Jeſu*, i meddyginiaeth i'n doluriau; megis ymhôb peryglon acho

achoſion mawr y gallem cael cyſur neu rybudd wrth ein rhaid o wefuſeu'r Offeiriad, *yr hwn a ddylai gadw gwybodaeth.*

Yn 4. Gwilied pawb ei dwyllo'i hun yn hyn o beth trwy wylo tippyn erbyn pob Gŵyl arbennic o ran defod ac arfer, a chadw fŷth yr un meddwl a hoſſder iw bechodeu: eithr y ſawl a ddèl i'r wledd hon rhaid bod ganddo wiſc briodas, hynny yw, rhaid iddo fod wedi *gwiſco Criſt, a'i gyd-ymffurfio'n gwbl â Chriſt yn ol yſpryd ei feddwl.* Canys *yna* 'r wyti wedi gwiſco *Criſt*, pan fo dy enaid wedi ei harwiſco â chyſiawnder, pan fo pob un o *nerthoedd* dy Enaid wedi ei thrwſio a'i chydffurfio'n gyfattebol i *ymarweddiad Criſt.* Ac am hynny nid oes neges i ti o'th loddeſt a'th faſwedd neithiwyr, redeg heddyw i'r Sacrament: Eithr wedi i ti ddechreu gwaith Duw, a mynd beth rhagot, a rhodio ryw blycciau yn ffyrdd *Duwioldeb,* yna dôs at y Gweinidog ac egor iddo gyflwr dy enaid fel i'th gynnwyſo i'r *Cymmun*: Ond ei dderbyn ef i enaid neu gorph di-ſanctaidd, yw'r dwyll reſynaf yn y byd, ſef yn lle *Criſt* derbyn *Diawl* i breſwylio ynot, nes y dychwelech gyda'th Letteuwr i Gartref y poeneu. Coſha byth ar ôl pechod mawr, neu ar ôl cynnefindod o bechodeu nad ar frŷs y glanheir dyn, ac nid oes i ddim aflan ddyfod i'r Wledd hon. Nid Parotoad deuddydd neu dri a all (o gwrs o Bechod) dy wneud ti'n gymmwys i'r Swpper hwn. O blegid yn y wledd hon fe a gynhyrchir holl *Griſt*, a Dioddefaint Criſt, ai holl raſeu, a bendithion ffrwytheu ei Ddioddefaint ef. Ni all dim llai dy gymmwyſo at hyn, nac a allo dy uno di â *Chriſt*, a chael ganddo breſentio dy anghenion iw Dâd nefol. Ni's gelli neſau at y Sacrament hwn ddim amgenach ond ar yr un ammodeu ac y gelli ddiſgwil Maddeuant a'r Nêf ei hunan hefyd.

Yn 5. Pan fo gennit y cyffredinol a'r angentheidiol anhepcor *Barotoad* hwn, ti a ddylit wneud dy enaid yn fwy trwſiadus â gweithredoedd a ſwyddau duwiol, a deſoſiwnau yſpyſol; gan neilltuo at hynny rŷw gyfran oth amſer neſaf o flaen Gŵyl y Sacrament, yn ôl fel y ganhiado dy Achoſion i ti; a'r amſer hwnnw treulia'n

enwedic mewn gweithredoedd o edifeirwch, a chyffeſu dy bechodeu, adnewyddu dy fwriadeu i fyw'n ſanctaidd, gweddio am gael maddeu dy walliau a'th gamweddau, ac am y graſau a rwyſtro 'r cyffelyb rhag llaw, myfyrio ar y Dioddefaint ac ar anfeidrol gariad Duw a amlygir mewn cymmaint dirgeledic foddion o *Brynedigaeth*: ac mewn pôb gweithredoedd duwiol a adeilado dy Galon yn Dem addas i dderbyn *Criſt* ei hun, ac i groeſawu'r Yſpryd glân.

Yn 6. Rhaid i ti fod mewn *cariad perffaith* â Duw ac â'r hôll fyd: Rhaid i ti o flaen pôb Cymmun yn enwedic gofio pa amrafaelion neu ddrwg-dŷb ſy rhyngot â neb arall, ac ail-gynheſu pôb oerder, atgyweirio pob ang hydfod, ac ymgymmodi âu gilydd, gan gynnyg bodloni ſawl a gâdd gamm gennit, a maddeuant i'r ſawl a wnaeth â thi gamm; heb fod yn dy fryd ail-gyffroi 'r cwery wedi y darffo'r Wŷl: canys nid yw hynny ond *am huddo* 'r gwreichion â lludw rhagrith: rhaid ei *lwy* ddiffodd ef, a chynneu fflamm ſanctaidd: nid oes i ddi poethineb fôd yma, ond poethineb cariad a zêl: ac yn ſe a fyga 'r Allor arogl peraidd ac a wnâ gymmo troſom.

Yn 7. Pan ddêl diwrnod y Wledd, dôd heibio bôb go falon ac amherthynol fatterion y byd, a chofia mai Diw nod i 'th enaid yw hwn, diwrnod o Negeſwriaeth a Chyd faſnach â 'r Nêf. Cyfod yn brydlon. 1. Diolch i Ddu fod cymmaint Bendith cyn neſed. 2. Cyffeſa d' annhe lyngdod i dderbyn lletteuwr mor berffaith. 3. Yna cof ac ymofidia am dy bechodeu a'th wnaeth di mor an heilwng. 4. Yna cydnebydd ddaioni Duw, ac yndd ef cymmer Noddfa, ac arno ef angora dy obaith. 5. gwahodd ef attat â ſwyddeu newydd o gariad ac awyd fryd ſanctaidd, a chaſineb ar ei elyn ef, *pechod*. 6. Ym ffrwm yn hollawl iw drefnid Ef, iw ufudd-dod Ef, i Raglumiaeth ai feddiant ef, a deiſyf arno ddyfod ac ar gydâ thi bŷth. Ac wedi hynny mewn llawenydd a ſa ctaidd ofn, ac awch cariad ymwnâ iw dderbyn *Ef*, at *hwn*, a thrwy' r *hwn*, ac i'r *hwn* y bwriedir pôb Ffydd, p Gobaith, a phob Cariad yn yr hôll Eglwys Gatholic N fol a Daiarol; â'r *Hwn* y mae Brenhinoedd a brenhi

ſau mewn ſerch gan gyfri'n bennaf anrhydedd yn y byd fwrw eu Coroneu a'u Teyrnwiail wrth ei draed ſanctaidd ef.

Yn 8. Pan ſo 'r Offeiriad yn ſefyll wrth Fwrdd y ſendith ac yn cyſſegru, yna gwnâ ditheu fel y gwnâ 'r Angylion, edrych, caru a thra-rhyfeddu, fynd o Fâb Duw yn fwyd i eneidieu ei weiſion; ſod yr Hwn nas gall na phlygu na thorri yn cael ei dorri yn ddarneu, i fynd i'r Corph i gynnal a phorthi 'r Enaid, ac etto 'i ſod e 'n aros yn y Nêf yr un amſer ac y mae e'n deſcyn attati ar y ddaiar; fynd o'r Hwn ſy'n Hanfodol Ddedwyddwch yn druenus, a marw droſoti, ac yna ei roi hun i ti byth i'th wared oddiwrth bechod a Deſtryw; fel trwy ei archollion yr ennillei i ti iechyd, fel trwy ei ddirmyg y mabwyſai di i Ogoniant; fel trwy ei farwolaeth y dygai di i fywyd, ac fel trwy fynd yn Ddyn y gwnai di yn gyfrannog o Natur Dduw. Mae 'r petheu hyn mor ogoneddus, ac er darfod eu gwneud yn amlwg i bob llygad eu gweled, etto maent hefyd mor ddyfnion, a dirgelwch y drugaredd a'r cariad mor anfeidrol na all un dealltwriaeth mo'u hamgyffred. Am hynny,

Yn 9. Derbyn y Defnyddieu cyſſegredic gyd â phôb dyfoſiwn a pharchediccaf oſtyngeiddrwydd corph ac enaid, dôd iddynt y blaen ar bôb bwyd a diod y dwthwn, oni bydd afiechyd neu ryw angenrhaid mawr arall: a bid dy gorph a'th enaid wedi eu glân-gymmwyſo iw derbyn, trwy ddarfod i ti ymgadw oddiwrth ddifyrrwch bydol, modd y gellit yn well ddâl ar ymprydiau a gweddiau o Ragbarotoad. O blegid os yw cynghor S. *Paul* ar i *rai priod o gydſynniad ymgadw* tros ennyd i wilied ar Briſ fwyddeu Duwioldeb fyth yn brydlawn dyma'r amſer, dyma'r pryd y mae. Nid ydoedd S. *Paul* nac Oeſoedd dilynol yr Eglwys yn gadel hynny yn ddyledſwydd angenrheidiol; ond bod yn dra rheſymmol gadw Priſ-Waſanaethau arbennic o Grefydd yn lân ddigymmyſc o ddim a allei anurddo 'r meddylfryd, a'i wneud yn fwy bydol neu yn llai yſprydol.

Yn 10. Wrth i ti dderbyn, ymarfer â ſwyddeu o *Ffydd*, trwy fawr hyder ac ymroddiad calon: Crêd nad bara a gwîn cyffredin monynt, eithr ſanctaidd yn eu harferiad, ſanctaidd yn eu harwyddoccâd, ſanctaidd yn eu cyſſegriad a ſanctaidd yn eu haffeithiau. A chrêd od wyti Gymmunwr teilwng dy fod ti yn derbyn Corph a Gwaed *Criſt* at bôb llês ac affaith yſprydol, cyn wiried ath fôd yn derbyn y *bara* a'r *gwîn* i'th eneu, iê dy fôd ti 'n rhoi dy fys wrth ei law ef, a'th law yn ei yſtlys, a'th wefuſau wrth ffynnonell ei waed ef gan ſugno bŷwyd oi galon ef: a etto os yn anheilwng y Cymmuni, 'rwyti 'n derbyn *Criſt* i'th berygl, a'th farwolaeth a'th ddeſtryw. Nac ym ddadleu ynghylch cyfrinach y dirgelwch, am yr union *fodd* y mae *Criſt* yn breſennol yn y Sacrament; digon yw i ti ei fôd e'n breſennol i'th enaid ti, megis Pibell o rá megis gwyſtl o'r *adgyfodiad*, ac ernes o *ogoniant* ac an ſaf woldeb, a modd o amryw fendithion cyfamſerol, ſe cymmaint oll ac a ſo angenrheidiol i ti, a buddiol i't iechydwriaeth. Ac i wneud yn dda i ti hyn oll, ni rhaid dim ar dy rann di ond buchedd ſanctaidd, a gwi gredu holl ymadroddion Criſt, ac ymyſc y rheiny cre eirieu ordeiniad y Sacrament, a choelia fod *Criſt* ynd yn rhoi i ti ei gorph a'i waed. Y nêb na chredo hy nid yw Griſtion, ac o chredi hyn nid rhaid i ti ymor dim ymhellach, na maglu mo'th Ffydd trwy anghoelio d ſynhwyreu.

Yn 11. Na phalla ar yr uchel Waſanaeth hwn, yn arfer pawb duwiol a dyfoſionol, roi Offrwm i Dduw achoſion *Crefydd* a'r *Tlodion*, yn ôl dy allu. Canys pan *Criſt* yn gwledda ei Gorph, gwleddwn ninneu yn cy aelodeu, ſy ganddynt yr un hawl i'r Addewidion, ac gyfrannogion o'r un Sacrament ac o'r un gobaith, ac tan ofal yr un Rhagluniaeth, ac yn dyfod o'r un ach cyffredin, a Duw yn Dàd iddynt, a Chriſt yn Frawd hyn O digwydd i ti Gymmuno lle na chadwer mo'r An hon ar gyhoedd, diwygia 'r diffyg hwnnw âg Elu ddirgel. Etto offrwm hi i Dduw ar ei Fwrdd ſanctai o leiaf trwy ei dirgel fwriadu hi yno.

Yn

Yn 12. Wedi i ti dderbyn, gweddia a dyro ddiolch. Gweddia tros bob Stât o ddynion; canys mae iddynt hwytheu hawl yn Nghorph Criſt, y maent yn aelodeu o hono; a thitheu 'n gyſſylltedic â Chriſt newydd ei dderbyn ef, wyt ar y fantais honno cymmwyſach i weddio troſtynt. Diolch am Ddioddefaint ein hanwylaf Arglwydd: Cofia bôb rhann o hono, a holl foddion dy *Brynedigaeth*, ac erfyn ar Dduw gael o honot trwy ſanctaidd ddyfal-barhâd yn gwneuthur daioni, dreiddio o'r cyſcod at y ſylwedd; o fwytta ei gorph ef i weled ei wyneb ef; orithiol, Sacramentawl a darfodedic, i wîr a *thraguyddol Swpper yr Oen.*

Yn 13. Wedi y darffo 'r Gwaſanaeth, preſwylied Criſt yn dy galon trwy Ffydd a Chariad ac Ufudd-dod, a chyd-ymagweddiad â'i fywyd ac âi farwolaeth ef: megis y derbyniaiſt *Griſt* i'th fewn, felly arwiſca *Griſt* am danat, a chyd-ffurfia bôb un o nerthoedd dy enaid â 'i ddelw ſanctaidd ac â'i berffeithrwydd ef. Cofia mai 'r un weithian wyt ti a Chriſt; ac am hynny pan fych di ar wneuthur rhyw weithred, yſtyr pa fodd y gwnaeth neu y gwnaethei Griſt y cyffelyb, a dynwared ditheu ei ſiampl ef, a choppîa 'i battrwm ef, ymgydnebydd â'i holl orchmynion ef, a dewis yr hyn oll a gynnygiodd ef, deiſyf ei addewidion, ofna ei fygythion: a phrioda ei gariadeu ai gâſ-bethau ef, a'r un gyfeillach: canys felly ti a gymmuni beunydd; yn enwedic pan ſo Criſt yn aros ynot a thitheu ynddo yntef, gan dyfu i fynu yn *yr perffaith yn Nghriſt Feſu.*

Yn 14. Ar dy ddychweliad o'r Sacrament na ddychwel yn ebrwydd i'r byd, at feddylieu a gorchwylion bydol; eithr bydded y rhann arall o'r dwthwn megis *All-Gymmun* neu Waſanaeth bychan, gan groeſawu d' Arglwydd bendigedic â phôb croeſo Cariad a mwynder ymannerchion, ac ymddiddanion o ddyledſwydd a hoffder, gan ddangos iddo dy holl ddirgelion, a dinoethi dy hôll anghenion, a'th hôll wendidau: ac fel y bo dy achoſion dy hun, neu dy Alwedigaeth yn rhoi i ti ddim feibiant ymneilltua fyth yn aml at weithredoedd a fwyddeu o groeſo ith anwyl Letteuwr.

Y Cymwynaſau a'r mawrlles o Gymmurno'n deilwng.

Pan ddywedais am Aberth y Groes a offrymmodd *Criſt* tros bechodeu ac anghenion yr Hollfyd, a ddengys Criſt fyth iw Dâd, ac a goffeir gan ei weinidogion ef yn y Sacrament; rhaid oedd i mi feddwl hefyd y troſglwyddir yno hôll gymmwynaſau 'r Aberth hwnnw i bawb a'i cymmwys ac a'i teilwng dderbynio. Eithr o ddeſcyn at betheu gwahanredol, Yn y *Sacrament* ymborthir yr Eglwys yn ei Ffydd, cadarnheir hi yn ei Gobaith, ehengir ei hymyſcaroedd â chynnydd o Gariad. Yno y cyd-gyſſylltir hôll Aelodeu *Criſt* â'u gilydd, ac â Chriſt eu Penn: ac yno 'r adnewyddwn ni 'r Cyfammod â Duw yn Jeſu Griſt, ac mae Duw yn ſelio' i rann ef, a ni 'n ſelio 'n rhann ninneu, â Chriſt yn uno 'r ddau a'r, yrſpryd glân yn ſiccrhau'r ddau trwy roi 'r Graſau hynny y bôm ni 'n gweddio am danynt, yn eu hymarferu, ac yn eu derbyn oll ar unwaith. Yno y porthir ein Cyrph ni â'r Arwyddion, a'n heneidiau ni â'r Dirgelwch: Yno y derbyn ein cyrph ni hâd Anfarwoldeb, ac y cyſſylltir ein Heneidieu ni âg Ef, yr hwn yw blaenffrwyth yr Adgyfodiad ac ni all byth farw. Ac o bydd arnom chwant ac eiſieu dim arall, yma y mae gweddio am dano, yma mae gobeithio, yma ei dderbyn. Hiroes ac iechyd, eſcor o glefyd, manentumiad a chynhaliaeth digonol, heddwch ac ymwared rhag ein gelynion, bodlonrhwydd ac amynedd, a llawenydd, cyfoeth ſanctteiddiedic, neu Dlodi llawen, a Rhydd-did a pheth bynnac arall ar ſy fendith fe a'i pwrcaſwyd i ni gan Griſt, yn ei farwolaeth a'i Adgyfodiad, ac yn ei eiriolwch yn y Nêf. A chan mai 'r un peth yw 'r Sacrament i ti yn neilltuol, ac a yw 'r Dirgelwch i 'r holl fŷd yn mwriad Criſt, o chymmuni yn deilwng ti a dderbyni un rhyw o 'r holl fendithion hyn fel y dewiſo Duw troſot ac efe a ddewis nid yn unic yn ſynhwyrolach, ond hefyd yn garediccach nac y medri di troſot dy hun.

Am

Am ben hyn ôll, Cyngor Bugeiliaid yr Eneidieu, Gwŷr duwiol a ſynhwyrol, yw cymmuno o bawb yn dra-mynych. ſef cyn fynyched ac y gallont, heb nac eſcus nac oed. Ni theiſſ dim monom oddiwrth Waſanaeth mor ſanctaidd pan alwer ni atto, ond naill ai pechod ai amherffeithrwydd, un ai gwendid a'i annuwioldeb a diweddarwch yſprydol. Rhaid i bob *Criſtianogion* ddyfod: Yn wîr y rhai ſy mewn Cyflwr pechod, ni ddyleint ddyfod *felly*, etto rhaid iddynt ddyfod; Rhaid iddynt yn gyntaf adel eu ſtât o *Farwolaeth*, ac yna cyfrannu o Fara'r *Bywyd*. Rhaid i 'r rhai ſy mewn gelyniaeth â'u Cym'dogion ddyfod, nid yw hynny ddim eſcus iddynt beidio; ond nad oes iddynt ddwyn mou gelyniaeth gyd â hwy, eithr ei lwyr-adel, ac yna dyfod. Rhaid i 'r rhai ſy âg amryw drafferthion bydol arnynt ddyfod, ond bod yn rhaid iddynt adel eu hanwydeu a'u meddylieu bydol o'u hôl, ac yna dyfod i ymgyfeillach â Duw. Y ſawl ſy wedi cynnyddu 'n ddâ mewn Grâs rhaid i hwnnw'n ſicr ddyfod, am ei fod ef wedi ei drwſio 'n odidoc at Wledd mor ſanctaidd: ond y neb ſydd ym *mebyd* Duwioldeb rhaid iawn iddo ddyfod yma, fel y cynnyddo mewn grâs. Rhaid i'r crŷf ddyfod rhag iddo fynd yn wann: ac i'r gwann, fel yr êl yn grŷf. Deued y Clâf i w iachau, a'r iâch i gael ei gadw mewn iechyd. Y rhai ſy'n cael ennyd rhaid iddynt ddyfod, am eu bod yn ddieſcus: a'r rhai ſy heb gael ennyd rhaid iddynt ddyfod yma, fel y ſanctei-ddier eu Trafferthion trwy Grefydd mor odidog. Rhaid i'r pechaduriaid edifeiriol ddyfod, fel y cyſiawnhaer hwy; a'r rhai a gyſiawnhawyd fel y cyſiawnhaer hwy fyth. Y rhai ſy mewn ofn a pharchedic arſwyd ar y Dirgeledigaetheu hyn, na thybiant ddim Rhagbaratoad yn ddigonol, rhaid iddynt gymmuno, modd y dyſcont gymmuno 'n deilyngach; a'r ſawl ſydd ganddynt râdd llai o barch, rhaid iddynt ddyfod fel y caffont ychwaneg: fel megis y mae'r creaduriaid hynny ſy 'n byw ynghanol uchelfeydd yr Eira, yn troi 'n wyniou wrth ymborthi ac ymhèl â'r gwynder gwaſtadol hwnnw;

felly

felly y gweddnewidier ein eneidiau ninneu i gyffelybiaeth aç undeb à Chriſt, wrth i ni waſtadol ymborthi ac ymgynnefino arno, nid yn ynic yn ei Gynteddau, eithr yn ei Galon ef, ac yn eigion ei ddirgelaf Hoffder êf a'i Burdeb anrhaethawl.

Mate Hughes Mato

Thomas Edwards
Eqnus Liber Anno
Domini 1741 The Gweddieu
Gift of Mari Hughes
T. E. his hand

Gweddieu i bob mâth o ddynion ac achoſion perthynol i amryw rannau Duwioldeb.

Gweddi am Fſydd, Gobaith *a* Chariad.

O Arglwydd Dduw anfeidrol o drugaredd a godidowgrwydd anfeidrol, yr hwn a anfonaiſt dy Sanctaidd Fâb i'r byd i'n gwaredu o Drûeni anoddef, ac i faddeu i ni ddylêd anfeidrol, ac i ddyſcu i ni Grefydd Sanctaidd; dyro i mi dy Yſpryd glân, fel y bo fy Nealltwriaeth a holl nerthoedd fy Enaid felly wedi ymroi i ddiſcybliaeth ac athrawiaeth fy Arglwydd, modd y byddwyf parod mewn meddwl ac 'wllys i farw er mwyn tyſtiolaeth *Ieſu*, ac i ddioddef pob cyſtudd a blinder a ollio rwyſtro fy nyledſwydd, neu fy nhemtio i gywilydd a phechod neu Dorr-proffes; a bydded fy *Ffydd* yn Dâd Buchedd ddâ, yn darian cadarn i gil-cwtiio piccellau tanllyd y Fall, yn Famm *Gobaith* ſanctaidd, a deiſyfiadau cymmeſur a hyder ynot, a diball *Gariad* tu ac atat Ti fy Nuw, a thu ac at yr hôll fyd; fel byth na bo fy rhanu gyd a'r Anghred, a'r Anghariadol, a'r Anobeithiol; eithr bod gennif *Ffydd* nerthol i'm cynnal ym mhob profedigaeth, a *Gobaith* ſanctaidd cyſſurus i'm dadlonni yn fy hôll adfyd, a *Chariad perffaith* i'm cymmorth i ddwyn baich yr Arglwydd, a gwendid fynghymydog; fel yr el iau *Ieſu* yn eſmwyth i mi, ac y gwnêl fy Nghariad holl wyrthieu Grâs, nes y chwyddo o *râs* i *Ogoniant*; o ddaiar i Nef, o ddyledſwydd i Wobr, nes o ddechreuad ſerch amherffaith ac egin bychain o hoffder, y tyfo i gyflawn berffeithrwydd didrancedig a thragwyddol *Gariad*; trwy *Ieſu Grift* Mab dy Gariad, Angor ein Gobaith, Awdwr a Diweddwr ein ein Ffydd ni: i'r hwn gyd â Thi o Arglwydd

Nef a daiar, a chyd â'th Yſpryd glân bid yr hôll ogoniant, a chariad, ac ufudd-dod a llywodraeth yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Ocheneidiau o Gariad *iw harfreu o'r neilltu.*

Ti o Dduw yw ſy Nuw i, ſychedodd ſy enaid am danat, hiraethodd ſy nghnawd am danat mewn tir crâs a ſychedic heb ddwfr; I weled dy nerth, a'th ogoniant fel ith welais yn y cyſſegr. Canys gwell yw dy drugaredd di na'r bywyd, ſyngweſuſau a'th foliannant. Pſal. 63. 1, &c.

Parod wyſi nid i'm rhwymo'n unic, ond i farw hefyd er mwyn Enw'r Arglwydd Ieſu.

Mor hawddgar yw dy bebyll di, O Arglwydd y Lluoedd! ſy enaid a hiraetha ac a flyſia am Gynteddau'r Arglwydd: ſy nghalon a'm cnawd a waeddant am y Duw byw. Gwyn fyd preſwylwyr dy Dy, yn waſtad i'th foliannant. Pſal. 84, 1, 2, 4.

O *Ieſu* Sanctaidd, teilwng wyt Ti o bôb addoliant, ac anrhydedd a chariad. Ti yw y Rhyfeddol, y Cynghorwr, y Duw cadarn, y Tâd tragwyddol, Tywyſog Tangneddyf, ac ar dy. Deyrnas a'th Heddwch ni bydd tranc: Ti yw diſcleirdeb Gogoniant dy Dâd, a gwîr ddelw ei Berſon ef, Ti a ordeiniwyd yn Etifedd pob peth. Ti ſydd yn cynnal pob peth trwy Air dy nerth: Ti trwot dy hun a lanheaiſt ein pechodeu ni: Ti ſy'n eiſtedd ar ddeheulaw'r Mawredd yn yr uchelder: Ti a wnaethpwyd yn well na'r Angylion; ti a etifeddaiſt Enw godidocach na hwynthwy. Ti, O anwylaf *Ieſu*, wyt Benn yr Eglwys, y dechreuad a'r Blaenffrwyth oddiwrth y meirw: ymhôb peth Ti bieu'r blaen, a rhyngodd bodd i'r Tâd [illegible] o bôb llawnder ynot Ti. Mae Terynaſoedd [illegible] Brenhinoedd a fwriant eu coroneu a'u [illegible] arnat dy draed, a Brenhineſau yn llaw-forwyn[illegible] i'th foliant draed dy weiſion.

Gweddi

Gweddi iw dywedyd mewn unrhyw Gystudd, megis marwolaeth Plant, *neu* Wr, *neu* Wraig, *neu mewn tlodi* mawr, *neu* garchar, neu brudd-der a digalonrhwydd Yspryd, *ac mewn Profedigaetheu i* Anobeithio.

ODduw Tragwyddol, Dâd y Trugareddau, a Duw pob diddawnch, trwy fawr drugaredd edrych a'r driſtwch a blinderau dy wâs. Mae 'mhechodau yn pwyso'n drwm arnaf, yn barod i'm llethu; ac nid oes iechyd yn f'eſcyrn o herwydd dy ddigoſaint di, a'm camweddeu inneu. Aeth y dyfroedd troſoſi a ſoddais mewn tom ddyfn, ac mae fy mlinderau yn ddigyſur o achos maî coſpedigaetheu fy mhechod ydynt; â minneu cynddrwg dyn ac mor waelfrwnt nad oes ynof (er maint fy wllys) ddim teilyngdod na chymmwyſiad i dderbyn cyſſur. Fy mhechodeu a barodd ſy nhriſtwch; ac nid yw fy nhriſtwch yn iachau fy mhechodeu; ac oddieithr i ti er dy fwyn dy hun, yn unic am dy fod ti yn dda, doſturio wrthif a'm cymmorth nid oes i mi fwy o help fyth iw gael nac ſy gennif yr awron o gyſſur. Arglwydd, toſturia wrthif, Arglwydd ſirioled dy Râs fy yſpryd i. Dy ddiddanwch di a'm cynhalio, dy ddaioni a'm rhyddhao, ac byth na atto dy drugaredd i'm rhann fod ymhlith yſprydion melltigedic anobeithiol: Canys daionus a graſlawn wyt Ti, â minneu'n ymfwrw ar dy drugaredd di. Byth na chollwyf mo'm gafael, a gwnâ di â mi'r hyn a fyddo da yn dyolwg dy hun. Nis gallaf ddioddef [illegible] haeddiant: ac etto nis gall fod arnaf eiſieu dim [illegible] cymmaint ac yw dy drugaredd di: canys [illegible] drugaroccach o anfeidrol nac y gallaſi fod yn druenus a'th Drugaredd di ſy goruwch dy holl weithredoedd, rhaid iddi fod ymmhell goruwch fy holl bechod a'm holl gyſtudd i. Anwylaf *Ieſu*, ynoti'r ymddiriedwyf, na'm gwradwydder yn dragywydd. *Amen.*

Ocheneidiau a byrr-Fyfyrdodau iw harferu yn amſer Clefyd, a Thriſtwch, neu Berygl Marwolaeth.

Pſal. 102. 1, 2, 4, 10. | Pſal. 38. 2, 3, 4, 18. | Pſal. 6. 1. | Pſal. 41. 4. | Pſal. 51. 1. | Pſal. 25. 7. | Pſal. 51. 2, 10, 11. | Pſal. 48. 14. | Pſal. 41. 3. | Pſal. 49. 5. | Pſal. 55. 14. | Pſal. 39. 5, 11, 7, 12, 10, 13. Pſal. 119. 25. | Pſal. 116. 3.

Gwerſi o Ffydd am yr Adgyfodiad, a Dydd y Farn, iw dywedyd a'u hyſtyried gan rai cleifion.

Job 19. 25, 26, 27. | Pſal. 50. 3, 4.

O ſendigedic *Ieſu*, Ti yw fy Marnwr a'm Dadleuwr i; trugarhâ wrthif yn awr Angeu ac yn Nydd y farn.

Gweddi

Gweddi iw dywedyd gan ddyn clâf neu ar drancedigaeth.

O Arglwydd nid oes rifedi ar dy ddyddieu nac ar dy drugareddeu di, ac mae pechodau a blinderau y wâs yn dra lluosoc hefyd. Arglwydd edrych arno rwy fawr drugaredd a thosturi, maddeu iddo ei holl echodeu, cyssura ei ofidieu, esmwythâ ei boen, siccrhâ i amheuon, helpa'i ofn ef, cyfarwydda'i anwybodaeth, yfhâ ei ddealltwriaeth ef, cymmer oddi wrtho bob ythryfwl calon, a phob gwendid a hudoliaeth Phansi. ttal drais a malis ysprydion y tywyllwch; ac na âd ddo gael dim camm na chan ei Elynion ysprydol, na han ei wendid ei hun. A bydded Heddwch sanctaidd chyfiawn, a Thangneddyf Duw yn ei gydwybod ef.

Cadw Arglwydd ei Synhwyrau ef, hyd yr eithaf o'i nser, cryfhâ ei Ffydd, cadarnhâ ei Obaith, a dyro iddo diball Gariad tu ac attati ein Duw, a thu ac at yr hôll yd: Cyfod ynddo fawr a chymmesur driftwch duwiol m yr holl ddrygau a wnaeth, a dyro iddo râdd o mynedd cyfattebol iw gyftudd. Dyro iddo Synhwyr, offadwriaeth, a phwyll i fwriadu a fefydlu cyfrifon enaid; a choffa di iddo ei hôll ddyledfwydd, a phan ygo bodd i ti ollwng ei enaid ef allan o garchar ei orph, poed Angylion a'i derbynio, ac a'i cadwo rhag uthreu yfprydion drŵg, a rhag golwg erchyll a dyrynllyd ar Fyd newydd a dieithr, a dyger ef i fynwes n Harglwydd, hyd ar Ddydd ei ail ddyfodiad yr ail fyllter ef â'r Corph, yr hwn yr awron a roir i lawr ewn gwendid ac ammarch, eithr mae'n gofyngedic eddi ni, a gyfodir y pryd hynny mewn gogoniant a llu, i fyw byth ac i weled wyneb Duw yn Ngogoiant yr Arglwydd *Jesu*, yr hwn yw'n Gobaith, ein adgyfodiad a'n Bywyd ni, Goleuni ein llygaid, a awenydd ein enaidiau, ein bendigedic a'n byth-ogoeddus Frynwr. *Amen.*

Yma gall y Cláf daro i mewn ac ymarfer â'r Gwerſi o a mry Raſau a hauwyd yma a thraw hyd y llyfr hwn, yr amry Letaniau, *ſef o Edifeirwch, o'r Dioddefaint, ac â'r Gwe ddiau unic, yn ôl ei angenrheidiau preſennol ef.*

Gweddi iw dywedyd mewn Tymmeſtl a ry Môr.

O Fy Nuw, Tydi a greaiſt y Ddaiar a'r Môr e dy ogoniant, ac er gwaſanaeth i ddyn, ac wy beunydd yn dangos rhyfeddodau yn y dyſnder, edryc ar berygl ac ofn dy wâs. Fy mhechodeu a'm daliaſant ac heb fraich dy *drugaredd* di i'm cynnal nis galla edrych i fynu; ond ynoti y mae fy ymddiried. Ceryddu di'r Môr O Arglwydd, a goſtega ef; oblegit i ti y ma 'r gwyntoedd a'r Môr yn ufuddhau: na lyngced y dyfro edd ſi, eithr poed i'th Yſpryd ti, Yſpryd Tawelwch trugaredd ymſymmud ar wyneb y dyfroedd. Cymo da di â'th weiſion, ac yna 'r dyfroedd a waſtattânt. Y wy'n ofni mai mhechodeu i, fel *Jonas* yw'r achos o' dymmeſtl. Taſl allan fy hôll bechodeu, ac na fwrw d weiſion oddi ger dy fron, ac o dîr y rhai byw, i'r dyfn deroedd lle'r anghofir pob peth. Eithr os dy wllys y cwympo o honom i'r dyfroedd, Arglwydd derbyn f enaid i'th ddwylo ſanctaidd, a chadw ef mewn trugared a diogelwch hyd Ddydd adferiad pôb peth: a theilyng gyſſylltu fy marwolaeth i at farwolaeth dy Fâb, a'i der byn felly yn gyſſylltedic, yn *iawn* am fy holl becho deu, fel yr anghofiech dy hôll ddigter, ac y dileech f nghamweddeu o'th Lyfr, ac y ſcrifennech fy enaid yn ddo, er mwyn *Jeſu Griſt* ein Harglwydd anwylaf, a' Prynwr galluoccaf. *Amen.*

Yna ymrô i Ddduw fel hyn.

I Dduw y perthyn dibennion bywyd ac angeu. Y Arglwydd yw, gwnaed yr hyn a fo dâ yn ei Iwg hu

hun. Bid dy wllys ar y ddaiar megis y mae yn y Nefoedd. Dywed Pſalm 107. 130.

Ffurf o Adduned *iw gwneud yn y Perygl hwn a'r cyffelyb.*

O bydd yr Arglwydd mor raſlon a gwrando ar Weddi ei wâs a'm dwyn i'n iâch i'r lann, yna minneu a'i clodforaf ef yn y dirgel a'r amlwg, ac a dalaf at Achoſion *Duwioldeb* neu 'r *Tlodion* [*yma henwa'r ſwm a fwriadech*] O fy Nuw fy nâ nid yw ddim i ti: Minneu fy hun fyddaf wâs i ti holl ddyddieu fy enioes a chofiaf dy drugaredd hon a'm bwriadau preſennol, a byddaf byw'n well ac yn berffeithiach er gogoniant i'th Enw. Teilynga ditheu dderbyn yr *Adduned* hon yn arwydd o'm taerni am cledi preſennol: a chynnyrfer di i doſturio wrthif a'm gwaredu. *Amen.*

Gellir arfer y Ffurf hon wrth weddi o am Fendith ar ryw waith a gychwyner, a gellir addo'r Adduned mewn Duwioldeb *cyſtal ac mewn* Eluſen.

Gweddi o flaen Siwrnai.

HOllalluoc Dduw yr hwn wyt yn llenwi pôb peth â'th breſenoldeb, ac wyt yn Dduw o bell cyſtal ac o agos; Ti a ddanfonaiſt dy Angel i fendithio *Jacob* yn ei Siwrnai, ac a dywyſaiſt feibion *Iſrael* trwy'r Môr côch gan wneud y dyfroedd yn wàl o'u deutu: Teilynga adel i'th Angel gychwyn o'm blaen i a'm tywyſo i yn fy Nhaith, a'm cadw rhag perygl Yſpeilwyr, rhag trais gelynion, rhag pôb twrſtaneiddwch diſymmwth, rhag codymmeu a chyfeiliorni. A llwydda fy ſiwrnai i'th ogoniant di, a'm holl bwrpaſon diniweid inneu; ac amddiffyn fi rhag pôb pechod, fel y dychwelwyf mewn heddwch a llanctoiddrwydd, gyd a'th ffafr a'th fendith di, i'th waſnaethumewn diolchgarwch ac ufudd-dod holl ddyddieu fy nhererindod, ac o'r diwedd dŵg fi i'm gwlâd i'r *Gacyſa-*

ſalem, Nefol, i breſwylio yn dy Dŷ, ac i ganu mawl i ti'n dragywydd. *Amen.*

Gweddi iw harferu cyn gwrando neu ddarllen Gair Duw.

O Sanctaidd a thragwyddol *Jeſu*, yr hwn a'n hynnillaiſt ni trwy dy Air, a'n hadnewyddaiſt ni â'th Yſpryd, a'n porthaiſt ni â'th Sacramentau ac â beunyddiol Weinidogaeth dy Air; adeilada ni byth ymlaen i fywyd tragwyddol. Bid dy Yſpryd ſanctaidd yn gydrychiol gyd a mi a gorphwyſed arnaf wrth wrando [neu ddarllen] dy Air ſanctaidd, modd y gwnelwyf hyny yn oſtyngedic, yn barchus, yn ddiragfarn, â meddwl parod ac wllyſcar i ddyſcu ac i ufuddhau; fel y byddwyf parod a hwylus i bôb gweithred dda, ac yr ymarferwyf â'th holl lân gyfreithieu a'th orchmynion i ogoniant dy ſanctaidd Enw, O Sanctaidd a thragwyddol *Jeſu, Amen.*

Cyffes pechodeu ac Edifeirwch iw harfer ar Ddyddieu Ympryd a Goſtyngeiddrwydd, yn enwedic yn y Garawys ac o flaen y Cymun bendigedic.

TRugarhâwrthif O *Dduw, yn ol dy drugarogrwydd, yn oll liaws dy doſturiaetheu dilea fy anwireddau. Canys cyffeſaf fy anwiredd, ac ymofidiaf o herwydd fy mhechod.* Gwaelaf o bechaduriaid wyfi ar gwaethaf o ddynion, annioddefus o gerydd ac ammarch ac etto'n ei fawrhaeddu; ymfodlonais mewn rhîth a lliwieu Goſtyngeiddrwydd, a phan alwn i fy hun yn ddrwg nis gallwn aros i neb arall ddywedyd na meddwl hynny. Bûm anufudd i'm Goruchafiaid, dreng ac anhynaws fy ymddygiad, anghriſtianogol ac anŵrol. Ond *er mwyn dy Enw, Arglwydd, bydd drugarog wrth fy mhechod, canys mawr yw.*

O gyfiawn ac anwyl Dduw, pa fodd y gallafi ddiſgwil roſturi neu faddeuant, a miloneu mor ddiglion ac anynad *trwy* ac *heb* achos, yn cenſigennu'y dâ ac yn lawenhau yn nrŵg fy nghymdogion, mor eſceulus o'm

o'm ſiars, ſegurllyd a diles, ofnus a gwael-frwnt, ei-ddigus a digywilydd, uchel-feddwl a chalon-galed, maſ-weddgar, difarwhàd a mwythus yn fy nuchelld, annefo-nol yn fy ngweddiau, heb phanſi na hoffder, heb wi-led arnynt na dyfalbarhau ynddynt; eithr awchus a ma-nwl, i foddio fy mlŷs o fwyd a diod a phleſerau, ſy'n porthi pechod ac aſiechyd: a minneu a fedais ffrwytheu melltigedic y fâth anllywodraeth, trwy achleſu meddy-ieu anweddaidd ac aflan, ac felly deorais hwy yn wei-thredoedd anweddaidd a bryntion, a daeth Yſpryd yr Aflendid i'm mewn ac a halogodd y Deml a gyſſegrailli yn breſwylfod i'th lân Yſpryd y cariad a'r Sanctei-ddrwydd. *Ond er mwyn d'Enw Arglwydd bydd drugarog wrth fy nhrechod canys mawr yw.*

Ti a roddaiſt i mi fywyd i'th waſanaethu, ac i hwſmo-naetha fy Ngobaith am y Nef: a minneu a ddifrodais yr amſer gwerthfawr hwn ar fy mhechodeu a'm hofer-redd, yn ddiddarbodus o'm hamſer ac o'm talent, ac o'm grâs a'm manteiſiau, gan wrthwynebu dy Yſpryd a'i ddiffoddi. Hoffwr mawr arnaf fy hun oeddwn, etto dewiſais amryw fyrdd i'm deſtrywio fy hunan. Dilynais fy amcanion bydol trwy ffyrdd awyddus a gŵyr-geimion. Ydwyf ymddialgar ac anniolchgar, anghofio cymmwynaſeu heb anghofio 'r cammeu, yſmala a grwgnachus, ffeidd dorr-wr f'addewid. Ni cherais ac ni cheiſiais ddaioni i'm Cy-mydog hyd y gallwn. Anhebyg i Ti ymhôb peth. Anrhugarog ydwyf ac anghyfiawn, ynfydffol am berheu r *byd*, a diofal am y Nef a'r ffyrdd ſy'n arwain yno. *Ond er mwyn dyEnw, Arglwydd, bydd drugarog wrth fy nhrechod canys mawr yw.*

Fy hôll ſynhwyreu fuant ffeneſtri i ollwng Pechod i mewn ac angeu trwy'r pechod, fy llygaid fuant odinebus a chybyddus; fy nghluſtiau yn egored i ddrŵg abſen ac enllib; fy nhafod a'm geneu yn afreolus ac yn fwythus, yn anghymedrol a buſtlaidd, yn ſiaradus ac yn gelwydd-og, hyd a maleiſgar, twyllodrus a gwenieithus, an-nuwiol ac amharchus, yn barnu ac yn diyſtyru. Fy nwy-law fuant draws ac aflan, fy ngwynieu 'n wrthgyfolgar a

durſing, ſy chwanteu 'n annioddefus ac yn anrheſymmol; ſy holl aelodau a'm hôll gynneddfau ſuant weithion i bechod; ac yn ſy ngweithredoedd goreu mae mwy achos o reſyndod nac o hyder, anherffaith yn y goreu ac anoddef yn y rhann ſwyddfa honynt. *Ond er mwyn dy Enw, Arglwydd, drugarog wrth fy mhechod canys mawr yw.*

Am ben hyn a phentwr llawer mwy o bechodau mi a chwanegais feiau rhai *eraill* ar fyſi ô fy hun, wrth eſcuſodau eu lluddias hwy i bechu lle y gallaſwn ac y dylaſwn; eithr mi a'u cefnogais hwy heſyd i bechu, gan eu dewrhau, a chaledu eu cydwybodau, a'u temtio a'u gorchfygu i'm deſtryw fy hun a hwythau; oddieithr i'th ogoneddus a'th anrhaethol drugaredd i dd ragflaenu trueni mor anoddef.

Camarferais, Arglwydd, dy drugaredd, dibriſiais dy farnedigaethau, trois dy râs yn drythyllwch. Bûm anniolchgar am dy anfeidrol garedigrwydd, pechais ac edifarheais, ac yna pechais drachefn, a bwriedais ei ochel ac yn ebrwydd torrais; ac yna mi a ymrwymais mewn Addunedau, a phan i'm temtiwyd mi ymrois o dippyn i dippyn, nes fy mynd yn iwin eilwaith, ac ymddattodd fy Addunedau fel rheffynnau ofered. *Ond er mwyn dy Enw, Arglwydd, bydd drugarog wrth fy mhechod, canys mawr yw.*

Ac etto, Arglwydd, mae gennif faich arall o bechodau iw dadlwytho. Fy nirgel bechodau Arglwydd ſy'n aneirif, pechodau na ferciais i arnynt, pechodau a anghoſiais o'm gwirfodd, pechodau a wneuthum i o anwybodaeth ac amryfuſedd gwirfodd, pechodau a allaſei yſpryd diwyd a gwiliadwrus eurhagrwyſtro oni's mynnwn i. Arglwydd mae'n gwilydd gennif eu lliaws hwynt, ac erchylldod eu coffadwriaeth, wrth edrych arnynt yn noeth ac heb yr amgylchion oedd yn eu *trymhau*: Ond â'r pwyſau hynny ou hamgylch maent yn olwg rhŷ aruthrol a dychrynllyd, anfeidrol o raddau, ac anoddef eu baich.

Ac er hyn ôll ti a'm harbedaiſt trwy'r amſer, ac ni'm teflaiſt i Uffern, lle yr haeddais fod er ys talm, ac yr awron fod wedi fyngharcharu mewn tragwyddoldeb o boeneu a dychryndod anrhaethawl, hyd ddadcuddiad dy

Ddydd

Ddydd Mawr. *Ys truan o ddyn wyfi pwy a'm gwerydd oddi wrth gorph y farwolaeth hon! &c.*

Tydi a attebi droſoſi O Arglwydd, fy Nuw, Ti'r hwn a weddiaiſt droſof, a fyadi fy Marnwr.

Y Weddi.

DArperaiſt i mi driſtwch iachuſach, na omedd i'th wâs driſtwch, a minneu 'n ei ddeiſyf gennit. Dyro i mi ddwfn guſtudd calon am fy mhechodeu a gwarus ffeidd-dod arnynt, gan eu caſâu yn waeth na marwolaeth ac artaith. Dyro i mi râs yn hollawl, yn ebrwydd ac byth i ymwrthod â hwynt, i rodio mewn gofal a chalineb, mewn ofn gwliadwrus tros fy holl enioes, i wneud fy hôll ddyled ſwydd mewn diwydrwydd a chariad, mewn zêl ac yſpryd diſſinedic, i brynu'r amſer, i obeithio yn dy drugareddau, i ymarfer a hôll arfau gràs, i weithio allan fy iechydwriaeth trwy ofn a dychryn, modd y caffech di'r gogoniant o faddeu fy holl bechodeu, ac y medwyf inneu ffrwyth dy holl drugareddau, a'th raſau, dy amynedd a'th hirfyaros; ſef i fyw buchedd ſanctaidd yma, ac i deyrnaſu gyd â thi yn dragywydd, trwy *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

[At. Ddoſp. 6.] *Dyſoſiwnau yſpyſol iw harferu ar* Ddydd yr Arglwydd *ac ar* uchel-Wyliau *Criſtianogol eraill.*

YBoreu dywed y Ffurf o Ddiolchgarwch ſy'n canlyn; ar y Gwyliau yſpyſol coffa'n ychwanegFendithion yſpyſol, yn ol y Gweddiau ſyn canlyn, gan chwanegu r Gweddiau a ſynnech o'r Dyſoſiwnau ſy o'r blaen.

Heb law arferol a theyffredin Ddleddſwyddeu'r Diwrnod, o ymneilltui i'th yſtafell i ddarllen a myſyrio, wedi gwneud hynny o ddyledſwydd, dywed Gân S. Emrys *a elwir yn gyffredin* [Te Deum] *neu* [Ti Dduw a folwn, ti *&c.*] *yna chwanega'r Gweddiau am amryw Raſau gwahanredol ſy yn niweda'r Pennodeu o'r blaen, cyffryw a chynniſer o honynt ac a fo cyweddaſ i'th achoſion preſennol. Gelli er mwyn cael amheuthun arferu y Ffurf hon o Ddyfoſwn, amſer arall pan fynnech.*

Ffurf o Ddiolchgarwch *yn adrodd Bendithion cyffredinol a neilltuol, iw harferu ar Ddydd* Pâſc, y Sulgwyn *a'r* Dyrchafaęl, *ac ar* bob Sul *trwy'r flwyddyn:* ond fe ellir *cadw ei thanol hi at y Gwyliau arbennic, ac arfer ei deupen ar y dyddieu cyffredin wrth fel y bo dy galon a'th ennyd yn peri.*

O Dragwyddol Hanfod, Arglwydd DJuw, Dad Hollalluoc, Gwneuthurwr pob peth yn y Nef a'r Ddaiar; da yw diolch i Ti, O Arglwydd, a thalu i ti bôb parchedigaeth, addoliant a defoſiwn o galon lân a pharod; a phreſentio âg Yſpryd goſtyngedic, Aberth bywiol a rheſymol i'th Sanctaidd Fawrhydi: Canys rhoddaiſt i ni wybodaeth o'th wirionedd; a phwy a ddichon ddarcan dy fawredd, a mynegi dy holl ryfeddodeu a wnaethoſt ymmhôb Oes a Chenhedlaeth o'r Byd.

O ardderchawg Iôr a llywodraethwr pob peth, Arglwydd a Chreawdwr yr holl weledigion ac anweledigion bethau, yr hwn wyt yn eiſtedd ar Orſeddfa dy Ogoniant, ac yn canfod dirgelion y tywyllwch a'r dyfnderoedd eithaf: Ti wyt heb ddechreuad, anherfynedic, anfeſuredic, anghyfnewidiol, yn eiſtedd byth yn ddiſigl yn dy Heddwch a'th Ddedwyddwch hanfodol dy hun: Ti yw Tad ein Harglwydd *Jeſu* Griſt, yr hwn yw

Ein hanwylaf a'n graſuſaf Iachawdwr, ein Gobaith, Doethineb y Tad, Delw dy Ddaioni, y Gair tragwyddol, diſcleirdeb dy Berſon, Gallu Duw er tragwyddol Oeſoedd, y gwir Oleuni ſy'n goleuo pob Dyn a ddel i'r byd, Prynedigaeth Dyn, a Sancteiddiad ein heneidiau.

Trwy 'r *Hwn* y deſcynnodd yr Yſpryd glân ar yr Eglwys; glân Yſpryd y gwirionedd, ſêl y mabwyſiad, etifeddiaeth y ſainct, blaenffrwyth Happuſrwydd tragwyddol, y Bywiawdwr, ffynnon y ſancteiddiad, Diddanwch yr Eglwys, eſmwythyd y cuſtuddiedic, cynhaliaeth y gwann, cyfoeth y tlawd, dyſcawdwr yr amhëus, y rhuſiedic, a'r anwybodus, angor yr ofnus, anfeidrol wobr pob ffyddlon eneidieu, trwy 'r Hwn y gwaſanaetha pob creaduriaid rheſymmol a dealltwrus Dydi, gan offrwm i ti ddi-dorr a ddiyſiant Aberth o Weddi, a Moliant, ac Addoliant.

Yn

Yr hôll Angylion a'r Archangylion, yr hôll Thronau a'r Awdurdodau, yr holl Dywysogaethau a'r Galluoedd, y Cerubiaid l'ygeidiog, a'r Seraphiad a orchguddir âg escyll rhag arswyd a syndod dy ddiscleiriaf ogoniant; y rhain, a hôll Nerthoedd y Nefoedd a gwasanaiant byth wastadol gytgerdd o fawl a Hymnau ac Odlau tragwyddol i ogoniant y tragwyddol Dduw Hollalluog Dad dynion ag Angylion.

Sanctaidd yw 'n Duw: Sanctaidd yw'r Hollalluog: Sanctaidd yw'r Anfarwol: Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Sabboth. Nef a Daiar sy'n llawn o'th ogoniant. *Amen.* Gyda'r gwynfydedic a'r sanctaidd ysprydion hyn, minneu dy wâs di, O garwr mawr yr Eneidiau, er fynod yn annheilwng i gynnyg mawl i gyfryw Fawrhydi, eto o'm rhwym ddlêd a darawaf i mewn sy nghalon a'm lleferydd at y Côr bendigedig nefol hwn i gyd-ddatcan gogoniant yr Arglwydd. Canys Ti wyt sanctaidd, ac nid oes diben ar dy fawredd; ac yn dy Gyfiawnder a'th Drugaredd y mesuraist i ni dy holl weithredoedd.

Ti a wnaethost Ddyn o'r ddaiar ac ai lluniaist ar dy ddelw dy hun; Ti a'i gosodaist ef mewn Gardd o hyfrydwch, ac a roist iddo gyfreithiau cyfiawnder i fod iddo yn hâd anfarwoldeb.

O na foliannent yr Arglwydd am ei ddaioni ai ryfeddodau i feibion dynion!

Canys pan bechodd dyn wrth gydseinio â thwyll hudoliaeth yspryd drwg, yn lle gwrando ar lais yr Arglwydd, téflaist ef allan o Baradwys a danfonaist ef i laforio'r ddaiar; ond etto ni adewaist mo'i gyflwr e'n ddi-rwystredi, eithr darperaist iddo iechydwriaeth ail-enedigaeth, a thrwy waed dy Fâb a brynaist ac a delaist iawn i'th Gyfiawnder dy hun, am dy greadur dy hun, rhag coeli gwaith dy ddwylo dy hun. O *na foliannent yr Arglwydd*, &c.

Canys danfonaist, Arglwydd, ymhôb oes Arwyddion o'r Nêf, bendithion a Phrophwydi, a thymmorau ffrwythlawn, a Phregethwyr cyfiawnder, a rhyfeddodau o Nerth a thrugaredd; Ti a leferaist trwy dy Brophwydi

a dywedaiſt *Goſodaf gymmorth ar un cadarn* ; ac yn nghyflawnder yr amſer a leferaiſt wrthym trwy dy Fâb, trwy 'r hwn y gwnaethoſt y ddau Fyd, yr hwn trwy Air ei Nerth ſy 'n cynnal pob peth yn y Nef a'r Ddaiar, yr hwn ni thybiodd ddim trais ſod yn ogyfuwch â'r Tâd, yr hwn er ei ſod cyn pôb amſer, a ſu wiw ganddo ei eni mewn amſer, i ſod ymhlîth dynion wedi ei gnawdio o Forwyn ſanctaidd ; efe a ymarloeſodd o'i hôll ogoniant, ac a gymmerth arno agwedd gwâs, yn gyffelyb i ni ym mhôb peth, mewn Enaid o *reſwm* a *gwynieu*, mewn Corpho Oſtyngeiddrwydd a thriſtwch, ond ymhôb peth yn ddiniweid, etto ymhôb peth yn gyſtuddiedic, ac a ddioddefodd farwolaeth troſom ni, fel y caem trwyddo ef fyw, a chyfrannu oi Natur ai ogoniant ef, o'i Gorph ac o'i yſpryd ef, o Fendithion Daiar, ac anfarwol Ddedwyddwch Nefoedd. *O na foliannent yr Arglwydd*, &c.

Canys, Ti, O ſanctaidd ac anfarwol Dduw, O felyſaf Iachawdwr Jeſu, a wnaethpwyd tan y Gyfraith i gondemnio pechod yn y cnawd ; ti 'r hwn ni adnabuoſt bechod a wnaed troſom ni yn bechod : Ti a roiſt Orchmynion cyfiawn, ac a yſpyſaiſt i ni holl 'Wllys dy Dâd : Ti a'n prynaiſt ni o 'n gwàg ymarweddiad ac oferedd eulynnod, gau Brophwydi a'n coeghyder ynfyd, ac a'n dygaiſt ni i wybodaeth o'r gwîr a'r unic Dduw a'n Tad, ac a'n pwrceſaiſt i ti dy hun yn bobl briodol, yn Offeiriadaeth frenhinol, yn Genhedl ſanctaidd : Ti a oleuaiſt ein heneidiau yn Ngolchfa 'r Ail-enedigaeth, Sacrament y Bedydd : Ti a'n cymmodaiſt ni trwy dy Farwolaeth, a'n cyfiawnheaiſt trwy dy Adgyfodiad, a'n ſancteiddaiſt trwy dy Yſpryd, [gan ei ddanfon ef ar d'Ewys mewn rhithiau gweledig, a'i roi mewn galluoedd a gwyrthiau ac arwyddion nerthol, a phara 'r Ffafr ddigymmar hon mewn doniau a Graſau i'n ſancteiddio, ac addo yr erys ef gyda ni byth:] ti a'n porthaiſt ni a'th Gorph dryllïedic dy hun, ac o'th galon dy hun a ddiodaiſt ein Eneidiau, ti a ddarchefaiſt i'r uchelder, ac a orchfygaiſt hôll nerthoedd Angeu ac Uffern, ac a'n gwaredaiſt ni o drueni Trugwyddoliaeth anllygpus, ac wyt yn eiſtedd ar ddeheu-

law

aw Duw, gan eiriol trosom ni mewn perffaith a diball Gariad. *O na foliament yr Arglwydd*, &c.

Ni allei 'r Bedd moth attal di chwaith hîr, O sanctaidd a thragwyddol *Jesu*, ni allei dy Gorph di weled llygredigaeth, na gadel dy Enaid yn Uffern: Rhydd oedditi ymŷsc y meirw, a Thi a dorraist Byrth heirn Angeu, a dryllïaist farrau a chadwyni 'r carcharau isod. Ti a eist â chyssur i Eneidieu 'r Padrieirch, y rhai oedd yn disgwil am dy ddyfodiad, ac yn hiraethu am Brynedigaeth Dyn, a datcuddiad dy Ddydd di. *Abraham*, *Isaac*, a *Jacob*, a welsant dy Ddydd, ac a lawenychasant: ac wedi i Ti adgyfodi o'th wely tywyll a diosc dy amdo, a rhoi am danat wisc o ogoniant (yr hon a guddiaist â gorchudd tros ddeugain nhiwrnod) yna 'r aethost i'r cwmmwl, ac yna i ogoniant; yna y gwradwyddwyd Galluoedd Uffern, yna dirymmwyd Angeu ac a lyncwyd mewn buddugoliaeth; ac er na lwyr ddiniistriwyd Angeu, etto mae e'n ddiniwied ac yn ddi golyn, ac yn Borth i Fywyd Tragwyddol; Ti aethost yn Dywysog y Bywyd, blaenffrwyth yr Adgyfodiad, ycyntafanedic oddiwrth ymeirw; a Thi a unionaist dy ffordd o'n blaen fel y cyfodom ninneu yn Adgyfodiad y dydd diweddaf, pan ddelech di drachefn attom i dalu i bawb yn ol eu gweithredoedd. *O na foliament yr Arglwydd*, &c.

O diolchwch i'r Arglwydd, canys daionus yw, ai drugaredd a bery yn dragywydd.

O holl Angylion yr Arglwydd, molwch yr Arglwydd: molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

O ysprydion ac eneidieu 'r cyfiawn, molwch yr Arglwydd, molwch a mawrhewch ef yn dragywydd.

WEithian O Arglwydd Dduw, beth a da'af i'th Dduwiol Fawredd am dy holl ddoniau a wnaethost i mi fy hunan dy wâs.

Ti yw fy Nghreawdr a'm Tâd, fy Noddwr a'm dygaist i o groth fy mamm, ti a rifaist fy holl aelodau ac yn dy Lyfr di y'scrifennwyd hwynt oll. Ti a tosst i mi Gorph

llunïaidd,

Jluniaidd, Rhieni Criſtianogol a gofalus, dŷſc ſanctaidd; Ti a fuoſt yn llywydd ac yn athro i mi hoil ddyddieu ſ'enioes: Rhoiſt i mi ſynhwyr barod, tafod rh dd, calon ſiriol, aelodeu dianaf, Enw da, Rhydd-did a Jlonyddwch a chydwybod tyner (*Gwraig neu Wr caredic, Plant gobeithiol*, &c.] Ti oeddit ſy ngobaith o'm ieuenctid, trwoti i'm cynhaliwyd or brû. Ti a'm dilladaiſt ac a'm porthaiſt, rhoiſt i mi geraint ac a'u bendithiaiſt, rhoiſt i mi lawer diwrnod o gomffordd, ac iechyd, a diogelwch oddiwrth y cyſtuddiau ſy 'ar lawer o'th ſainct a'th weiſion anwylaf. Anſonaiſt dy Angel i'm hachub rhag perygl tân a dwfr a gelltydd, rhag torri fy eſcyrn, rhag mêllt a tharanau, rhag plà a heintieu glynol, rhag mwrdwr ac yſpail, rhag anhap a thrais gelynion, a holl yſprydion y tywyllwch; acyn nyddieu fy nghyſtudd ti a'm llonnaiſt, yn niffyg cynhaliaeth gofelaiſt droſoſi, a dywedaiſt wrthif *Nith adawaf byth, ac nith wrthodaf.*

Diolchâf i'r Arglwydd â'm holl galon, yn ddirgel ymhlith y ſyddloniaid ac yn y Gynnulleidfa.

Tydi, O fy Arglwydd a'm Tâd anwylaf, a ofelaiſt rhos fy Enaid, toſturiaiſt wrth fy nhrueni, cynhaliaiſt fy ngwendid, helpiaiſt a hyfforddaiſt fy anwybodaeth; ac er i mi dorri dy gyſion Gyfreithieu a'th Orchmynion, a rhedeg yn awchlym i wagedd, a hoffi Angeu, a gorwedd yn farw tan bechod, yn egoredi fil o brofedigaethau, er i mi ſyrthio 'n frwnt a phara ynddo o'm gwirfodd, a chaſau dychwelyd; etto Ti am gelwaiſt i â phigiadeu nghydwybod, âg amI Bregethau, a chyngorion ſanctaidd, trwy ofo a chywilydd, trwy roddion a rhybuddion dy ſancteiddiaf Yſpryd, trwy gynghorion fy nghyfellion, a ſamplau gwyr da a llyfreu duwiol, a thrwy fil o ddyfeiſiau gwahanol, ac ni adewit i mi farw yn fy ynfydrwydd, eithr cymmellaiſt fi i wrando ar dy alwad graſuſol, ac a'm rhoiſt mewn ſtât o Edifeirwch a phoſſiblrwydd o faddeuant, gan chwennych yn anſeidrol i mi *fyw* ac *eſor*, ac arferu dy Râs, a chyfrannu o'th Ogoniant.

Diolchaf i'r Arglwydd â'm holl galon, yn ddirgel ymhlith y ſyddloniaid ac yn y Gynnulleidfa. Canys i'r Arglwydd y perthyn ie

chydwriaeth,

chydwriaeth, ac mae dy fendith ar dy wâs. Ond am danad, n amlder dy drugareddau y deuaf i'th Dy, ac yn dy ofn yr adſi laf tu ath Deml ſanctaidd. Canys o honoti, ac ynoti, a herwy ac eroti y mae pob peth. Bendigedic fyddo Enw Duw o enhedlaeth i genhedlaeth. Amen.

Ffurf o Ddiolchgarwch iw harferu ar ryw yſpyſol Ymwared mawr, megis Eſcor *ar blaut, o* Glefyd, *neu* Rytel, *neu* berygl *cyfagos ar* Fôr *neu* Dir, *&c.*

O Drugaroccaf a grafuſaf Dduw, tydi yw ffynnon pôb trugaredd a bendith; ti a egoraiſt law dy drugaredd i'm llenwi â bendithion, ac â melus ffrwytheu dy garedigrwydd: ti wyt yn ein porthi fel *Bugail*, yn ein llywodraethu fel *Brenhin*, yn ein dwyn yn dy freichieu megis *Mammaeth*, yn ein hamgylchu ac yn ein cyſcodi â'th adenydd megis *Iâr*, Ti (O Arglwydd anwylaf) wyt yn ein gwarchad ni megis *Gwiliwr*, yn darparu i ni megis *Tad*, yn ein caru megis *Cyſaill*, yn meddwl fyth am danom megis *Mamm* ofalus am ei maban diymadferth, ac wyt drathrugaroc i bawb a'th ofnant, Ac yr awron O Arglwydd, ti a chwanegaiſt y fendith a'r ymwared mawr hwn o'm perygl diweddar, [*yma henwa'r fendith*:] dy law a help dy drugaredd a'm cynnorthwyodd; Soddaſwn yn nyſroedd cyſtudd, a'r llifeiriant aethei tros fy enaid, oni buaſei i yſpryd yr Arglwydd ymlymmud ar wyneb y dyfroedd. Ti Arglwydd a ddadtroiſt dy farn arw-ddig a haeddaſwn, ac a ddaethei allan i'm herbyn. I ti, O Arglwydd, y rhoddaſi 'r mawl o'm Hymwared. Llawenychaf a gorfoleddaf yn dy drugaredd, canys yſtyriaiſt fy mlinder, ac adnabuoſt fy enaid mewn cyfyngderau. Megis y lledaiſt dy law arnaf i'm cyſcodi, felly chenga fynghalon â diolchgarwch, a llanw fy ngenau â moliant, fel ybo fy niwyd ddiolchgarwch cymmaint ac oedd fy angen a'm perygl, ac arhoſed dy raſuſaf ffafr a'th garedigrwydd byth bythoedd ar dy wâs; a chaniattâ i'r hyn a heuaiſt ti mewn trugaredd, egino mewn ufudd-dod: a chadarnhâed dy râs di fy mwriadau, modd na phechwyf mwy yn

th

rhag i'th ſygythiad ddychwelyd arnaf mewn digoſain ac i'th lid fy rhwygo yn ddrylliau: either rhodiwyſi y llewyrch dy ffafr, ac yn llwybrau dy orch'mynion; ſe trwy fyw yma i ogoniant dy Enw, yr elwyf o'r diwedd mewn i lawenydd fy Arglwydd, i dreulio Tragwyddo deb mewn Diolchgarwch i'th dderchafadwy a'th dra go goneddus Enw. *Amen.*

Cyſſyllta at hyn y gân a elwir [Te Deum] *Neu* Ti Dduw a folwn, &c.

Gweddi o Ddiolchgarwch wedi derbyn rhyw Fendith fawr, Megis Geni Etifedd, llwyddiant *rhyw Bwrpas da*, Buddugoliaeth, Cynhauaf da, *&c.*

O Arglwydd Dduw, Tad y trugareddau, ffynnon diddanwch a bendith, bywyd a thangneddyf, y di gonoirwydd a'r maddeuant, yr hwn wyt yn llenwi'r Nef a'th ogoniant, a'r Ddaiar â'th ddaioni: Mi a roddaf i ti, ddifrifaf, oſlyngeiddiaf a chyflawnaf foliant o galon lawen a diolchgar, canys ti a'm llonnaiſt â'th gyſur, ac â'm ehengaiſt â'th fendith; gwnaethoſt i'm cnawd a'm heſcyrn lawenhau: Canys heb law bendithion Dynol ryw, bendithion Natur, a bendithion Gràs, cynhaliaeth pob munud, a chomffoudd pôb diwrnod, ti a egoraiſt dy ſynwes ac a dywelltaiſt yr awron arwydd odidoc o'th garedigrwydd: [*ynw hanwa'r fendith*:] Beth wyſi, O Arglwydd, a pheth yw Tŷ fy Nhâd, beth yw buchedd a pheth yw cymmwyſera dy wâs, i ti wneuthur hyn â mi, i Dduw mawr Dynion ac Angylion wneud yn y Nef ordinhâd yſpyſol i mi, ac anfon Angel a bendith, ac yn lle fy marnu a'm deſtrywio, fel yr haeddais i'n reſynol, gwneud rhagor rhyngoſi am cydràdd, ac a'm gwell, trwy hwn ac amryw dyrnau eraill o ràs a ffafr?

Moler yr Arglwydd benydd, ſef yr Arglwydd ſy'n ein cymmorth, ac yn tywallt ei fendithion arnom. Efe yw ein Duw ni, ſef Duw 'r iechydwriaeth: Duw yw'r Arglwydd trwy 'r hwn y diangwn rhag marwolaeth. Ti

a'm

'm dygaiſt i lawenydd mawr, ac am cyſſuraiſt oddi amylch.

Ti, Arglwydd, a'm llawenheaiſti âth weithredoedd, Gorfoleddaf yn diolch i ti am waith dy ddwylo.

O diolchwch i'r Arglwydd. a gelwch ar ei Enw; mynegwch i'r bobl yr hyn a wnaeth efe.

Am danaſi, Mi a glodforaf yr Arglwydd yn fawr, ac a'i canmolaf ŷmyſc llawer.

Bendigedic fyddo'r Arglwydd Dduw, ſef Arglwydd Dduw *Iſrael*, yr hwn yn unic ſy'n gwneud petheu rhyfeddol a grasuſol.

A bendigedic fyddo Enw ei Fawredd ef byŷth, a'r holl Ddaiar a lanwer âi Ogoniant. *Amen. Amen.*

Gogoniant i'r Tâd. &c.

Gweddi iw dywedyd ar Ddydd Natalic *neu* Enedigaeth *ein Harglwydd; Gellir ei harfer* hefyd *ar Wyl* Cennadwri, *a* Phuredigaeth *y fendigedic* Fair Forwyn.

HOllalluoc Dduw, Sanctaidd Dad y Trugareddau, Tâd ein Harglwydd *Jeſu-Criſt*, Mâb dy gariad a'th dragwyddol drugareddau, Mi a folaf ac a addolaf a gogoneddaf dy anfeidrol ath anrhaethol gariad a'th ddoethineb, yr hwn a anfonaiſt dy Fâb o fynwes y Dedwyddwch i gymmeryd arno'n hanian, a'n trueni, a'n heuogrwydd ni, ac a wnaethoſt i Fab Duw fynd yn Fab dyn, fel y gwneit ni yn Feibion i Dduw, ac yn gyfrannogion o'r Duwiol anian: gan i ti felly ddercholſu natur ddynol, teilynga hefyd fy ſanctteiddio inneu, fel trwy gydymagweddu â chyfreithiau a dioddefiadau fy anwylaf Jachawdwr yr uner fi âi Yſpryd ef, ac i'm gwneler oll yn un a'r Sanctteiddiaf *Jeſu. Amen.*

O ſanctaidd a thragwyddol *Jeſu*, yr hwn a doſturiaiſt wrth Ddyn yn ymdrybaeddu yn ei waed a'i drueni, ac a ddewiſaiſt ein triſtwch a'n gofidiau ni, fely y caem ni gyfrannu o'th ddedwyddwch di; roſturied dy lygaid wrthi-finneu, cynhalied dy ddwylaw ſi, mathred dy draed

ſanctaid

rhag i'th ſygythiad ddychwelyd arnaf mewn digofain
ac i'th lîd fy rhwygo yn ddrylliau: either rhodiwyſi y
llewyrch dy ffafr, ac yn llwybrau dy orch'mynion; ſe
trwy fyw yma i ogoniant dy Enw, yr elwyf o'r diwedd
mewn i lawenydd fy Arglwydd, i dreulio Tragwydd
deb mewn Diolchgarwch i'th dderchafadwy a'th dra go
goneddus Enw. *Amen.*

Cyſſyllta at hyn y gân a elwir [Te Deum] *Neu* Ti Dduw
a folwn, &c.

Gweddi o Ddiolchgarwch wedi derbyn rhyw Fendith fawr, Megis
Geni Etifedd, llwyddiant *rhyw Bwrpas da*, Buddugoliaeth,
Cynhauaf da, *&c.*

O Arglwydd Dduw, Tâd y trugareddau; ffynnon
diddanwch a bendith, bywyd a thangneddyf, y di-
gonoirwydd a'r maddeuant, yr hwn wyt yn llenwi'r Nef
a'th ogoniant, a'r Ddaiar â'th ddaioni: Mi a roddaf i ti,
ddifrifaf, oſlyngeiddiaf a chyflawnaf foliant o galon
lawen a diolchgar, canys ti a'm llonnaiſt â'th gyſur, ac
â'm chengaiſt â'th fendith; gwnaethoſt i'm cnawd a'm
heſcyrn lawenhau: Canys heb law bendithion Dynol
ryw, bendithion Natur, a bendithion Gràs, cynhaliaeth
pôb munud, a chomffoudd pôb diwrnod, ti a egoraiſt dy
ſynwes ac a dywelltaiſt yr awron arwydd odidoc o'th
garedigrwydd: [*ynig hanwa'r fendith*:] Beth wyſi, O
Arglwydd, a pherh yw Tŷ fy Nhâd, beth yw buchedd a
pheth yw cymmwyſera dy wâs, i ti wneuthur hyn â mi,
i Dduw mawr Dynion ac Angylion wneud yn y Nef or-
dinhâd yipyſol i mi, ac anfon Angel a bendith, ac yn
lle fy marnu a'm deſtrywio, ſel yr haeddais i'n reſynol,
gwneud rhagor rhyngoſi am cydrâdd, ac a'm gwell, trwy
hwn ac amryw dyrnau eraill o ràs a ffafr?

Moler yr Arglwydd beunydd, ſef yr Arglwydd ſy'n ein
cymmorth, ac yn tywallt ei fendithion arnom. Efe yw
ein Duw ni, ſef Duw 'r iechydwriaeth: Duw yw'r Arg-
lwydd trwy 'r hwn y diangwn rhag marwolaeth. Ti

a fu

'm dygaiſt i'r lawenydd mawr, ac am cyſſuraiſt oddi amylch.

Ti, Arglwydd, a'm llawenheaiſti âth weithredoedd, Gorfoleddaf yn diolch i ti am waith dy ddwylo.

O diolchwch i'r Arglwydd. a gelwch ar ei Enw; mynegwch i'r bobl yr hyn a wnaeth efe.

Am danaſi, Mi a glodforaf yr Arglwydd yn fawr, ac a'i canmolaf ŷmyſc llawer.

Bendigedic fyddo'r Arglwydd Dduw, ſef Arglwydd Dduw *Iſrael*, yr hwn yn unic ſy'n gwneud petheu rhyfeddol a graſuſol.

A bendigedic fyddo Enw ei Fawredd ef bŷth, a'r holl Ddaiar a lanwer âi Ogoniant. *Amen. Amen.*

Gogoniant i'r Tâd. &c.

Gweddi iw dywedyd ar Ddydd Natalic *neu* Enedigaeth *ein Harglwydd; Gellir ei harfer ar hefyd ar Wyl* Cennadwri, *a* Phuredigaeth *y fendigedic* Fair Forwyn.

HOllalluoc Dduw, Sanctaidd Dad y Trugareddau, Tâd ein Harglwydd *Jeſu-Grijt*, Mâb dy gariad a'th dragwyddol drugareddau, Mi a folaf ac a addolaf a gogoneddaf dy anfeidrol ath anrhaethol gariad a'th ddoethineb, yr hwn a anfonaiſt dy Fâb o fynwes y Dedwyddwch i gymmeryd arno'n hanian, a'n trueni, a'n heuogrwydd ni, ac a wnaethoſt i Fab Duw fynd yn Fab dyn, fel y gwneit ni yn Feibion i Dduw, ac yn gyfrannogion o'r Duwiol anian: gan i ti felly ddercha ſû natur dynol, reilynga hefyd fy ſanctteiddio inneu, fel trwy gydymagweddu â chyfreithiau a dioddefiadau fy anwylaf Jachawdwr yr uner fi âi Yſpryd ef, ac i'm gwneler oll yn un a'r Sanctteiddiaf *Jeſu. Amen.*

O ſanctaidd a thragwyddol *Jeſu*, yr hwn a doſturiaiſt wrth Ddyn yn ymdrybaeddu yn ei waed a'i drueni, ac a ddewiſaiſt ein triſtwch a'n gofidiau ni, fely y caem ni gyfrannu o'th ddedwyddwch di; roſturied dy lygaid wrthi-finneu, cynhalied dy ddwylaw fi, mathred dy draed

ſanctaid

ſanctaidd bôb rhwyſtr yn fy ffordd i'r Nef: gâd i mi gael arhos yn dy galon, fy hyfforddi â'th ddoethineb, fy llywio wrth dy amnaid, dewis dy 'wllys di, a'm gwiſco âth gyfiawnder, fel yn Nydd y Farn i'm caffer a'th ſêl di arnaf, ac âth ddillad ti am danaf; a chan ddwyn ymhôb un o'm cynneddfau a'm aelodau lun fy Mrawd hynaf n'a thafler monoſi allan gyd â'r diethriaid a'r di-grêd. *Amen.*

O ſanctaidd a byth-fendigedic Yſpryd, yr hwn a gyſcodaiſt y ſanctaidd Forwyn-famm ein Harglwydd, ac a beraiſt idoi feichiogi mewn modd dirgeledic a rhyfedd Bid wiw gennit gyſcodi fy enaid inneu â llewyrch dy yſpryd, fel yr ymddygwyf y Sanctaidd *Jeſu* yn fy nghalon ac y dygwyf ef yn fy meddwl, ac y tyfwyf i gyflawnder meſur *Criſt*, yn wîr perffaith yn Nghriſt *Jeſu. Amen.*

I Ddaw Tad ein Harglwydd Jeſu Griſt, I'r Tragwyddol Fab gnawdiwyd ac a anwyd o Forwyn, I Yſpryd y Tad a'r Mâb, bo pob anrhydedd a gogoniant, moliant ac addoliant yr awr hon ac yn dragywydd. Amen.

Gelli arferu'r un ffurf hon ar Ddydd dy Enedigaeth, neu dy Fedydd dy hun, gan chwanegu'r Weddi yma ſy'n canlyn.

Gweddi iw' dywedyd ar Ddydd ein Genedigaeth *neu'n* Bedydd.

O Fendigedic a thragwyddol Dduw, molaf a gogoneddaf di, am dy fawr drugaredd yn trefnu i mi gael fy ngeni o Rieni *Criſtiangol*, ac ni oſodaiſt fy rhann i gyd â'r Anghred a'r Cenhedloedd y rhai ni'th adnabuant ti. Ti a rwyſtraiſt fy nhagu ym mhorth y Grôth; eithr dygaiſt fi i oleuni r *Byd*, ac i lewyrch nefol y *Bedydd*, gan ragflaenu fy Newis i â'th râs, a'th rwy achub fy mlaen â chelfyddyd o angenrhaid a'm rhwymaiſt i broffes a buchedd *Criſtion*. Arglwydd mi a dorrais wedi hynny 'n addewidion a wnaed yn fy enw, ac a gadarnheais inneu yn fy *Nghorffirmaſwn*, ciliais oddiwrthynt trwy fuchedd ddrwg: ac ettto ti a eſtynnaiſt i mi enioes ac amſer

edifarhau ; ac ni'm torraiſt ymaith yn nechreu fy nydieu ac ar gynnydd fy mhechodeu. O Dduw anwyf, maddeu amryfuſedd ac anwybodaeth, camwedd ac feredd fy ieuenctid , a beiau fy mlynyddoedd addtrach : Byth mwy na lychwinwyf glaerwen wîſc fy ſedydd : A chan fy môd i'r awron yn para drwy dys mewn llawn-fwriad ar ufuddhau i ti, ac yn rhoi fyw i Grîſt, ac yn llawen gennif fod yn ddiſcybl i , ac yn wâs i'r *Jeſu*, O na phallo dy râs i mi byth, na choded un gwreiddyn chwerwedd, i rwyſtro fy wriadau nac i halogi fy meddylfryd. O bid fy lynyddoedd fel cynnifer o riſiau i mi ddringo neſnes tati : ac na wrthod fi O Dduw, yn fy henaint a'm nllwydni ; a phan ballo fy nerth bydd di 'n gadernid yn hyfforddwr i mi hyd angeu ; fel y rhifwyf fy lynyddoedd, ac y dygwyf fy nghalon i ddoethneb ; o'r diwedd wedi i mi dreulio bywyd Sanctaidd a dwydd , y dyger fi i ogoneddus Dragwyddoldeb wy *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

na chwanega 'r ffurf o Ddiolchgarwch, *a oſodea i lawr o'r blaen.*

weddi iw dywedyd ar Ddydd'eu coffadwriaeth yr Apoſtolion Merthyron, *&c.*

O Dragwyddol Dduw i'r hwn y mae 'n bŵy ſtrydion y rhai a ymadawſant oddiwrth yn yr Awydd, ac yn yr hwn y mae eneidieu 'r ffyddloniaid edi darfod eu rhyddhau oddi wrth fyrdd y cnaw l ewn beddwch a gorphwyſdra oddiwrth eu llafur, a'u weithredoedd yn eu canlyn, a'u coffadwriaeth yn fendidic. Mi a folaf ac a fawrhâf dy ſanctaidd ogoneddus nw, am y grâs a'r fendith ſwyddus a ddangoſaſt yn dy *poſtolion* a'th *Merthyron*, a'r Gwyr *Sanctaidd* eraill a ddaſant dy Enw yn nodedig eu cariad, rwy ddiwyn

U

llês *Crefydd* a'th *Waſanaeth di*; a heddyw 'r ŷm ni coffa dy wâs [*yma henwa 'r Apoſtol neu 'r Merthyr,*] hwn a dywyſaiſti trwy helbulon a phrofedigaetheu byd hwn, ac yn awr a'i lletteuaiſt ef ym myn diogel Obaith a dirfawr wynfyd hyd Ddydd adfer pôb peth. Bendigaid fyddo trugaredd a thragywyd ddaioni Duw; a bendigaid yw coffadwriaeth dy Sainct. Dyſc i mi ymarfer â'u Hathrawiaeth h dynwared eu bucheddau, dilyn eu ſiamplau, a chae nghyſſylltu yn rhann o'r un corph dirgeledic, i rwym yr un Ffydd, a Gobaith ſanctaidd, a diball Gariad. rhynged bodd i'th raſuſaf Ddaioni gyflawni ar fy nifer dy etholedigion. a phryſuro dy deyrnas, mod gallom ni gyd âth wâs [*] a phawb eraill a ymad ſant â'r byd mewn gwîr ffydd dy Enw bendigedic, ffael i ni ddiwedd perffaith, a gwynfyd ynghorph enaid, yn dy ogoneddus dragwyddol Deyrnas. *Amen*

Ffurf o Weddi yn coffa holl rannau a dirgeledigaethau D
ddefaint Criſt, *ſef, hanes neu hiſtôri ferr o bono: harferu 'n enwedic yn wythnos y Dioddefaint, ac o f derbyn y Cymmun bendigedic.*

POB mawl, anrhydedd a gogoniant i'r ſanctai a'r tragwyddol *Jeſu*. Mi a th addolaf, O fendig Brynwr, dragwyddol Dduw, Goleuni'r Cenhedloed gogoniant *Iſrael*; canys ti a wnaethoſt ac a ddiod faiſt droſoſi fwy nac y fedrwn i ei ddeiſyf na'i fedd ſef cymaint oll ac a allei angen creadur truenu cholledic ei otyn.

Ti a gyſluddiwyd â ſyched ac â newyn, â gwrê oerfel, â llafuriau a gofidiau, â theithiau ac anhune a pan oeddit 'n bwriadu'r hôll ryfeddol a'r dirgele ffyrdd i dalu 'n ſcorion ni, buoſt ſodlon i gael dy h

i'r lladdfa gan y rhai yr oedditi o gariad yn wllyſcar i farw troſtynt.

Arglwydd beth yw Dyn pan ymwelit âg ef, â mâb dyn pan wneit gyfrif o hono?

Bendigaid fyddo d'Enw, O *Jeſu* ſanctaidd, canys ti a aethoſt oddi amgylch gan *wneuthur daioni*, a gwyrthiau o drugaredd, iachau 'r clâf, cyſſuro 'r gorthrymedic, hyfforddio 'r anwybodus, cyfodi 'r meirw, goleuo 'r dall, cryfhau 'r clôff, unioni 'r ctwmm, cynnorthwyo 'r tlawd, pregethu'r Efengyl, a chymmodi pechaduriaid, trwy dy alluog awdurdod, trwy ddoethineb dy yſpryd, trwy Air Duw, a theilyngdod dy Ddioddefaint, dy iachuſaf a'th chwerwaf Ddioddefaint.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Bendigaid fyddo dy Enw, Sanctteiddiaf *Jeſu*, yr hwn a ymfodlonaiſt i'r *Iuddewon* gyd-fwriadu yn d'erbyn, a'th werthi 'n wâs am brîs gwael, a golchi traed y gwŷr a gymmerth arian am dy enioes, a rhoi iddo ef ac i'th hôll Apoſtolion dy Sanctteiddiaf Gorph a'th Waed, i fod yn Aberth tros eu pechodeu, ie tros eu gwaith yn dy fradychu, a'th wadu, a thros fy hôll bechodeu inneu, ie yn dy ai groeſhoelio, a thros y cyfryw fy mhechodeu ac ſygywilydd gennif feddwl am danynt, ond bod mawredd fy mhechodeu i yn mawrhau anfeidroldeb dy drugareddau di, yr hwn a wnaethoſt gymmaint tros gadarbryf mor wael.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Bendiged fo dy Enw, O *Jeſu* Sanctaidd, yr hwn oyn ymadel â'r bŷd a dywelltaiſt i gluſtiau a chalonnau dy Apoſtolion dryſorau o *ymadroddion goleuni* iw cyſſuro, ac â dirfawr gariad a'u gorch'mynnaiſt hwy i'th Dâd, ac yna aethoſt i 'r Ardd lle nid oedd dim ond mieri a gofidiau, lle y goddefaiſt ing anhaethawy yn hidlo 'r chwŷs drwy dy groen purlan yn defnynnau

o waed, ac yno 'r ocheneidiaiſt ac y griddfenaiſt, a Syrthiaiſt o hyd gyhyd gan weddio ac ymoſtwng i faich anoddef digofaint dy Dâd, a haeddaſwn i, ond a ddioddefaiſt Ti.

Arglwydd beth yw dyn, &c?

Bendithier dy Enw O *Jeſu* Sanctaidd, yr hwn a Sancteiddiaiſt i ni ein holl *wendid* a'n *gwyniau* naturiol, trwy deilyngu bod mewn ofn a ſyndod a dychrynedd garw, cael dy rwymo a'th garcharu, dy luſco a'th lurgunio â chyrt creulondeb a thrais, dy drochi yn y nant ar y ffordd, dy hela megis lleidr, dy drîn fel pechadur, a thitheu 'n Sancteiddiaf a diniweitiaf oll, yn burach nac Angel, yn ddiſgleiriach na'r Wawr ddydd.

Arglwydd beth yw dyn, &c?

Bendigaid fo dy Enw, O *Jeſu* Sanctaidd, a bendigedic fo dy *gwedigrwydd* a'th doſturi, a wnaeth i ti eſceuluſo dy ofidieu dy hun, a mynd i gyſſuro triſtwch dy Ddiſcyblion, i fywhau eu dyldra, i gefnogi eu dyledſwydd, i arfogi eu gwendid, â chyngorion godidoc erbyn dydd profedigaeth.

Bendigaid fo dy driſtwch a'th *oſtyngeiddrwydd* hwnnw, yr hwn â thi 'n Arglwydd yr Angylion, a eit mewn eiſieu cyſſur gan dy wâs yr Angel; yr hwn a ymroddaiſt i'th erlidwyr, ac a'u nerthaiſt hwy i'th ddâl, ac a dderbyniaiſt guſan y Bradychwr, ac a adewaiſt orchudd tros dy wyneb ſanctaidd, modd na ddymchwelid dy elynion yn ebrwydd â llewyrch mor ddiſclair; ac a wneit ryfeddod i iachau archoll un o'th elynion, trahaus, ac a geryddaiſt wâs parod, tros elyn cyfaddef; ac yna 'r aethoſt felOen i'r Haddfa, heb na thrwſt na thrais na gwrthwynebu, pryd y gallaſit alw am fyrddiwn o Angylion i'th achub a'th gadw.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Ben-

Bendigedic fo dy Enw ſanctaidd *Jeſu*, a bendigaid fo'r *triſtwch ſanctaidd* a oddefaiſt pan ffoes dy Ddiſcyblion, a'th adel di dy hun yn nwylo dynion creulon, y rhai fel Bleiddiaid yr hŵyr oeddynt yn ſychedu am draflwnc o waed dy galon: dy dywys iDŷ *Annas*, i'th holi â chwe-thiwnau maleiſddrwg, a'th daro ar dy wyneb gan yr hwn yr iachaeſiti gynneu ei glûſt: ac oddi yno dy luſco i dŷ *Caiaphas*, lle trwy'r nôs y goddefaiſt boer a dirmyg, a thyſtyrwch a choegni, a chernodiau a thraha anoddef; a hyn oll tros *Ddyn*, yr hwn oedd dy Elyn, ac achos dy hôll bechodiau.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Bendigedic fo dy Enw, O *Jeſu* Sanctaidd, a bendigaid fyddo dy *drugaredd*, yr hwn wedi i'th wâs *Pedr* dy wadu 'th wrthod a'th ddiheuro, a edrychaiſt arno, gan ei geryddu felly a'i ddychwelyd atto'i hun a thitheu: yna 'th holwyd i ddibenion drŵg ag amcanion gwaedlyd: Ti a gyhuddwyd yn euog o farwolaeth am ddywedyd y gwirionedd angenrheitiaf a buddiolaf; dy anfon at *Pilat* a'th gael yn wirion; dy anfon at *Herod* a'th gael ŷth yn ddieuog, dy wiſco mewn gwiſc wenn i ddangos y ddiniweidrwydd ac i'th watwar hefyd, yna i'th anfon n d'ol at *Pilat* i'th ail-holi, ac etto dim ond diniweidrwydd ni chaed ynot, a malis o'th amgylch i ddifetha 'r *enioes* a thitheu'n wyllyſcarach iw roi troſtynt nac oeddynt iw ddwyn oddi arnat.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Bendigedic fo dy Enw, O *Jeſu* Sanctaidd, a bendigaid o dy *amynedd* a'th *Gariad*, trwy'r hwn yr ymſodlonaiſt r ein mwyn ni gael dy faeddu â ſſynn, a phoeri ar y wyneb hwnnw y mae'r Angylion tan ryfeddu a gorfeddu yn edrych arno, a'th ddibriſio wrth Barabbas, a'th langellu 'n draffiaidd gan ddwylo pechadurus nes llifo'r palmant â'i gwaed ſanctaidd, a'th gondemnio i farwolaeth

greulon a gwradwyddus, gyhoedd a phoenus, dy ddilladu mewn yſcarlad, a'th goroni â drain, dy ddioſc yn noeth a'th ail wiſco, yna dy lwytho â'r Groes a'th boeni â ſtyllen lawn hoelion wrth odre dy wîſc, a'th waſcu â chyrt a'th luſco 'n dra ammarchus a greſynol, hyd onid aeth y baich yn rhydrwm, a llewygu oth Gorph Rhianaidd i'r llawr tano; ac etto ti a gyſſurit y gwragedd yn wylo, a thoſturit wrth dy erlidwyr fwy nac wrthit dy hun, gan ymofidio am y trueni a ddeuei ar *Jeruſalem* ym mhen y deugain mhlynedd, fwy nac am dy ddioddefaint preſennol.

Arglwydd beth yw dyn, &c.

Bendigedic fyddo dy Enw, O Sanctaidd *Jeſu*, a bendigaid fo'r *hynawſedd digymmar*, a'r Sanctaidd ofid, a oddefaiſt pan hoeliwyd dy ddwylaw a'th draed Sanctaidd at y Groes, a'r Groes wedi ei goſod mewn twll wrth ſyrthio a rwygodd dy archollion ymhellach, ac yna y buoſt yn noeth ac yn waed, yn llêſc ac yn llewygu, yn archolledic ac yn ddirgymedic, yn crogi wrth dy archollion tros deirawr faith, yn gweddio tros dy erlidwyr yn bodloni digofaint dy Dâd, yn cymmodi 'r lleidr edifeiriol, yn darparu dros dy Famm dduwiol gyſtuddiedic, yn profi finegr a buſtl; a phan gwbl gyflawnwyd dy ddioddefaint, gorchmynaiſt dy Enaid i ddwylo Duw, a deſcynaiſt i gelloedd eneidieu hiraethus, y rhai oedd mewn carchar *gobaith* yn diſgwil am ddatcuddiad dy ddyddhwn: ac yna trywanwyd dy Gorph â gwaywffon, a ffrydiodd allan *y ddau Sacrament*, Dwfr a Gwaed; ac yngeleddwyd dy Gorph i'r claddedigaeth, a gorweddodd mewn tywyllwch dridieu a theirnos.

Arglwydd, beth yw dyn pan ymwelit âg ef, a Mab dyn pan wnaet gyfrif o honaw!

Thomas Edwards

Y Weddi.

EL HYN, O *Jesu* fendigedic y cyflawnaist dy sanctaidd Ddioddefaint, trwy hoen a gofid cymmaint allei dim fod yn fwy, ond Ti dy hun, a'th ardeidrol ugaredd; a hyn oll tros Ddyn, ie trosofi oedd druach na dim oddieithr Ti dy hun yn unic, yr hwn aeoft felly wrth gymmeryd ein heuogrwydd a'n côsp ni nat. Ac weithian O Arglwydd, yr hwn a wnaerhoft mmaint trosofi, teilynga'n unic ei wneud yn affeiiol i mi, modd nad êl y cwbl yn ddiles ac yn ofer i i, nad elwyf yn dragyfydd yn druenus ac yn golledig ob gobaith a phosfiblrwydd o Gyssur. Haeddei hyn l fwy o Gariad nac sy genni si iw roi: Ond, Arglwydd, o di fi yn gariad i gŷd, a'm hôll gariad yn ufudd-dod, m hufudd-dod heb na thorr na thrai[illegible] gobeithiaf, derbyni 'r fâth dâl ac a allafi ei [illegible] Gwnâ fi n rhywbeth a'th fodlono, a thi a gei [illegible]ydwyf ac a ddaf, ie beth bynnac a gymmwysech di i ti dy hun. yfc i mi fyw 'n hollawl i'm Hiachawdwr *Jesu*, a bod n barod i farw trosto, ac i' gyd-ymffurffio â'i fywyd ac i ddioddefaint ef, ac ymgyfsyll ylltu âg ef mewn rhwyau anyfcar; heb gynnwys dim gwynieu ond a fo'n eifion ac yn ddifcyblion i'r *Jesu*. O felyfaf Iachawdwr, wîfc fy enaid âth Gyfiawnder, cuddia fy mhechodeu yn y archollion, a chlâdd hwy yn dy fêdd; a chyfodwyf fuchedd Grâs, parhawyf a chynnyddwyf ynddi, hyd ni ddelwyf i Deyrnas y Gogoniant. *Amen.*

At Doſp, 7, 8. *Ffurf o Weddi* Eiriol *tros bôb Grâdd a ſtâ o ddynion yn yr Eglwys Griſtianogol.* Ei Rhanneu a elli eu harfer wrth Weddieu *eraill a fynnech: A'r hôll Ffur yngyfan ſy briodol iw dywedyd wrth Ymbaratoi, neu ar Ddyd y Sacrament.*

1. *Troſom ein hunain.*

OTydi raſuſaf Dâd y Drugaredd, Tâd ein Har glwydd *Jeſu Griſt*, trugarhâ wrth dy weiſion y rhai ydym yn plygu'n penneu, a'n glinieu a'n calonneu i ti: maddeu i ni 'n holl bechodeu; dyro i ni 'r Grâs o Sanctaidd Edifeirwch a dichlyn ufudd-dod i'th Air San ctaidd: cryfhâ ni â nerth dy lân Yſpryd yn y dyn odd mewn, at bôb rhanneu a dyledſwyddeu'n galwedigaeth a Buchedd Sanctaidd: cadw ni byth yn undeb yr Eglwys Gatholic, ac [illegible]urdeb y Ffydd Griſtianogol, ac yn nghariad Dy[illegible] Cymdogion, ac yngobaith bywyd tragwyddol. *Amen.*

2. *Tros yr holl Eglwys Gatholic.*

OFendigaid *Jeſu*, Brenhin y Sainct, a Thwyſog yr Eglwys Gyffredinol, cadw dy Ddyweddi, a en nilliaiſt â'th law, a brynaiſt ac a lanheaiſt â'th waed; yr holl Eglwys Gatholic o'r naill ben i'r Ddaiar i'r llall ar y Graig y ſeiliwyd, ond yn y môr y plannwyd hi O cadw hi yn ddiogel rhag pob ſchiſm, hereſi a chyſſegr yſpail. Una'i holl Aelodeu â rhwymau Ffydd, Gobaith a Chariad perffaith, ac â chymmundeb oddi allan, fel y bo dy yn dy olwg di. Byth na pheidied yr aberth beunyddiol o Weddi a Diolchgarwch Sacramentawl, eithr preſentier ef byth i ti, ac uner ef at Gyfryngdod ei han y ylaf Arglwydd, a llwydded byth er ennill i bob un o'i haelodeu

haelodau râs a bendith, pardwn ac iechydwriaeth *Amen.*

3 *Tros bôb Cristianus Frenhinoedd, Tywysogion a Llywiawdwyr.*

O Frenhin y Brenhinoedd, a Thywysog hôll Lywodraethwyr y Ddaiar, dyro dy Râs a'th Yspryd i bob Cristianus Dywysogion, yspryd doethineb a chyngor, yspryd llywodraeth a duwiol ofn. Caniattâ iddynt lyw mewn heddwch ac anrhydedd, modd y caro ac yr ofno eu pobl hwynt hwy, a hwytheu dydi: Llefara ddâ yn eu calonneu am yr Eglwys, fel y bônt yn Dad-maethod iddi, yn Dadeu i'r ymddifaid, yn Farnwyr a Dialwyr achos y Gweddwon; fel y tosturiont wrth angen y tlawd, ac ochenaid y gorthrymmedic; fel na flinont ac na ddifethont bobl yr Arglwydd â rhyfeloedd trahaus anghyfion, eithr porthi praidd Duw, ac ymorol am wneud pob peth at helpio heddwch, ac oneſtrwydd a Duwioldeb: gan reoli felly betheu preſennol modd na chollont ogoneddus betheu tragwyddol y byd a [illegible]lle y teyrnaſa dy hôll Ffyddloniaid yn Frenhin[illegible]yn dragywydd. *Amen.*

4. *Tros bob mâth o Weinidogion Eglwyſig.*

O Fugail ac Eſcob mawr ein heneidiau, Sanctaidd a thragwyddol *Jeſu*, dyro i'th weiſion, Gweinidogion Dirgeledigaetheu 'r Grefydd Griſtianogol, Yſpryd ſynhwyr a ſancteiddtwydd, Ffydd a chariad, byder a zêl, diwydrwydd a gwiliadwriaeth; fel y mynegont yn ffyddlon dy 'wllys i'r bobl, ac yr iawn waſanaethont dy Sacramentau, a chyd-eiriol â Thi yn rahufol ac yn ymmeradwy tros dy weiſion. Arglwydd caniattâ iddynt, trwy fuchedd ſanctaidd a gwîr grediniaeth, trwy 'wneuthur yn dda, a dioddef yn amyneddgar, (pan alwech hwy at hynny) dy ogoneddu di Carwr mawr yr Eneidiau, ac

wedi

wedi iddynt droi llaweroedd o gyfeiliorni eu ffyrdd, ddiſcleirio fel ſêr mewn Gogoniant. *Amen.*

Dyro i'th weiſion yr Eſcobion yſpryd deallus fel na arddodont ddwylo 'n bryſur ar neb, eithr urddo 'r fâth Weinidogion Crefydd ac a harddo Efengyl Dduw, ac y cadwo eu gwefuſau wybodaeth, a thrwy Bregethu'n ddâ a byw'n Sanctaidd, a dderchafo Waſanaeth yr Arglwydd *Jeſu. Amen.*

5. *Tros ein Cyfneſeifiaid, megis Gwr, Gwraig, Plant, Teulu,* &c.

O Dduw'r anfeidrol ddaioni, deſcynned dy doſtur drugaredd ar ben dy weiſion [*yma henwa hwy*] teilynga iddynt iechyd corph ac Yſpryd, digonedd o gadwraeth iw cynnal yn gyſſurus ar eu taith i'r Nef; amddiffyn hwy rhag pob drwg ac anhap, cadw hwy rhag hôl ruthreuon gelynion, hyfforddia hwy a'u gweithredoedd, ſancteiddia eu calonnau, eu geiriau, a'u bwriadau; modd yr uner ni oll yn rhwymyn ufudd-dod a chariad at ein Harglwydd *Jeſu*, a chan dy deimlo di byth ein graſuſaf drugaroccaf Dad, yr elom yn deulu Sanctaidd, yn cyflawni'n holl ddyledſwydd i'n cyfneſeifiaid; fel gan fod yn blant i ti yma trwy fabwys a rhâd, y cynnwyſer ni yn ol hyn i'th Deulu nefol, i'th glodfori byth yn Eglwys y cyntafanedic, yn Nhylwyth y gwaredigion. *Amen.*

6. *Tros ein Rhieni, ein Ceraint yn y Cnawd, ein Cyfeillion a'n Cymmwynaſwyr.*

O Dduw drugaroc a graſlon, yr hwn a wnaethoſt [*fy Rhieni*] fynghyfeillion a'm cymmwynaſwyr gweinidogion dy drugaredd, a Phibellau Rhagluniaeth i'th wâs deſcynned, mi a daer attolygaf, dy fendith ar benneu

benneu [*sy Rhieni*, &c.] Gorchymyn i'th Angylion Sanctaidd eu cadw, i'th lân Yspryd eu cysarwyddo, i'th Rhagluniaeth eu diwallu: a phoed i'th râs a'th drugaredd eu hamddiffyn rhag chwerwaf boenau Angeu tragwyddol, a dŵg hwy i dragwyddol fywyd trwy *Jesu Grist* ein Harglwydd. *Amen.*

7. *Tros bawb a fo tan y Wialen o* Ryfel, Newyn *neu* Glefyd: *iw dywedyd yn amser y Rhyfel neu'r Blâ*, &c.

O Arglwydd Dduw Hollalluoc, ti yw ein Tâd, a ninneu 'n blant i ti: Ti yw ein Prynwr a ninneu yw Prynedigion dy werthfawroccaf waed: teilynga laryeiddio dy ddigofaint wrth dy weision, na chyffroed dy hôll lîd, rhag ein diferha a'n gwneuthur yn ddiddym. Bydded lechyd a Heddwch yn ein Cartref, preswylied Cyfiawnder a Sancteiddrwydd byth yn ein calonnau, ac ymddangosed yn ein hôll weithredoedd; a llewyrched dy wynebpryd arnom yn ein holl ddioddefiadau, fel yr ymhyfrydom byth yn ngwasanaeth a thrugareddau Duw. *Amen.*

O rasion Dduw drugarog Dâd, os rhynga fodd i ti dywed, *Digon*, wrth dy Angel diniſtriol; ac er nad ŷm ni 'n well na'n Brodyr a darawyd â Gwialen Dduw, eithr llawer gwaeth, etto teilynga. dim ond am dy fôd ti'n ddaionus, a ninneu'n ofnus ac yn bechadurus, ac yn amharod etto i ymddangos, nodi ein talcennau, modd yr êl yr Angel Gweinidog dy Gyfiawnder heibio i ni heb ein drygu. Cyscoded dy law tros dy weision, a chuddied ni *yn hollteu y Graig*, yn archollion yr *Jesu* sanctaidd, rhag y llîd presennol a gyfododd i'n herbyn; megis er i ni rodio trwy ddyffryn cyscod Angeu, na ofnom ac na oddiweddo dim drŵg nyni: a'r sawl a darewaitti â'th wialen. O cynnal hwy â'th ffonn, ac ymwêl a hwy â thrugareddau ac iechydwriaeth trwy *Jesu Grist. Amen.*

8. *Tros*

8. *Tros bôb Gwragedd beichiogion, a thros Blant heb eu geni.*

O Arglwydd Dduw yr hwn wyt Dâd y ſawl a ymddiriedant ynot, ac yn dangos trugaredd i fil o genhedlaethu o'r rhai a'th ofnant, trugarhâ wrth yr holl wragedd beichiogion, [*] teilynga iddynt lawen a diogel oſcor: a chadwed dy ras y rhai bach, a dyged hwy i Sanctaidd Sacrament y Bedydd; fel gan gael eu hail-eni, drwy dy Yſpryd, a'u mabwyſo i'th Deulu i rann a dyledſwydd Meibion, y byddont fyw i ogoniant Duw, a chyſſur ei Rhieni a'u Cyfeillion, er adeiladaeth i'r Wladwriaeth Griſtianogol, ac er iechydwriaeth iw heneidiau eu hunain trwy *Jeſu Griſt. Amen.*

9. *Tros bob ſtât o Wyr a Gwragedd yn yr Eglwys Griſtianogol.*

O Dduw ſanctaidd, Dragwyddol Frenhin, allan o anfeidrol dryſordai dy râs a'th drugaredd, dyro i bôb *Gweinyſſon* ddiweirdeb a duwioldeb; i'r ſawl oll a *gyſſegrwyd* i tri ac i Grefydd, ledneiſrwydd ac addfwynder, zêl awchus ac yſpryd diflinedic; i bôb *cymmeiriaid priodol*, ffydd a ſancteiddrwydd; i *weddwon* ac *ymddifaid* a'r holl rai *gorthrymedic*, Gadwraeth, cyſſur a nodded; i bôb Gwragedd Griſtianogol, ſymlrwydd a gwylder, goſtyngeiddrwydd a diweirdeb, amynedd a Chariad perffaith: dyro i'r *tlawd* a'r anrheithiedic a yſpeiliwyd o'u da, gynhaliaeth gweddol, a chalon ſod longar, a thryſor yn y Nef yn ôl hyn: dyro i'r *carcharorion* a'r *caethion*, i'r ſawl a lafuriant yn y mwyngloddiau a'r chwyſlongau, gryfder corph ac yſpryd, rhyddâd ac ymwared, cyſſur ac adferiad; i bawb [illegible] dy Angel iw harwain; i bawb ar y môr [illegible] gelwch rhag môrladron a llongdorraid, a

dŵg

ŵg hwy i'r Porthladd a ddymunent: i *gydwybodau cythryb-*
u a rhusiedic, i bobl *bruddion* digarad, i bawb a flinir
an *ysprydion* drwg, dyro lewyrch o'r Nêf, grâs mawr,
chyssurau cyfattebol, a phrydlon ymwared; dyro
ddynt amynedd ac ymroddiad; troer eu gosidieu yn
âs ac yn gomffordd, a bid i'r dymmesti eu trosglwyddo'n
diogel i oror y gorphwyssfra a'r gogoniant.

Arglwydd Dduw'r drugaredd dyro i'th *Ferthyron*,
yffeswyr, a'th hôll rai *erlidiedic*, ddianwadalwch a
ynhwyr, hyfder a gobaith; ffydd gyflawn a diball Gariad.
bawb a *farnwyd i farwolaeth*, anfon di gyssur a chalon
êf i ymroi yn llonydd ac yn wrolgymmer oddiwrthynt
fn Angeu, a phôbgweddillion hoffder i bechod, a phôb am-
erffeithrwydd dyledswydd, a gwnâ iddynt farw yn llawn
râs a gobaith. A dyro i'r hôll ffyddloniaid, ac yn enwedig
r rhai a ddeisyfiasant weddiau dy wâs anheilwng,
diwallrwydd o'u hôll anghenion bydol ac ysprydol, ac
n ôl eu hamryw râdd a'u hangenrhaid, lonyddwch a
eddwch, maddeuant a diddanwch: a dangos drugaredd ini ôll yn Nydd y Farn. *Amen.*

Dyro Arglwydd i'r hôll *Swyddogion* burdeb ac union-
eb, calondid a challineb, i noddi 'r dâ, i attal diffyn
Crefydd, a chospi 'r drwg weithredwyr. Dyro i'r
Pennaethiaid ddoethineb, glewdid a dedd-foldeb; i'r *Ma-*
inwyr, gyfiawnder a ffyddlondeb; i bob *Crefftwr* a
Llafurwr, wirionedd a gonestrwydd; i'n geiynion
addeuant, a chariad brawdol.

Cadw i ni 'r Nêf a'r Awyr yn iechus rwych ein
penneu. y Dilaiar mewn digonolrwydd, y Dayrnas
mewn Heddwch a llywodraeth dda, ein priodasau
mewn tangneddyf a mwyneidd dra a diniweidrwydd cym
eithas, y bobl rhag pla a newyn, ein tai rhag tân ac
ysbail, a ninneu rhag ein lloschi 'n fyw; rhag deoliad
charchar, rhag gweddwdod a thlodi, rhag poeneu a
wynieu durfing, rhag tymmestloedd a daiargrynfau,
rhag rhyferthwy o ddyfroedd neu o Elfinion a gwyr-
yfel, rhag annioddef a gosalon afiechyd, rhag diog-
ysprydol ac Anobaith, rhag mwrdwr a phôb [illegible] burdeb.

dalc. (G)

ddrŵg, rhag rhuthrau a braw damweiniau diſymmwy
rhag ofn dwys a direſwm, rhag dy holl lîd, a rhag e
holl bechodau gwared ni Arglwydd daionus, a chad
dy weiſion bŷth. *Amen.*

Attal drais ac angerdd pôb Pobl ryfelgar anghym
modol: dŵg adref i'th gorlan, bawb a aeth ar gyfeiliorn
galw i'r Eglwys bob dierthriaid: chwanega nifer a ſanc
teiddrwydd dy boblcy hun: dŵg fabanod i addfedwc
oedran a ſynhwyr: cadarnhâ âth râs ac â'th yſpry
y rhai a fedyddiwyd: hyfforddia di'r Criſtianogion ieu
ainc a'r dechreuwyr; dyged dy râs mawr a'th drugaro
Ragluniaeth yr ieuainc yn ddiogel ac yn ſanctaid
trwy faglau gwŷn a gwendid eu hieuenctid: a'r ſawl
gwelech neu y gwclaiſti yn dda iddynt fyw i oedra
gwŷr, dyro nerth a ſynhwyr digonol; cadw hw
rhag cybydd-dod a drygnaws, rhag balchder ac annio
ddef; llanw hwy yn llawn o dduwioldeb a chariad
edifeirwch a ſobrwydd, meddyliau ſanctaidd a chwan
teu hiraethus am y Nef a nefolion berhau; dyro iddyn
farwolaeth ſanctaidd a bendigedic, ac adgyfodia
llawen i ni oll trwy *Jeſu Griſt* ein Harglwydd. *Amen.*

[At Ddoſp. 10.] *Y modd i arferu 'r Dyſoſiwnau hyn mew*
ſwrdd o Ymbarotoad at ddaerbyn bendigedic Sacramen
Sw pper yr Arglwydd.

GAn mai Buchedd ſanctaidd yw'r iawn ddyledus Ba
rotoad at y Wledd ſanctaidd hon, ac wrth hynny ail
gyfyrai ac ymarfer â'r holl Rinweddau da, ac yn enwedi
Ffydd, Edifeirwch, Cariad a Diolchgarwch; *i ail-enny*
y pedwar Gras hyn, yr amſer a neiltuech at ymbarotoi
i ymarfer âth Ffydd, *adrodd Weddi neu Letani 'r Diodde*
ſaint; i ymarfer âth Edifeirwch *cymmer y Gyſſe*
bechodeu a'r Weddi ſy wrthi, ac am y graſau o Ddiolch
garwch a Chariad, *arfer y ſturfiau o Weddi ſy or blaen*
gwrpaſ

pwrpasol at hynny. Neu oni chei *gyhyd amser*, *y ddarn gyntaf sy orau i ti eu harferu. Am ben hynny ar Foreugwaith y Sacrament chwanega,*

Gweddi o ymdrwsiad ac Ymbarotoad at y Sacrament.

O Rasusaf Dduw tragwyddol, helpwr y di-help, cyssur y rhai digyssur, gobaith y cystuddiedic, bara 'r newynoc, diod y sychedic, ac Iachawdwr pawb a ddisgwilione wrthit; Bendithiaf a gogoneddaf dy Enw, addolaf dy ddaioni, ac ymhyfrydaf yn dy Gariad, ddarfod i ti roi i mi un achlysur etto i dderbyn y ffafc fwyaf ar sy bossibl ei derbyn yn y Byd hwn, sef Corph a Gwaed f' anwylaf Iachawdwr. O tynn oddiwrthif bob hoffder i bechod a gwagedd: na lyned fyngwyniau isod, eithr ymgodont fry i gartref y Cariad, i Orseddfa Duw, i oror y gogoniant a thref-tadaeth yr *Jesu*; fel y newynwyf ac y sychedwyf am fara'r bywyd, a gwin eneidiau etholedig, ac na adanabyddwyf ddim cariadau, ond cariad Duw a'r trugaroccaf *Jesu*. *Amen.*

Deisyfiad a Hiraeth.

O Fendigedic *Jesu*, ti a arferaist amryw gelfyddyd i'm hachub, ti a roist dy hoedl i'm prynu, dy âm Yspryd i'm sancteiddio, dy Hunan yn Siampl i mi, dy Air yn Rheol, dy Râs yn Dwysog, ffrwyth dy gorph croeshoeliedic tros bechod sy enaid i: ac wedi hyn oll anfonaist Apostoliona Gweinidogion Iechydwriaeth i'm taer-greu, i'm cymmell i sancteiddrwydd a heddwch a dedwyddwch. O weithian, Arglwydd *Jesu*, tyred ar fŷs: hiraetha sy nghalon am dy bresennoldeb, gâu sychedu am dy râs, a chwennych dy groesaw u, nid fel Ymdeithydd ond fel Preswylydd ac Arglwydd ty holl Gynneddfau. Tyred i mewn a chymer feddiant a preswylia gydâ mi byth; fel y preswylwyf finneu yn nghalon sy anwylaf Arglwydd, yr hon a'egorwyd i mi gwaywffon ac â chariad.

Cyssur

Cyſtudd Edifeiriol.

Arglwydd ti a gei fy nghalon yn llawn gofalon a chwa
teu bydol wedi i hudo i hoffi'r byd a golud, ac eſceulu
Sancteiddrwydd, yn falch ddi-farwhâd, yn dwyllodrus
yn gyfrwyſddrwg iw ſiommi ei hunan, wedi ymrwyſtr
ac ymddyryſu mewn dadleuon Cydwybod, a chlymme
ynghenghlyn yn eu gilydd trwy fy ngwylltineb a'm han
yſtyriaeth a'm hanioddef fy hunan. Anwylaf Arglwyd
o medri edrych ar drigfa mor aflan, wele'r lle i'th wahodd
di idôo, yn llawn gwŷn a rhagfarn, drwg-ddyſc a drwg
arferion, anynad ac anufudd, anllad ac anghymedrol,
llawn o goſion erchyll fel y cythruddais i di fyNuw i ddi
ac i eiddigedd, fy anwylaf Iachawdwr yr hwn a fu farw
troſoſi, yr hwn a ddioddefodd arteithieu troſoſi, ſy'n ddai
onus anfeidrol *wrthiſi*, ac yn anfeidrol ddaioni a pherffeithr
wydd *yddo'i hun*. Hyn, anwylaf Iachawdwr, ſy ry wîr ac y
wy'n cywilyddio ac yn dolurio'n fyghalon o'i blegit, ac yn
llwyr gaſâu fy hôll bechodau, ac ydwyf yn wîr ddigllawn
wrthif fy hun am wallcof mor waelfrwnt, mor ddiofal
ac mor barhaus: ac mi attolygaf yn oſtyngedic i ti chwa
negu fy nhriſtwch a'm gofal a'm caſmeb i bechod; a gwnâ
i'm cariad arnati gynnyddu yn râs mawr, ac yna'n ogoniant
anfeidrol.

FFŶDD.

Dyma'n wîr fy nghyflwr: Ond mi wn, *Jeſu* fendigedic,
ddarfod i ti gymmeryd fy natur arnat, modd y dioddeſt
tros fy mhechodeu, ac i'm gwared rhagddynt hwy a rhag
digoſaint dy Dad y dioddefaiſt: ac i hyn i'm gwaredwyd
oddiwrth y llîd hwn, fel i'th waſanaethwn di mewn ſan
cteiddrwydd a chyfawnder tros fy holl ddyddieu. Ar
glwydd, mae gwneud o honoti waith mawr fy Mhryniedi
gaeth i a phôb dyn, eyn ſiccred gennif, am bod inneu n
fyw. Hyn yw ngobaith, hyn yw cadernid yſpryd, fy
hyder a'm gorfoledd: O na âd byth i yſpryd anghredini
aeth ddyfod i'm calon a'm tynnu oddiar y Graig hon.
Dyma lle preſwyliaf, canys ymhoffais ynddo: Yma y
mydaw byw, ac yma'r wy'n deiſyf marw.

Yr Erfyniad.

Gan hynny *Jeſu* fendigedic, yr hwn wyt fy Iachawdwr a'm Duw, a'th Gorph yw fy ymborth, a'th Gyfiawnder yw fy ngwîſc, a thitheu fy Offeiriad a'm Haberth, fy Ngwleddwr a'm Gwledd hefyd, Phyſygwr fy Enaid, goleuni fy llygaid, purwr fy mrychau: Tyred i'm calon, a bwrw allan oddi yno bôb amhuredd a gweddillion yr *Hên Ddyn*: a chaniattâ i mi gyfrannu o'th ſanctaidd Sacrament â dwys barchedigaeth, a blâs yſprydol, ac â mawr affeithiol dyccïant, gan dderbyn yma gyfrann o'th Gorph a'th Waed, er cadarnhau ynof Ffydd ddiargyoedd, Cariad diffuant, a llawnder o ddoethineb, er iechyd i'm henaid, er bendith a chadwraeth i'm corph, er tynnu ymaith golyn Angeu amſerol, ac er ſiccrwydd o Adgyfodiad ſanctaidd, er carthu pôb drŵg o'm calon, ac ufuddhau i'th hôll gyfiawn orchmynion; ac i ennill i mi drugaredd a chymmeriad yn Nydd y Farn, trwy dy drugareddau, o ſanctaidd a byth-fendigedic Iachawdwr *Ieſu*. *Amen.*

Gelli wrth hyn gyſſylltu'r Weddi ar ol Derbyn y Cwppan, ſy ynlaen.

Ocheneidieu iw dywedyd cyn neu wrth dderbyn y Sacrament; Pſ. 42. 1, 2. | Pſ. 40. 6. | Pſ. 43. 3, 4. | Pſ. 26. 6, 7, 2, 3. | Pſ. 25. 5, 6. | Jo. 6. 50, 54, 56. | Jo. 6. 68. | Jo. 7. 37. | 1 Cor. 10. 16. | Zech. 13. 6.

Pan fŷch ar dderbyn y Cwppan, dywed, *Arglwydd nid wyfi deilwng i ti ddyfod tan fy nghrouglwyd, eithr dywed ti'r gair a'th wâs a iacheir.* Matt. 8. 8.

Arglwydd egor fyngwefuſau a'm geneu a fynega dy foliant, Arglwydd bryſſia i'm cynorthwyo, O Arglwydd pryſura i'm cymmorth. *Tyred Arglwydd Jeſu, tyred ar frys.*

Wedi derbyn y Bara Cyſſegredic dywed,

O profwch a gwelwch mor ddâ yw'r Arglwydd, gwynfyd y dyn à ymddiried ynddo. Mae'r Anifeiliaid mewn diffyg ac eiſieu, ond y ſawl a geiſiant yr Arglwydd, ni fydd arnynt eiſieu dim daioni. Arglwydd, beth wyſi, pan ai f' Iachawdwr yn ymborth imi, Mâb Duw yn fwyd i brŷf, i lŵch a lludw, i bechadur, i un oedd yn elyn iddo? Eithr Ti a wnaethoſt hyn troſofi am dy fod Ti yn anfeidrol o ddaionus a graſlon, ac yn hôffi bendithio pob un o honom gan ein troi oddiwrth ddrygioni'n ffyrdd. Tyred i'm calon Arglwydd *Ieſu*; na choded yno un gwreiddyn chwerwedd; eithr bydd di yn Arglwydd fy holl Nerthoedd. O ymborthwyf arnati trwy ffydd, a chynnyddwyf â chynnydd Duw yn ŵr perffaith yn Nghriſt *Ieſu. Amen.* Arglwydd yr wyf yn credu, cymmorthdify anghrediniaeth. *Gogoniant i'r Tâd, &c.*

Wedi derbyn Cwppan y Fendith, dywed,

Gorphennwyd. Bendigaid ſo trugareddau Duw a ddatcuddiwyd i ni yn *Ieſu Griſt.* O fendigaid a thragwyddol Archoffeiriad, poed i Aberth y Groes a offrymmaiſti unwaith tros bechodeu'r holl fyd, ac wyt etto bŷth yn ei ddangos i'th Tâd yn y Nefoedd trwy dy waſtadol Gyfryngdod, ac a arwyddoccâwyd trwy'r Sacrament heddyw ar dy Fwrdd, ynnill Trugaredd a Thangneddyf, Ffydd a Chariad, Diogelwch a chadarnhâd ith lân Eglwys, a ſylfaenaiſti ar y Graig, *Craig Ffydd* ſanctaidd; ac na orchfyged Pyrth Uffern mo'ni, ac na chippied Gelyn dyn un enaid o'th law, a bwrceſaiſti â'th waed ac a ſancteiddiaiſti â'th Yſpryd. Cadw dy hôll bobl rhag Hereſiau ac ymbleidiau, rhag tramgwydd a hudoliaeth, rhag cyſſegr-yſpail ac erlidiau anrheithiol. Tydi, fendigaid *Ieſu*, a fuoſt farw troſom: cadw fi byth mewn bywioliaeth ſanctaidd, rhag pechod a chywilydd, yn nghymmundeb dy Eglwys, mewn diogelwch a grâs, mewn gwirionedd a Thangneddyf hyd dy ail-ddyfodiad. *Amen.*

Anwylaf

Anwylaf *Jesu*, gan deilyngu o honot ddyfod i'm calon, o bydd eiddigus o'th dŷ, a'r lle y presŵylia dy ogoniant: na âd i un yspryd aflan na meddwl halogedic ddyfod ynghyfyl dy drigfan, rhag diwyno o honynt ôl dy draed sanctaidd di. O dysc i mi felly rodio fel na anurddwyf fy Nghrefydd, na llychwino 'r Briodasŵisc a roisti 'r awron am danaf, na thorri f' Addunedau sanctaidd a *wneuhym i ac a seliaist titheu*, na cholli fy mraint a'm hawl i fod yn gyd-etifedd âg *Jesu*, yr hyn yr euthym i' nawr mewn gobaith pellach o hono: eithr teilynga di fyngharu â chariad Tâd, a Brawd, a Gŵr, ac Arglwydd; a gwnâ i mi dy wasanaethu yn Ghymmun y Sanct, trwy dderbyn y Sacrament, trwy ymarfer â phôb rhinweddeu da, trwy ddynwared dy fuchedd, a chyd-ymagweddu â'th Ddiodde-faint: megis â minneu 'r awron wedi gwisco 'r Arglwydd *Jesu*, y priodwyf ei gariadeu a'i gasteion ef, y chwenny-chwyf ei ogoniant, ufuddhawyf iw gyfreithiau, ac im huner â'i yspryd ef, ac yn Nydd yr Arglwydd i'm caffer â'r Wisc Briodas am danaf, ac yn dwyn yn fy nghorph â'm henaid Nodau 'r Arglwydd *Jesu*, fel yr elwy i mewn i lawenydd fy Arglwydd i gyfrannu o'i Ogoniant ef byth bythoedd. *Amen.*

Ocheneidiau iw harferu 'r pryd a fynnech o'r dwthwn ar ol y Gwasanaeth.

Arglwydd, pe diniweid fuasei fy muchedd ni allasŵn haeddu mo hèl y briwsion oddi tan dy Fwrdd. O faint dy drugaredd, yn fy ngwledda i â Bara 'r Gwyryfon, â Gwîn Angylion, â Manna o'r Nefoedd!

O pa bryd yr âf o 'r drŷch tywyll hwn, o lenn-gûdd y Sacramentau, i gâel gweled dy dragwyddol Ddiscleirdeb, o fwytta dy Gorph i ymlenwi ar dy Wynebpryd yn dy dragwyddol Deyrnas!

O bŷth na âd i'm pechodeu ail-groeshoelio Arglwydd y Bywyd: na ddywetter bŷth am danafi, *Llaw'r hwn a'm bradycha sy gyd â mi ar y Bwrdd.*

O na chawn dy garu cyſtal ac y carodd un creadur di erioed! Na feddyliwyf ond am danati, na chwennychwyf ddim ond tydi, na ymhyfrydwyf mewn dim ond ynoti.

O *Jeſu*, bydd yn *Jeſu* i mi. Ti wyt bôb peth i mi. Arglwydd na foddied dim byth monof ond a fo â'th ſawr di, a'th bereidd-dra rhyfeddol arno.

Bendigaid fyddo trugareddau 'r Arglwydd, yr hwn o Dduw a wnaethpwyd i mi yn Ddoethineb ac yn Gyfiawnder, yn Sancteiddrwydd ac yn Iechydwriaeth.

Y ſawl a ymſiroſtio, ymſiroſtied yn yr Arglwydd. Amen.

O arglwudd mawdau
Sy'n diau i mi bechau
Bauch yd unt amigri

Duwiau gallna ad iddun
ar bris drudfiam gollii
Prynaist is

DIWEDD.

Meredith Hughes

9 IX 82

J 725

Y CYNNWYSIAD.

PENN I.

Rhagdraethawd am y Moddion a'r Arfau cyffredinol at Fuchedd ſanctaidd.

Tu dal. 1

Dosp. I. *Gofal o'n Hamſer, a'r modd iw dreulio.* 4
Rheolau i hwſmonaetha'n hamſer. 7
Cymmwynaſau 'r Ymarfer hwn. 14
Dosp. II. *Purdeb meddylfryd, neu fwriad dâ yn ein hôll weithredoedd, &c.* 15
Rheoleu i'n Bwriadeu. 16
Arwyddion o Feddylfryd pur. 19
Yſtyriaethau dilynol. 21
Dosp. III. *Ymarfer â Phreſennoldeb Duw.* 22
Amryw Foddion o Breſennoldeb Duw. 23
Rheoleu i ymarfer â'r Yſtyriaeth hon. 30
Tu dal.
Cymmwynaſau'r Ymarfer hwn. 30
Gweddiau a dyſoſiwnau pwrpaſol i ddibennion a Duwioldeb yr yſtyriaetheu o'r blaen 32
Dyſoſiwnau ar ddyddiau cyffredin. 33

PENN II.

Am Sobrwydd Criſtianogol. 53

Dosp. I. *Am Sobrwydd yn yr yſtyr cyffredinol.* ibid.
Y Drygau a ddaw o Gnawdolrwydd. 54
Graddau o Sobrwydd. 55
Rheoleu i lethu Cnawdolrwydd a Phleſergarwch. 56
Dosp. II. *Am Gymmedrolder mewn Bwyd a diod.* 58
Am Gymmedrolder mwth Fwyttta. 59

Arwyddion

Tu dal.

Arwyddion a ffrwytheu Cymmedrolder. 61
Am Feddwdod. ibid.
Y Drygau a ddaw o Feddwdod. 63
Arwyddion o Feddwdod. 64
Rheolau i ynnill Cymmedrolder. 65
Dosp. III. *Am Ddiweirdeb.* 67
Y Drygau a ddaw o Aflendid. 70
Swyddau Diweirdeb yn gyffredinol. 73
Diweirdeb Gwyryfon. 75
Diweirdeb y Gweddwon. 76
Rheolau i rai priodol, neu Ddiweirdeb Priodas. 77
Cynghorion rhac Aflendid. 79
Dosp. IV. *Am Ostyngeiddrwydd.* 82
Ystyriaethau yn erbyn balchder. 83
Swyddau Gostyngeiddrwydd. 85
Ymarfer i ynnill a chwanegu Gostyngeiddrwydd. 90
Arwyddion a Ostyngeiddrwydd. 94
Dosp. V. *Am Wylder.* 96
Swyddeu Gwylder yngwrthwyneb i Fonyldra. ibid.
Swyddeu Gwylder gwrthwyneb i Hyfdra. 99
Swyddau Gwylder gwrthwyneb i Anweddeidd dra. 100
Dosp. VI. *Am Fodlonrhwydd ynhôb cyflwr a digwyddiad.* 103
Ystyriaethau cyffredinol am Fodlonrhwydd. 104

Tu dal.

Arfau ac Ymarferion i ynnill Bodlonrhwydd. 107
Myfyrdodau ac Ystyriaethau i gael Bodlonrhwydd. 115
Cymmwyfo 'r Moddion hyn at amryw achofion neilltuol. 120
Am Dlodi. ibid.
Siars llawer o blant. 123
Anghenion tôft a durfing. 124
Marwolaeth Plant neu Geraint. 125
Marwolaeth un yn ei flodau. 128
Angeu difyfed. 129
Bod yn ddi-blant. ibid.
Plant drwg anffortunus. 130
Ein Marwolaeth ein hunain. ib.
Gweddiau am yr amryw Rafau, a Rhannau o Sobrwydd Criftianogol. 131

PENN III.

Am Gyflawnder Criftianogol. 137

Dosp. I. *Am Ufuddddod i'n Huchafiaid* 138
Swyddeu Ufudd-dod, Deiliaid, yfcolheigion, gweinidogion, *a phôb ifafiaid tu ac at eu Huchafiaid.* 139
Moddion i anwylhau a hawddgaru Ufudd-dod 144
Dosp. II. *Am Ddarbodaeth, neu y Rhann honno o Gyflawnder fy ddyledus ar Uchafiaid iw hifafiaid.* 145

Tu dal.
Dyledſwyddeu Rhieni iw plant. 146
Dyledſwyddeu Gwyr a Gwragedd iw gilydd. 147
Dyledſwyddeu Penteuluoedd. 149
Dyledſwyddeu Golygwyr ac Athrawon. ibid.
Doſp. III. *Am Negeſwriaeth neu Fargeinion bydol.* 150
Rheolau a Meſurau Cyfiawnder wrth fargeinio. ibid.
Doſp. IV. *Am Iawn neu Ddiwygiad.* 154
Rheoleu i wneuthur Iawn fel y perthyn i'r rhwymedic, ac Fel y perthyn i rai amgylchion eraill. 155
Gweddieu perthynol i amryw rwymedigaetheu Cyfiawnder. 161

PENN IV.

Am Dduwioldeb Criſtianogol. 169

AM Weithredoedd o Dduwioldeb oddi mewn. ibid.
Doſp. I. *Am Ffydd* 170
Swyddau Ffydd. ibid.
Arwyddion o wîr Ffydd. 172
Moddion ac Arfeu i ynnill Ffydd. 174
Doſp. II. *Am Obaith Criſtion.* 175
Tu dal.
Swyddeu Gobaith. 176
Rheolau i lywodraethu'n Gobaith. 177
Moddion o Obaith, a Meddyginiaetheu rhac Anobaith. 179
Doſp. III. *Am Gariad perffaith, neu Serch ar Dduw.* 183
Swyddau Cariad ar Dduw. 185
Rheolau Cariad ar Dduw. 187
Cymmorthion i chwanegu'n Cariad ar Dduw. 188
Y ddwy ſtâd o Gariad ar Dduw. 189
Stât Ufudd-dod, a. ibid.
Stât Zêl. ibid.
Gocheliadau a Rheolau ynghylch Zêl. 190
II. Am Weithredoedd o Dduwioldeb oddi allan. 191
Doſp. IV. *Am Ddarllein neu Wrando Gair Duw.* 192
Ystyriaethau cyffredin ynghylch hynny. ibid.
Rheoleu i Wrando neu ddarllein Gair Duw. 193
Rheoleu i ddarllein Llyfreu dd yſprydol, neu ibid.
Wrando Pregetheu. 194
Doſp. V. *Am Ympryd.* 195
Rheolau Ympryd Criſtianogol. ibid.
Cymmwynaſau Ympryd. 198
Doſp. VI. *Am Gadw Gwyliau i'r Arglwydd ac yn enwedic am gadw'r Sul.* 199

Y CYNNWYSIAD.

Tu dal.

Rheoleu i gadw Dydd yr Arglwydd, a Gwylieu Criſtianogol eraill. 200

III. Am y Gweithredoedd cymmyſc o Dduwioldeb. 203

Doſp. VII. *Am Weddi.* 204

Annogaetheu i Weddio. ibid.

Rheoleu i ymarfer â Gweddi. 205

Meddyginiaethau rhag meddylieu gwib-grwydrus. 211

Awyddion o Flino a Diſtaſu ar Weddi a phob dyledſwyddau duwiol eraill. 212

Cynghorion rhac y Blinder a'r Llaeſder hwnnw. 213

Doſp. VIII. *Am Eluſen.* 216

Yr amryw fathau o Eluſenau Corphorol. 217

Yr amryw rywogaethau o Eluſenau yſprydol. ibid.

Yr amryw rywogaethau o Eluſenau Canolig. 218

Rheolau i roi Eluſen. ibid.

Tu dal.

Annogaetheu i Eluſengarwch. 223

Arfeu i lâdd gwraidd Anrhugarogrwydd. 224

I. *Rhag Cenſigen, Cynghorion trwy yſtyriaeth.* ibid.

II. *Rhac Digllonedd, Cynghorion iw Hymarfer.* 225

Rhac Digllonedd, Cynghorion iw Hyſtyried. 229

III. *Amryw feddyginiaetheu rhag Cybydd-dod.* 230

Doſp. IX. *Am Edifeirwch.* 236

Swyddeu a Rhanneu Edifeirwch. 249

Annogaetheu i Edifeirwch. 239

Doſp. X. *Am Ymbaratôad tu ac at Sacrament bendigedic Swpper yr Arglwydd, a'r Modd iw dderbyn.* 246

Rheolau i ymgymmwyſo at y Cymmun. 250

Yr anfeidrol Gymmwynaſau o Gymmuno'n deilwng. 256

Gweddiau i bôb math o ddynion, &c. 259

DIWEDD.